

Dadansoddi ar gyfer Polisi



Analysis for Policy

Ymchwil gymdeithasol

Rhif: 23/2011



Llywodraeth Cymru
Welsh Government

www.cymru.gov.uk

Gwerthusiad o'r Strategaeth Cwnsela mewn Ysgolion yng Nghymru: Adroddiad Terfynol



Gwerthusiad o'r Strategaeth Cwnsela mewn Ysgolion yng Nghymru:

Adroddiad Terfynol

Tachwedd 2011

Mae'r farn sydd wedi'i mynegi yn yr adroddiad hwn yn perthyn i'r ymchwilydd ac nid barn Llywodraeth Cymru ydyw o anghenraid

Am fwy o wybodaeth cysylltwch:

Enw: Alison Rees

Gwasanaethau Gwybodaeth a Dadansoddi

Llywodraeth Cymru

Parc Cathays

Caerdydd

CF10 3NQ

Ffôn: 02920 801125

E-bost: Alison.Rees@wales.gsi.gov.uk

Ymchwil Cymdeithasol Llywodraeth Cymru, 2011

© Hawlfraint y Goron 2011

Tîm Gwerthuso

Andy Hill	Pennaeth yr Ymchwiliad, Cymdeithas Brydeinig ar Gwnsela a Seicotherapi (BACP)
Mick Cooper	Athro Cwnsela, Prifysgol Strathclyde
Joanne Pybis	Hwylusydd Ymchwil, BACP
Karen Cromarty	Uwch-gynghorydd Arweiniol ar gyfer Plant a Phobl Ifanc, BACP
Sue Pattison	Cyfarwyddwr Rhaglen Gradd, Prifysgol Newcastle upon Tyne
Sheila Spong	Cydlynnydd NCCR, Prifysgol Casnewydd
Claire Dowd	Prifysgol Casnewydd
Claire Leahy	Gwasanaeth Seicoleg Addysgiadol Caerdydd
Angela Couchman	Rheolwr Swyddfa Ymchwil, BACP
Jack Rogers	Swyddog Ymchwil, BACP
Kate Smith	Cyfarwyddwr Ymchwil, Sefydliad Ymchwil Cymdeithasol Ipsos MORI ¹
Nick Maybanks	Swyddog Gweithredol Ymchwil, Sefydliad Ymchwil Cymdeithasol Ipsos MORI

Cydnabyddiaethau

Hoffai'r Tîm Gwerthuso ddiolch i Sylvia Jones, Alison Rees a Graham Davies; i'r holl gyfranogwyr yn y gwaith ymchwil: cleientiaid, disgyblion, rhieni, staff ysgolion, penaethiaid, rheolwyr gwasanaeth ac Arweinwyr Awdurdodau Lleol; ac i Michael Borenstein, Graham Dunn, Alex McConachie a Dave Saxon am gyngor ystadegol.

Diolch i Sage Publications (www.uk.sagepub.com) am ganiatâd i ailargraffu dyfyniadau o Cooper, M. (2008). *Essential Research Findings in Counselling and Psychotherapy* yn yr Eirfa. Dyfyniadau o Cooper, M. (2009). Counselling in UK secondary schools: A comprehensive review of audit and evaluation studies. *Counselling and Psychotherapy Research*, 9(3): Ailargraffwyd 137-150 137-150 trwy ganiatâd y cwmni cyhoeddi Taylor & Francis Ltd, www.tandfonline.com

¹ Roedd Ipsos MORI yn casglu data ar gyfer arolwg ymysg penaethiaid / athrawon cyswllt uwchradd ond nid oedd yn ymwneud ag ysgrifennu adroddiad.

CYNNWYS

Cydnabyddiaethau	3
Trosolwg.....	7
Cyflwyniad	7
Natur Cwnsela mewn Ysgolion ar draws y DU	8
Nodau.....	9
Dulliau	10
Canfyddiadau Allweddol.....	11
Trafodaeth.....	17
• Llywodraeth Cymru'n ystyried sefydlu ffrydiau diogel o ariannu i wasanaethau cwnsela mewn ysgolion uwchradd yng Nghymru.	19
• Llywodraeth Cymru yn ystyried cyflwyno'r Strategaeth yn y sector ysgolion cynradd.	19
• Awdurdodau lleol ac ysgolion yn sicrhau bod ystafelloedd priodol ar gael ar gyfer gwasanaethau cwnsela.	19
• Rheolwyr gwasanaethau, ysgolion a chwnselwyr yn sicrhau bod myfyrwyr ysgol yn derbyn gwybodaeth ddigonol am y gwasanaeth cwnsela.	19
• Darparwyr gwasanaeth yn cynnal gwerthusiad systematig o ganlyniadau.....	19
• Darparwyr gwasanaeth yn datblygu strategaethau ar gyfer sicrhau mynediad cyfartal at y gwasanaeth cwnsela a'r monitro a wneir ohono.	19
• Darparwyr gwasanaeth yn ymestyn argaeledd cwnselwyr Cymraeg eu hiaith.	19
• Darparwyr gwasanaeth ac ysgolion yn datblygu systemau hunangyfeirio ac yn sicrhau bod modd i bob person ifanc hunangyfeirio.....	19
• Darparwyr gwasanaeth ac ysgolion yn datblygu cyfleoedd hyfforddi i staff ysgolion a chwnselwyr.	19
• Llywodraeth Cymru yn datblygu mwy o ymchwil i'r agweddau sy'n rhagweld canlyniadau.	19
1.1. Datblygiad Cwnsela mewn Ysgolion yng Nghymru	20
1.2. Natur Cwnsela mewn Ysgolion ar draws y DU	22
1.3. Y Gwerthusiad.....	23

2.1. Adolygiad o Ddeunyddiau	26
2.2. Ymchwil Ddesg.....	26
2.3. Dadansoddiad Data ar Ddemograffig Cleientiaid	26
2.4. Gwerthusiad o Ganlyniadau Therapiwtig.....	28
2.5. Holiadur o Brofiad Cleientiaid	31
2.6. Arolygon ymysg Cwnselwyr	32
2.7. Arolwg ymysg Penaethiaid / Athrawon Cyswllt.....	33
2.8. Arolwg ymysg Arweinwyr Awdurdodau Lleol.....	34
2.9. Astudiaethau Achos	35
3.1. Data Cleientiaid	38
3.2. Canlyniadau Therapiwtig.....	39
3.3. Profiad y Cleient.....	42
3.4. Agweddau Rhanddeiliaid.....	43
3.5. Cwnsela mewn Ysgolion Cynradd.....	45
4.1..... Ymchwil Ddesg	
47	
4.2. Data Cleientiaid a Chostau.....	52
4.3. Canlyniadau Therapiwtig.....	61
4.4. Profiad y Cleient.....	66
4.5. Arolwg ymysg Cwnselwyr.....	72
4.6. Arolwg ymysg Athrawon Cyswllt.....	81
4.7. Arolwg ymysg Arweinwyr Awdurdodau Lleol.....	91
4.8. Astudiaethau Achos	99
5.1. Dull	124
5.2. Canfyddiadau	126
5.3. Canfyddiadau Arweinwyr Awdurdodau Lleol o'r Prosiectau Peilot Cynradd.	137
5.4. Arolwg ymysg Penaethiaid	139
5.5. Canlyniadau Therapiwtig.....	145
5.6. Dadansoddiad Cost.....	146

6.1. Boddhad Cyffredinol.....	149
6.2. Gweithredu'r 10 Argymhelliad	150
6.3. Effeithiolrwydd ac Effaith	154
7.1. Ystyried sefydlu ffrydiau diogel o ariannu i wasanaethau cwnsela mewn ysgolion uwchradd yng Nghymru	158
7.2. Ystyried cyflwyno'r Strategaeth cwnsela yn y sector ysgolion cynradd	158
7.3. Sicrhau ystafelloedd priodol	158
7.4. Sicrhau bod myfyrwyr ysgol yn derbyn gwybodaeth ddigonol am y gwasanaeth cwnsela	158
7.5. Cynnal gwerthusiad systematig o ganlyniadau	158
7.6. Datblygu strategaethau ar gyfer sicrhau mynediad cyfartal at y gwasanaeth cwnsela a'r monitro a wneir ohono	159
7.7. Ymestyn argaeledd cwnselwyr Cymraeg eu hiaith	159
7.8. Datblygu systemau hunangyfeirio a sicrhau bod modd i bob person ifanc hunangyfeirio	159
7.9. Datblygu cyfleoedd hyfforddi i staff ysgol a chwnselwyr	160
7.10. Datblygu mwy o ymchwil i'r agweddau sy'n rhagweld canlyniadau	160

Crynodeb Gweithredol

Trosolwg

Yn 2010 comisiynwyd consortiwm ymchwil gan Lywodraeth Cymru dan arweiniad Cymdeithas Brydeinig ar Gwnsela a Seicotherapi a Phrifysgol Strathclyde i gyflawni gwerthusiad o'i strategaeth cwnsela mewn ysgolion (*y Strategaeth*) sydd wedi cael ei roi ar waith ledled Cymru dros y tair blynedd diwethaf. Gan ddefnyddio amrediad o offer ymchwil, yn cynnwys ymchwil ddesg, dadansoddiad o ganlyniadau cleientiaid, cyfweiliadau ansoddol ac arolygon barn rhanddeiliaid allweddol, ceisiodd y gwerthusiad ddisgrifio gweithrediad a chyflenwad y Strategaeth, asesu'r lefelau boddhad gyda'r Strategaeth a'r gwasanaethau cwnsela mewn ysgolion ac archwilio effaith y Strategaeth ar drallod seicolegol ei ddefnyddwyr gwasanaeth (cleientiaid). Canfu'r gwerthusiad bod y rhanddeiliaid, gan gynnwys cleientiaid cwnsela, yn ystyried gweithrediad y Strategaeth a'i gwasanaethau cwnsela'n llwyddiannus yn gyffredinol, gyda thystiolaeth i ddangos bod yr holl argymhellion allweddol ar gyfer ei datblygiad wedi'u gweithredu. Ar draws chwe thymor, mynychwyd 11,043 pennod o gwnsela.² Cysylltwyd cymryd rhan mewn cwnsela â gostyngiadau mawr mewn trallod seicolegol; gyda lefelau o welliant a oedd, ar gyfartaledd, rywfaint yn fwy na'r rheiny a welwyd mewn gwerthusiadau blaenorol o gwnsela mewn ysgolion yn y DU. Yr argymhellion allweddol yw y dylid sefydlu mecanweithiau ariannu parhaol i fewnblannu cwnsela yn sector ysgolion uwchradd Cymru, gan roi ystyriaeth i'w gyflwyno mewn ysgolion cynradd. Dylai rheolwyr gwasanaethau ac ysgolion hefyd edrych ar ffyrdd o sicrhau bod cyfle cyfartal i bawb, o bob sector o'r gymuned, gyfranogi mewn cwnsela mewn ysgolion, bod ystafelloedd addas ar gael mewn ysgolion i ddarparu cwnsela, a bod system o fonitro canlyniadau rheolaidd wedi'i sefydlu.

Cyflwyniad

Yn *Adroddiad Ymchwiliad Clywch* (2004),³ argymhellodd Comisiynydd Plant Cymru y dylai bod oedolyn dibynadwy ar gael i bob person ifanc mewn ysgol y gallent drafod eu pryderon â nhw. Ar ôl derbyn yr argymhelliad hwn, comisiynwyd tîm ymchwil gan Lywodraeth Cymru dan arweiniad Cymdeithas Brydeinig ar Gwnsela a Seicotherapi (BACP) a Phrifysgol Newcastle i werthuso cwnsela mewn ysgolion ar draws y DU (Pattison et al. 2007).⁴ Gwnaeth yr adroddiad yma argymhellion ar gyfer datblygu cwnsela mewn ysgolion yng

2 Diffinnir cyfnod o gwnsela fel cyfres gyflawn o sesiynau a gyflawnir gan ddefnyddiwr gwasanaeth. Fel arfer mae sesiwn cwnsela yn para tuag 1 awr. Cynhelir y rhain fel arfer ar sail wythnosol neu bob pythefnos.

3 <http://wales.gov.uk/newsroom/educationandskills/2004/4024518/?lang=cy>

4 Mae'r adroddiad llawn ar gael yn http://www.bacp.co.uk/research/School_Counselling.php

Nghymru ac, ym mis Ebrill 2008, cyhoeddodd Lywodraeth Cymru'r Strategaeth Genedlaethol ar gyfer Gwasanaethau Cwnsela mewn Ysgolion,⁵ a gafodd ei chyfarwyddo gan adroddiad Pattison et al. (2007). Nod y Strategaeth oedd sicrhau bod gwasanaethau cwnsela ar gael ym mhob ysgol uwchradd yng Nghymru, ynghyd â sefydlu gwasanaethau peilot mewn ysgolion cynradd mewn pedwar awdurdod lleol. Sicrhawyd bod cyllid cychwynnol o £1 miliwn ar gael yn 2008-09, gyda symiau ychwanegol o £2.5 miliwn yn 2009-10 a £3 miliwn yn 2010-11 i symud ymlaen â'r Strategaeth. Cytunwyd ar £1.5 miliwn ychwanegol ar gyfer 2010-11 i ehangu'r gwasanaethau ac mae £14.25 miliwn pellach wedi'i ymrwymo ar gyfer y blynyddoedd 2011-14.

Yn 2010 comisiynwyd consortiwm ymchwil gan Lywodraeth Cymru dan arweiniad Cymdeithas Brydeinig ar Gwnsela a Seicotherapi a Phrifysgol Strathclyde i werthuso'r Strategaeth dros y tair blynedd gyntaf o ei weithrediad (o fis Ebrill 2008 i fis Gorffennaf 2011). Adroddodd y consortiwm i'r grŵp llywio cwnsela mewn ysgolion, mewn dau gam, a chyhoeddwyd adroddiad am gam un ym mis Gorffennaf 2011.⁶ Roedd hwn yn darparu gwerthusiad rhagarweiniol o nifer o elfennau allweddol y Strategaeth. Mae'r adroddiad terfynol yma, yr ail gam, yn cyflwyno gwerthusiad cynhwysfawr o'r Strategaeth o'r cychwyn, ac mae'n ddogfen derfynol sy'n cwmpasu, ac yn disodli'r adroddiad blaenorol.

Natur Cwnsela mewn Ysgolion ar draws y DU

Mae cwnsela mewn ysgolion, fel y cyflenwyd yn y Strategaeth, yn ddull medrus o helpu pobl ifanc gydag anawsterau personol a datblygiadol. Caiff ei ddarparu gan ymarferwyr proffesiynol a'i fwriad yw rhoi cyfleoedd i bobl ifanc:

- drafod anawsterau mewn awyrgylch gyfrinachol nad yw'n feirniadol
- archwilio natur eu hanawsterau
- cynyddu eu hunan ymwybyddiaeth
- datblygu gwell dealltwriaeth o'u hanawsterau
- datblygu'r adnoddau personol sydd eu hangen i reoli eu problemau
- datblygu strategaethau i ymdopi â newid.

Gall bobl ifanc eu cyfeirio eu hunain at wasanaethau neu gael eu cyfeirio gan staff ysgolion, asiantaethau eraill neu rieni. Ystyrir bod cwnsela'n weithgaredd gwirfoddol, ac nid oes disgwyl i fyfyrwyr gael eu 'gyrru' i dderbyn cwnsela. Cynigir cyfres o sesiynau wythnosol yn

⁵ <http://wales.gov.uk/topics/educationandskills/publications/guidance/counsellingservicesstrategy/?lang=cy>

⁶ <http://wales.gov.uk/about/aboutresearch/social/latestresearch/schoolcounselling/?lang=cy>

ystod y diwrnod ysgol i bobl ifanc sy'n cyrchu gwasanaethau, gyda chyfanswm y nifer sesiynau wedi'u teilwra i anghenion y person ifanc, sef pedwar i chwe sesiwn ar gyfartaledd. Mae cwnselwyr yn ymgeisio gweithio'n agos gyda staff ysgolion ac asiantaethau eraill i ddarparu gwasanaeth sy'n ategu at lawer o ymyriadau eraill yn yr ysgol sy'n cefnogi a hybu iechyd a lles emosiynol pobl ifanc.

Nodau'r gwerthuso

Gwnaeth adroddiad Pattison et al. (2007) 10 o argymhellion allweddol ynghylch rhoi'r Strategaeth ar waith. Yr argymhellion hyn oedd y dylai gwasanaethau cwnsela mewn ysgolion:

1. bod â chyllid cynaliadwy
2. cyflogi cwnselwyr cymwys proffesiynol sydd â phrofiad o weithio gyda phobl ifanc, sy'n medru cael goruchwyliaeth glinigol briodol gyda goruchwylwyr profiadol, ac sy'n ymgymryd â datblygiad proffesiynol parhaus (CPD), perthnasol a rheolaidd
3. darparu gwasanaethau cwnsela hygyrch mewn lleoliad priodol preifat ond diogel yn amgylchedd yr ysgol
4. cael eu hystyried gan gymuned yr ysgol yn rhai nad ydynt yn stigmatiddio ac sy'n rhan arferol o ddarpariaeth yr ysgol, sydd wedi'i integreiddio yng nghymuned yr ysgol
5. cael eu monitro a'u gwerthuso gan unigolion neu asiantaeth (yn yr ysgol neu y tu allan iddi) sydd â phrofiad yn y maes arbenigol hwn o weithio
6. talu sylw dyledus i'r ddeddfwriaeth a'r canllawiau cyfredol, a chynnig cyfrinachedd o fewn y terfynau moesegol a diogelwch arferol
7. ymateb yn hyblyg i'r anghenion lleol o ran amrywiaeth (e.e. iaith) ac ymarferoldeb (e.e. bod ar gael yn ystod gwyliau ysgol)
8. gweithio gyda gwasanaethau ac asiantaethau eraill ac ar y cyd â hwy mewn dull ymgynghorol, gan gynnal y lefelau priodol o gyfrinachedd
9. cyflogi cwnselwyr sy'n aelodau o gorff proffesiynol ac sydd felly'n cydymffurfio â fframwaith moesegol a gweithdrefn gwynion sefydledig
10. cyflogi cwnselwyr y mae eu nodweddion personol yn golygu eu bod yn hawdd siarad â hwy, bod ganddynt sgiliau gwrando da a ffordd o ymddwyn sy'n meithrin perthnasau diogel ac sy'n ennyn ymddiriedaeth.

Yn yr adroddiad hwn, defnyddiwyd yr argymhellion hyn fel meini prawf ar gyfer gwerthuso gweithrediad y Strategaeth.

Nodau'r adroddiad hwn yw:

- Disgrifio gweithredu a chyflenwi'r Strategaeth, y gwasanaethau cwnsela mewn ysgolion, a phriodoleddau'r defnyddwyr gwasanaeth
- Asesu lefelau bodlondeb cyffredinol y rhanddeiliaid gyda'r Strategaeth a'r gwasanaethau cwnsela mewn ysgolion
- Gwerthuso i ba raddau mae'r Strategaeth wedi cyflawni'r 10 argymhelliad allweddol ar gyfer ei datblygiad
- Archwilio effaith y Strategaeth a'r gwasanaethau cwnsela mewn ysgolion ar lefelau o drallod seicolegol eu defnyddwyr gwasanaeth (*cleientiaid*)
- Gwneud argymhellion am ddyfodol cwnsela mewn ysgolion yng Nghymru.

Dulliau

I gyflawni'r amcanion hyn, mae'r Tîm Gwerthuso wedi datblygu a gweithredu 10 elfen o gasglu data a dadansoddi, rhwng mis Medi 2010 a mis Awst 2011 (naw elfen yn yr ysgolion uwchradd ac un mewn prosiectau peilot cynradd):

- *Adolygiad o ddeunydd.* Adolygiad o dystiolaeth gan astudiaethau blaenorol o gwnsela mewn ysgolion yn y DU
- *Ymchwil ddesg.* Dadansoddiad o adroddiadau allweddol, llythyron, cofnodion cyfarfodydd y grŵp llywio cwnsela mewn ysgolion a chynigion sy'n berthnasol i'r Strategaeth
- *Dadansoddiad o ddata demograffig cleientiaid.* Dadansoddiad disgrifiadol o briodoleddau defnyddwyr gwasanaeth a'u defnydd hwy o'r gwasanaethau cwnsela, yn seiliedig ar ffurflenni data cleientiaid
- *Gwerthusiad o ganlyniadau therapiwtig.* Dadansoddiad ystadegol o ddata o 3,613 pennod o gwnsela, yn archwilio newidiadau mewn trallod seicolegol o'r cyfnod cyn cwnsela (*gwaelodlin*) i'r cyfnod ar ôl cwnsela (*pwylt terfyn*)
- *Holiadur o brofiad cleientiaid.* Dadansoddiad disgrifiadol o ddata meintiol ac ansodol o oddeutu 600 o ffurflenni, a gwblhawyd gan gleientiaid ar y pwylt terfyn, yn awgrymu eu lefelau boddhad gyda'r gwasanaeth cwnsela a'u profiad ohono
- *Arolwg ymysg cwnselwyr.* Dadansoddiad o ymatebion i holiadur papur gan 106 o gwnselwyr mewn ysgol, yn canfod beth yw eu barn am weithredu'r Strategaeth ac argymhellion ar gyfer ei datblygiad

- *Arolwg ymysg athrawon cyswllt.* Dadansoddiad o ymatebion meintiol ac ansoddol o gyfweiliadau dros y ffôn a gynhaliwyd gyda 158 o benaethiaid neu athrawon cyswllt
- *Arolwg ymysg Arweinwyr Awdurdodau Lleol (ALLau).* Dadansoddiad o ymatebion meintiol ac ansoddol o holiadur papur a gwblhawyd gan 25 arweinydd / rheolwr gwasanaeth Awdurdodau Lleol
- *Astudiaethau achos.* Dadansoddiad achos eang a manwl o weithredu'r Strategaeth mewn pedair ysgol uwchradd, yn seiliedig ar gyfweiliadau unigol a grŵp ffocws gyda staff ysgolion, rhieni, disgyblion a defnyddwyr gwasanaeth
- *Prosiectau peilot cynradd.* Dadansoddiad o'r data sy'n dod i'r amlwg o brosiectau peilot cwnsela mewn ysgolion cynradd mewn pedwar awdurdod lleol, yn seiliedig ar ymchwil ddesg; arolygon ymysg Arweinwyr Awdurdodau Lleol a phenaethiaid; dadansoddiad o ddata canlyniadau; a dadansoddiad o gost.

Canfyddiadau Allweddol

Adolygiad o ddeunydd.

- Mae pobl ifanc sy'n defnyddio gwasanaethau cwnsela mewn ysgolion yn y DU yn cael eu cyfeirio fel arfer gan staff bugeiliol yr ysgol
- Y problemau mwyaf cyffredin sy'n cael eu cyflwyno yw problemau gyda theulu; ac wedyn dicter, anawsterau'n ymwneud â'r ysgol a phrofedigaeth
- Mae lefelau trallod cychwynnol y bobl ifanc wrth ddefnyddio gwasanaethau cwnsela mewn ysgolion yn debyg i'r rheiny a gofnodir yn y Gwasanaethau Iechyd Meddwl Plant a'r Glasoed (CAMHS)
- Ar gyfartaledd, mae oddeutu 60% o gleientiaid cwnsela mewn ysgolion yn ferched ac, yn nodweddiadol, o flynyddoedd canol yr ysgol
- Mae cleientiaid yn mynychu am gyfartaledd o oddeutu chwe sesiwn, gyda chyfraddau presenoldeb o oddeutu 80%
- Mae cwnsela mewn ysgolion yn gysylltiedig â gostyngiadau mawr ac arwyddocaol mewn trallod seicolegol
- Mae cwnsela mewn ysgolion wedi'i sgorio'n bositif yn gyson gan ystod o grwpiau rhanddeiliaid ac yn cael ei ystyried yn fath o ymyrraeth gynnar hawdd ei gyrraedd, nad yw'n creu stigma
- Mae'r dystiolaeth am y broses neu ganlyniadau cwnsela mewn ysgolion cynradd yn gyfyngedig.

Ymchwil ddesg.

- Bu'r ysgolion yn frwdfrydig a chydweithredol wrth weithredu'r gwasanaethau cwnsela sydd ynghlwm i'r Strategaeth Gymreig
- Nodwyd rhai anawsterau'n recriwtio cwnselwyr Cymraeg eu hiaith
- Anogwyd hunangyfeiriad gan y mwyafrif o awdurdodau lleol (ALLau)
- Mae disgwyl bod cwnselwyr wedi cofrestru gyda chorff proffesiynol fel BACP
- Cafodd hyfforddiant a Datblygiad Proffesiynol Parhaus (DPP) ar gyfer cwnselwyr ei hyrwyddo gan bob ALI
- Roedd rhywfaint o amrywiaeth yn y modelau cyflenwi gwasanaethau ar draws yr ALLau ac yn y dulliau casglu data canlyniadau
- Mae datblygiadau'r dyfodol yn cynnwys ehangu gwasanaethau a gwella safonau ansawdd drwy brosesau achredu.

Data demograffig cleientiaid a chostau.

- Roedd nodweddion demograffig cleientiaid fu'n mynychu gwasanaethau cwnsela mewn ysgolion yng Nghymru, a'u defnydd o'r gwasanaeth, yn debyg i gleientiaid eraill gwasanaethau cwnsela mewn ysgolion yn y DU:
 - yn bennaf, cafodd cleientiaid eu cyfeirio gan staff ysgolion
 - y nifer cyfartalog o sesiynau a fynychwyd fesul pennod oedd pedwar
 - y gymhareb o gleientiaid gwryw – menyw oedd 38.2% i 61.8%
 - ar y cyfan roedd disgyblion o flynyddoedd canol yr ysgol: blynyddoedd 9 a 10
 - y materion mwyaf cyffredin a gyflwynwyd gan gleientiaid oedd problemau gyda theulu; ac wedyn dicter, problemau sy'n berthnasol i ymddygiad, bwllo a phrofedigaeth
 - roedd y prif broblemau mwyaf cyffredin yn cyfateb â'r problemau wrth gyflwyno, ac roedd y problemau mwyaf cyffredin yn ymwneud â theulu a dicter
 - roedd lefelau cyfartalog o drallod ar y waelodlin yn debyg i'r rhai a gofnodwyd ar gyfer pobl ifanc oedd yn mynychu gwasanaethau CAMHS.
- Roedd tan-gynrychiolaeth ymysg pobl ifanc o gefndir Du a Lleiafrifoedd Ethnig (BME), a'r rheiny gydag Anghenion Addysgol Arbennig (AAA) neu anableddau oedd yn defnyddio'r gwasanaethau cwnsela
- Cyflenwyd ychydig o dan 5% o benodau cwnsela i Blant sy'n Derbyn Gofal (LAC)
- Cafodd oddeutu 3% o bobl ifanc eu cyfeirio ymlaen at Wasanaethau Iechyd Meddwl Plant a'r Glasoed (CAMHS), 2.5% i wasanaethau amddiffyn plant a 3% i

wasanaethau eraill

- Roedd cryn amrywiaeth mewn cost fesul sesiwn a chost fesul cleient rhwng Awdurdodau Lleol.

Problemau wrth gyflwyno a phrif broblemau bob yn bennod o gwnsela (Tabl 16 yn y prif adroddiad)

	Problemau wrth gyflwyno		Prif problemau	
	Canran	Cyfanswm	Canran	Cyfanswm
Teulu	38.2	4079.0	35.4	3782.0
Dicter	17.6	1878.0	12.9	1379.0
Perthnasol i ymddygiad	12.5	1334.0	7.7	824.0
Bwlio	10.3	1100.0	8.0	849.0
Profedigaeth	10.2	1091.0	8.8	944.0
Straen	9.1	973.0	8.1	861.0
Hunan werth	8.3	889.0	12.8	1364.0
Perthynas gydag athrawon	8.0	852.0	3.0	317.0
Iselder	7.5	805.0	6.0	641.0
Arall	6.3	674.0	5.4	572.0
Hunan-niwed	5.3	567.0	4.8	512.0
Perthnasau heblaw am deulu neu athrawon	4.3	462.0	9.6	1030.0
Academaidd	4.0	425.0	3.5	377.0
Camdriniaeth (gan gynnwys rhywiol)	3.7	395.0	3.9	419.0
Anhwylder bwyta	1.9	206.0	1.8	188.0
Camdriniaeth gartref	1.8	197.0	2.3	244.0
Camddefnyddio sylweddau	1.5	163.0	1.6	167.0
Rhywiol (gan gynnwys cyfeiriadedd)	1.4	149.0	2.2	231.0
Meddyliau am hunanladdiad	1.4	153.0	1.4	148.0
Anhysbys	1.0	104.0	0.8	83.0
Pryderon ariannol / tlodi	0.8	87.0	1.5	156.0

Noder: Gan ei bod yn bosibl bod pobl ifanc wedi cael eu cyflwyno â mwy nag un broblem, mae'r cyfanswm canran cyffredinol yma'n uwch na 100%.


Ffynhonnell: Darparwyd data o ffurflenni cofnodi cleientiaid a roddwyd i'r Tîm Gwerthuso gan Lywodraeth Cymru

Gwerthusiad o ganlyniadau therapiwtig.

- Cysylltwyd cwnsela gyda gostyngiadau sylweddol mewn trallod seicolegol ar draws pob Awdurdod Lleol ym mhob un o'r cyfnodau amser a archwiliwyd. Fodd bynnag, dydy cysylltiad ddim o anghenraid yn dangos bod cwnsela wedi achosi'r gostyngiadau yma mewn trallod seicolegol, efallai bod ffactorau eraill wedi cyfrannu at hyn.
- Y gostyngiad cymedrig mewn trallod seicolegol o'r cychwyn hyd ddiwedd cwnsela ar y mesur CORE Person Ifanc (YP-CORE) oedd 18.70 i 10.56 (sgorau is yn awgrymu llai o drallod), a 18.14 i 12.21 ar yr Holiadur Cryfderau ac Anawsterau (SDQ).

- Roedd y gostyngiad cymedrig cyffredinol mewn trallod seicolegol yn fawr, gyda maint effaith o 0.93 (o gymharu â chyfartaledd maint effaith ar draws y DU o 0.81 ar gyfer cwnsela mewn ysgolion).
- Roedd amrywiaeth sylweddol yn nifer y newid ar draws setiau data ac ar draws Awdurdodau Lleol. Roedd meintiau effaith mwy'n gysylltiedig â:
 - Defnydd yr YP-CORE, yn hytrach na'r mesur SDQ.
 - Cyfraddau ymateb is.

Newidiadau mewn trallod: Yn gyffredinol ac yn ôl y mesuriad (Ffigur 3 yn y prif adroddiad)



Darparwyd data i'r Tîm Gwerthuso gan Arweinwyr Awdurdodau Lleol

Holiadur o brofiad cleientiaid.


- Ar y cyfan, gwnaeth cleientiaid raddio'r gwasanaeth cwnsela'n bositif iawn
- Roedd oddeutu 85% o ymatebwyr yn teimlo'n fwy positif am fynd i'r ysgol ac yn teimlo gallant ymdopi'n well ers mynychu cwnsela
- Nododd oddeutu 95% o ymatebwyr eu bod yn cytuno gyda'r datganiad 'mae cwnsela'n ffordd dda o ymdrin â phroblemau'
- Gwnaeth oddeutu 90% o gleientiaid hefyd ddweud y byddent yn gofyn i weld y cwnselydd eto os oedd angen.

Arolygon ymysg rhanddeiliaid: Cwnselwyr, Athrawon cyswllt ac Arweinwyr

ALLau.

- Yn gyffredinol, roedd lefelau bodlondeb gyda chwnsela mewn ysgolion yn uchel ar draws y tri grŵp o randdeiliaid
- Adroddwyd gan athrawon cyswllt bod gweithredu'r Strategaeth wedi arwain at welliannau arwyddocaol i ddarpariaeth chwnsela mewn ysgolion oedd eisoes yn bodoli
- Adroddwyd gan athrawon cyswllt bod gwasanaethau chwnsela wedi cael effaith gadarnhaol ar gyrhaeddiad, presenoldeb ac ymddygiad cleientiaid

Athrawon cyswllt: Canfyddiadau o effaith y gwasanaeth chwnsela mewn ysgolion ar gyrhaeddiad, presenoldeb ac ymddygiad disgyblion (Ffigur 15 yn y prif adroddiad).



- Ni chanfu fod y Strategaeth wedi cynyddu baich gwaith staff ysgolion
- Cryfderau canfyddedig y Strategaeth oedd yr ymrwymiad a'r gefnogaeth gan Lywodraeth Cymru a'r 'ymagwedd Cymru gyfan'
- Roedd rhai cwnselwyr yn ystyried bod y broses o sefydlu gwasanaethau chwnsela yn anodd ac yn drafferthus, o gymharu ag athrawon cyswllt ac Arweinwyr ALLau
- Ystyriwyd bod y diffyg chwnsela mewn ysgolion cynradd yn un o wendidau'r Strategaeth.
- Yn gyffredinol, nododd yr atebion gan randdeiliaid bod y 10 argymhelliad ar gyfer chwnsela mewn ysgolion wedi'u gweithredu. Fodd bynnag:
 - roedd yr holl grwpiau rhanddeiliaid eisiau gweld ariannu diogel ar gyfer y Strategaeth yn y dyfodol
 - nid oedd gwasanaethau bob amser yn diwallu anghenion siaradwyr Cymraeg

- roedd lefel o bryder am adnoddau, yn enwedig yr ystafelloedd ble cynigwyd gwasanaethau.
- Yr argymhellion allweddol a gynigwyd gan y grwpiau rhanddeiliaid oedd:
 - y dylid cynyddu'r arian
 - dylai fod mwy o gyfleoedd i gwmselwyr a staff ysgolion ymgymryd â hyfforddiant pellach.

Astudiaethau achos.

- Roedd lefelau boddhad gyda'r Strategaeth yn uchel ar y cyfan
- Ystyriwyd y gellid cyrchu cwnsela'n sydyn, oedd yn caniatáu i athrawon ganolbwyntio ar ddysgu; gan felly arddangos ethos gofalgarn a chefnogol yn amgylchedd yr ysgol, nad oedd yn stigmatiddio'r cwnsela
- Ystyriwyd bod cwnsela'n cael effaith gadarnhaol ar gleientiaid: yn cynyddu lles, hapusrwydd a hyder; ac yn lleihau ymddygiad trafferthus, aflonyddgar a risg uchel. Er enghraifft, 'mae'n haws dysgu pobl hapus', '... gallaf reoli fy nicter yn awr ...', 'rwyf yn dal i fod mewn trafferth ond mae'n gwella', 'rwy'n canolbwyntio'n well yn awr'.
- Canfu bod angen i wasanaethau cwnsela fod ar gael yn ehangach ac y dylai fod gwybodaeth helaeth ar gael am y gwasanaethau.
- Ymysg y pryderon am y gwasanaethau cwnsela oedd y cyfyngiad ar faint o gwmsela oedd ar gael, 'dylai fod mwy o oriau'; dewis cyfyngedig o gwmselwyr (yn enwedig o ran rhyw), er enghraifft 'fyddai pethau ddim yr un fath gyda dyn'; cyfyngiad ar faint o gwmselwyr Cymraeg eu hiaith oedd ar gael; problemau gydag ystafelloedd; ac anawsterau gyda hunangyfeiriad pan fo athro penodol yn cyfeirio unigolion i'r gwasanaeth.

Prosiectau peilot cynradd.

- Roedd lefelau boddhad cyffredinol gyda'r prosiectau peilot ymysg penaethiaid ac Arweinwyr ALLau yn uchel, ac ystyriwyd bod y gwasanaethau'n cynnig gwerth am arian
- Er mai ychydig iawn o dystiolaeth canlyniadau oedd ar gael, roedd arwyddion cynnar yn awgrymu bod cyswllt rhwng y cwnsela â'r gostyngiadau mawr ac arwyddocaol mewn trallod seicolegol, gyda maint effaith cymedr o 0.71 o gychwyn y cwnsela hyd y diwedd. Adroddwyd hefyd gan arsylwyr bod cyswllt rhwng cwnsela â gwelliannau mewn ymddygiad disgyblion, cyrhaeddiad academiaidd a phresenoldeb yn yr ysgol

- Ystyriwyd mai cryfderau'r prosiectau peilot oedd: buddsoddiad mewn lles plant, mabwysiadu ymagwedd 'ysgol-gyfan', a defnyddio ymyriadau sy'n addas i oedran
- Roedd boddhad yn isel mewn meysydd penodol: sef adnoddau prin, diffyg integreiddio gyda mentrau eraill, ychydig iawn o fonitro a gwerthuso, problemau'n diwallu anghenion disgyblion Cymraeg eu hiaith, diffyg hyfforddiant i gwnselwyr, a lefel isel o hyrwyddo'r gwasanaethau o fewn ysgolion
- Nid oedd gan y cwnselwyr i gyd yn y prosiectau peilot cynradd gymhwyster proffesiynol
- Roedd argymhellion rhanddeiliaid yn cynnwys darparu adnoddau digonol i gwrdd â'r galw am gwnsela mewn ysgolion yn y sector cynradd; sicrhau cydraddoldeb i fynediad ar draws y sector; ac asesiad o gostau'r amrywiol fodelau gwasanaeth cyn i'r gwasanaethau gael eu rhoi ar waith yn ehangach ar draws y sector.

Trafodaeth

Boddhad cyffredinol.

Ar draws yr arolygon ac astudiaethau achos, mynegodd yr holl rhanddeiliaid – disgyblion ysgol, athrawon, penaethiaid a chwnselwyr – lefelau uchel o foddhad yn gyffredinol gyda'r Strategaeth. Roedd yr un peth yn gyffredinol wir am y gwasanaethau peilot mewn ysgolion cynradd. O ran pa mor *hawdd* oedd hi i'r Strategaeth gael ei gweithredu, daeth darlun mwy cymysg i'r amlwg, gan awgrymu bod mwy o broblemau wedi'u profi ar ochr ddarparu-gwasanaethau'r broses weithredu.

Roedd defnyddwyr gwasanaeth bron bob amser yn bositif am y cwnsela a gawsent, gan bwysleisio nodweddion personol positif y cwnselydd, y ffaith fod y cwnsela'n gyfrinachol, a bod ganddynt rywun a fyddai'n gwrando arnynt. Yn ogystal, roedd y defnyddwyr gwasanaeth yn gwerthfawrogi'r rhyddid a'r hyblygedd i drefnu eu hapwyntiadau eu hunain.

Gweithredu'r 10 argymhelliad.

Roedd y canfyddiadau'n dynodi'n gryf bod y Strategaeth wedi'i gweithredu yn ôl y 10 argymhelliad adroddiad Pattison et al. (2007), gyda nifer fechan o eithriadau:

- *Arian cynaliadwy:* Er bod arian ar gyfer y Strategaeth wedi'i sicrhau hyd at 2014, mynegodd y rhanddeiliaid allweddol rywfaint o bryder am ddiogelwch ariannu'r dyfodol
- *Cyflogi cwnselwyr gyda chymhwyster proffesiynol:* Er bod yr holl gwnselwyr sy'n

gweithio yn rhan o'r Strategaeth yn y sector uwchradd wedi ennill y cymwysterau proffesiynol, nid oedd rhai o'r cwnselwyr mewn ysgolion cynradd wedi'u cymhwyso'n broffesiynol

- *Darparu cwnsela hygyrch mewn lleoliad priodol:* Pennwyd yr ystafelloedd ar gyfer cwnsela fel problem bosibl gan ddefnyddwyr gwasanaeth a chwnselwyr; roedd y prif broblemau'n ymwneud â phreifatrwydd ac â chael ystafell ddynodedig sydd ar gael yn rheolaidd
- *Cael eu hystyried yn rhan arferol o ddarpariaeth yr ysgol:* Roedd rhywfaint o dystiolaeth i ddangos bod lefelau gwybodaeth y gwasanaeth cwnsela a gwasanaethau cymorth emosiynol perthnasol yn amrywio rhwng ysgolion
- *Monitro'r canlyniadau:* Roedd data canlyniadau ar goll neu'n gwbl absennol, o nifer o'r awdurdodau lleol, gyda chyfraddau ymateb arbennig o isel ym mlwyddyn gyntaf eu gweithrediad ac yn y prosiectau peilot cynradd
- *Ymateb i anghenion cymunedau amrywiol:* Roedd data demograffig cleientiaid yn awgrymu bod cleientiaid o gefndiroedd BME a chleientiaid gydag AAA ac anabledau heb eu cynrychioli'n ddigonol gyda'r rheiny sy'n mynychu'r gwasanaeth cwnsela. Yn yr un modd, mynegwyd pryderon gan grwpiau rhanddeiliaid nad yw gwasanaethau bob amser efallai'n diwallu anghenion siaradwyr Cymraeg. Mewn rhai ysgolion, roedd anawsterau hefyd gyda phobl ifanc yn cyfeirio eu hunain yn uniongyrchol at y gwasanaethau cwnsela.

Effeithiolrwydd ac effaith.

- Roedd maint y newid a brofwyd gan bobl ifanc sy'n derbyn cwnsela fel rhan o'r Strategaeth (maint effaith cymedr: 0.93) yn fwy na'r newid cyfartalog a brofwyd gan bobl ifanc mewn gwasanaethau eraill mewn ysgolion ar draws y DU (maint effaith cymedr: 0.81, Cooper 2009)
- Roedd gostyngiad mewn trallod seicolegol yn llawer mwy yn y bobl ifanc yn y gwerthusiad cyfredol nag a welwyd yn digwydd mewn 'grŵp safonol' o bobl ifanc cyfatebol nad ydynt yn derbyn cwnsela
- Roedd data ansoddol a data'r arolwg yn cefnogi canfyddiadau'r data canlyniadau meintiol bod y cwnsela mewn ysgolion wedi arwain at ystod eang o welliannau
- Roedd data'r arolwg yn awgrymu nad oedd cyflwyno cwnsela mewn ysgolion yn cynyddu baich gwaith staff ysgolion, ac roedd tystiolaeth ansoddol yn dangos bod presenoldeb gwasanaethau o'r fath yn lleihau'r pwysau ar diwtoriaid blwyddyn ac athrawon eraill.

Argymhellion

Argymhellir bod:

- Llywodraeth Cymru'n ystyried sefydlu ffrydiau diogel o ariannu i wasanaethau cwnsela mewn ysgolion uwchradd yng Nghymru
- Llywodraeth Cymru yn ystyried cyflwyno'r Strategaeth yn y sector ysgolion cynradd gan ddefnyddio fformat sy'n briodol i oedran
- Awdurdodau lleol ac ysgolion yn sicrhau bod ystafelloedd priodol ar gael ar gyfer gwasanaethau cwnsela
- Rheolwyr gwasanaethau, ysgolion a chwnselwyr yn sicrhau bod myfyrwyr ysgol yn derbyn gwybodaeth ddigonol am y gwasanaeth cwnsela
- Darparwyr gwasanaeth yn cynnal gwerthusiad systematig o ganlyniadau
- Darparwyr gwasanaeth yn datblygu strategaethau ar gyfer sicrhau mynediad cyfartal at y gwasanaeth cwnsela a'r monitro a wneir ohono
- Darparwyr gwasanaeth yn ymestyn argaeledd cwnselwyr Cymraeg eu hiaith
- Darparwyr gwasanaeth ac ysgolion yn datblygu systemau hunangyfeirio ac yn sicrhau bod modd i bob person ifanc hunangyfeirio
- Darparwyr gwasanaeth ac ysgolion yn datblygu cyfleoedd hyfforddi i staff ysgolion a chwnselwyr
- Llywodraeth Cymru yn datblygu mwy o ymchwil i'r agweddau o gwnsela mewn ysgolion sy'n rhagweld gwelliannau ac i'r ffactorau sy'n annog pobl ifanc i gyrchu'r gwasanaeth.

1. Cyd-destun

Yn 2010 comisiynwyd consortiwm ymchwil gan Lywodraeth Cymru dan arweiniad Cymdeithas Brydeinig ar Gwnsela a Seicotherapi a Phrifysgol Strathclyde i gyflawni gwerthusiad o'i strategaeth cwnsela mewn ysgolion (y *Strategaeth*) sydd wedi cael ei roi ar waith ledled Cymru dros y tair blynedd diwethaf.

1.1. Datblygiad Cwnsela mewn Ysgolion yng Nghymru

Dros y ddau ddegawd diwethaf, mae cwnsela mewn ysgolion uwchradd y DU wedi tyfu'n sylweddol (Jenkins a Polat, 2005). Ystyrir yn gynyddol bod cwnsela a ddarperir gan weithlu sydd wedi derbyn hyfforddiant proffesiynol, yn ymyrraeth gynnar effeithiol i bobl ifanc sydd â phroblemau emosiynol, ymddygiadol neu gymdeithasol. Ystyrir cwnsela yn ffordd i'r bobl ifanc gyfeirio at eu problemau gydag oedolyn dibynadwy, a thrwy hyn fynd yn ôl ar y 'trywydd iawn' yn eithaf sydyn.

Mae hanes cwnsela mewn ysgolion yng Nghymru yn deillio o argymhelliad gan Gomisiynydd Plant Cymru i'r *Adroddiad Ymchwiliad Clywch*.⁷ Roedd *Adroddiad Clywch* yn awgrymu dylai bod oedolyn dibynadwy ar gael i bob person ifanc mewn ysgol i drafod eu pryderon. Derbyniwyd yr argymhelliad hwn gan Lywodraeth Cymru, ac yn 2007 comisiynwyd tîm ymchwil gan Lywodraeth Cymru dan arweiniad Cymdeithas Brydeinig ar Gwnsela a Seicotherapi (BACP) a Phrifysgol Newcastle i werthuso cwnsela mewn ysgolion ar draws y DU (Pattison et al., 2007)⁸ ac i wneud argymhellion dros ddatblygu cwnsela mewn ysgolion yng Nghymru. Ei 10 argymhelliad oedd y dylai gwasanaethau cwnsela mewn ysgolion:

1. bod â chyllid cynaliadwy
2. cyflogi cwnselwyr cymwys proffesiynol sydd â phrofiad o weithio gyda phobl ifanc, sy'n medru cael goruchwyliaeth glinigol briodol gyda goruchwylwyr profiadol, ac sy'n ymgymryd â datblygiad proffesiynol parhaus (CPD), perthnasol a rheolaidd
3. darparu gwasanaethau cwnsela hygyrch mewn lleoliad priodol preifat ond diogel yn amgylchedd yr ysgol
4. cael eu hystyried gan gymuned yr ysgol yn rhai nad ydynt yn stigmatiddio ac sy'n rhan arferol o ddarpariaeth yr ysgol, sydd wedi'i integreiddio yng nghymuned yr ysgol

⁷ <http://wales.gov.uk/newsroom/educationandskills/2004/4024518/?lang=cy>

⁸ Mae'r adroddiad llawn ar gael yn http://www.bacp.co.uk/research/School_Counselling.php

5. cael eu monitro a'u gwerthuso gan unigolion neu asiantaeth (yn yr ysgol neu y tu allan iddi) sydd â phrofiad yn y maes arbenigol hwn o weithio
6. talu sylw dyledus i'r ddeddfwriaeth a'r canllawiau cyfredol, a chynnig cyfrinachedd o fewn y terfynau moesegol a diogelwch arferol
7. ymateb yn hyblyg i'r anghenion lleol o ran amrywiaeth (e.e. iaith) ac ymarferoldeb (e.e. bod ar gael yn ystod gwyliau ysgol)
8. gweithio gyda gwasanaethau ac asiantaethau eraill ac ar y cyd â hwy mewn dull ymgynghorol, gan gynnal y lefelau priodol o gyfrinachedd
9. cyflogi cwnselwyr sy'n aelodau o gorff proffesiynol ac sydd felly'n cydymffurfio â fframwaith moesegol a gweithdrefn gwynion sefydledig
10. cyflogi cwnselwyr y mae eu nodweddion personol yn golygu eu bod yn hawdd siarad â hwy, bod ganddynt sgiliau gwrandda da a ffordd o ymddwyn sy'n meithrin perthnasau diogel ac sy'n ennyn ymddiriedaeth.

Mae cynnwys yr offer ymchwil a ddefnyddiwyd drwy'r gwerthusiad, ac a ddisgrifir ym Mhennod 2, wedi eu cyfarwyddo gan y 10 argymhelliad yma.

Ym mis Ebrill 2008, cyhoeddodd Llywodraeth Cymru'r *Strategaeth Genedlaethol ar gyfer Gwasanaethau Cwnsela mewn Ysgolion*⁹ gafodd ei chyfarwyddo gan adroddiad Pattison et al. (2007). Roedd y ddogfen yn traethu ymrwymiad Llywodraeth Cymru y dylai pob disgybl ysgol yng Nghymru fedru cyrchu gwasanaethau cwnsela. Mae hefyd yn un o'r gweithredoedd allweddol yn y *Fframwaith Gwasanaeth ar gyfer Plant, Pobl Ifanc a Gwasanaethau Mamolaeth yng Nghymru*.¹⁰

Nod y Strategaeth yw sicrhau bod gwasanaethau cwnsela ar gael ym mhob ysgol uwchradd yng Nghymru. Mae hefyd wedi sefydlu gwasanaethau peilot mewn ysgolion cynradd mewn pedwar awdurdod lleol. Un o'r gweithredoedd yn *Strategaeth Genedlaethol ar gyfer Gwasanaethau Cwnsela mewn Ysgolion Llywodraeth Cymru* oedd datblygu safonau a chanllawiau ar gyfer cwnselwyr a gwasanaethau cwnsela. Datblygwyd *Pecyn Cymorth*¹¹ fel gweithred o'r strategaeth cwnsela mewn ysgolion, sy'n rhoi canllawiau i ysgolion ac awdurdodau lleol ar sut i sefydlu a monitro gwasanaethau cwnsela. Roedd y ddogfen hon yn cynghori sut i gasglu data gwasanaeth a'r cleient yn rheolaidd gan ddefnyddio holiaduron safonedig, er mwyn hwyluso'r broses o werthuso cwnsela mewn ysgolion.

9 <http://wales.gov.uk/topics/educationandskills/publications/guidance/counsellingservicesstrategy/?lang=cy>

10 <http://www.wales.nhs.uk/sites3/home.cfm?OrgID=441>

11 Pecyn Cymorth Gweithredu Cwnsela mewn Ysgolion:

<http://wales.gov.uk/topics/educationandskills/schoolshome/wellbeing/schoolcounselling/counsellingtoolkit/?lang=cy>

Gwnaeth Llywodraeth Cymru ddarparu cyllid cychwynnol o £1 miliwn yn 2008-09, £2.5 miliwn yn 2009-10 a £3 miliwn yn 2010-11 i symud ymlaen â'r Strategaeth. Darparwyd £1.5 miliwn ychwanegol gan Lywodraeth Cymru ar gyfer 2010-11 i ehangu gwasanaethau ar draws pob ysgol uwchradd, ymestyn y Strategaeth i flwyddyn 6 ysgolion, ysgolion arbennig, unedau cyfeirio disgyblion ac yn benodol i sicrhau cynhwysiant plant a phobl ifanc gydag Anghenion Dysgu Ychwanegol.

Ar hyn o bryd, mae pob ysgol uwchradd yng Nghymru yn darparu gwasanaeth cwnsela. Bu rhaglen genedlaethol o hyfforddiant amddiffyn plant, ac mae ymrwymiad pellach gan y llywodraeth o £14.25 miliwn o arian ar gyfer cwnsela mewn ysgolion hyd at 2014. Yn ogystal â'r gwasanaeth cwnsela mewn ysgolion, mae tri awdurdod lleol hefyd wedi buddsoddi mewn gwasanaeth cwnsela ar-lein i bobl ifanc. Hysbyswyd pobl ifanc am y gwasanaeth ar-lein drwy ysgolion a thrwy argymhellion gan CAMHS a gweithwyr cymdeithasol, a meddygon teulu. Gwnaeth y bobl ifanc gysylltu â'r wefan yn uniongyrchol, ble roeddent yn gallu cyrchu cwnsela a chefnogaeth ar-lein arall megis gwasanaeth galw heibio a gwaith cyngor.

1.2. Natur Cwnsela mewn Ysgolion ar draws y DU

Gellir disgrifio cwnsela mewn ysgolion, fel y datblygwyd ac a gyflenwyd yn y Strategaeth, fel dull medrus o helpu pobl ifanc gyda phroblemau ac anawsterau personol a datblygiadol. Caiff ei ddarparu gan ymarferwyr proffesiynol a'i fwriad yw rhoi cyfleoedd i bobl ifanc:

- drafod anawsterau mewn awyrgylch gyfrinachol nad yw'n feirniadol
- archwilio natur eu hanawsterau
- cynyddu eu hunan ymwybyddiaeth
- datblygu gwell dealltwriaeth o'u hanawsterau
- datblygu'r adnoddau personol sydd eu hangen i reoli eu hanawsterau
- datblygu strategaethau i ymdopi â newid.

Mae'r Strategaeth wedi anelu darparu mynediad cyffredinol i gwnselwyr cymwys ym mhob ysgol uwchradd yng Nghymru. Yn ddibynnod ar y model cyflenwi gwasanaethau, mae gan y mwyafrif o ysgolion uwchradd yng Nghymru o leiaf un cwnselydd cymwys yn gweithio ar sail rhan amser ar y safle, ac yn ychwanegol mae gan lawer o Awdurdodau Lleol wasanaethau cwnsela allgymorth ar gael i bobl ifanc nad ydynt mewn addysg neu sy'n well ganddynt fynychu cwnsela i ffwrdd o eiddo'r ysgol. Mae cwnselwyr ac ysgolion yn ceisio cynnig amgylchedd sy'n emosiynol ddiogel i bobl ifanc sgwrsio, ac fel y cyfryw maent yn

anelu gweithio o fewn eiddo'r ysgol mewn ystafelloedd preifat wedi'u neilltuo sy'n hygyrch i fyfyrwyr.

Mae cwnselwyr mewn ysgolion yn ymgeisio gweithio ochr yn ochr â staff yr ysgol ac asiantaethau eraill i ddarparu gwasanaeth sy'n ategu at lawer o ymyriadau eraill yn yr ysgol sy'n cefnogi a hybu iechyd a lles emosiynol pobl ifanc. Yn gyffredinol, ystyrir bod cwnsela'n wasanaeth cyfrinachol, ond mae'r terfynau diogelu arferol yn gymwys. Ymhellach, mae cwnselwyr mewn ysgolion yn darganfod yn gyffredinol y gallant gynnal perthynas ddibynadwy a phreifat gyda pherson ifanc tra, ar yr un amser, ffurfio perthynas waith defnyddiol ac effeithiol gyda chydweithwyr eraill – er budd y person ifanc.

Fel arfer, mae pobl ifanc sy'n cyrchu cwnsela mewn ysgolion yn gwneud hyn yn ystod y diwrnod ysgol, gan fethu un wers ysgol bob wythnos. Mae cwnselwyr fel arfer yn gweithio gyda'r person ifanc a staff yr ysgol i sicrhau na chaiff yr un maes cwricwlwm ei fethu'n rheolaidd. Dengys data bod y mwyafrif o gleientiaid yn cyrchu cwnsela am tua phedwar i chwe sesiwn ar gyfartaledd (gweler Adolygiad o Ddeunydd, tudalen 37). Er hwyrach bod rhai pobl ifanc yn dychwelyd am sesiwn arall o gwnsela yn hwyrach os ydynt yn ystyried y byddai o fudd.

Mae cwnselwyr cymwys mewn ysgolion fel arfer yn gweithio gyda phobl ifanc sy'n gofyn am gefnogaeth yn uniongyrchol (hunan gyfeiriwr), ac maent hefyd yn derbyn ceisiadau am eu gwasanaethau (cyfeiriadau) gan staff yr ysgol, asiantaethau eraill a rhieni. Fodd bynnag, ystyrir bod cwnsela'n weithgaredd gwirfoddol, ac nid oes disgwyl mewn ysgolion yng Nghymru i fyfyrwyr gael eu 'gyrru' i dderbyn cwnsela.

1.3. Y Gwerthusiad

Yn 2010, cafodd tîm ymchwil dan arweiniad Cymdeithas Brydeinig ar Gwnsela a Seicotherapi a Phrifysgol Strathclyde – mewn cydweithrediad gyda chydweithwyr o Ipsos MORI, Prifysgol Casnewydd a Phrifysgol Newcastle – ei gomisiynu i gyflawni gwerthusiad o'r Strategaeth mewn dau gam. Yn dilyn ymgynghoriad gyda'r grŵp llywio cwnsela mewn ysgolion, cyhoeddwyd cam un yr adroddiad fis Gorffennaf 2011,¹² a rhoddodd hwn werthusiad rhagarweiniol o nifer o elfennau allweddol y Strategaeth. Mae'r adroddiad terfynol yma'n cyflwyno gwerthusiad cynhwysfawr o'r Strategaeth o'r cychwyn, ac mae'n ddogfen derfynol sy'n cwmpasu, ac yn disodli'r adroddiad blaenorol.

Rhannwyd yr adroddiad yn wyth prif ran. Yn dilyn Crynodeb Gweithredol a chyflwyniad i gefndir a chyd-destun yr adroddiad, mae wedyn yn mynd ymlaen i drafod y naw dull ymchwil a ddefnyddiwyd i werthuso'r Strategaeth, fel y gweithredwyd mewn

¹² <http://wales.gov.uk/about/aboutresearch/social/latestresearch/schoolcounselling/?lang=cy>

ysgolion uwchradd ar draws Cymru:

- Adolygiad o Ddeunydd
- Ymchwil Ddesg
- Dadansoddiad o ddata demograffig cleientiaid
- Gwerthusiad o ganlyniadau therapiwtig
- Holiadur o brofiad cleientiaid
- Arolwg ymysg cwnselwyr
- Arolwg ymysg penaethiaid / athrawon cyswllt
- Arolwg ymysg Arweinwyr Awdurdodau Lleol
- Astudiaethau achos o bedwar awdurdod lleol.

Mae'r bennod nesaf wedyn yn cynnig adolygiad o dystiolaeth flaenorol ar gwnsela mewn ysgolion uwchradd y DU, gyda'r bennod ddilynol, sef crynswth yr adroddiad, yn cyflwyno canfyddiadau'r ymchwil ddesg a'r gwaith maes.

Mae Pennod 5 yn cyflwyno gwerthusiad o'r prosiectau peilot *cynradd*, gan dynnu ar ddata o ymchwil ddesg, arolygon ymysg Arweinwyr awdurdodau lleol a phenaethiaid, canlyniadau seicolegol a dadansoddiad o gost.

Mae rhan olaf ond un yr adroddiad yn tynnu'r canfyddiadau ynghyd, ac yn trafod eu hystyr mewn perthynas â thri chwestiwn allweddol:

- A fu rhanddeiliaid yn fodlon â'r Strategaeth a'r gwasanaethau cwnsela a sefydlwyd neu a ddatblygwyd?
- I ba raddau cafodd y 10 argymhelliad allweddol ar gyfer datblygu'r gwasanaethau cwnsela mewn ysgolion eu gweithredu?
- Beth oedd canlyniad ac effaith y cwnsela ar y bobl ifanc fu'n defnyddio'r gwasanaeth?

Yn olaf, mae'r adroddiad yn diweddu gyda chyfres o argymhellion ar gyfer dyfodol cwnsela mewn ysgolion yng Nghymru.

1.3.1. Nodau.

I grynhoi, nodau'r adroddiad gwerthuso hwn yw:

- Disgrifio gweithredu a chyflenwi'r Strategaeth, y gwasanaethau cwnsela mewn

ysgolion, a phriodoledau'r defnyddwyr gwasanaeth

- Asesu lefelau bodlondeb cyffredinol y rhanddeiliaid gyda'r Strategaeth a'r gwasanaethau cwnsela mewn ysgolion
- Gwerthuso i ba raddau mae'r Strategaeth wedi cyflawni'r 10 argymhelliad allweddol ar gyfer ei datblygiad
- Archwilio effaith y Strategaeth a'r gwasanaethau cwnsela mewn ysgolion ar lefelau trallod seicolegol cleientiaid
- Gwneud argymhellion am ddyfodol cwnsela mewn ysgolion yng Nghymru.

2. Dulliau

Yn y bennod hon cyflwynir y naw dull a ddefnyddiwyd yn y prosiect hwn i werthuso'r Strategaeth, fel y sefydlwyd yn y sector ysgolion uwchradd. Defnyddiwyd nifer cyfyngedig o'r dulliau hyn i werthuso'r prosiectau peilot cynradd (gweler Pennod 5). Derbyniodd pob gweithdrefn gymeradwyaeth moesegol drwy Dîm Cymeradwyo Arolygon Pwyllgor Moeseg Ymchwil Cymru.

2.1. Adolygiad o Ddeunyddiau

I gynnig cyd-destun a set o feini prawf ar gyfer y gwerthusiad presennol, mae'r adolygiad hwn yn gwerthuso'r hyn a wyddom hyd yn hyn ynglŷn â chwnsela mewn ysgolion yn y DU. Mae'r canfyddiadau ar gyfer y rhannau cychwynnol yn deillio o adolygiad a gwblhawyd yn 2009 o'r holl ddata archwilio a gwerthuso sydd ar gael am wasanaethau cwnsela mewn ysgolion uwchradd yn y DU (Cooper, 2009). Mae hwn yn cwmpasu data gan oddeutu 10,830 o gleientiaid o 30 set data archwilio a/neu werthuso.

2.2. Ymchwil Ddesg

Cyflawnodd y Tîm Gwerthuso ddadansoddiad thematig¹³ o'r ddogfennaeth ganlynol, o'r cyfnod 2008 hyd 2010, o bob un o'r 22 Awdurdod Lleol yng Nghymru¹⁴:

- adroddiadau blynyddol
- llythyron grantiau
- cynigion gwariant
- cofnodion cyfarfodydd y Grwpiau Llywio, Grwpiau Consortia a'r Grŵp Cymru Gyfan ar gyfer cwnsela mewn ysgolion yng Nghymru.

Darparwyd dogfennaeth i'r Tîm Gwerthuso gan y Cydlynnydd ar Gwnsela mewn Ysgolion yng Nghymru.

2.3. Dadansoddiad data ar ddemograffig cleientiaid

Roedd gwybodaeth gyfansawdd ar fanylion demograffig cleientiaid, a'r modd roeddent yn defnyddio'r gwasanaethau cwnsela ar gael ar bob un o'r 11,043 pennod cwnsela¹⁵ ar

¹³ Modd o ddadansoddi data ansoddol (seiliedig ar iaith, nad yw'n rhifiadol) yw dadansoddiad thematig, ble nodir cyffelybiaeth ar draws ffynonellau a'u grwpio ynghyd i greu disgrifiad ystyrlon o'r data.

¹⁴ Mae pob awdurdod lleol wedi cael ei rifoli i sicrhau eu bod yn anhysbys drwy gydol yr adroddiad.

¹⁵ Diffinnir pennod cwnsela fel cyfres gyflawn o sesiynau a gyflawnir gan ddefnyddiwr gwasanaeth. Fel arfer mae sesiwn cwnsela yn para tuag 1 awr. Cynhelir y rhain fel arfer ar sail wythnosol neu bob pythefnos.

draws y cyfnod chwe thymor, rhwng Haf 2008-09 hyd Wanwyn 2010-11.

Cofnodwyd data gan y cwnselydd ar ddiwedd cyfnod pob pennod cwnsela, gan ddefnyddio'r Daflen Cofnod Cleient (gweler Atodiad 1), a'i gyflwyno i'w grynhoi gan reolwr gwasanaeth cwnsela'r ALI. Cafodd hwn wedyn ei gyflwyno i gydlynedd y Strategaeth, a'i yrru ymlaen i'r Tîm Gwerthuso i'w ddadansoddi.

Roedd y Daflen Cofnod Cleient yn cofnodi gwybodaeth ar gleientiaid:

- rhyw
- ethnigrwydd
- blwyddyn ysgol
- ffurf cyfeiriad
- cyfeiriadedd rhywiol
- os yw'r person ifanc yn derbyn gofal
- AAA / statws anabledd
- dewis iaith
- crefydd
- nifer o benodau a fynychwyd
- nifer o sesiynau a fynychwyd
- nifer o sesiynau a fethwyd/pobl ifanc sy'n methu sesiynau
- problemau wrth gyflwyno
- problem bennaf
- cyfeiriadau o hyn ymlaen.

Yn ogystal, er mwyn archwilio'r tan-gynrychiolaeth neu'r gor-gynrychiolaeth o gleientiaid mewn rhai grwpiau penodol, cawsom ddata ar normau Cymreig o'r Cyfrifiad Ysgolion (2011) *Canlyniadau dros dro i Gymru*, a gyhoeddwyd gan Lywodraeth Cymru.¹⁶

2.3.1. Dadansoddiad Cost

Roedd gwybodaeth am gost ar gael ar gyfer pob Awdurdod Lleol ar draws y tri thymor ysgol (Haf 2009-10, Hydref, 2010-11, a Gwanwyn, 2010-11, Atodiad 15) o ran cost fesul cleient a'r gost fesul sesiwn. Darparwyd gwybodaeth ar gost fesul cleient a chost fesul sesiwn gan Lywodraeth Cymru ac fe'i cyfrifwyd drwy rannu cyfanswm y grant a ddarparwyd i bob Awdurdod Lleol gyda'r nifer o bobl ifanc oedd wedi cyrchu'r gwasanaethau cwnsela, a gyda

¹⁶ Cyfrifiad Ysgolion (2011) *Canlyniadau dros dro i Gymru*, Llywodraeth Cymru <http://wales.gov.uk/topics/statistics/headlines/schools2011/110706/?lang=cy>

chyfanswm y nifer sesiynau a ddarparwyd o fewn y cyfnod amser perthnasol.¹⁷

2.4. Gwerthusiad o Ganlyniadau Therapiwtig

Darparwyd data i'r Tîm Gwerthuso ar gyfer gwerthuso'r canlyniadau therapiwtig gan Awdurdodau Lleol ar gyfer tri chyfnod amser gwahanol: blwyddyn academaidd 2009-10, tymor Hydref 2010-11 a thymor Gwanwyn 2010-11. Darparwyd data un ai ar ffurf grai¹⁸ neu ar ffurf gryno.¹⁹ Ni allai'r Tîm Gwerthuso gyrchu ffurflenni gwerthuso unigol. Dim ond data o benodau cwnsela ble roedd pobl ifanc wedi mynychu am ddau neu fwy o sesiynau a ddefnyddiwyd, er mwyn gallu cymharu rhwng gwaelodlin (h.y. ar gychwyn cwnsela) a'r pwynt terfyn (h.y. ar ddiwedd cwnsela).

Defnyddiodd pob awdurdod lleol un ai'r mesur YP-CORE neu'r mesur SDQ (gweler 2.4.1). Roedd data y gellid ei ddadansoddi ar gael gan 10 ALI ar gyfer y flwyddyn academaidd 2009-10 (45.5%), gan 15 ALI ar gyfer tymor cyntaf 2010-11 (68.2%), a gan 17 ALI ar gyfer ail dymor blwyddyn academaidd 2010-11 (77.3%). Roedd y rhain yn rhoi 42 o setiau data unigol.

I gyd, roedd data ar gael ar 3,613 pennod o gwnsela (33.0% o bob pennod ar draws y chwe thymor academaidd). Yn ogystal, roedd data canlyniadau ar gael gan 23 o'r bobl ifanc wnaeth ddefnyddio'r gwasanaeth cwnsela ar-lein (0.95% o bawb fu'n defnyddio'r gwasanaeth hwn dros hyd oes y prosiect), gyda chyfartaledd o saith sesiwn i bob cleient ar-lein – er, roedd llawr o'r gwaith yma'n anghyflawn. Dim ond y data ar gyfer defnyddwyr ar-lein oedd yn 14 mlwydd oed neu'n hyn ac wedi mynychu pedwar neu fwy o sesiynau a gasglwyd.

Cyfrifwyd cyfraddau ymateb ar gyfer setiau data unigol drwy rannu'r nifer o barau o sgorau gwaelodlin a phwynt terfyn (h.y. penodau ble roedd data ar gael) gyda'r nifer o benodau cwnsela ble roedd y cleient wedi mynychu dau neu fwy o sesiynau (h.y. penodau ble *dylai fod* data ar gael). Gellir cyfrifo'r ffigur hwn mewn 26 allan o'r 42 set data, ac roedd yn amrywio o 14.6% i 100%, gyda chyfradd ymateb gymedrig o 76.3% a chanolrif o 83.4%.

2.4.1. Mesurau.

Nododd y Pecyn Cymorth ddau brif fesur y gallai ALlau eu defnyddio i werthuso canlyniadau: CORE Person Ifanc (YP-CORE, Atodiad 2) a'r Holiadur Cryfderau ac Anawsterau (SDQ, Atodiadau 3a a 3b). Dyma'r ddau fesur a ddefnyddir amlaf i werthuso cwnsela gyda phobl ifanc (Cooper, 2009). O'r 22 Awdurdod Lleol, gwnaeth 14 ddewis defnyddio'r CORE Person Ifanc (YP-CORE) (33 o setiau data), a dewisodd pedwar yr

¹⁷ Noder: Cafodd amrywiol ffactorau eu diystyru wrth gyfrifo 'cost fesul sesiwn' a 'chost fesul person ifanc'; trafodir y rhain ymhellach yn adran 4.2.15.

¹⁸ Sgorau gwaelodlin a phwynt terfyn ar gyfer pob cleient o fewn yr ALI ar gyfer y cyfnod amser hwnnw.

¹⁹ Cymedrau, gwyriad safonol, a'r nifer o gyfranogwyr wnaeth fynychu un neu fwy o sesiynau (h.y. ble dylai fod parau o ddata gwaelodlin a phwynt terfyn ar gael)

Holiadur Cryfderau ac Anawsterau (SDQ) (9 o setiau data).

Yn nodweddiadol, gwahoddwyd y bobl ifanc i gwblhau ffurflen *waelodlin* yn y sesiwn cwnsela cyntaf, gyda ffurflen *pwynt terfyn* yn cael ei chwblhau yn y sesiwn olaf. Yn ogystal, i sicrhau bod data gwaelodlin a phwynt terfyn ar gael ar gyfer pob cleient, anogwyd cwnselwyr i wahodd pobl ifanc i gwblhau'r ffurflenni gwerthuso yma ym mhob sesiwn. Roedd hyn yn golygu byddai data pwynt terfyn ar gael ar gyfer yr holl bobl ifanc, gan gynnwys y rheiny fyddai hwyrach yn tynnu'n ôl o'r cwnsela heb gynllunio ei ddiwedd.

YP-CORE.

Y ffurflen CORE Person Ifanc (YP-CORE), mesur gyda 10-eitem o anawsterau seicolegol ar gyfer plant 11-16 mlwydd oed (Twigg, et al., 2009). Cafodd ei addasu o'r CORE-OM ('Clinical Outcomes in Routine Evaluation – Outcome Measure', Barkham et al., 2001), a hwn yw'r trydydd adolygiad o'r mesur hwn (y fersiynau blaenorol oedd 'CORE Arddedol' 14 eitem a 'CORE Person Ifanc f.1' 18 eitem, Twigg et al., 2009). Mae'r mesur yn gofyn i bobl ifanc raddio eu teimladau, ar eitemau penodol, dros yr wythnos ddiwethaf ar raddfa pum pwynt (0 = *Dim o gwbl*, 4 = *Rhan fwyaf o'r amser neu drwy'r amser*). Enghreifftiau o'r eitemau ar y mesurau yw 'Rwyf wedi bod yn teimlo ar binnau neu'n nerfus' ac 'Rwyf wedi teimlo y gallaf ymdopi pan aiff pethau o le' (eitem wedi'i wrthdroi). Caiff graddau eu cyfartalu yna eu lluosu gyda 10 i roi sgôr cyffredinol o 0 i 40, gyda'r sgorau uwch yn awgrymu lefel uwch o drallod seicolegol. Er dibenion yr astudiaeth bresennol, ystyriwyd bod y ffurflenni YP-CORE yn dderbyniol os oedd wyth neu fwy o eitemau wedi'u cwblhau. Profwyd bod y mesur YP-CORE yn dderbyniol i bobl ifanc, gyda *dibynadwyedd rhwng eitemau* da²⁰ – yn gyson ar draws grwpiau rhyw ac oedran (Twigg et al., 2009). Hwn yw'r mesur gaiff ei ddefnyddio fwyaf mewn gwasanaethau cwnsela mewn ysgolion o fewn y DU (Cooper, 2009).

Holiadur Cryfderau ac Anawsterau.

Mae'r hunan-adroddiad Holiadur Cryfderau ac Anawsterau (SDQ) yn cael ei ddefnyddio'n eang ac mae'n declyn sgrinio ymddygiad tra dilys ar gyfer plant a phobl ifanc (rhwng 11 a 16 mlwydd oed), a gellir hefyd ei ddefnyddio i werthuso effeithiolrwydd ymyriadau penodol (Goodman, 2001). Gofynnir i bobl ifanc raddio 25 eitem yn ôl sut roeddent yn teimlo dros y chwe mis blaenorol (ar gyfnod yr asesiad) a'r mis diwethaf (yn y cyfarfod dilynol). Er dibenion y gwerthusiad presennol, dim ond y sgorau Cyfanswm Anawsterau a ddefnyddiwyd: y prif fesur canlyniadau ar gyfer y teclyn, a gyfrifwyd drwy gyfuno'r sgorau ar

20 α Cronbach = 0.85. Mae dibynadwyedd rhwng eitemau'n nodwedd allweddol o fesur seicolegol da, gan awgrymu bod pob eitem yn asesu'r un newidyn gwaelodol.

gyfer yr holl eitemau SDQ sy'n berthnasol i drallod.

2.4.2. Dyluniad.

Mae'r gwerthusiad presennol, sydd wedi'i seilio mewn lleoliad naturiolaid, yn mabwysiadu dyluniad *carfan*. Mae hwn yn asesu newid mewn pobl ifanc sy'n mynychu cwnsela o'r waelodlin i'r pwynt terfyn. O gymharu â'r 'safon euraidd' o ymchwil gwerthuso, yr *hap-dreial wedi'i reoli* (RCT) – ble caiff newidiadau mewn grŵp triniaeth eu cymharu yn erbyn newidiadau i grŵp tebyg heb driniaeth dros yr un cyfnod amser – mae'r dyluniad presennol yn cynnig graddfa is o sicrwydd bod yr ymyriad wedi arwain at y gwelliant. Y rheswm am hyn yw bod defnyddio grŵp heb driniaeth yn caniatáu i ymchwilwyr gymharu yn erbyn newidiadau naturiol dros amser. Fodd bynnag, mae RCT yn golygu graddfa uchel o driniaeth arbrofol, sy'n hynod gostus, sy'n codi ystod eang o faterion moesegol cymhleth, ac na fyddai'n ymarferol yn y cyd-destun presennol, ble mae disgwyl i'r bobl ifanc dderbyn cwnsela mor fuan â phosibl. Ymhellach, mae dyluniad carfan yn caniatáu casglu corff llawer mwy o ddata canlyniadau, sy'n deillio o arferion sy'n cynrychioli arfer rheolaidd, ac sy'n caniatáu sefydlu meini prawf fel y gall wasanaethau werthuso eu heffeithiolrwydd.

2.4.3. Dadansoddiad.

I asesu i ba raddau cysylltir cwnsela gyda gostyngiad mewn lefelau trallod seicolegol, yn gyntaf gwnaethom gymharu lefelau gwaelodlin trallod seicolegol cyfartalog yn erbyn lefelau pwynt terfyn trallod cyfartalog ym mhob un o'r setiau data. Yn ail, edrychom ar newidiadau cyffredinol ar draws trallod seicolegol drwy gyfartalu ar draws y setiau data, ac ar bob un o'r mesurau ar wahân. Yn drydydd, cynhaliwyd *dadansoddiad-meta* (Lipsey & Wilson, 2001). Dull mwy soffistigedig o ddadansoddi ystadegau yw hwn sy'n gallu cyfuno data o ystod o ffynonellau, gan ystyried maint cymharol a dibynadwyedd pob set data (*pwysoli*), i ddynodi'r effaith yn gyffredinol (gweler Adolygiad o Ddeunydd, t. 37). Disgrifir hwn wedyn yn nhermau *maint effaith* (Lipsey & Wilson, 2001): ystadegyn sy'n dynodi'r maint newid sy'n gysylltiedig â ffactor penodol. Ar gyfer yr astudiaeth bresennol, gelwir y maint effaith a ddefnyddir yn *gynnydd cymedr safonedig*, sef maint y newid o'r waelodlin i'r pwynt terfyn wedi'i rannu gyda maint yr amrywiad 'cefndir' (y *gwyriad safonol* cyfun) ar y ddau gyfnod amser yma.²¹ O fewn y maes gwyddorau cymdeithasol, ystyrir bod meintiau effaith o 0.2, 0.5 a 0.8 ar gyfer yr ystadegyn yma'n *fach*, *canolig* a *mawr* yn ôl eu trefn. Cynhaliwyd y dadansoddiad-meta ar gyfer y gwerthusiad yma gan ddefnyddio'r rhaglen meddalwedd

21. Cynhaliwyd y dadansoddiad-meta cychwynnol gan ddefnyddio model ag effeithiau penodol, sy'n tybio bydd yr effaith cyfartalog o gwnsela mewn ysgolion yn gyson ar draws cyflyrau, gydag amrywiad o achos ffactorau hapgyfeiliornad yn unig.

2.5. Holiadur o Brofiad Cleientiaid

Er mwyn archwilio profiadau a chanfyddiadau goddrychol cleientiaid o'r gwasanaeth cwnsela, gwahoddwyd ALLau i ddefnyddio *Holiadur Gwerthuso ôl Gwnsela* (PCEQ, gweler Atodiad 4). Yn gyffredinol, cafodd hwn ei lenwi gan gleientiaid yn y sesiwn cwnsela olaf, gan ofyn iddynt ymateb i 16 o eitemau wedi'u graddio (o *Gytuno'n gryf* i *Anghytuno'n gryf*), ac archwilio eu meddyliau a'u teimladau am y gwasanaeth cwnsela yn ogystal â'i effaith ar eu hymddygiad. Ymysg yr eitemau enghreifftiol: 'Roeddwn yn gallu siarad am fy nheimpladau a'm meddyliau gyda'm cwnselydd', 'Byddwn yn argymhell cwnsela i'm cyfeillion', 'Rwy'n teimlo'n fwy positif ers mynychu cwnsela'.

Yn ogystal, gofynnwyd cyfres o gwestiynau pen agored i'r cleientiaid, megis 'Beth oedd y pethau gorau am gwnsela?' ac 'Oes pethau y gallai fod yn wahanol yn y cwnsela?'.

Cwblhawyd *Holiadur Gwerthuso ôl Gwnsela* (neu fersiwn wedi'i olygu ohono, yn ôl penderfyniad yr ALI) gan gleientiaid mewn tri ALI ar gyfer y flwyddyn academaidd 2009-10, a chan gleientiaid mewn chwe ALI yn nhymhorau un a dau'r flwyddyn academaidd 2010-11. Roedd y niferoedd o benodau cwnsela ble roedd ymatebion i'r eitemau graddedig ar gael yn amrywio o 631 i 520. Sef rhwng 5.9% a 4.9% o gyfanswm y penodau cwnsela; neu 9.3% a 7.7% o gyfanswm niferoedd y penodau cwnsela ($n = 6,771$) yn yr ALLau hynny yn ystod y cyfnodau amser pan ddefnyddiwyd y ffurflen.

Y prif ddata a ddarparwyd i'r Tîm Gwerthuso oedd yr ymatebion rhifiadol i'r eitemau graddedig. Fodd bynnag roedd data ansoddol hefyd ar gael gan dri ALI ar gyfer pob un o'r tri chyfnod amser, a chynhaliwyd dadansoddiad thematig cryno o'r deunydd yma. Hefyd, datblygodd pedwar ALI declynnau gwerthuso profiad cleientiaid eu hunain. Fodd bynnag, gan nad oedd yn bosibl cyfuno'r data o'r teclynnau yma, ni chafodd ei werthuso ymhellach.

Caiff canlyniadau'r eitemau graddedig ar gyfer hwn ac arolygon eraill eu cyflwyno'n bennaf yn nhermau *cytundeb net*. Dyma'r canran o ymatebwyr sydd un ai'n cytuno neu'n cytuno'n gryf gyda'r eitem yma, ac eithrio'r canran sy'n anghytuno neu'n anghytuno'n gryf.

Yn ogystal, cyflwynodd Kooth, darparwyr y gwasanaeth cwnsela ar-lein, ddyfyniadau gan ddefnyddwyr eu gwasanaeth.

O ystyried yr ymateb isel ar gyfer y data profiad cleient, rhaid trin canfyddiadau rhan yma'r gwerthusiad yn ofalus iawn. Yn ogystal, dylid nodi nad yw'n anghyffredin gweld ymatebion sy'n hynod gadarnhaol i 'arolygon boddhad' (McLeod, 2003). Gallai hyn fod yn

²² Er mwyn cwblhau'r cyfrifiadau yma'n gywir, rhaid gwybod beth yw'r cydberthyniad rhwng sgorau gwaelodlin a sgorau pwynt terfyn. Ar gyfer 11 o'r 42 set data (26.2%), doedd y data yma ddim ar gael. Fel yr argymhellir yn y llenyddiaeth (Lipsey & Wilson, 2001), defnyddiwyd amcangyfrifon o'r cydberthyniad o ddata perthnasol: cydberthyniad gwaelodlin o'r un ALI os oedd ar gael, ac os nad oedd ar gael, cydberthyniad gwaelodlin – pwynt terfynol cymedrig o 0.46.

arbennig o wir pan fo'r gyfradd ymateb yn isel, gyda chynrychiolaeth llawer uwch o'r cleientiaid bodlon na'r rhai anfodlon.

2.6. Arolygon ymysg Cwnselwyr

Cynhaliwyd arolwg o'r holl gwnselwyr sydd mewn ysgolion drwy ddefnyddio holiaduron ar bapur (gweler Atodiad 5). Nod hwn oedd mesur y canfyddiadau ar weithredu'r Strategaeth, gan gynnwys agweddau tuag at drefniadau rhwydweithio, cydlynu, darpariaeth hyfforddiant a DPP. Hefyd, gofynnwyd cwestiynau pen agored i gwnselwyr mewn ysgolion ynglŷn â chryfderau a gwendidau'r strategaeth cwnsela mewn ysgolion yng Nghymru ac i gynnig unrhyw argymhellion allai wella'r gwasanaeth. Cafodd y data ansoddol ei ddadansoddi'n thematig.

Cynhaliwyd yr arolwg mewn cyfarfod o'r holl gwnselwyr fu'n cymryd rhan yn strategaeth gwnsela ysgolion Cymru fis Medi 2010. Cynhaliwyd peilot o'r offeryn ymysg staff oedd yn gweithio o fewn BACP nad oeddent yn gysylltiedig â'r gwerthusiad, ond oedd â gwybodaeth o gwnsela.

Gwnaeth cyfanswm o 106 o gwnselwyr mewn ysgol (80% o'r holl gwnselwyr yn gweithio o fewn y Strategaeth) gwblhau'r holiadur ar bapur, gan amlygu gwybodaeth am y gwasanaeth ble maent yn gweithio a'u barn ar y Strategaeth. Gwelir gwybodaeth am ryw, oed, ethnigrwydd, cenedligrwydd a chyfeiriad therapiwtig yn Nhabl 1.

Tabl 1. Gwybodaeth ddemograffig a gasglwyd gan gwnselwyr mewn ysgolion yng Nghymru

	Amllder	Canran
Rhyw		
Fenyw	89	84.0
Gwryw	15	14.1
Data ar goll	2	1.9
Oedran		
18 – 29	10	9.4
30 – 39	30	28.3
40 – 49	45	42.5
50 – 59	15	14.1
60 – 69	4	3.8
Data ar goll	2	1.9
Ethnigrwydd		
Brydeinig Gwyn	94	88.7
BME	3	2.8
Lefel uchaf o gymhwyster cwnsela		
Doethuriaeth	1	0.9
Prifathrawiaeth	17	16.0
Diploma i Raddedigion	60	56.6
Diploma i Israddedigion	15	14.2
Diploma Addysg Bellach	6	5.7
Arall (e.e. gradd israddedig)	7	6.6
Profession and training		
Yn aelod o gorff proffesiynol	91	85.8
Yn aelod o BACP	82	77.4
Gyda phrofiad blaenorol o weithio gyda phlant a phobl ifanc	99	93.4
Gyda hyfforddiant perthnasol i weithio gyda phlant a phobl ifanc	84	79.2
Cyfeiriadaeth Therapiwtig		
Dyneiddiol / Person Ganolrwydd ²³	27	25.5
Therapi gwybyddol ymddygiadol (CBT) ²⁴	6	5.7
Seicodynamig ²⁵	1	0.9
Integreiddiol ²⁶	62	58.5
Arall	9	8.5
Data ar goll	1	0.9

Ffynhonnell: Arolwg ymysg Cwnselwyr mewn Ysgolion

Dengys Tabl 1 bod y mwyafrif o gwnselwyr mewn ysgolion yng Nghymru yn ferched, yn wyn ac yn amrywio'n sylweddol o ran y cyfeiriadedd therapiwtig maent yn glynu ato.

2.7. Arolwg ymysg penaethiaid / athrawon cyswllt

I gael trosolwg o weithredu'r Strategaeth ar lefel ysgol, cynhaliwyd arolwg ymysg uwch reolwyr yr ysgol. Ym mhob ysgol, cysylltwyd ag athrawon cyswllt sydd â chyfrifoldeb dros gwnsela yn yr ysgol, a gofyn iddynt gymryd rhan mewn cyfweiliad deg munud dros y ffôn gan ddefnyddio protocol strwythuredig (gweler Atodiad 6). Mewn achosion ble nad oedd

23 Cymharol di-gyfeirioldeb gyda phwyslais ar gefnogi cleientiaid i fynegi eu teimladau a'u meddyliau mewn amgylchedd o empathi ac un sy'n gwerthfawrogi.

24 Cymharol gyfeiriol, yn annog cleientiaid i newid eu meddyliau a herio credoau craidd. Defnyddir technegau ymddygiadol fel ymarferion ymlacio'n aml.

25 Pwysleisio pwysigrwydd yr anymwybodol a phrofiad y gorffennol wrth lunio ymddygiad presennol.

26 Ymgorffori sawl model amlwg o gwnsela a seicotherapi.

athrawon cyswllt ar gael, cynhaliwyd cyfweiliad gyda phenaethiaid yn lle (er dibenion yr adroddiad hwn, defnyddir y term *athro cyswllt* drwy gydol yr adroddiad i gyfeirio at ymatebwyr yr arolwg yma). Cynhaliwyd arolwg dros y ffôn gyda'r grŵp yma o randdeiliaid gan fod y sampl ddigon bach i gynnal arolwg ymysg y grŵp cyfan. Gwyddom o brofiad, bod arweinwyr ysgolion yn annhebygol o ymateb i holiaduron hunanlenwi yn bersonol, a'u bod yn fwy tebygol o'u dosbarthu i staff i'w cwblhau ar eu rhan. Yn ogystal, gall cyfradd ymateb i arolygon hunanlenwi fod braidd yn isel mewn ysgolion, gan arwain i dueddiad mawr o ddiffyg ymateb. Mae hyn wedyn yn cyfyngu'r cwmphas ar gyfer dadansoddi'r is grŵp. Cafodd yr holiadur dros y ffôn gyfnod peilot gyda phedwar athro cyswllt, ac ni chysylltwyd â'r rhain wedyn i gymryd rhan yn yr arolwg llawn.

Gwnaeth cyfanswm o 158 athro cyswllt gymryd rhan yn yr arolwg: dau draean o'r rheiny a gysylltwyd â hwy. Cyflwynir rôl yr ymatebwyr yn Nhabl 2.

Tabl 2. Cyfranogwr yn ôl natur eu swydd

Rôl yn yr Ysgol	Rhif	Canran (%)
Pennaeth	19	12.0
Dirprwy bennaeth neu Bennaeth Cynorthwyol	83	52.5
Uwch reolwr neu aelod o dîm arweinyddiaeth arall	42	26.6
Athro dosbarth neu bwnc / darlithydd	1	0.6
Rheolwr/gofalwr/cefnogwr bugeiliol	3	1.9
Arall	10	6.4
Cyfanswm	158	100

Ffynhonnell: Arolwg ffôn y pennaeth/athro cyswllt

2.8. Arolwg ymysg Arweinwyr Awdurdodau Lleol

Mae arweinwyr a rheolwyr gwasanaeth awdurdodau lleol ar gyfer y gwasanaeth cwnsela yn grŵp o randdeiliaid pwysig, ac nid yw eu barn ar y strategaeth cwnsela mewn ysgolion wedi ei gasglu unrhyw le arall yn y gwerthusiad. Felly, dyfeisiwyd holiadur ar bapur i gasglu gwybodaeth ar farn a chanfyddiadau Arweinwyr Awdurdodau Lleol (a, ble nad oeddynt ar gael, rheolwyr gwasanaeth) am y Strategaeth. Gallai hyn hefyd hwyluso cymhariaeth yn erbyn y grwpiau eraill fu'n cymryd rhan yn yr arolwg (gweler Atodiad 7). Mae'r holiadur yn deillio o'r rhai a ddefnyddir ymysg cwnselwyr mewn ysgolion ac athrawon cyswllt, ac yn debyg, maent yn cynnwys pum maes holi: manylion am y gwasanaethau cwnsela; barn ar gwnsela mewn ysgolion; perthynas gyda gwasanaethau eraill; cryfderau a gwendidau'r strategaeth; ac argymhellion ar gyfer y dyfodol.

Rhannwyd yr holiadur mewn cyfarfod wyneb yn wyneb o Arweinwyr a rheolwyr gwasanaeth Awdurdodau Lleol fis Tachwedd 2010. Roedd y rheiny nad oedd yn mynychu'r cyfarfod wedi derbyn fersiynau electronig o'r holiadur. Cynhaliwyd peilot o'r arolwg yma

gyda dau arweinydd ALI; a chafodd y rhain eu cynnwys yn y sampl gan na fu unrhyw newidiadau i'r holiadur yn dilyn y cynllun peilot.

Cwblhawyd a dychwelwyd cyfanswm o 25 holiadur i'r Tîm Gwerthuso, gan roi cyfradd ymateb o 83%. O'r ymatebwyr, roedd 52% yn Arweinwyr ALI ar y strategaeth cwnsela mewn ysgolion, nododd 40% mai rheolwr gwasanaeth oedd eu rôl, a nodwyd gan 8% eu bod mewn rôl 'arall'.

2.9. Astudiaethau Achos

Cynhaliwyd cyfweiliadau gyda staff yr ysgol, rhieni, defnyddwyr gwasanaeth (h.y. myfyrwyr sydd wedi mynychu cwnsela) a grwpiau ffocws o fyfyrwyr mewn pedair ysgol uwchradd (Tabl 3). Roedd pob grŵp ffocws o fyfyrwyr un ai'n gyngor myfyrwyr yr ysgol neu'n grŵp o fyfyrwyr gyda gallu cymysg,²⁷ ac ni chafodd defnyddwyr gwasanaeth presennol na rhai blaenorol eu heithrio o'r grwpiau ffocws o fyfyrwyr. Cysylltwyd â'r ysgolion drwy lythyr yn gyntaf a derbyniwyd caniatâd y prifathro i gynnal cyfweiliadau. Darparwyd llythyron i'r holl gyfranogwyr ynglŷn â natur y cyfweiliadau a gwnaethant gytuno i gymryd rhan. Mae cynnwys y cyfweiliadau'n parhau i fod yn gyfrinachol, ac fe'i diogelwyd gan ddefnyddio dyfeisiau storio data wedi'u hamgryptio. Mae'r holl ddata'n anhysbys ac wedi'i storio ar wahân i'r ffurflenni caniatâd.

Tabl 3. Nifer o gyfweiliadau unigol a grŵp ffocws yn ôl ysgol astudiaeth achos

	Ysgol 1	Ysgol 2	Ysgol 3	Ysgol 4	Cyfanswm
Staff ysgolion	4	3	6	6	19
Rhieni	3	2	4	1	10
Defnyddwyr gwasanaeth	4	6	5	5	20
Myfyrwyr: grwpiau ffocws	2 grŵp	1 grŵp	2 grŵp	2 grŵp	7 grŵp

Ffynhonnell: Astudiaethau Achos

Dewiswyd yr ysgolion i sicrhau amrywiad ar rai dimensiynau allweddol (Tabl 4) ond gellir eu hystyried orau fel astudiaethau achos unigol, gan nad ydynt o reidrwydd yn cynrychioli ysgolion uwchradd yng Nghymru.

²⁷ Mae 'grŵp gallu cymysg' yn cyfeirio at grŵp o fyfyrwyr a ddewiswyd yn benodol gan staff yr ysgol i gynrychioli ystod o allu. Dewiswyd y grŵp hwn yn ogystal â'r cyngor myfyrwyr, gan na fyddai'r cyngor myfyrwyr o reidrwydd yn cynrychioli'r corff myfyrwyr.

Tabl 4. Nodweddion ysgolion astudiaeth achos

	Ardal Ddaearyddol	Trefol/gwledig	Y cyfrwng iaith	Ffydd/heb ffydd
Ysgol 1	Gogledd Cymru	gwledig	Cymraeg	heb ffydd
Ysgol 2	Gogledd Cymru	trefol	Saesneg	ffydd
Ysgol 3	De Cymru	trefol/gwledig	Saesneg	heb ffydd
Ysgol 4	De Cymru	gweddol wledig	Saesneg	heb ffydd

Ffynhonnell: Astudiaethau Achos

Datblygwyd cwestiynau cyfweiliad ar gyfer pob grŵp i gasglu gwybodaeth ar fodlondeb, ymwybyddiaeth, cryfderau a gwendidau, effaith (ar gyrhaeddiad a gallu i ddysgu), cyfraniad i bolisiau eraill (e.e. ysgolion iachus), hygyrchedd, ac atgyfeiriad. Gellir gweld atodlen cyfweiliadau yn Atodiadau 8 i 11.

Roedd y data cyfweiliad yn amodol ar ddadansoddiad systematig o'r cynnwys. Cafodd atebion eu categorioeddio fesul cwestiwn a'u trefnu'n dablau cryno fesul cwestiwn a fesul grŵp ymateb. Tynnwyd y themâu at ei gilydd ac fe'u cyflwynir ar ffurf draethiadol.

Cwblhawyd y dadansoddiad o'r data gan ddau ddadansoddwr, yn gweithio'n annibynnol, er mwyn ehangu dilysrwydd drwy driongli. I gychwyn, gweithiodd y ddau ddadansoddwr gyda'i gilydd i sicrhau proses safonedig wrth ddadansoddi cyfweiliadau gan bob grŵp o gyfranogwyr. Cafodd y dadansoddiad data ei groesgyfeirio rhwng y dadansoddwyr ar wahanol gyfnodau yn ystod y broses dadansoddi. Ac wrth gwblhau'r dadansoddiad o'r rhan gyntaf cynhaliwyd triongli pellach o bob grŵp o gyfranogwyr. Ni chafwyd gwahaniaethau sylweddol rhwng canfyddiadau'r ddau ddadansoddwr, gan felly roi hyder yng nghadernid y broses dadansoddi.

Cyflwynir data mewn tri rhan:

- crynodebau o astudiaethau achos anhysbys gan bob ysgol fu'n cymryd rhan
- atebion traethiadol i'r cwestiynau allweddol a gyfeiriwyd atynt yn yr astudiaeth gwerthuso
- crynodeb o'r pwyntiau allweddol.

Caiff y canfyddiadau eu hesbonio gyda dyfyniadau gan gyfranogwyr o'r astudiaethau achos.

3. Adolygiad o Ddeunyddiau

Beth a wyddom, hyd yn hyn, am gwnsela mewn ysgolion yn y DU? I gynnig cyd-destun a chyfres o feini prawf ar gyfer y gwerthusiad presennol, mae'r bennod hon yn gwerthuso'r hyn a wyddom, hyd yn hyn, am gwnsela mewn ysgolion yn y DU. Mae'r canfyddiadau ar gyfer y rhannau cychwynnol yn deillio o adolygiad a gwblhawyd yn 2009 o'r holl ddata archwilio a gwerthuso sydd ar gael am wasanaethau cwnsela mewn ysgolion uwchradd yn y DU (Cooper, 2009). Mae hwn yn cwmpasu data gan oddeutu 10,830 o gleientiaid o 30 cyfres ddata archwilio a/neu werthuso.

Adolygiad o Ddeunyddiau: Canfyddiadau Allweddol

- Mae pobl ifanc sy'n defnyddio gwasanaethau cwnsela mewn ysgolion yn y DU yn cael eu cyfeirio fel arfer gan staff bugeiliol yr ysgol
- Y problemau mwyaf cyffredin sy'n cael eu cyflwyno yw problemau gyda theulu; ac wedyn dicter, anawsterau'n ymwneud â'r ysgol a phrofedigaeth
- Mae lefelau trallod cychwynnol y bobl ifanc wrth ddefnyddio gwasanaethau cwnsela mewn ysgolion yn debyg i'r rheiny a gofnodir yn y Gwasanaethau Iechyd Meddwl Plant a'r Glasoed (CAMHS)
- Ar gyfartaledd, mae oddeutu 60% o gleientiaid cwnsela mewn ysgolion yn ferched ac, yn nodweddiadol, o flynyddoedd canol yr ysgol
- Mae cleientiaid yn mynychu am gyfartaledd o oddeutu chwe sesiwn, gyda chyfraddau presenoldeb o oddeutu 80%
- Mae cwnsela mewn ysgolion yn gysylltiedig â gostyngiadau mawr ac arwyddocaol mewn trallod seicolegol
- Mae cwnsela mewn ysgolion wedi'i sgorio'n bositif yn gyson gan ystod o grwpiau rhanddeiliaid ac yn cael ei ystyried yn fath o ymyrraeth gynnar hawdd ei gyrraedd, nad yw'n creu stigma
- Mae'r dystiolaeth am y broses neu ganlyniadau cwnsela mewn ysgolion cynradd yn gyfyngedig.

3.1. Data Cleientiaid

3.1.1. *Data ar sesiynau a chyfnodau.*

Ar sail adolygiad o 30 astudiaeth archwilio a gwerthuso canfu Cooper (2009) bod cleientiaid cwnsela mewn ysgolion, ar draws y DU, wedi mynychu am gyfartaledd o 6.35 sesiwn. Fodd bynnag, mae'r mwyafrif wedi mynychu am lai na'r nifer yma, gyda'r cyfartaledd cyffredinol wedi'i wthio i fyny gan nifer fechan sy'n cael deg sesiwn neu fwy. Y gyfradd fynychu gymedrig oedd 81.2%.

3.1.2. *Ffynhonnell cyfeirio.*

Roedd y cleientiaid bron i dair gwaith yn fwy tebygol o gael eu cyfeirio gan athrawon arweiniad/gofal bugeiliol nag unrhyw ffynhonnell arall, megis y rhieni neu ganddynt eu hunain. Roedd athrawon arweiniad/gofal bugeiliol yn gysylltiedig ag oddeutu dwy ran o dair o'r holl atgyfeiriadau. Mae hyn yn cymharu ag oddeutu 30% o ran 'athrawon eraill' neu 'athrawon' yn gyffredinol. Mewn oddeutu 20% o achosion, roedd cleientiaid wedi dod i'r cwnsela'n rhannol, neu'n gyfan gwbl drwy hunangyfeirio; gyda rhieni'n ymwneud ag oddeutu 5% o atgyfeiriadau.²⁸

3.1.3. *Rhyw.*

Y gymhareb gyfartalog gymedrig, ymhob un o'r 30 astudiaeth, o gleientiaid benyw i gleientiaid gwryw oedd 56.3% i 43.7%. Mewn 87% o'r astudiaethau, daeth mwy o ferched i'r gwasanaeth na dynion.

3.1.4. *Oedran a blwyddyn ysgol.*

Oedran cymedrig y cleientiaid oedd 13.86. Yr oedran mwyaf cyffredin²⁹ i gleientiaid ar draws yr astudiaethau hyn oedd 14. Y flwyddyn ysgol foddol fwyaf cyffredin ar gyfer ysgolion y DU (heblaw'r Alban, sydd â system blwyddyn ysgol wahanol) oedd Blwyddyn 9.

3.1.5. *Ethnigrwydd.*

Dim ond mewn nifer fechan o astudiaethau yr oedd data am gefndir ethnig cleientiaid ar gael. Roedd hyn yn arwydd bod 3.02% o gleientiaid ar gyfartaledd o gefndiroedd Du neu Leiafrifoedd Ethnig (BME) ($SD = 1.43$). Roedd un astudiaeth oedd yn cymharu'r gyfran o gleientiaid BME yn erbyn canrannau o bobl ifanc BME ar draws yr ysgolion cyfan, wedi canfod bod pobl ifanc BME wedi'u tan-gynrychioli ymysg y rheiny sy'n mynychu cwnsela.

²⁸ Mae'r cyfanswm yn uwch na 100% gan fod rhai cleientiaid wedi cael mwy nag un ffynhonnell gyfeirio.

²⁹ Dyma'r 'moddol' amledd neu'r 'modd'. Yr ymateb mwyaf cyffredin.

3.1.6. Problemau a gyflwynwyd ac a ddatblygodd.

Y broblem fwyaf cyffredin a gyflwynwyd oedd problemau gyda'r teulu, oedd yn dod i'r amlwg ddwywaith mor aml ag unrhyw broblem arall. Yn dilyn hyn roedd problemau dicter, ysgol/academaidd, 'ymddygiad' (gan gynnwys troseddu) a pherthnasoedd yn gyffredinol / problemau yn ymwneud â pherthnasau nad ydynt yn ymwneud â'r teulu. Roedd dynion yn llawer mwy tebygol o ddod i sesiwn gyda phroblemau dicter ac roedd merched yn llawer mwy tebygol o gyflwyno problemau hunan-niweidio. Nid oedd y problemau a drafodwyd yn ystod y sesiwn gwnsela'n gwahaniaethu'n sylweddol i'r rheiny a gyflwynwyd ar y dechrau.

3.1.7. Difrifoldeb y problemau.

Ar gyfartaledd, daeth pobl ifanc i'r gwasanaethau cwnsela mewn ysgolion gyda lefelau o drallod seicolegol oedd yn debyg i'r rheiny oedd gan bobl ifanc sy'n defnyddio'r Gwasanaethau Iechyd Meddwl Plant a'r Glasoed (CAMHS).³⁰ Roedd oddeutu trydedd ran o bobl ifanc, ar ddechrau'r cwnsela, yn dioddef lefelau *annormal* o anawsterau seicolegol (fel y maent wedi'u diffinio gan sgôr o 20 neu fwy ar raddfa Cyfanswm Anawsterau'r SDQ), gyda thrydedd ran bellach ar lefel *ffiniol* o anawsterau (sgôr Cyfanswm Anawsterau o 16 i 19).

3.1.8. Nodweddion demograffig eraill.

O astudiaethau archwilio a gwerthuso blaenorol o gwnsela mewn ysgolion (gweler Cooper 2009), ychydig iawn o wybodaeth sydd ar gael am y nodweddion cleientiaid a ganlyn: rhywioldeb, crefydd, anghenion addysgol arbennig, anabledau ac a yw pobl ifanc yn derbyn gofal neu beidio. Felly mae'r gwerthusiad presennol yn archwilio'r nodweddion hyn am y tro cyntaf. Yn ogystal, dyma'r astudiaeth gwerthuso cyntaf sy'n darparu archwiliad manwl o atgyfeiriadau ymlaen at wasanaethau eraill; ac yn ystyried costau sesiynau.

3.2. Canlyniadau Therapiwtig

Yn yr adolygiad mwyaf diweddar o astudiaethau rhyngwladol o effeithiolrwydd seicotherapi mewn ysgolion,³¹ canfu Baskin a chydweithwyr (Baskin et al., 2010) bod yr ymyriadau hyn yn dod â gwelliannau sylweddol mewn lles, gydag effaith gymhedrol ar y cyfan.³² Fodd bynnag, roedd yr ymyriadau a adolygwyd gan Baskin et al o natur wybyddol-ymddygiadol

30 Sgôr Cyfanswm Anawsterau SDQ cyfartalog ar gyfer pobl ifanc sy'n mynychu cwnsela oedd 16.87. Mae hyn yn cymharu â chymedrig o 10.3 ar gyfer poblogaeth anghlinigol (SDQ, 2009); a chymedrig ar gyfer poblogaeth glinigol (o glinig iechyd meddwl plant a'r glasgoed [CAMHS] ger Llundain) o 18.6 (Goodman, Meltzer a Bailey, 1998).

31 Defnyddir y termau 'cwnsela' a 'seicotherapi' yma'n ymgynwidiol.

32 Y gwahaniaeth cymedr safonedig (d Cohen) rhwng grwpiau ymyriadau a grwpiau safonol oedd 0.45 (cyfwng hyder o 95%: 0.37 – 0.53). Mae'r maint effaith canolog tuag at ben isaf y meintiau effaith cyffredinol a welir mewn dadansoddiadau-meta o ymyriadau therapiwtig ar gyfer plant a phobl ifanc sydd yn yr ystod o 0.45 i 0.7 (Kazdin 2004; Weisz, Weiss, Han, Granger a Morton, 1995).

(CBT) yn bennaf: teulu o ymyriadau therapiwtig cyfeiriol a gweddol strwythuredig sy'n amcannu i gynhyrchu newid drwy ddylanwadu'n uniongyrchol ar feddwl neu weithredoedd cleientiaid. Mae hyn yn cyferbynu gyda gogwydd mwy dyneiddiol neu integreiddiol cwnselwyr yn y gwerthusiad presennol (gwelwch Dabl 1, t. 33), lle mae arferion yn tueddu bod yn llai cyfeiriol, ac yn gogwyddo fwy tuag at ddarparu amgylchedd cefnogol lle gall cleientiaid archwilio eu profiadau, eu teimladau a'u meddyliau yn eu ffyrdd eu hunain.

Daw canfyddiadau mwy perthnasol o adolygiad Cooper (2009) o ganlyniadau cwnsela yn ysgolion uwchradd y DU. Ar draws yr 16 o'r 30 o gyfresi data cwnsela mewn ysgolion y gellid sefydlu canlyniadau ar eu cyfer (Cooper, 2009), cysylltwyd cwnsela â gostyngiadau sylweddol mewn lefelau o drallod seicolegol. *Maint effaith*³³ cymedrig oedd 0.81,³⁴ sy'n dangos bod cleientiaid yn profi gostyngiadau *mawr* mewn trallod seicolegol rhwng dechreuad a diwedd y cwnsela.

Roedd canlyniadau cwnsela mewn ysgolion yn annibynnol ar ogwydd y gwasanaethau cwnsela, oedran cymedrig cyfranogwyr, nifer cymedrig y sesiynau a gynigwyd/ fynychwyd, neu'r canran o gyfranogwyr benywaidd/gwrywaidd. Fodd bynnag, dylanwadodd dau ffactor ar faint y newid a welwyd yn y cyfresi data. Yn gyntaf, roedd maint effaith yn fwy i astudiaethau oedd yn defnyddio'r teulu *YP-CORE* o fesurau o'u cymharu gyda'r Holiadur Cryfderau ac Anawsterau (SDQ) (gweler Dulliau, t. 26). Yn ail, roedd maint effaith yn fwy i astudiaethau oedd â chyfraddau ymateb is – gan awgrymu bod lefelau gwelliant is gan y cleientiaid oedd heb lenwi ffurflenni pwynt terfyn efallai.

Ar draws y chwe astudiaeth lle'r oedd data ar gael, roedd trothwyon clinigol SDQ yn dangos, o'r waelodlin i'r pwynt terfyn, bod cyfartaledd o 45.7% o gleientiaid wedi symud o lefelau annormal neu ffiniol o Gyfanswm Anawsterau i lefelau 'normal'.

Er bod adolygiad Cooper (2009) wedi canfod bod cwnsela mewn ysgolion yn *gysylltiedig* â gostyngiadau mewn trallod seicolegol, ni ellir casglu o hyn ei fod yn *achosi'r* gostyngiadau yma. Y rheswm am hyn yw y gallai bod ffactorau eraill, dros amser, wedi bod yn gyfrifol am y gostyngiadau mewn trallod seicolegol: er enghraifft, aeddfedu neu welliannau cyffredinol yn dilyn cyfnod o anawsterau. Am y rheswm yma, i ganfod yn llawn a yw cwnsela mewn ysgolion yn arwain at ostyngiadau mewn trallod seicolegol, mae'n rhaid cymharu newidiadau mewn grŵp o bobl ifanc sy'n derbyn cwnsela mewn ysgol gyda grŵp cyfatebol o bobl ifanc nad ydynt yn derbyn cwnsela mewn ysgolion. Gelwir astudiaeth o'r

33 Maint effaith yw teulu o ystadegau a ddefnyddir o fewn y gwyddorau cymdeithasol i ddangos maint effaith. Ar gyfer astudiaeth Cooper (2009), fel gyda'r astudiaeth bresennol, yr ystadegyn maint effaith penodol a ddefnyddiwyd oedd 'sgôr cynnydd cymedr safonnedig' (Lipsey a Wilson, 2001), yn debyg i d Cohen, sef y gwahaniaeth rhwng sgorau cwnsela gwaelodlin a phwynt terfyn wedi'u rhannu gan daeniad y sgorau (y gwyrriad safonol). O fewn y gwyddorau cymdeithasol, ystyrir d Cohen o 0.2 yn fach, 0.5 yn ganolig ac 0.8 yn fawr (0.2 = bach, 0.5 = canolig, 0.8 = mawr, Cohen 1988).

34 Maint effaith pwysol (h.y. cymryd maint a dibynadwyedd y sampl o bob set data i ystyriaeth); cyfwng hyder o 95%: 0.76 - 0.86. Y maint effaith cymedr amhwysol oedd 1.00.

fath yn *hap-dreial wedi'i reoli* (RCT).

Ychydig iawn o dystiolaeth RCT sydd ar gael ar hyn o bryd i gefnogi'r arfer o gwnsela mewn ysgolion, fel y mae wedi'i arfer yn gyffredinol yn y DU. Fodd bynnag, mae dwy astudiaeth raddfa fechan ddiweddar (Cooper et al., 2010; McArthur, Cooper a Berdondini, 2011) wedi awgrymu y gallai pobl ifanc sy'n mynd i gwnsela weld mwy o ostyngiad yn eu lefelau trallod seicolegol na'r rheiny sy'n cael eu rhoi ar gyflwr rhestr aros. Ar y mesur YP-CORE, maint effaith cyfun³⁵ ar gyfer cwnsela yn erbyn rhestr aros oedd 0.51 yn chwe wythnos, a 1.17 yn 12 wythnos. Ar y mesur SDQ, maint effaith ar gyfer cwnsela yn erbyn y rhestr aros oedd 0.42 ar y pwynt chwe wythnos a 0.79 ar y pwynt 12 wythnos. Roedd y gwahaniaethau yn y ddau fesur ar y pwynt 12 wythnos yn dangos bod pobl ifanc mewn cwnsela wedi gwella llawer mwy na'r rheiny oedd ar restr aros.


Mae data o'r amodau rhestr aros yn yr astudiaethau yma hefyd yn darparu rhywfaint o feincnodau cychwynnol ar gyfer y mathau o newidiadau mewn trallod seicolegol y gellid ei ddisgwyl gan bobl ifanc sy'n nodweddiadol o'r rheiny sy'n mynychu cwnsela, ond *nad ydynt* yn derbyn yr ymyriad yma. Mae hyn wedi'i gyflwyno fel y llinell doredig yn Ffigur 1, sy'n dangos y gostyngiadau cyfartalog mewn trallod seicolegol, fel y maent wedi'u mesur gan yr YP-CORE, a brofwyd gan bobl ifanc ar draws rhestr aros chwe wythnos yn y ddau hap-dreial wedi'u rheoli (RCT) uchod (Cooper et al., 2010; McArthur et al., 2011). Yna gellir cymharu hyn gyda'r newidiadau mewn trallod seicolegol y mae cleientiaid cwnsela'n ei brofi; ac mae'r linell ddu solid yn Ffigur 1 yn cyflwyno sgorau YP-CORE gwaelodlin a phwynt terfyn cyfartalog o oddeutu 2,000 o gleientiaid yn adolygiad Cooper (2009). Er nad yw'r ddau grŵp yma'n uniongyrchol gyfatebol,³⁶ ac nad yw'r amodau rhestr aros yn gyfatebol â dim cwnsela o gwbl,³⁷ mae'r ffigur yma'n awgrymu y gallai pobl ifanc sy'n cymryd rhan mewn cwnsela weld mwy o ostyngiad mewn trallod seicolegol na grŵp o bobl ifanc gyda'r un maint o drallod nad ydynt yn ei dderbyn.

³⁵ Gwahaniaeth safonol mewn cymedrau.

³⁶ Meini prawf cynhwysiad ar gyfer cyfranogwyr hap-dreial wedi'i reoli (RCT), er enghraifft, oedd bod ganddyn nhw lefelau cymharol uchel o symptomau emosiynol neu uwch, yn ôl mesur SDQ.

³⁷ Er enghraifft, mae'n bosibl bod y cyfweliadau asesu wedi cael effaith gwella ynddyn nhw eu hunain.

Ffigur 1. Newidiadau yn y sgorau YP-CORE i gyfranogwyr mewn cwnsela a rhestr aros



Ffynhonnell: Cooper et al., 2010; McArthur et al., 2011

3.3. Profiad y Cleient

Ar draws deg astudiaeth ac oddeutu 370 o gleientiaid (Cooper, 2009), roedd wyth allan o ddeg o ymatebwyr, ar gyfartaledd, yn sgorio cwnsela mewn ysgolion yn *weddol ddefnyddiol* neu'n *ddefnyddiol iawn*. Dywedodd ychydig o dan 3% o gleientiaid, ar gyfartaledd, nad oedd y cwnsela'n *ddefnyddiol o gwbl*.

Ar yr un trywydd, mewn wyth astudiaeth yr oedd data ar gael amdanynt, dywedodd oddeutu 50% o gleientiaid eu bod yn *hynod fodlon* gyda'r cwnsela a gawsent, a dywedodd 40% pellach eu bod yn *fodlon*. Dim ond oddeutu 1% ar gyfartaledd, a ddywedodd eu bod yn *anfodlon* neu'n *anfodlon iawn*.

Roedd yr ymateb hynod bositif yma'n amlwg hefyd yn nisgrifiadau ansoddol cleientiaid o'r profiad o gwnsela. Er enghraifft: 'Mae wir wedi fy helpu. Hwn ... hwn yw'r peth gorau rwyf wedi'i wneud erioed.'; 'Mae'r gwasanaeth yn wych. Rwy'n falch i mi gytuno mynd i gwnsela. Mae wedi bod o help mawr.'

3.3.1. Prosesau defnyddiol.

Yn nhermau yr hyn ydoedd am gwnsela mewn ysgolion oedd yn brofiad defnyddiol, roedd data o 371 o gyfnodau o gwnsela (Cooper, 2009) yn dangos mai'r ffactor a sgoriodd uchaf gan gleientiaid yn gyffredinol fel yr un a gyfrannodd fwyaf at gymorth y cwnsela oedd 'Siarad gyda rhywun fyddai'n gwrandao', gyda sgôr cymedrig o 2.56 ar raddfa 4-pwynt (0 =

Ddim o gwbl, 1 = Ychydig, 2 = Dipyn go lew, 3 = Llawer). Dilynwyd hyn gan 'Rhannu problemau gydag eraill'

($M = 2.39$) a 'Chyfrinachedd' ($M = 2.38$); gydag awgrym a chynghor hefyd wedi'i sgorio, ar gyfartaledd, yn weddol ddefnyddiol ($M = 2.02$).

Ar draws 13 o astudiaethau (Cooper, 2009), rhoddwyd y cyfle i gleientiaid – drwy holiaduron neu/a chyfweliadau ar ôl cwnsela – roi atebion penagored i'r cwestiwn: Pam feddylwch chi fod cwnsela'n ddefnyddiol? Eto, y ffactor defnyddiol a enwyd amlaf oedd 'siarad gyda rhywun a chael rhywun yn gwrando', gydag oddeutu 20% o ymatebwyr, ar gyfartaledd, yn rhoi'r ymateb yma – mwy na thair gwaith yn amlach nag unrhyw ffactor defnyddiol arall. Ffactorau defnyddiol eraill, gan gychwyn gyda'r un a gafwyd amlaf a symud i lawr i'r atebion lleiaf poblogaidd, oedd: rhannu problemau gydag eraill, datrys problemau, arweiniad gan y cwnselydd, mewnwelediad, cyfrinachedd, annibyniaeth y cwnselydd, teimlo bod pobl yn eich deall, a theimlo bod pobl yn eich derbyn.

3.3.2. Ffactorau nad ydynt o gymorth.

Yn nhermau gwendidau a welwyd, cyfyngiadau neu feysydd i'w gwella mewn cwnsela mewn ysgolion, ychydig iawn o broblemau a welwyd (Cooper, 2009), gyda llawer o gyfranogwyr yn dweud nad oes unrhyw ffactorau sydd ddim o gymorth. Mewn cyfres ddata o Ddwyrain Renfrewshire, er enghraifft, dim ond 3 allan o 90 o ymatebwyr a nododd feysydd penodol o anfonlonrwydd/meysydd sydd angen eu gwella (3.33%). Fodd bynnag, ar draws wyth astudiaeth, mae pum ffactor wedi ymddangos mewn mwy nag un gyfres ddata. Dyma nhw gan gychwyn gyda'r amlycaf: dylai'r cwnselydd fod ar gael fwy, dylai'r cwnselydd fod yn fwy gweithgar/wneud mwy, dylai'r gwasanaeth cwnsela gael ei hysbysebu'n well, ni ddylid torri cyfrinachedd, ac roedd hi'n rhy boenus i mi agor fy nghalon.

3.4. Agweddau rhanddeiliaid

Ynghyd â'i gleientiaid, mae gan gwnsela mewn ysgolion amrywiaeth eang o randdeiliaid – gan gynnwys athrawon, rhieni, disgyblion ysgol, penaeithiaid ac Arweinwyr Awdurdodau Lleol – y gallai eu hagweddau hwy fod yn integral i'w lwyddiant. Ychydig a wyddom, fodd bynnag, am gredoau ac agweddau nifer o'r grwpiau hyn tuag at gwnsela mewn ysgolion, gyda gwaith ymchwil wedi'i ganolbwyntio'n bennaf ar farn athrawon a disgyblion.

3.4.1. Athrawon.

Defnyddioldeb cyffredinol.

Mae gwaith ymchwil blaenorol wedi dangos bod athrawon ysgol yn gyffredinol bositif yn eu

hagweddau tuag at wasanaethau cwnsela mewn ysgolion (Cooper et al., 2005), er bod gan isafswm bychan o athrawon farn negyddol neu amheuon cryfion. (Montgomery, 2003). Fodd bynnag, mae agweddau negyddol yn tueddu bod amlycaf mewn ysgolion sydd heb wasanaeth cwnsela, gan awgrymu efallai bod agweddau negyddol tuag at wasanaethau cwnsela mewn ysgolion yn codi o ddiffyg dealltwriaeth o gwnsela mewn ysgolion (Lang, 1999). Pan ofynnwyd am eu barn, cyfeiriodd athrawon o ysgolion heb wasanaethau cwnsela at faterion yn ymwneud â phobl ifanc yn camddefnyddio'r gwasanaeth er mwyn colli gwersi, a bod stigma'n gysylltiedig â defnyddio gwasanaethau cwnsela mewn ysgolion (Baginsky, 2003; Fox & Butler, 2003). Mewn cymhariaeth, rhoddodd yr athrawon o ysgolion oedd â gwasanaethau cwnsela sgôr cymedrig o 7.47 allan o 10 i ba mor bwysig oedd y gwasanaeth cwnsela i'r ysgol (0 = *Ddim yn bwysig o gwbl*, 10 = *Hanfodol*) (Cooper et al., 2005). Pan ofynnwyd iddynt ddarparu gwybodaeth bellach am eu hagweddau, awgrymodd 13% o'r rheiny yn yr astudiaeth hon bod cwnsela mewn ysgolion yn adnodd angenrheidiol iawn. Fodd bynnag, roedd pryderon am y ffordd y byddai'r gwasanaeth yn gweithredu a'r berthynas rhwng gofal bugeiliol a'r gwasanaeth cwnsela.

Cryfderau.

Pan ofynnwyd i athrawon beth maent yn ei weld fel cryfderau gwasanaeth cwnsela mewn ysgolion, daeth y ffactorau dilynol i'r amlwg (Cooper, 2009), gan gychwyn gyda'r ateb mwyaf poblogaidd:

- *Annibyniaeth*: Niwtraliaeth y cwnselydd – rhywun arall heblaw'r athrawon neu'r rhieni y gall y person ifanc siarad â nhw
- *Cyfrinachedd*: Natur breifat y gwasanaeth cwnsela
- *Hygyrchedd*: Y gall pobl ifanc gael eu cyfeirio at y gwasanaeth cwnsela'n hawdd, ac heb oedi hir cyn cael eu gweld gan y cwnselydd
- *Arbenigedd*: Hyfforddiant arbenigol y cwnselydd mewn cwnsela (yn fwy na hyfforddiant staff gofal bugeiliol)
- *Amser*: Bod y cwnselydd, yn wahanol i athro gofal bugeiliol, yn gallu treulio cyfnodau hir o amser gyda pherson ifanc.

Gwendidau.

Yn nhermau'r gwendidau a welwyd, y cyfyngiadau neu'r meysydd sydd angen eu datblygu mewn gwasanaethau cwnsela mewn ysgolion, mae athrawon wedi nodi'r materion a ganlyn, unwaith eto gan gychwyn gyda'r ateb mwyaf poblogaidd (Cooper, 2009):

- *Mwy o argaeledd*: Dylid ymestyn y gwasanaeth cwnsela, gyda mwy o gwnselwyr a/neu am fwy o oriau bob wythnos
- *Mwy o hyrwyddo*: Dylid codi proffil ac ymwybyddiaeth pobl o'r gwasanaeth cwnsela mewn ysgolion
- *Gwella cyfathrebu*: Dylai cwnselwyr gyfathrebu'n fwy agored ac yn effeithiol gyda staff gofal bugeiliol: er enghraifft, mwy o adborth ynglŷn â sut mae pobl ifanc yn dod yn eu blaen
- *Amrywiaeth ehangach o weithgareddau*: Dylai cwnselwyr sefydlu gweithgareddau therapiwtig eraill yn ogystal â chwnsela un-i-un gyda phobl ifanc: er enghraifft grwpiau rheoli dicter a chwnsela i rieni.

3.4.2. Disgyblion.

Cymorth cyffredinol.

Yn yr un modd, cafwyd fod gan blant a phobl ifanc o boblogaeth ysgol gyfan (h.y. nid y rheiny sy'n derbyn cwnsela yn unig), farn bositif nodweddiadol am gwnsela mewn ysgolion (Fox & Butler, 2007; Cooper, 2004). Aeth Fox a Butler (2007) ati i arolygu barn 415 o ddisgyblion ysgol uwchradd mewn pum ysgol. Er gwaethaf y ffaith fod y mwyafrif o'r rheiny a gymerodd ran yn yr astudiaeth heb ddefnyddio gwasanaeth cwnsela eu hysgol, cafwyd bod lefelau uchel o ymwybyddiaeth am y gwasanaethau er bod hyn yn amrywio rhwng ysgolion. Yn ogystal, dywedodd y disgyblion y dylid cynyddu argaeledd cwnsela mewn ysgolion. I rai disgyblion roedd hyn yn ymwneud â chynyddu hygyrchedd, ac i eraill roedd yn ymwneud â chael dewis o gwnselwyr. Mewn arolwg ymysg 457 o ddisgyblion ar draws tair ysgol yn Glasgow lle rhoddodd y cyfranogwyr sgôr i bwysigrwydd cwnsela mewn ysgolion ($0 = Ddim yn bwysig o gwbl$, $10 = Hanfodol$), canfu Cooper sgôr cymedrig o 6.08 a sgôr canolrif o 7, gyda'r merched yn rhoi sgôr llawer uwch na'r bechgyn (cymedr y merched = 6.59, cymedr y bechgyn = 5.65). Roedd cysylltiad hefyd rhwng agwedd fwy positif a gwell ymwybyddiaeth o gwnsela ($r = 0.16$, $p < 0.01$), gwybodaeth am gwnsela ($r = 0.23$, $p < 0.01$), a pharodrwydd i ddefnyddio'r gwasanaeth ($r = 0.30$, $p < 0.01$). Ar draws yr 117 o bobl ifanc oedd wedi defnyddio'r gwasanaeth cwnsela, roedd y sgôr cymedrig am bwysigrwydd y gwasanaeth wedi cynyddu i 8.64, gyda sgôr cyfartalog o 9.

3.5. Cwnsela mewn ysgolion cynradd

Yn 2005, cofnodwyd bod gan 10% o blant 5-16 oed yn y DU anhwylder iechyd meddwl y gellir rhoi diagnosis iddo (Green et al., 2005), ac mae problemau emosiynol neu ymddygiad mewn plentynod wedi'u cysylltu â chynnydd yn y gyfradd o ddigwyddiadau negyddol

difrifol ac anawsterau ddau ddegawd yn ddiweddarach. (Champion, Goodall a Rutter, 1995). Mae llawer o'r deunydd gwybodaeth blaenorol am gwnsela mewn ysgolion wedi canolbwyntio ar blant oedran uwchradd, ond, gyda phlant mor ifanc â phump yn cael profiad o anawsterau emosiynol ac ymddygiadol, mae'n bwysig ystyried ymyriadau sy'n addas i blant oedran ysgol gynradd. Adroddodd Place2Be am effeithiolrwydd ymyriad therapiwtig mewn ysgolion cynradd (Lee, Tiley a White, 2009). Roedd yr ymyriad yn cynnwys cwnsela unigol yn para rhwng un tymor ysgol ac un flwyddyn ysgol. Roedd y cwnselwyr yn annog y plentyn i chwarae gyda theganau a deunyddiau creadigol a siarad pryd bynnag yr oeddent eisiau siarad am yr hyn oedd yn eu poeni. Derbyniodd rhai o'r plant yr ymyriad therapiwtig ar ffurf grŵp. Soniodd yr astudiaeth am ganlyniadau 1864 o blant yr oedd Holiaduron Cryfderau ac Anawsterau (SDQ) gwaelodlin a phwynt terfyn wedi'u cwblhau ar eu cyfer gan naill ai rieni neu athrawon. Roedd 63 y cant o blant yn dangos gwelliannau mewn Cyfanswm Anawsterau wedi'u sgorio gan athrawon (maint effaith (*d*): 'unigol' = 0.40, 'grŵp' = 0.28) a 68% mewn sgorau a roddwyd gan rieni (maint effaith: 'unigol' = 0.50, 'grŵp' = 0.30). Mae'r canlyniadau hyn yn awgrymu bod ymyriadau cwnsela a dargedwyd i blant ysgolion cynradd yn gallu bod yn effeithiol o ran gostwng trallod mewn plant ifanc.

3.6. Crynodeb

Mae'r deunydd ymchwil cyfredol am gwnsela mewn ysgolion yn y DU yn awgrymu bod pobl ifanc sy'n mynychu gwasanaethau fel arfer wedi'u cyfeirio gan staff dugeiliol yr ysgol a'r problemau a gyflwynir yn fwyaf cyffredin yw problemau gyda'r teulu; ac wedyn dicter, anawsterau'n ymwneud â'r ysgol a phrofedigaeth. Ar gyfartaledd, mae oddeutu 60% o gleientiaid cwnsela mewn ysgolion yn ferched ac, yn nodweddiadol, o flynyddoedd canol yr ysgol. Mae lefelau trallod cychwynnol y rheiny sy'n mynychu gwasanaethau cwnsela mewn ysgolion yn cyfateb yn fras â'r rheiny a gofnodwyd gan y Gwasanaethau Iechyd Meddwl Plant a'r Glasoed (CAMHS). Mae cleientiaid yn mynychu am gyfartaledd o oddeutu chwe sesiwn, gyda chyfraddau presenoldeb o oddeutu 80%. Mae gwasanaethau'n cael eu sgorio'n bositif yn gyson gan ystod o grwpiau rhanddeiliaid, sy'n cynnwys defnyddwyr y gwasanaeth, a'u hystyried yn ddulliau hawdd eu cyrraedd o ymyrryd yn gynnar heb achosi stigma. Mae'r ymyrru'n gysylltiedig â gostyngiadau mawr a sylweddol mewn trallod seicolegol. Yn wahanol i'r deunydd gwybodaeth am ysgolion uwchradd, mae'r dystiolaeth am ganlyniadau cwnsela mewn ysgolion cynradd yn gyfyngedig.

4. Canfyddiadau

Mae'r adran hon yn disgrifio canlyniadau'r amrywiol elfennau o gasglu data, pob un yn ei isadran ei hun. Caiff y canfyddiadau allweddol eu hamlygu mewn bocs ar gychwyn pob isadran i wneud yr wybodaeth yma'n hawdd i'w ganfod. I ddilyn wedyn mae trafodaeth draethiadol o'r canfyddiadau gyda thablau a ffigurau perthnasol yn ategol. Mae crynodeb fer ar ddiwedd pob isadran.

4.1. Ymchwil Ddesg

Ymchwil Ddesg: Canfyddiadau Allweddol

- Bu'r ysgolion yn frwdfrydig a chydweithredol wrth weithredu'r gwasanaethau cwnsela sydd ynghlwm i'r Strategaeth Gymreig
- Nodwyd rhai anawsterau'n recriwtio cwnselwyr Cymraeg eu hiaith
- Anogwyd hunangyfeiriad gan y mwyafrif o awdurdodau lleol (ALlau)
- Mae disgwyl bod cwnselwyr wedi cofrestru gyda chorff proffesiynol fel BACP
- Cafodd hyfforddiant a Datblygiad Proffesiynol Parhaus (DPP) ar gyfer cwnselwyr ei hyrwyddo gan bob ALI
- Roedd rhywfaint o amrywiaeth yn y modelau cyflenwi gwasanaethau ar draws yr ALlau ac yn y dulliau casglu data canlyniadau
- Mae datblygiadau'r dyfodol yn cynnwys ehangu gwasanaethau a gwella safonau ansawdd drwy brosesau achredu.

O ganlyniad i adolygu a dadansoddi llythyron grant, adroddiadau blynyddol, cynigion gwariant a chofnodion cyfarfodydd mewn perthynas â'r strategaeth cwnsela mewn ysgolion ar draws y 22 awdurdod lleol (ALI)³⁸ yng Nghymru, nodwyd y themâu canlynol.³⁹

1. Problemau wrth weithredu'r strategaeth
2. Enghreifftiau o arfer da
3. Modelau o ddarparu gwasanaeth.

4.1.1. Gweithredu.

Yn gyffredinol, bu'r broses o osod a gweithredu'r gwasanaethau'n llyfn ac fe'i cyflawnwyd

³⁸ Mae pob awdurdod lleol wedi cael ei rifoli i sicrhau eu bod yn anhysbys drwy gydol yr adroddiad.

³⁹ Darparwyd y dogfennau gofynnol gan y Cydlynnydd ar gyfer Cwnsela mewn Ysgolion (Sylvia Jones). Darparwyd dogfennau gan bob un o'r 22 awdurdod lleol.

mewn cyfnod byrrach ble roedd gwasanaethau eisoes yn bodoli ar ryw ffurf neu'i gilydd. Mewn rhai achosion, wrth sefydlu gwasanaethau o'r newydd, profodd awdurdodau lleol oedi ac anawsterau wrth weithredu oherwydd y prosesau comisiynu a chaffael.

Yn gyffredinol, bu'r ysgolion yn frwdfrydig a chydweithredol wrth weithredu a sefydlu'r gwasanaethau, ac ychydig iawn o broblemau a gofnodwyd.

Nodwyd rhai anawsterau mewn perthynas â'r nifer o gwnselwyr Cymraeg eu hiaith sydd ar gael, sydd o bosib yn amlygu anghenion hyfforddi. Ar hyn o bryd, er bod 21 o'r 128 o gwnselwyr mewn ysgolion yn siarad Cymraeg, nid yw'n golygu gallant ddarparu cwnsela drwy gyfrwng y Gymraeg gan fod hyn yn ddibynnol ar lefel eu rhuglder yn Gymraeg. Bu hefyd anawsterau gyda gweithio rhyngasiantaethol a gweithio ar y cyd mewn rhai o'r ardaloedd gwledig o achos y pellter yr oedd rhaid teithio, ond ar y cyfan, mae'r rhain wedi eu datrys.

Her arall fu datblygu gwasanaethau sy'n gynhwysol a hefyd yn sensitif i anghenion grwpiau amrywiol. Mae cynnig gwasanaethau i bobl ifanc mewn unedau cyfeirio disgyblion, ysgolion arbennig, a'r rheiny sy'n derbyn eu haddysg y tu allan i'r ysgol wedi codi nifer o faterion ynglŷn â hygyrchedd. Yn debyg, mae wedi bod yn bwysig darparu gwasanaethau sy'n sensitif i ddiwylliant pobl ifanc sy'n lesbiaid, hoyw, deurywiol, anabl a/neu o grwpiau lleiafrif ethnig. Mae enghreifftiau o arfer da yn cynnwys ALI 9, sy'n cynnig mynediad estynedig i ysgolion arbennig, Unedau Cyfeirio Disgyblion, y rheiny a addysgir y tu allan i'r ysgol, colegau Addysg Bellach, lleoliadau canol y ddinas ac yn y gymuned. Mae ALI 21 yn cynnig cwnsela i ysgolion prif ffrwd ac ysgolion arbennig, gan gynnwys i bobl ifanc gydag ymddygiad heriol ac anawsterau emosiynol. Mae'r gwasanaeth ar gael i bobl ifanc sy'n agored i niwed hyd at 25 mlwydd oed ac i'r rheiny sy'n gadael gofal. Mae enghreifftiau eraill o arfer da wrth ddarparu gwasanaeth allan o oriau ac yn ystod gwyliau ysgol, a hefyd gwasanaeth trafnidiaeth lle bo'n addas.

Ar draws yr ALlau mae ystod o ddarpariaethau cwnsela wedi'u sefydlu, megis therapi unigol, therapi mewn grŵp a chwnsela ar-lein drwy sefydliadau fel Kooth.⁴⁰ Mae'n ymddangos bod hyn yn cynrychioli ffyrdd hyblyg o weithio sydd wedi'u cynllunio'n ofalus.

4.1.2. Modelau cyflenwi gwasanaeth.

Mae ychydig o amrywioldeb yn y modelau cyflenwi gwasanaethau ar draws yr ALlau (Tabl 5) ond mae dau fodel arbennig yn dod i'r amlwg. Mae naw o'r gwasanaethau'n defnyddio *Model darpariaeth awdurdod lleol wedi'i ganoli / yn fewnol* ble mae'r gwasanaeth cwnsela yn cyflogi a darparu rheolaeth a goruchwyliaeth i'r cwnselwyr mewn ysgolion, ac maent hwy

⁴⁰ <https://www.kooth.com/index.php>

wedyn yn gweithio fel rhan integrol o dîm staff bob ysgol. Mae naw gwasanaeth hefyd yn defnyddio'r *Model rheoli yn unig* ble mae ysgolion yn cyflogi eu cwnselydd eu hunain ond cefnogir hyn gan wasanaeth rheoli sy'n cynghori a darparu cefnogaeth ymgynghorol. Mae'r gwasanaeth rheoli (sydd o bosib wedi'i leoli o fewn yr ALI neu o fewn asiantaeth arall, ond nid yn yr ysgol) yn parhau i gynnig cefnogaeth arbenigol gan gynnwys goruchwyliaeth, DPP a monitro. Gall ysgolion unigol gyflogi cwnselwyr ac mae gan y gwasanaeth rheoli cyflogwr gwahanol.

Tabl 5. Gwybodaeth ar fodelau cyflenwi gwasanaeth a ddefnyddir ar draws Cymru⁴¹

Model cyflenwi gwasanaeth	ALLau yn dilyn y model yma
Darpariaeth awdurdod lleol peripatetig wedi'i ganoli	3, 16, 20
Darpariaeth awdurdod lleol wedi'i ganoli/yn fewnol	2, 7, 8, 10, 11,15,19, 21, 22
Darpariaeth fewnol yn yr ysgol gan asiantaeth allanol	3, 16
Model clwstwr	7, 11
Model rheolaeth yn unig	1, 5, 6, 9, 12, 13, 14, 17,18

Ffynhonnell: Adroddiadau blynyddol a chynigion gwariant gan bob Awdurdod Lleol

4.1.3. Monitro canlyniadau.

Mae amrywiaeth sylweddol yn bodoli yn y dull o fonitro canlyniadau, sy'n golygu nad oes data canlyniadau unffurf ar gael yn gyffredinol. Gwnaeth un ALI adrodd anawsterau wrth bennu offer mesur sy'n asesu effeithiau cwnsela ar allu pobl ifanc i astudio a dysgu. Fodd bynnag mae'r mesurau YP-CORE ac SDQ Goodman wedi cael defnydd eang (gweler Dulliau, t. 26).

4.1.4. Hunangyfeiriad.

Mae ALLau wedi ceisio dod o hyd i gydbwysedd rhwng hunangyfeiriad a chyfeiriad gan rywun arall. Mae'n ymddangos y caiff hunangyfeiriad ei annog gan y mwyafrif o Awdurdodau Lleol.

4.1.5. Cwnselwyr.

Mae rhai ALLau wedi mynegi pryderon ynglŷn â strwythurau tâl a chadw cwnselwyr. Mae'n eglur bod ALLau yn disgwyl i bob cwnselydd fod wedi cofrestru gyda chorff proffesiynol megis BACP, a bod ganddynt y cymwysterau a'r profiad addas ar gyfer cwnsela ac i weithio gyda phobl ifanc. Caiff hyfforddiant a Datblygiad Proffesiynol Parhaus (DPP) ei annog gan bob Awdurdod Lleol; a thrwy bartneriaeth, mae ALLau 3 a 16 yn

41 Mae eglurhad o'r modelau gwasanaeth gwahanol ar gael yn Pattison et al., (2007).

ariannu diplomau cwnsela wedi'u hachredu gan BACP er mwyn sicrhau gweithlu gyda chymwysterau addas. Mae pob ALI yn cyfeirio at oruchwyliaeth barhaus i gwnselwyr, gydag ychydig amrywiad yn y modd caiff hwn ei weithredu. Ni chaiff yr holl oruchwyliaeth ei gyflawni gan oruchwylwyr cwnsela; mewn rhai achosion darperir goruchwyliaeth gan seicolegwyr addysg, gan Wasanaethau Iechyd Meddwl Plant a'r Glasoed (CAMHS), neu ffurfiau eraill o drefniadau goruchwyliaeth.

4.1.6. Datblygiadau'r dyfodol.

Mae'r broses o roi'r ddarpariaeth cwnsela ar waith y tu hwnt i addysg prif ffrwd ac i bobl ifanc mewn ysgolion arbennig, unedau cyfeirio disgyblion, ac mewn rhai achosion addysg gartref dewisol neu ddarpariaeth ysbyty, wedi'i fewnosod yn gadarn o fewn strategaethau'r ALLau ar gyfer y dyfodol agos. Rhagwelir caiff cwnsela mewn ysgolion ei integreiddio ymhellach i'r agenda iechyd a lles emosiynol ehangach, ac y caiff ei gefnogi gan waith grwpiau llywio aml asiantaeth.

Er mwyn lleihau'r rhestrau aros, mae gwasanaethau'n cael eu hehangu drwy gyflogi cwnselwyr ychwanegol (dynion, merched a siaradwyr Cymraeg) ac mae rhai ALLau'n bwriadu defnyddio cwnselwyr dan hyfforddiant o dro i dro. O ganlyniad, bydd mwy o oriau ar gael, ac mewn rhai achosion bydd hyn yn cynnwys oriau yn ystod gwyliau'r haf a thros gyfnod y Nadolig. Mae'r llwybrau cyfeirio'n cael eu cynyddu i gynnwys hunangyfeiriad a chyfleusterau galw i mewn. Mae hygyrchedd hefyd yn cael ei ehangu wrth roi cwnsela ar-lein ar waith.

Mae'r hyfforddiant sydd ar gael ar gyfer cwnselwyr a staff eraill ysgolion yn cael ei gynyddu, ac mewn rhai ALLau mae pob cwnselydd yn y broses o gael eu hachredu gyda'r BACP. Mae hefyd cynlluniau ar waith i achredu gwasanaethau gan y BACP ac i gynyddu'r nifer o oruchwylwyr clinigol. Mae'r dulliau o hyrwyddo gwasanaethau'n cael eu hehangu i gynyddu lefelau ymwybyddiaeth ac mae hefyd cynlluniau ar droed i ehangu faint o ymgynghori sy'n digwydd gyda phobl ifanc ar sut ddylid siapio'r gwasanaethau. Mae'r gwasanaethau hefyd yn cael eu hymestyn i ysgolion cynradd gyda ffocws arbennig ar ddisgyblion Blwyddyn 6 sydd ar fin trosglwyddo i'r ysgol uwchradd.

4.1.7. Crynodeb.

Mae ymchwil ddesg yn awgrymu bod amrywiad ym mha mor gyflym mae gwasanaethau wedi'u sefydlu, yn dibynnu a oedd gan yr ysgol wasanaeth cwnsela o'r blaen. Ar y cyfan, mae ysgolion wedi ymateb yn gadarnhaol a chyda brwdfrydedd i'r strategaeth gwnsela. Er bod rhai anawsterau'n lleol, ar y cyfan mae'r ALLau wedi mabwysiadu ymagwedd ragweithiol i ddatrys problemau. Bu enghreifftiau eang o arfer da gan gynnwys dulliau

mentrus o ddarparu gwasanaethau i grwpiau o bobl ifanc amrywiol eu diwylliant a'r rheiny sy'n anodd eu cyrraedd. Er bod y mwyafrif o awdurdodau lleol wedi datblygu systemau i fonitro'r canlyniadau mewn gwasanaethau cwnsela ysgolion, mae rhai anghysondebau wrth gasglu data canlyniadau fel mater o drefn. Sefydlwyd meini prawf eglur ar gyflogi cwnselwyr a sicrhau bod eu gwaith o safon uchel. Mae darpariaeth hyfforddiant o safon uchel hefyd o gymorth er mwyn sicrhau bod gweithlu cymwys ar gael. Mae'r amrywiaeth eang o ymyriadau sydd ar gael yn awgrymu bod sylw da wedi ei roi i ddarparu gwasanaethau sy'n sensitif i oedran gan sicrhau gall ddisgyblion ysgolion cynradd ac uwchradd gyrchu'r therapi addas. Mae datblygiadau'r dyfodol yn cynnwys ehangu'r gwasanaethau o fewn ysgolion uwchradd ac mewn lleoliadau eraill i gynyddu hygyrchedd. Mae safonau ansawdd yn cael eu hehangu drwy brosesau achredu a thrwy sicrhau bod cynnydd yn yr hyfforddiant a'r oruchwyliaeth addas sydd ar gael.

4.2. Data Cleientiaid a Chostau

Casglwyd data demograffig ar ddefnyddwyr gwasanaeth a'u defnydd o'r gwasanaethau cwnsela ar draws y cyfnod chwe thymor: Haf 2008-09 hyd Wanwyn 2010-11. Cofnodwyd data gan y cwnselydd yn dilyn pob pennod o gwnsela a'i gyflwyno i'r Awdurdodau Lleol i'w gasglu. Cyflwynwyd y data wedyn i gydlynnydd y Strategaeth, a'i yrru ymlaen i'r Tîm Gwerthuso i'w ddadansoddi. Yn ogystal, er mwyn archwilio'r tan-gynrychiolaeth neu'r gor-gynrychiolaeth o gleientiaid mewn rhai grwpiau penodol, cawsom ddata ar normau Cymreig o'r Cyfrifiad Ysgolion (2011) *Canlyniadau dros dro i Gymru*, a gyhoeddwyd gan Lywodraeth Cymru.⁴²

Data Cleientiaid a Chostau: Canfyddiadau Allweddol

- Roedd nodweddion demograffig cleientiaid fu'n mynychu gwasanaethau cwnsela mewn ysgolion yng Nghymru, a'u defnydd o'r gwasanaeth, yn debyg i gleientiaid eraill gwasanaethau cwnsela mewn ysgolion yn y DU:
 - Yn bennaf, cafodd cleientiaid eu cyfeirio gan staff ysgolion
 - Y nifer cyfartalog o sesiynau a fynychwyd fesul pennod oedd pedwar
 - Y gymhareb o gleientiaid gwryw – menyw oedd 38.2% i 61.8%
 - Ar y cyfan roedd disgyblion o flynyddoedd canol yr ysgol: blynyddoedd 9 a 10
 - Y materion mwyaf cyffredin a gyflwynwyd gan gleientiaid oedd problemau gyda theulu; ac wedyn dicter, problemau sy'n berthnasol i ymddygiad, bwlio a phrofedigaeth
 - Roedd lefelau cyfartalog o drallod ar y waelodlin yn debyg i'r rhai a gofnodwyd ar gyfer pobl ifanc oedd yn mynychu gwasanaethau CAMHS
- Roedd tan-gynrychiolaeth ymysg pobl ifanc o gefndir Du a Lleiafrifoedd Ethnig (BME), a'r rheiny gydag Anghenion Addysgol Arbennig (AAA) neu anableddau oedd yn defnyddio'r gwasanaethau cwnsela
- Cyflenwyd ychydig o dan 5% o benodau cwnsela i Blant sy'n Derbyn Gofal (LAC)
- Cafodd oddeutu 3% o bobl ifanc eu cyfeirio ymlaen i wasanaethau arbenigol CAMHS, 2.5% i wasanaethau amddiffyn plant a 3% i wasanaethau eraill
- Roedd cryn amrywiaeth mewn cost fesul sesiwn a chost fesul cleient rhwng Awdurdodau Lleol.

⁴² Cyfrifiad Ysgolion (2011) *Canlyniadau dros dro i Gymru*, Llywodraeth Cymru <http://wales.gov.uk/topics/statistics/headlines/schools2011/110706/?lang=cy>

4.2.1. Data ar sesiynau a phenodau.

I gyd, cafodd 11,043 pennod o gwnsela eu cyflenwi ar draws chwe thymor y rhaglen cwnsela, gyda dros 41,000 o sesiynau cwnsela wedi'u mynychu (Tabl 6). Mae hyn yn rhoi 3.7 sesiwn o gwnsela ar gyfartaledd ar gyfer pob pennod.

Cafodd bron i 3,500 o sesiynau cwnsela eu methu (ychydig dros 8% o'r sesiynau a gynigwyd), sy'n rhoi cyfradd mynychu o 92%.

Mewn 92% o achosion, roedd pobl ifanc yn mynychu cwnsela am eu pennod gyntaf. Roedd pobl ifanc yn mynychu am ail bennod mewn 4% o achosion, a thrydedd bennod mewn 1% o achosion, pedwaredd bennod mewn 2% o achosion, a phump neu fwy o benodau cwnsela mewn 1% o achosion.

Tabl 6. Nifer y sesiynau a fynychwyd ac a fethwyd bob yn dymor ysgol

Tymor	Nifer o sesiynau a fynychwyd	Nifer o sesiynau a fethwyd
Hydref 2009-10	5691	585
Gwanwyn 2010	5556	344
Haf 2010	10792	820
Hydref 2010-11	6925	625
Gwanwyn 2011	12174	1085
Cyfanswm	41138	3459

Ffynhonnell: Darparwyd data o ffurflenni cofnodi cleientiaid a roddwyd i'r Tîm Gwerthuso gan Lywodraeth Cymru

4.2.2. Ffynonellau cyfeirio.

Roedd ychydig dros chwarter y cyfeiriadau yn hunangyfeiriad. Fodd bynnag, fel mewn gwerthusiadau yn y gorffennol, staff yr ysgol oedd yn cyfeirio fwyaf (53% yn y gwerthusiad cyfredol), gyda dim ond cyfran fechan wedi'u cyfeirio gan rieni neu ofalwyr (7.9%).

Tabl 7. Dulliau cyfeirio ar gyfer disgyblion fu'n mynychu cwnsela mewn ysgolion

Dulliau cyfeirio	Canran ⁴³	Cyfanswm
Hunan	26.5%	2927
Rhieni	7.9%	873
Staff yr ysgol / addysg arall	52.9%	5842
Gwasanaethau Cymdeithasol	0.9%	96
Iechyd - Meddyg Teulu, ysbyty, nyrs yr ysgol ayyb	4.6%	507
Arall	2.7%	298
Anhysbys	4.5%	500

Ffynhonnell: Darparwyd data o ffurflenni cofnodi cleientiaid a roddwyd i'r Tîm Gwerthuso gan Lywodraeth Cymru

43 Mae'r ffigurau wedi eu talgrynnu i un lle degol felly ni fyddant yn gwneud cyfanswm o 100 bob tro.

4.2.3. *Rhyw.*

Cyflenwyd ychydig dros 60% o benodau cwnsela i ferched, gydag ychydig o dan 40% yn cael eu cyflenwi i ddynion (Tabl 8).

Tabl 8. Rhyw yn ôl y pennod o gwnsela

Rhyw	Canran	Cyfanswm
Gwryw	38.2	4220
Fenyw	61.8	6823

Ffynhonnell: Darparwyd data o ffurflenni cofnodi cleientiaid a roddwyd i'r Tîm Gwerthuso gan Lywodraeth Cymru

4.2.4. *Ethnigrwydd.*

Cafodd ychydig dros 97% o benodau cwnsela eu cyflenwi i bobl ifanc o gefndir ethnig Gwyn neu Wyn Prydeinig, cyflenwyd ychydig dros 1% i bobl ifanc o dras gymysg, gyda chynrychiolaeth o bob cefndir arall yn ychydig dros 1% (Tabl 9). O gymharu â chanrannau cyffredinol o bobl ifanc o wahanol gefndiroedd ethnig mewn ysgolion yng Nghymru, mae'n awgrymu bod pobl ifanc gwyn wedi'u gorgynrychioli ymysg y rheiny sy'n mynychu cwnsela, gyda than-gynrychiolaeth o bobl ifanc o bob cefndir ethnig arall. Yn wir, o'r bobl ifanc o gefndiroedd Asiaidd neu Asiaidd Brydeinig y byddai disgwyl iddynt fynychu'r gwasanaeth (petai cynrychiolaeth gyfartal o bob cefndir ethnig), dim ond chwarter o'r rhain wnaeth fynychu. Tra roedd y ffigur ar gyfer pobl ifanc o gefndiroedd Du neu Ddu Brydeinig yn 37.5%.

Tabl 9. Ethnigrwydd yn ôl y pennod o gwnsela

Ethnigrwydd	Canran	Cyfanswm	Normau Cymreig (%) ⁴⁴
Asiaidd neu Asiaidd Brydeinig	0.4	49	1.8
Du neu Ddu Brydeinig	0.3	32	0.8
Tsieiniaidd neu Tsieiniaidd Prydeinig	0.1	7	0.2
Hil gymysg	1.3	140	1.9
Gwyn neu Wyn Prydeinig	97.1	10724	93.3
Unrhyw gefndir ethnig arall	0.5	53	0.7
Anhysbys	0.3	38	1.4

Ffynhonnell: Darparwyd data o ffurflenni cofnodi cleientiaid a roddwyd i'r Tîm Gwerthuso gan Lywodraeth Cymru

4.2.5. *Blwyddyn ysgol.*

Fel mewn gwerthusiadau yn y gorffennol (Cooper, 2009), y bobl ifanc oedd yn defnyddio'r gwasanaeth cwnsela fwyaf aml oedd blynyddoedd canol yr ysgol (Blynyddoedd 8, 9 a 10),

44 Cyfrifiad Ysgolion (2011) *Canlyniadau dros dro i Gymru*, Llywodraeth Cymru <http://wales.gov.uk/topics/statistics/headlines/schools2011/110706/?lang=cy>

gyda chynrychiolaeth is o ddisgyblion hŷn ac iau (Tabl 10).

Tabl 10. Niferoedd o ddisgyblion ym mhob blwyddyn ysgol fu'n mynychu cwnsela mewn ysgolion

Blwyddyn ysgol	Canran	Cyfanswm
Blwyddyn 6	0.8	87
Blwyddyn 7	12.4	1367
Blwyddyn 8	17.7	1957
Blwyddyn 9	22.2	2452
Blwyddyn 10	20.8	2301
Blwyddyn 11	16.5	1818
Blwyddyn 12	4.7	523
Blwyddyn 13	3.4	378
Anhysbys	1.4	160

Ffynhonnell: Darparwyd data o ffurflenni cofnodi cleientiaid a roddwyd i'r Tîm Gwerthuso gan Lywodraeth Cymru

4.2.6. Cyfeiriadedd rhywiol.

Roedd gwybodaeth ar gyfeiriadedd rhywiol ar goll ar gyfer tua thraean o'r penodau cwnsela. I'r rheiny gyda gwybodaeth gyflawn, cofnodwyd dros 95% yn heterorywiol, gydag oddeutu 2% yn hoyw/lesbiad a 2% yn ddeurywiol. (Tabl 11).

Tabl 11. Cyfeiriadedd rhywiol y disgyblion fu'n mynychu'r cwnsela mewn ysgolion

Tueddiadau Rhywiol	Canran	Cyfanswm
Deurywiol	1.5	164
Hoyw / Lesbiaidd	1.3	144
Heterorywiol / strêr	62.9	6944
Anhysbys	34.3	3791

Ffynhonnell: Darparwyd data o ffurflenni cofnodi cleientiaid a roddwyd i'r Tîm Gwerthuso gan Lywodraeth Cymru

4.2.7. Pobl ifanc sy'n derbyn gofal.

Cyflenwyd ychydig o dan 5% o benodau therapi (n = 525) i bobl ifanc oedd yn derbyn gofal gan awdurdod lleol.

4.2.8. Iaith.

Yr iaith ddewisol ar gyfer dros 90% o'r bobl ifanc oedd Saesneg, gyda 6.5% o'r penodau wedi'u cyflenwi i bobl ifanc oedd yn ffafrio'r Gymraeg (Tabl 12).

Tabl 12. Dewis iaith y disgyblion fu'n mynychu'r cwnsela mewn ysgolion

Dewis iaith	Canran	Cyfanswm
Saesneg	92.8	10249
Cymraeg	6.4	707
Arall	0.1	15
Anhysbys	0.7	72

Ffynhonnell: Darparwyd data o ffurflenni cofnodi cleientiaid a roddwyd i'r Tîm Gwerthuso gan Lywodraeth Cymru

4.2.9. Crefydd.

Roedd gwybodaeth ar grefydd neu gred yn anhysbys ar gyfer bron i hanner y bobl ifanc (Tabl 13). O'r gweddill, nodwyd dim cred neu grefydd gan dros 40%, gydag 20% yn nodi eu bod yn Gristion.

Tabl 13. Crefydd/cred y disgyblion fu'n mynychu cwnsela mewn ysgolion

Crefydd/cred	Canran	Cyfanswm
Dim	41.4	4569
Anhysbys	35.2	3891
Cristnogol	20	2213
Arall	2.7	301
Mwslimaidd	0.4	46
Bwdhaidd	0.1	12
Hindwaidd	0.04	4
Bahá'i	0.03	3
Iddewig	0.03	3
Jain	0.01	1
Sikh	0.0	0

Ffynhonnell: Darparwyd data o ffurflenni cofnodi cleientiaid a roddwyd i'r Tîm Gwerthuso gan Lywodraeth Cymru

4.2.10. Cyfeiriad ymlaen.

Mewn 91.8% o achosion, ni chafodd pobl ifanc eu cyfeirio ymlaen i wasanaethau eraill, neu roedd yn anhysbys os bu cyfeiriad ymlaen (Tabl 14). Cafodd oddeutu 3% o bobl ifanc eu cyfeirio ymlaen i wasanaethau arbenigol CAMHS, 2.5% i wasanaethau amddiffyn plant, ac ychydig o dan 3% i wasanaethau eraill.

Tabl 14. Cyfeiriad ymlaen ymysg disgyblion fu'n mynychu cwnsela mewn ysgolion

Cyfeiriad ymlaen	Canran	Cyfanswm
Arbenigwr CAMHS	3.1	346
Arall	2.7	297
Amddiffyn Plant	2.4	262
Dim	58.3	6433
Anhysbys	33.6	3705

Ffynhonnell: Darparwyd data o ffurflenni cofnodi cleientiaid a roddwyd i'r Tîm Gwerthuso gan Lywodraeth Cymru

4.2.11. Anghenion Addysgol Arbennig/statws anabled.

Mewn 85.1% o achosion, doedd gan bobl ifanc un ai ddim anghenion addysgol arbennig/anabled neu roedd yr wybodaeth yma'n anhysbys (Tabl 15). Roedd gan oddeutu 6% o bobl ifanc oedd yn mynychu'r gwasanaeth cwnsela anghenion gwybyddol/addysgu, gyda chofnod bod 6% arall ag anghenion ymddygiadol, emosiynol a datblygu cymdeithasol. Mewn ychydig dros 1% o benodau roedd gan gleientiaid anabledau synhwyrdd neu gorfforol. Mae'r ffigurau hyn yn awgrymu hwyrach bod tan-gynrychiolaeth ymysg plant gydag AAA ac anabledau sy'n mynychu'r gwasanaeth cwnsela, ond mae'r gwahaniaethau yn y dulliau categorieddion golygu nad yw cymhariaeth uniongyrchol yn ddibynadwy.⁴⁵

Tabl 15. AAA/statws anabled yn ôl y pennod o gwnsela

AAA/anabled	Canran ⁴⁶	Cyfanswm	Normau Cymreig (%)
Gwybyddiaeth a Dysg	6.3	694	34.7
Datblygiad Ymddygiadol, Emosiynol a Chymdeithasol	6.0	667	8.0
Anhysbys	3.5	381	-
Cyfathrebu a Rhyngweithio	1.4	158	3.1
Synhwyrdd a / neu Gorfforol	1.1	123	3.3

Ffynhonnell: Darparwyd data o ffurflenni cofnodi cleientiaid a roddwyd i'r Tîm Gwerthuso gan Lywodraeth Cymru

4.2.12. Difrifoldeb problemau ar y waelodlin.

Roedd data o'r naw set ddata ble defnyddiwyd yr SDQ yn dangos bod lefelau cyfartalog o drallod ar gychwyn cwnsela (Cyfanswm Anawsterau cymedr = 18.1) yn debyg i'r rheiny ymysg pobl ifanc yn mynychu gwasanaethau CAMHS (Cyfanswm Anawsterau cymedr 18.6) (Goodman, et al., 1998). Gallai hyn awgrymu bod gan bobl ifanc sy'n cyrchu gwasanaethau cwnsela mewn ysgolion lefelau tebyg o drallod i'r rheiny sy'n mynychu gwasanaethau CAMHS.

4.2.13. Problemau wrth gyflwyno a phrif problemau.

Dengys problemau cleientiaid wrth gyflwyno a'r prif problemau yn Nhabl 16.⁴⁷ Fel y nodir yma, y problem fwyaf cyffredin wrth gyflwyno oedd problemau gyda'r teulu, oedd yn dod i'r amlwg ddwywaith mor aml ag unrhyw problem arall. Hwn hefyd oedd y brif problem fwyaf cyffredin. Ar ôl problemau gyda'r teulu, y problemau mwyaf cyffredin wedyn, mewn trefn ddisgynnol, oedd dicter, problemau perthnasol i ymddygiad, bwlio a phrofedigaeth. Cafodd

⁴⁵ Fodd bynnag, nid oedd yn bosibl cymharu'r data'n uniongyrchol; mae data norm Cymru wedi'u grwpio i gyd-daro gyda data a gasglwyd fel rhan o'r Strategaeth. 'Gwybyddiaeth a Dysg' = anawsterau dysgu difrifol, Anawsterau dysgu dwys a lluosog ac anawsterau dysgu penodol; 'Datblygiad Ymddygiadol, Emosiynol a Chymdeithasol' = anawsterau ymddygiad, emosiynol a chymdeithasol; 'Cyfathrebu a Rhyngweithio' = anawsterau iaith, lleferydd a chyfathrebu; 'Synhwyrdd a / neu Gorfforol' = Anawsterau corfforol a meddygol, nam synhwyrdd lluosol.

⁴⁶ Canran o bobl ifanc sydd ag AAA/anabled ac sy'n mynychu cwnsela mewn ysgolion.

⁴⁷ Gan ei bod yn bosibl bod pobl ifanc wedi cael eu cyflwyno â mwy nag un problem, mae'r cyfanswm canran cyffredinol yma'n uwch na 100.

hunan werth ei raddio'n uchel fel un o'r prif broblemau, ond nid oedd yn broblem gyffredin.

Tabl 16. Problemau wrth gyflwyno a phrif broblemau bob yn bennod o gwnsela

	Problemau wrth gyflwyno		Prif problemau	
	Canran	Cyfanswm	Canran	Cyfanswm
Teulu	38.2	4079.0	35.4	3782.0
Dicter	17.6	1878.0	12.9	1379.0
Perthnasol i ymddygiad	12.5	1334.0	7.7	824.0
Bwlio	10.3	1100.0	8.0	849.0
Profedigaeth	10.2	1091.0	8.8	944.0
Straen	9.1	973.0	8.1	861.0
Hunan werth	8.3	889.0	12.8	1364.0
Perthynas gydag athrawon	8.0	852.0	3.0	317.0
Iselder	7.5	805.0	6.0	641.0
Arall	6.3	674.0	5.4	572.0
Hunan-niwed	5.3	567.0	4.8	512.0
Perthnasau heblaw am deulu neu athrawon	4.3	462.0	9.6	1030.0
Academaidd	4.0	425.0	3.5	377.0
Camdriniaeth (gan gynnwys rhywiol)	3.7	395.0	3.9	419.0
Anhwylder bwyta	1.9	206.0	1.8	188.0
Camdriniaeth gartref	1.8	197.0	2.3	244.0
Camddefnyddio sylweddau	1.5	163.0	1.6	167.0
Rhywiol (gan gynnwys cyfeiriadedd)	1.4	149.0	2.2	231.0
Meddyliau am hunanladdiad	1.4	153.0	1.4	148.0
Anhysbys	1.0	104.0	0.8	83.0
Pryderon ariannol / tlodi	0.8	87.0	1.5	156.0

Noder: Gan ei bod yn bosibl bod pobl ifanc wedi cael eu cyflwyno â mwy nag un broblem, mae'r cyfanswm canran cyffredinol yma'n uwch na 100%.

Ffynhonnell: Darparwyd data o ffurflenni cofnodi cleientiaid a roddwyd i'r Tîm Gwerthuso gan Lywodraeth Cymru

4.2.14. Cwnsela ar-lein.

Casglwyd data gan dri Awdurdod Lleol oedd wedi defnyddio'r gwasanaeth cwnsela ar-lein rhwng mis Hydref 2009 a mis Mehefin 2011. Cysylltodd cyfanswm o 2,414 o bobl ifanc â'r gwasanaeth ar-lein, o gymharu â 846 o bobl ifanc o ALI 5, 877 o ALI 14, a 691 o ALI 4. O'r rhain, roedd 1,729 (71.6%) yn ferched, gyda 685 (28.4%) yn wrywod.

Casglwyd data ar ethnigrwydd y bobl ifanc, roedd 2,030 (84.1%) yn Wyn neu'n Wyn Prydeinig, 104 (4.3%) yn Asiaidd neu'n Asiaidd Prydeinig, 98 (4.1%) o dras gymysg, 67 (2.8%) yn Ddu neu'n Ddu Prydeinig, 23 (1%) yn Tsieineaidd neu Tsieineaidd Prydeinig a 92 o dras arall (3.8%).

Y pum broblem fwyaf cyffredin wrth gyflwyno oedd perthynas heblaw am deulu neu athrawon (278, 12.9%), teulu (252, 11.7%), straen (146, 6.8%), hunan niweidio (95, 4.4%) a bwlio (85, 3.9%). Mae'r data yma'n deillio o 2,153 (89.2%) o'r defnyddwyr gwasanaeth.

4.2.15. Cost darparu cwnsela.

Roedd gwybodaeth am gost ar gael ar gyfer pob Awdurdod Lleol ar draws y tri thymor ysgol (Haf 2009-10, Hydref 2010-11, a Gwanwyn 2010-11, Atodiad 15) o ran cost fesul cleient a'r gost fesul sesiwn (Tabl 17). Y gost canolrif fesul cleient ar draws yr Awdurdodau Lleol oedd £542.90 a'r gost canolrif fesul sesiwn oedd £140.20. Fodd bynnag, roedd cryn amrywiaeth yn y gost fesul sesiwn a'r gost fesul pennod rhwng Awdurdodau Lleol, yn amrywio o gyfartaledd ar draws tri thymor o £262.00 i £1511.10 fesul pennod; ac o gyfartaledd ar draws tri thymor o £73.40 i £289.90 fesul sesiwn. Yn debyg, roedd cryn amrywiaeth yn y gost fesul sesiwn a'r gost fesul pennod o fewn yr un ALL dros y tri thymor.

Mae'n bwysig nodi na roddwyd ystyriaeth i sawl ffactor pan gyfrifwyd 'cost fesul sesiwn' a 'chost fesul pennod', er enghraifft:

- gwaith grŵp megis rhaglenni profedigaeth – 'Tymhorau i Dyfu'
- therapi mewn grŵp
- cwnsela ar-lein
- rhaglenni cymorth emosiynol eraill i bobl ifanc sy'n gysylltiedig ag ymagwedd ysgol-gyfan
- Rhaglenni Addysgol Personol a Chymdeithasol
- cwnsela yn y gymuned (darpariaeth tu allan i'r ysgol).

Felly, hwyrach nad yw data costau crai yn adlewyrchiad cywir o gostau gwasanaethau unigol. Yn ogystal, mae'r dadansoddiad yn cynnwys y cyfnod pan ddyrannwyd yr arian. Yn ystod y cyfnod yma roedd rhai gwasanaethau'n dal i recriwtio cwnselwyr, felly nid oedd ganddynt y nifer llawn. Ymhellach, nid yw hyfforddiant ar gyfer cwnselwyr wedi'i gynnwys, er enghraifft, ble roedd gwasanaeth yn adeiladu'r capasiti ar gyfer hyfforddi cwnselwyr Cymraeg eu hiaith. Yn olaf, ni chafodd goruchwyliaeth o ariannu cwnselwyr ei ystyried.

Tabl 17. Cyfartaledd y gost fesul sesiwn a fesul person ifanc ar draws y tri thymor

	Canolrif	Uchafswm	Isafswm
Cost fesul pennod	667.10	2018.70	128.00
Cost fesul sesiwn	150.90	438.30	27.60

Ffynhonnell: Darparwyd data o ffurflenni cofnodi cleientiaid a roddwyd i'r Tîm Gwerthuso gan Lywodraeth Cymru

4.2.16. Crynodeb.

Roedd cleientiaid fu'n mynychu cwnsela mewn ysgolion, fel y cyflenwyd o fewn y Strategaeth yn dueddol o fod yn Wyn, yn siarad Saesneg, ym Mlynnyddoedd 7 i 11, heb unrhyw statws AAA neu anabledd penodol, ac yn ferched ar y cyfan. Ar gyfartaledd,

byddent yn mynychu am oddeutu pedwar sesiwn, ac ar y cyfan cawsant eu cyfeirio gan staff yr ysgol. Gan amlaf, byddent yn cyflwyno gyda phroblemau'n berthnasol i'w teulu; a hefyd dicter, problemau'n berthnasol i ymddygiad, bwllo a phrofedigaeth. Mae'r proffil yma o bobl ifanc sy'n mynychu cwnsela mewn ysgolion yng Nghymru'n debyg iawn i'r rheiny sy'n mynychu gwasanaethau cwnsela mewn ysgolion mewn ardaloedd eraill o'r DU (gweler Adran 3.1, Cooper, 2009). Mae cost fesul sesiwn a chost fesul pennod yn amrywio'n helaeth ar draws yr Awdurdodau Lleol.

4.3. Canlyniadau Therapiwtig

Roedd data ar ganlyniadau therapiwtig ar gael ar gyfer tri chyfnod amser gwahanol: blwyddyn academiaidd lawn 2009-10, tymor Hydref 2010-11 a thymor Gwanwyn 2010-11. Defnyddiwyd dim ond y data o benodau cwnsela ble roedd pobl ifanc wedi mynychu am ddau neu fwy o sesiynau. Roedd hyn er mwyn cymharu rhwng y waelodlin (h.y. ar gychwyn cwnsela) a'r pwynt terfyn (h.y. ar ddiwedd cwnsela). Y mesurau canlyniadau a ddefnyddiwyd oedd un ai YP-CORE neu SDQ.

Dadansoddwyd data drwy gymharu lefelau gwaelodlin trallod seicolegol cyfartalog yn erbyn lefelau pwynt terfyn trallod cyfartalog. Cynhaliwyd dadansoddiad-meta i gynhyrchu maint effaith ar gyfer cwnsela mewn ysgolion. Yn gyffredinol, roedd hwn yn dangos maint y newid oedd yn gysylltiedig â'r ymyriad. Ystyrir bod meintiau effaith⁴⁸ o 0.2, 0.5 a 0.8 yn *fach*, *canolig* a *mawr* yn ôl eu trefn.


Canlyniadau Therapiwtig: Canfyddiadau Allweddol

- Cysylltwyd cwnsela gyda gostyngiadau sylweddol mewn trallod seicolegol ar draws pob Awdurdod Lleol ym mhob un o'r cyfnodau amser a archwiliwyd
- Y gostyngiad cymedrig mewn trallod seicolegol o'r cychwyn hyd ddiwedd cwnsela ar y mesur CORE Person Ifanc (YP-CORE) oedd 18.70 i 10.56 (sgorau is yn awgrymu llai o drallod), a 18.14 i 12.21 ar yr Holiadur Cryfderau ac Anawsterau (SDQ)
- Roedd y gostyngiad cymedrig cyffredinol mewn trallod seicolegol yn fawr, gyda maint effaith o 0.93 (o gymharu â chyfartaledd maint effaith ar draws y DU o 0.81 ar gyfer cwnsela mewn ysgolion)
- Roedd amrywiaeth sylweddol yn nifer y newid ar draws setiau data ac ar draws Awdurdodau Lleol. Roedd meintiau effaith mwy'n gysylltiedig â:
 - Defnydd yr YP-CORE, yn hytrach na'r mesur SDQ
 - Cyfraddau ymateb is

48 Cyfrifir maint effaith drwy rannu'r gwahanol gymedrig cyn ac ar ôl ymyriad ar y YP-CORE a SDQ gyda'r gwyriad safonol cyfun (taeniad y sgorau) ar draws y sampl.

Cysylltwyd cwnsela gyda gostyngiadau sylweddol mewn trallod seicolegol ar draws y 42 set data (Ffigur 2).⁴⁹

Ffigur 2. Newidiadau cymedrig mewn trallod ar gyfer pob un o'r Awdurdodau Lleol ymhob cyfnod o amser




Ffynhonnell: Darparwyd data i'r Tîm Gwerthuso gan Arweinwyr Awdurdodau Lleol

Drwy gyfartalu ar draws yr holl setiau data a'r mesurau, cafodd trallod seicolegol ei ostwng o 18.58 pwynt ($SD = 2.23$) i 10.91 pwynt ($SD = 2.50$). Ar gyfer y 33 set data ble defnyddiwyd y mesur canlyniad YP-CORE, roedd y gostyngiad cymedr⁵⁰ mewn trallod seicolegol o 18.70 pwynt ($SD = 2.47$) i 10.56 pwynt ($SD = 2.44$). Ar gyfer y naw set data ble defnyddiwyd y mesur canlyniad SDQ, roedd gostyngiad cyfartalog mewn Cyfanswm Anawsterau o 18.14 pwynt ($SD = 0.96$) i 12.21 pwynt ($SD = 2.42$) (Ffigur 3).

49 Gwerth-p (tebygolrwydd o ganlyniad yn deillio o siawns yn unig) am ddim gwahaniaeth rhwng cymedrig gwaelodlin a phwynt terfyn, ar draws setiau data, yn amrywio o $p = 0.027$ i $p < 0.000001$.

50 Cymedrig amhwysol (h.y. cyfartalogwyd cymedrig gwaelodlin a phwynt terfyn, heb ystyried meintiau sampl gwahanol setiau data).

Ffigur 3. Newidiadau mewn trallod: Yn gyffredinol ac yn ôl y mesuriad



Ffynhonnell: Darparwyd data i'r Tîm Gwerthuso gan Arweinwyr Awdurdodau Lleol

Mae'r dadansoddiad-meta, sy'n pwysoli'r setiau data yn unol â'r cywirdeb tybiedig, yn dangos bod cwnsela mewn ysgolion yn gysylltiedig â gostyngiadau *mawr* mewn trallod seicolegol, gyda chymedr maint effaith cyffredinol o 0.93 (gweler Atodiad).⁵¹ Roedd amrywiaeth sylweddol mewn meintiau effaith ar draws y setiau data,^{52 53} gyda 69.6% o'r amrywiaeth cyffredinol ar draws yr Awdurdodau Lleol, a 30.4% o'r amrywiaeth cyffredinol yn digwydd o fewn setiau data gwahanol o'r un ALI. Roedd meintiau effaith cymedr ar gyfer yr Awdurdodau Lleol yn amrywio o 1.76 i 0.49.

Awgrymai dadansoddi dilynol bod dau ffactor yn gysylltiedig â meintiau effaith. Yn gyntaf, fel yr awgrymwyd gan Ffigur 3, roedd meintiau effaith yn fwy pan ddefnyddiwyd y mesur YP-CORE, o gymharu â'r sgôr Cyfanswm Anawsterau SDQ.⁵⁴ Y maint effaith cymedrig ar gyfer astudiaethau'n defnyddio'r YP-CORE oedd 1.03, o gymharu â 0.68 mewn astudiaethau'n defnyddio'r SDQ.⁵⁵

51 Os defnyddir g Hedges i addasu ar gyfer meintiau sampl bach, mae'r maint effaith cymedr yn cael ei ostwng ychydig i 0.92. Os defnyddir model effeithiau ar hap mwy cymhleth, sy'n tybio gwahaniaethau systematig ar draws meintiau effaith oherwydd newidynnau ychwanegol, fel y gwelwyd yn yr astudiaeth bresennol, mae'r meintiau effaith cymedrig yn cynyddu i 1.09 (d) neu 1.08 (g). Os, fel mewn ystod o astudiaethau diweddar (e.e. Elliott et al., 2004; Stiles, 2006), defnyddir gwyrriad safonol ar y waelodlin yn unig fel yr enwadur, mae'r maint effaith i bob set data'n ymestyn o 2.34 i 0.45 gyda chymedrig amhwysol o 1.15 a chymedrig pwysol (pwysol yn ôl maint sampl, Elliott et al., 2004) o 1.12.

52 $Q = 324.71$, $p(41) < 0.001$.

53 ANOVA meintiau effaith: $F(15,41) = 3.97$, $p = 0.001$.


54 Atchweliad meta: $b^* = 0.33$, $p < 0.001$.

55 1.13 ac 0.95, yn ôl eu trefn pan ddefnyddiwyd model effeithiau ar hap.

Yn ail, roedd meintiau effaith yn fwy mewn setiau data gyda chyfraddau ymateb is.⁵⁶ Gellir gweld hyn yn Ffigur 4, sy'n plotio meintiau effaith yn erbyn cyfraddau ymateb ar gyfer y 26 set data, ble roedd yn bosibl cyfrifo'r cyfraddau ymateb. Dengys hyn bod astudiaethau gyda chyfraddau ymateb isel yn dueddol o gael meintiau effaith mawr, gyda meintiau effaith wedi'u dosbarthu'n ehangach pan roedd data ar gael am yr holl gleientiaid. Mae'r llinell ar y graff yn dangos y tueddiad cyfartalog, gyda chyfraddau ymateb yn cyfrif am 10.5% o'r amrywiaeth mewn effeithiau.

Roedd y sgorau YP-CORE cymedr ar y waelodlin ar gyfer y 23 o bobl ifanc wnaeth gyrchu'r gwasanaeth cwnsela ar-lein yn 26.91 ($SD = 8.58$) a 25.04 ($SD = 8.58$) ar y pwynt terfyn. Doedd y newid yma ddim yn arwyddocaol ($t(22) = 1.26$, $p = 0.22$), gyda maint effaith o 0.20.

Ffigur 4. Meintiau effaith bob yn gyfradd ymateb



Ffynhonnell: Darparwyd data am ganlyniadau YP-CORE ac SDQ gan Awdurdodau Lleol

4.3.1. Crynodeb.

Cysylltwyd cwnsela gyda gostyngiadau sylweddol mewn trallod seicolegol, gyda gostyngiad cymedr rhwng cychwyn â diwedd y cwnsela ar y mesur YP-CORE o 18.70 i

⁵⁶ Atchweliad meta: $b^* = 0.007$, $p < 0.001$.

10.56 (sgorau is yn awgrymu llai o drallod), a 18.14 i 12.21 ar yr SDQ. Roedd y gostyngiad cymedr cyffredinol mewn trallod seicolegol yn fawr, gyda maint effaith o 0.93 (o gymharu â chyfartaledd maint effaith yn y DU ar gyfer cwnsela mewn ysgolion o 0.81). Roedd amrywiaeth arwyddocaol ym maint y newid ar draws y setiau data ac ar draws Awdurdodau Lleol, gyda meintiau effaith mwy'n gysylltiedig â chyfraddau ymateb is, a'r defnydd o'r YP-CORE.

4.4. Profiadau Cleient

Casglwyd profiadau a chanfyddiadau cleientiaid ar y gwasanaeth cwnsela drwy ddefnyddio Holiadur Gwerthuso ôl Gwnsela (PCEQ) oedd fel arfer yn cael ei lenwi gan gleientiaid yn eu sesiwn cwnsela olaf. Roedd yr holiadur yn cynnwys 16 eitem raddedig gydag ymatebion o *Gytuno'n Gryf* i *Anghytuno'n Gryf*, ynghyd â chyfres o gwestiynau pen agored, megis 'Beth oedd y pethau gorau am gwnsela?' ac 'A oes pethau allai fod yn wahanol yn eich cwnsela?'. Caiff canlyniadau'r eitemau graddedig eu cyflwyno yn nhermau *cytundeb net*. Dyma'r canran o ymatebwyr sydd un ai'n cytuno neu'n cytuno'n gryf gyda'r eitem yma, ac eithrio'r canran sy'n anghytuno neu'n anghytuno'n gryf. Cafodd yr atebion pen agored eu hystyried mewn dadansoddiad thematig byr.

Profiadau Cleientiaid: Canfyddiadau Allweddol

- Ar y cyfan, gwnaeth cleientiaid raddio'r gwasanaeth cwnsela'n bositif iawn.
- Roedd oddeutu 85% o ymatebwyr yn teimlo'n fwy positif am fynd i'r ysgol ac yn teimlo gallant ymdopi'n well ers mynychu cwnsela
- Nododd oddeutu 95% o ymatebwyr eu bod yn cytuno gyda'r datganiad 'mae cwnsela'n ffordd dda o ymdrin â phroblemau'
- Gwnaeth oddeutu 90% o gleientiaid hefyd ddweud y byddent yn gofyn i weld y cwnselydd eto os oedd angen
- Roedd yr atebion pen agored yn dangos bod cleientiaid yn gwerthfawrogi:
 - rhwyddineb cyrchu gwasanaethau
 - gallu siarad yn agored ac yn onest gyda rhywun sy'n ddibynadwy ac sy'n deall
 - cyfrinachedd
 - magu hunanhyder o ganlyniad i gwnselaac yn teimlo'n anghyfforddus am:
 - siarad am faterion personol
 - distawrwydd yn ystod sesiynau
 - cael eich stigmatiddio am ddefnyddio gwasanaethau cwnsela.

4.4.1. Graddau meintiol.

Ar y cyfan derbyniodd y gwasanaeth cwnsela raddau cadarnhaol iawn (gweler Ffigur 5; am ymatebion fesul eitem gweler Atodiad 16).


O ran canlyniadau, roedd oddeutu 85% o gleientiaid yn teimlo'n fwy cadarnhaol am fynd i'r ysgol ac yn gallu ymdopi'n well ers mynychu cwnsela, gydag oddeutu 3 i 5% yn anghytuno. Roedd oddeutu 66 i 70% o gleientiaid yn teimlo eu bod yn gallu canolbwyntio'n well ar dasgau ers mynychu'r cwnsela, a bod eu hymddygiad a'u perthynas gyda'r teulu wedi gwella; gydag 6 i 8% o gleientiaid yn dweud nad oedd y gwelliannau yma wedi digwydd. Roedd nifer rhywfaint yn is, oddeutu 50% wedi nodi bod eu perthynas gyda'u hathrawon wedi gwella ers mynychu'r cwnsela, gydag ychydig yn uwch na 10% yn dweud nad oedd hyn wedi digwydd.

O ran y broses cwnsela, roedd oddeutu 95%⁵⁷ o ymatebwyr wedi nodi eu bod yn teimlo gallant siarad am eu teimladau a'u meddyliau gyda'u cwnselydd, yn teimlo bod eu cwnselydd wedi eu helpu i ddeall y sefyllfa a'u teimladau'n well, ac roeddent yn deall bod yr hyn a ddywedant wrth y cwnselydd yn gyfrinachol os nad oeddent mewn perygl. Ar gyfer pob un o'r datganiadau hyn, dim ond oddeutu 1% o gleientiaid oedd yn teimlo nad oedd hyn yn wir. Roedd oddeutu 75% o gleientiaid yn teimlo ei bod yn hawdd cysylltu â'r cwnselydd a'u bod wedi derbyn digon o sesiynau cwnsela, tra roedd oddeutu 5% o gleientiaid yn anghytuno â'r datganiadau hyn.

O ran agwedd tuag at gwnsela, roedd y mwyafrif llethol o gyfranogwyr yn cytuno gyda'r datganiad 'mae cwnsela'n ffordd dda o ymdrin â phroblemau' (roedd oddeutu 95% yn cytuno gyda hyn, a llai nag 1% yn anghytuno). Hefyd, dywedodd oddeutu 90% o gleientiaid y byddent yn gofyn i weld y cwnselydd eto os fyddai angen arnynt, gydag 1% yn dweud na fydden nhw. Fodd bynnag, gwnaeth nifer rhywfaint yn is o ymatebwyr (oddeutu 65%) ddweud 'fe fuaswn i'n ystyried cwnsela yn y dyfodol, hyd yn oed ar ôl gadael yr ysgol', gydag oddeutu 8% yn dweud na fyddent yn ei ystyried. Gwnaeth ychydig o dan 75% o gleientiaid ddweud y byddent yn argymhell cwnsela i ffrind, gyda 5% yn dweud na fyddent.

⁵⁷ Canran yn nodi cytundeb neu gytundeb cadarn, gweler Atodiad 16.

Ffigur 5. Canrannau cytundeb net ar gyfer yr holiadur gwerthuso ôl gwnsela



Noder: Cytundeb net = Y canran o ymatebwyr sydd naill ai'n cytuno neu'n cytuno'n gryf gydag eitem, gan dynnu'r canran sy'n anghytuno neu'n anghytuno'n gryf
 Ffynhonnell: Darparwyd data o ffurflenni gwerthuso ôl-gwnsela i'r Tîm Gwerthuso gan Arweinwyr Awdurdodau Lleol

Agweddau cadarnhaol o gwnsela.

Gallu siarad. Roedd cleientiaid yn sôn am werth gallu siarad yn onest am eu teimladau ac am rannu'r pethau ar eu meddyliau. Er enghraifft: 'Roeddwn wrth fy modd ei bod mor hawdd siarad gyda rhywun am fy nheimpladau', 'Gallu siarad gyda rhywun yn blwmp ac yn blaen', 'Trafod fy meddyliau a fy nheimpladau, achos wedyn does dim posib gwadu dy fod mewn sefyllfa ddrwg, yn enwedig allan o'r ysgol a gartref'.

Roedd cleientiaid yn nodi bod y cwnsela wedi caniatáu iddynt drafod eu problemau a darganfod dulliau i ymdopi. Er enghraifft, 'Wir yn dda achos mae rhywun yno i helpu gyda dy broblemau a bydd rhywun yn gwrando arnat ti', 'Gallwn wir ymddiried byddai rhywun yn deall fy mhroblemau a helpu fi i'w trechu', 'Mae wir yn dda achos mae gan lawer o ddisgyblion problemau ac mae'r cwnselydd yno i helpu'.

Amlygwyd gan gleientiaid y pwysigrwydd o gael rhywun yn gwrando. Mae enghreifftiau o'r sylwadau yn cynnwys, 'Achos roedd rhywun yno i wrando pan oeddwn i'n siarad', 'Rhoi amser i mi siarad gyda rhywun sy'n deall', 'Roedd hi'n gallu gwrando ac ni fyddai'n dweud unrhyw beth drwg amdano'.

Cyfrinachedd. Mynegodd cleientiaid eu bod yn gwerthfawrogi cael siarad gyda rhywun yn gyfrinachol. Roedd sylwadau yn cynnwys, 'Roeddwn i'n gallu rhannu beth oedd ar fy meddwl gan wybod ei fod yn gyfrinachol ac fe ddes i'n agos at [enw'r cwnselydd], a dysgu i ymddiried mewn rhywun ychydig mwy', 'Da achos does dim angen i mi gadw cyfrinachau a gallaf ddweud unrhyw beth wrthi'.

Gwnaeth y cleientiaid hefyd nodi eu bod yn gyfforddus yn siarad â'r cwnselydd ac y gallant rannu gwybodaeth gyda nhw na fyddent yn ei rannu fel arfer gydag eraill. Er enghraifft, 'Roeddet ti'n gallu siarad am bethau na fyddet ti'n rhannu gyda dy ffrindiau', 'Gallwn siarad yn agored heb i unrhyw un fy nghywiro neu fy meirniadu', 'Rwy'n ymlacio wrth siarad am fy mhroblemau o flaen y cwnselydd'.

Cynnydd mewn hyder. Nododd y cleientiaid bod cwnsela wedi eu helpu i fagu hyder. Er enghraifft, 'Pan mae hi'n fy helpu a fy ngwneud i'n fwy dewr', 'Mae'n fy helpu i fagu hyder er mwyn cwrdd â ffrindiau newydd'.

Mynediad i wasanaeth cwnsela. Nododd y cleientiaid bod rhwyddineb cyrchu'r gwasanaeth cwnsela mewn ysgolion yn bwysig, ac roeddent yn teimlo y gallant ddod o hyd i gwnsela pan oedd angen. Er enghraifft, 'Mae'n dda achos fe allant helpu unrhyw ddisgyblion gydag

unrhyw broblemau ac mae'n hawdd cael gafael ar gwnselydd yr ysgol', 'Gallu siarad gyda rhywun pan rwyf angen siarad'.

Agweddau negyddol o gwnsela.

Teimlo'n anghyfforddus. Nododd ychydig o gleientiaid bod trafod materion personol, oedd yn aml yn boenus, yn un agwedd negyddol o'r cwnsela, gan fod angen ail fyw atgofion annifyr a bod hyn yn gwneud iddynt deimlo'n lletchwith. Roedd sylwadau yn cynnwys, 'Roedd yn gwneud i mi deimlo'n lletchwith', 'Roeddwn o hyd yn nerfus am beth roeddwn i'n ddweud wrthi', 'Ateb cwestiynau anodd'.

Gwnaeth rhai cleientiaid hefyd sôn eu bod yn teimlo'n anghyfforddus cydnabod bod rhywbeth yn eu heffeithio a chyfaddef bod angen help arnynt. Er enghraifft, 'Gorfod siarad am fy mhroblemau a chlywed y gwirionedd', 'Dweud beth sy'n bod gyda fi', 'Weithiau roeddwn i'n teimlo'n chwithig yn siarad amdanaf fy hun'.

Hefyd, nododd rhai cleientiaid bod distawrwydd yn aml yn ystod y cwnsela, ac y gallai hyn fod yn lletchwith, er enghraifft: 'Eistedd mewn tawelwch weithiau', 'Y distawrwydd oedd yn aml yn cael ei achosi'.

Roedd rhai cleientiaid yn teimlo y byddent yn fwy cyfforddus petaent yn gallu dod â rhywun gyda nhw i'r sesiwn cwnsela. Mae enghreifftiau'n cynnwys, 'Dod â rhieni i mewn yn amlach', 'Petawn i wedi gallu dod â ffrind gyda fi', 'Byddai'n well petawn ni efo fy chwaer'.

Canfyddiadau negyddol cychwynnol o gwnsela. Dangosodd rai cleientiaid betruster ar y cychwyn am fynychu cwnsela gan eu bod yn poeni beth fyddai eraill yn feddwl. Roedd sylwadau o'r fath yn cynnwys, 'Roeddwn i'n bwylllog braidd i gychwyn achos roeddwn i'n poeni byddai pobl yn chwerthin, ond mae'n debyg ei fod wedi helpu, felly dydy o ddim yn fy mhoeni', 'I gychwyn roeddwn i'n poeni beth fyddai eraill yn ddweud ond fe sylweddolais fod angen help arnaf ac o leiaf roeddwn ddigon dewr i ddod i rannu fy mhroblemau'.

Roedd rhai cleientiaid yn betrusgar wrth rannu eu problemau gyda'r cwnselydd. Roedd sylwadau yn cynnwys, 'Fe gymerodd hi amser i siarad go iawn am fy mhrif broblemau achos doeddwn i ddim yn gwybod os gallwn ymddiried ynddynt'.

Cwnsela ar-lein.

Roedd data ansoddol hefyd ar gael gan nifer o'r bobl ifanc oedd wedi cyrchu'r gwasanaeth cwnsela ar-lein. Roedd hwn hefyd yn dangos profiad cadarnhaol iawn. Er enghraifft (yr holl sillafu fel y cyflwynwyd ar-lein):

Roeddwn i'n arfer hen-deidiau flynyddoedd yn ôl, ond gwnaeth siarad gyda cwnselydd ar Kooth roi lot o help i mi ac rwyf wedi dod drwyddi.

Dim ond am ddweud nad oedd gen i syniad gallai pobl ar hwn helpu cymaint! Fe ymunais â Kooth gan feddwl na fuasai'n gweithio ac o fewn pythefnos mae fy mhroblemau wedi'u sortio! Diolch i chi, mae pawb yma'n cŵl!

ar ôl siarad efo cwnselydd ddoe, rwyf wir yn teimlo'n positif, roeddwn i ar bigau'r drain nes i mi ddeall bod rhywun i mi siarad â nhw, rwyf mor falch i mi ddod o hyd i kooth

Mae'r wefan yma wedi bod o help mawr ac rwy'n cychwyn cwnsela yn y coleg wythnos yma. Mae gen i ofn mawr siarad gyda rhywun wyneb yn wyneb, ond rydych chi wedi fy ysbrydoli i wneud rhywbeth nad yw o reidrwydd yn hawdd – ond y peth sy'n iawn.

4.4.2. Crynodeb.

Ar y cyfan, roedd graddau'r cleientiaid o'r gwasanaeth cwnsela'n gadarnhaol iawn, gydag oddeutu 85% o ymatebwyr yn teimlo'n fwy positif am fynd i'r ysgol ac yn gallu ymdopi'n well ers cyrchu'r cwnsela. Cytunodd oddeutu 95% o ymatebwyr gyda'r datganiad 'mae cwnsela'n ffordd dda o ymdrin â phroblemau' a gwnaeth oddeutu 90% o gleientiaid hefyd ddweud y byddent yn gofyn i weld y cwnselydd eto os oedd angen. Gwnaeth yr atebion pen agored nodi nifer o ganfyddiadau cadarnhaol a negyddol am gwnsela. Ar yr ochr gadarnhaol, roeddent yn gwerthfawrogi rhwyddineb cyrchu'r gwasanaethau. Roedd cleientiaid yn gwerthfawrogi gallu siarad yn agored ac yn onest gyda rhywun sy'n ddibynadwy ac sy'n deall, o fewn lleoliad cyfrinachol. O ganlyniad, adroddwyd cynnydd yn hunanhyder cleientiaid. Ar yr ochr negyddol, roedd rhai cleientiaid yn ystyried bod trafod materion personol a'r distawrwydd yn ystod sesiynau'n anghyfforddus. Hefyd, ar y cychwyn, roedd rhai yn poeni cânt eu stigmatiddio am ddefnyddio gwasanaethau cwnsela.

4.5. Arolwg ymysg Cwnselwyr

Bwriad arolwg ymysg cwnselwyr mewn ysgolion oedd mesur y canfyddiadau ar weithredu'r Strategaeth, gan gynnwys agweddau tuag at drefniadau rhwydweithio, cydlynw, darpariaeth hyfforddiant a CPD. Hefyd, gofynnwyd cwestiynau pen agored i'r cwnselwyr mewn ysgolion am gryfderau a gwendidau'r Strategaeth a gofynnwyd iddynt gynnig unrhyw argymhellion er mwyn gwella'r gwasanaeth.

Arolwg ymysg Cwnselwyr: Canfyddiadau Allweddol

- Gwnaeth 80% o gwnselwyr mewn ysgolion nodi nad ydynt yn gorfod glynu wrth nifer uchaf o sesiynau
- Nododd ychydig dros hanner y cwnselwyr bod gwasanaeth cwnsela'r ysgol yn cael ei weithredu o fewn a'r tu allan i eiddo'r ysgol
- Gwnaeth dros hanner y cwnselwyr adrodd eu bod yn cael eu cyflogi gan asiantaeth allanol, yn hytrach na chan yr ysgol neu'r awdurdod lleol
- Roedd cytundeb y caiff y gwasanaeth ei gydnabod a'i werthfawrogi gan rieni a disgyblion
- Roedd cwnselwyr yn cytuno bod ganddynt gyfleoedd priodol ar gyfer hyfforddiant a threfniadau addas ar gyfer goruchwyliaeth glinigol
- Mae cwnselwyr yn teimlo eu bod yn derbyn cefnogaeth yn eu rôl a'u bod yn eglur am yr amgylchiadau pan ddylid cyfeirio disgyblion at asiantaethau eraill
- Roedd llai na hanner o gwnselwyr mewn ysgolion yn cytuno bod lefelau staffio o fewn y gwasanaeth cwnsela yn ddigonol
- Cryfderau canfyddedig y Strategaeth oedd:
 - Y cydweithio gyda BACP ac asiantaethau eraill
 - Yr ymrwymiad gan Lywodraeth Cymru
 - Rhwyddineb cyrchu'r gwasanaeth i blant a phobl ifanc
 - Roedd yr adnoddau oedd ar gael gan Lywodraeth Cymru yn cael eu hystyried fel cryfder arall ymysg cwnselwyr mewn ysgolion, yn enwedig yn nhermau arian a'r Pecyn Cymorth
- Daeth argymhellion ar sut i wella'r strategaeth cwnsela mewn ysgolion i'r amlwg yn unol â'r gwendidau ac roeddent yn berthnasol i'r angen am ddarpariaeth arian yn y dyfodol.

4.5.1. Gweithredu'r 10 argymhelliad.

Roedd y mwyafrif (85.8%) o'r cwnselwyr a holwyd yn aelodau o gorff proffesiynol, yn enwedig BACP (77.4%). Roedd gan y mwyafrif helaeth (93.4%) brofiad blaenorol o weithio gyda phlant a phobl ifanc ac roedd 79.2% wedi cwblhau hyfforddiant perthnasol i weithio gyda phlant a phobl ifanc. Roedd y lefel cymhwyster cwnsela roedd cwnselwyr mewn ysgolion yn meddu arno'n amrywio o lefel diploma israddedig i ddoethuriaeth, gyda'r mwyafrif (56.6%) yn meddu ar ddiploma ôl radd mewn cwnsela.

Cyflwynir cytundeb net cwnselwyr gyda datganiadau allweddol yn Nhabl 18. Roedd lefel uchel o gytundeb net ymysg cwnselwyr mewn ysgolion bod cyfleoedd addas ar gael ar gyfer hyfforddiant pellach (62.9%) a threfniadau addas am oruchwyliaeth glinigol (89.4%).

Roedd lefel uchel o gytundeb net bod y gwasanaethau cwnsela wedi'u lleoli mewn safle sy'n hawdd i ddisgyblion eu cyrchu (80%) a bod cwnsela'n cael ei ddarparu mewn lleoliad priodol sy'n breifat ond yn ddiogel o fewn cyffiniau'r ysgol (76%). Yn debyg, roedd lefel uchel o gytundeb net bod cwnsela mewn ysgolion wedi bod yn rhan annatod o ddarpariaeth yr ysgol (87.2%), a bod y gwasanaeth cwnsela'n cael ei gydnabod a'i werthfawrogi gan staff ysgolion (78.1%). Roedd y mwyafrif o gwnselwyr yn cytuno bod gwasanaethau cwnsela'n cael eu cydnabod a'u gwerthfawrogi gan rieni (66.7%) a disgyblion (94.3%).

Roedd cytundeb net bod gwasanaethau cwnsela'n cael eu hyrwyddo'n dda o fewn yr ysgol (77.1%); a bod y gweithdrefnau ar gyfer monitro a gwerthuso gwasanaethau'n foddhaol (82.1%). Roedd lefel uchel hefyd o gytundeb net (90.4%) bod agwedd y gwasanaethau tuag at gyfrinachedd yn cydbwysu anghenion y rhieni, y plant a diogelu gweithdrefnau yn briodol.

Roedd lefel uchel o gytundeb net bod gwasanaethau yn sensitif i anghenion gwahanol gymunedau a grwpiau ethnig (80.8%) ond cytundeb net gweddol isel bod gwasanaethau yn sensitif i anghenion siaradwyr Cymraeg (47.4%) (gweler Tabl 18).

Ar y cyfan, roedd cytundeb net ymysg cwnselwyr bod gwasanaethau yn gweithio'n agos gyda mentrau eraill i gefnogi iechyd a lles yn yr ysgolion (72%). Roedd yn glir i'r mwyafrif o gwnselwyr pryd dylid cyfeirio disgybl ymlaen i asiantaethau eraill megis CAMHS (84%) ac adroddwyd bod perthynas weithio agos gyda CAMHS, gydag oddeutu 62% o gwnselwyr wedi gwneud a/neu wedi derbyn cyfeiriadau gan y gwasanaeth yma.

Tabl 18. Ymagweddd cwnselwyr tuag at y gwasanaeth cwnsela mewn ysgolion


	% net yn cytuno
Bu'r broses o sefydlu'r gwasanaeth cwnsela yn effeithiol a heb problem	25.5
Mae'r gwasanaeth cwnsela yn sensitif i anghenion siaradwyr Cymraeg	47.4
Mae'r safle ar gyfer gwasanaeth cwnsela yn ddigonol	54.3
Mae adnoddau digonol ar gyfer y gwasanaeth cwnsela yn f'ysgol	55.2
Mae gan y gwasanaeth cwnsela cefnogaeth weinyddol da	69.6
Mae'r gwasanaeth cwnsela yn gweithio'n agos gyda mentrau eraill i gefnogi iechyd a lles yn yr ysgolion	72
Fe roddir cwnsela mewn gosodiad priodol sy'n breifat ond yn ddiogel yn agos i'r ysgol	76
Mae cyhoeddusrwydd da i'r gwasanaeth cwnsela yn yr ysgol	77.1
Fe gydnabyddir ac fe werthfawrogir y gwasanaeth cwnsela gan staff yr ysgol	78.1
Lleolir y gwasanaeth mewn safle sy'n hawdd i ddisgyblion cael mynediad	80
Mae'r gwasanaeth cwnsela yn sensitif i anghenion gwahanol gymunedau a grwpiau ethnig	80.8
Mae'r gweithdrefnau ar gyfer monitro a gwerthuso'r gwasanaeth cwnsela yn foddhaol	82.1
Mae'r gwasanaeth cwnsela yn rhan annatod o ddarpariaeth yr ysgol	87.2
Mae agwedd y gwasanaeth tuag at gyfrinachedd yn cydbwysu anghenion y rhieni, y plant a diogelu gweithdrefnau yn briodol	90.4

Ffynhonnell: Arolwg ymysg Cwnselwyr mewn Ysgolion

4.5.2. Agweddau penodol o weithredu.


O ran lleoliad y gwasanaethau cwnsela mewn ysgol, a chyflogwyr y cwnselwyr, nodwyd gan ychydig dros hanner (53%) o gwnselwyr bod gwasanaeth cwnsela mewn ysgolion ar gael y tu mewn a'r tu allan i eiddo'r ysgol. Yn debyg, adroddodd dros hanner (57%) o gwnselwyr eu bod yn cael eu cyflogi gan asiantaeth allanol, yn hytrach na'r ysgol neu'r Awdurdod Lleol (gweler Ffigurau 6 a 7).

Ffigur 6. Lleoliad ble gweithredir gwasanaeth cwnsela mewn ysgolion



Ffynhonnell: Arolwg ymysg Cwnselwyr mewn Ysgolion


Ffigur 7. Pwy sy'n cyflogi'r cwnselydd (cwnselwyr)



Ffynhonnell: Arolwg ymysg Cwnselwyr mewn Ysgolion

Roedd nifer o atebion ynglŷn â'r adnoddau oedd ar gael i wasanaethau. Roedd cytundeb net o 55.2% bod adnoddau digonol ar gael i wasanaethau cwnsela (gweler Tabl 18), gyda chytundeb net ychydig yn is (46.7%) bod lefelau staffio'r gwasanaethau'n ddigonol (gweler Ffigur 8). Roedd lefel uwch o gytundeb net bod gwasanaethau'n derbyn cefnogaeth weinyddol dda (69.6%) a lefel is o gytundeb bod yr ystafelloedd a ddefnyddiwyd gan y gwasanaethau cwnsela'n addas (54.3%) (gweler Tabl 18).

Ffigur 8. Ymagwedd cwnselwyr tuag at y gwasanaeth cwnsela mewn ysgolion



Ffynhonnell: Arolwg ymysg Cwnselwyr mewn Ysgolion

Nododd y mwyafrif o gwnselwyr (80%) nad oedd rhaid iddynt lynu wrth nifer uchaf o sesiynau gyda disgyblion. I'r rheiny wnaeth nodi eu bod yn cynnig nifer uchaf o sesiynau, y nifer uchaf cyfartalog oedd chwe sesiwn.

Ar y cyfan, roedd cwnselwyr yn teimlo'u bod yn derbyn cefnogaeth yn eu rôl (82.1% o gytundeb net; gweler Ffigur 8) ond yn gyffredinol, nid oeddent yn cytuno bod y broses o sefydlu gwasanaethau cwnsela wedi bod yn effeithiol a didrafferth (25.5% o gytundeb net; gweler Tabl 18).

4.5.3. Cryfderau.

Pan ofynnwyd am eu barn ar gryfderau'r Strategaeth cwnsela mewn ysgolion, amlygwyd cydweithio gyda BACP ac asiantaethau eraill mewn nifer o'r atebion (gweler Tabl 19). Roedd y rhain yn cynnwys, 'Cysylltiadau cryf gyda BACP', 'Cydweithio i sicrhau gweithio ar draws asiantaethau i gael agwedd ysgol-gyfan'.

Crybwyllwyd hefyd yr ymrwymiad gan Lywodraeth Cymru: 'Synnwyr o werth yn dod o ymrwymiad y LICC'.

Tabl 19. Themâu sy'n dod i'r amlwg ynglŷn â chryfderau'r strategaeth cwnsela mewn ysgolion

Thema	Nifer o ddatganiadau cefnogol
Cydweithio, ymrwymiad a chefnogaeth	30
Hygyrchedd	17
Adnoddau	17
Ymwybyddiaeth a Chyhoeddusrwydd	8
Annibynnol ac Integredig	6

Ffynhonnell: Arolwg ymysg Cwnselwyr mewn Ysgolion

Roedd hygyrchedd rwydd i'r gwasanaethau i blant a phobl ifanc hefyd yn cael ei ystyried yn un o gryfderau'r strategaeth. Roedd sylwadau yn cynnwys, 'Mae'n caniatáu i blant a phobl ifanc gyrchu gwasanaeth mewn amgylchedd cyfarwydd heb ormod o aflonyddu ar eu haddysg', 'Dim loteri cod post', 'Cynnig cyfleoedd i'r holl bobl ifanc gyrchu cwnsela'.

Nodwyd hefyd yr *adnoddau* oedd ar gael gan Lywodraeth Cymru, yn enwedig o ran ariannu a'r Pecyn Cymorth. Er enghraifft, 'Cynnig gwasanaeth ar draws Cymru', 'Ariannu cynaliadwy', 'Y Pecyn Cymorth'.

Ystyriwyd mai un o gryfderau'r Strategaeth oedd iddo gael ei hyrwyddo'n eang a bod ymwybyddiaeth am gwnsela mewn ysgolion wedi cynyddu. Er enghraifft, 'Y ffaith ei fod yn bodoli a'i fod yn cael ei hyrwyddo i bawb', 'Ei fod yn cael ei hyrwyddo'n gryf', 'Codi

ymwybyddiaeth o les emosiynol o fewn lleoliadau addysgol, rhannu arfer a theori'.

Cryfder arall y Strategaeth oedd ei bod yn gallu cynnig cwnsela mewn ffordd annibynnol ond oedd yn dal i fod wedi'i integreiddio o fewn amgylchedd yr ysgol. Er enghraifft, 'Darparu cwnsela'n annibynnol o'r ysgol ond wedi'i sefydlu yn yr ysgol', 'Ei fod yn wasanaeth ar wahân i'r ysgol, ond ei fod o fewn yr ysgol', 'Gwasanaeth ar wahân ond sydd o fewn yr ysgol'.

4.5.4. Gwendidau.

Pan holwyd barn cwnselwyr mewn ysgolion am wendidau'r Strategaeth daeth dwy brif thema i'r amlwg: *ariannu ac adnoddau ac ymwybyddiaeth a hyfforddiant* (Tabl 20). Y prif fater o amgylch ariannu ac adnoddau oedd pryder am ddiogelu arian yn y dyfodol. Roedd sylwadau ynglŷn â hyn yn cynnwys, 'Diffyg sicrwydd o achos ariannu neu ddiffyg adborth ar ariannu cynaliadwy', 'Diffyg ariannu llawn er mwyn rhoi sail gryfach mewn ysgolion', 'Ariannu nad yw'n gynaliadwy'.

Roedd teimlad hefyd bod staff arall yn yr ysgol angen hyfforddiant am gwnsela mewn ysgol, yn enwedig ynglŷn â rôl cwnselydd mewn ysgol. Er enghraifft, 'Llawer mwy o hyfforddiant i athrawon yn nodi'r rôl a pherthynas gweithio gyda chwnselwyr', 'Addysgu staff yr ysgol ar rôl a phwysigrwydd cwnselwyr mewn ysgolion', 'Diffyg ymwybyddiaeth am rôl a buddion cwnsela ymysg staff yr ysgol'.

Themâu llai amlwg oedd: diffyg cysondeb yn y dull gweithredu ar draws awdurdodau lleol; diffyg cwnsela mewn ysgolion cynradd; hygyrchedd gwael i'r rheiny mewn ardaloedd gwledig; yr angen am well cydweithredu gyda darparwyr gwasanaeth eraill megis amddiffyn plant; a'r angen i athrawon fod yn ymwybodol o bwysigrwydd cyfrinachedd yn y gwasanaeth cwnsela.

Tabl 20. Themau'n dod i'r amlwg am wendidau yn y strategaeth cwnsela mewn ysgolion

Thema	Nifer o ddatganiadau cefnogol
Ariannu ac Adnoddau	33
Ymwybyddiaeth a Hyfforddiant	15
Cysondeb	4
Ysgolion Cynradd	4
Hygyrchedd	4
Cydweithio	3
Cyfrinachedd	3

Ffynhonnell: Arolwg ymysg Cwnselwyr mewn Ysgolion

4.5.5. Argymhellion.

Cafodd argymhellion i wella'r Strategaeth cwnsela mewn ysgolion eu hunioni gyda'r gwendidau canfyddedig, fel y disgrifir uchod (Tabl 21). Yn gyntaf, pwysleisiwyd ariannu:

'Ariannu i barhau', 'Pob ysgol yn cyflogi eu cwnselwyr eu hunain yn uniongyrchol', 'Sicrhau bod ysgolion yn defnyddio'r arian a ddyrannwyd yn gywir'. Argymhelliad arall oedd gwell adnoddau. Er enghraifft, 'Darparu'r ystafelloedd a'r offer addas sydd ei angen i gynnig gwasanaeth cwnsela llawn sy'n cael ei werthfawrogi', 'Gwell amgylchiadau mewn ysgolion ar gyfer cwnsela', 'Ymrwymiad go iawn i ystafelloedd o well ansawdd sy'n dawelach, ac sy'n therapiwtig yn fwy diogel'.

Roedd ail argymhelliad yn berthnasol i'r thema 'Hyfforddiant a chodi ymwybyddiaeth'. Gwnaeth cwnselwyr mewn ysgolion argymhell hyfforddiant ar gyfer staff ysgolion ar rôl cwnsela mewn ysgolion. Er enghraifft, 'Dyddiau hyfforddiant i staff i adeiladu ymwybyddiaeth o'r hyn all y gwasanaeth cwnsela ei gynnig a'r terfynau cyfrinachedd', 'Hyfforddiant i athrawon i gynnwys rhyw elfen am y problemau sy'n wynebu plant heddiw'.

Tabl 21. Themau a ddaeth i'r amlwg o'r Argymhellion i wella'r strategaeth cwnsela mewn ysgolion

Thema	Nifer o ddatganiadau cefnogol
Ariannu ac Adnoddau	38
Hyfforddiant a chodi ymwybyddiaeth	13

Ffynhonnell: Arolwg ymysg Cwnselwyr mewn Ysgolion

4.5.6. Crynodeb.

Canfu bod gwasanaethau'n hyblyg ar y cyfan o ran y nifer o sesiynau a'u lleoliad, gyda gwasanaethau cwnsela'n gweithredu o fewn a'r tu allan i eiddo'r ysgol mewn dros hanner yr achosion. Mae gwasanaethau'n gweithio'n agos gyda gwasanaethau arbenigol, megis CAMHS, gydag oddeutu 62% o gwnselwyr wedi gwneud a/neu wedi derbyn cyfeiriadau gan CAMHS. Mae'r ffaith mai dim ond 3.1% o ddefnyddwyr gwasanaeth a gyfeiriwyd at CAMHS (gweler Tabl 14, tudalen 56) yn awgrymu bod y mwyafrif helaeth o ddefnyddwyr gwasanaeth wedi derbyn triniaeth o fewn y gwasanaethau cwnsela mewn ysgolion ac na wnaeth gweithredu'r Strategaeth arwain at gynnydd mewn cyfeiriadau newydd i CAMHS.

Materion allweddol a godwyd gan gwnselwyr mewn ysgolion yw bod llai na 50% o gytundeb net bod gwasanaethau'n sensitif i anghenion siaradwyr Cymraeg, ac yn debyg bod llai na 50% o gytundeb net bod lefelau staffio'n ddigonol. Roedd ychydig yn uwch na 50% o gytundeb net ymysg cwnselwyr mewn ysgolion bod yr ystafelloedd ar gyfer cwnsela mewn ysgolion yn addas, a thebyg oedd y ffigur am ddigonedd yr adnoddau i'r gwasanaeth. Roedd lefel uchel o gytundeb bod gwasanaethau'n rhan integrol o ddarpariaeth ysgol; bod dulliau monitro a gwerthuso'n foddhaol; bod gwasanaethau'n hygyrch a'u bod yn cael eu cydnabod a'u gwerthfawrogi gan staff yr ysgol, disgyblion a rhieni.

Yr argymhellion allweddol a wnaed gan gwnselwyr mewn ysgolion i wella'r gwasanaeth oedd sicrhau mwy o arian a diogelu arian yn y dyfodol a chreu mwy o

gyfleoedd hyfforddi i gwnselwyr mewn ysgolion, gyda chyfleoedd hyfforddi hefyd ar gael i addysgu staff yr ysgol am y gwasanaeth cwnsela mewn ysgolion.

4.6. Arolwg ymysg Athrawon Cyswllt

I gael trosolwg o weithredu'r Strategaeth ar lefel ysgol, cynhaliwyd arolwg ymysg uwch reolwyr yr ysgol. Ym mhob ysgol, cysylltwyd ag athrawon cyswllt sydd â chyfrifoldeb dros gwnsela yn yr ysgol, a gofyn iddynt gymryd rhan mewn cyfweiliad deg munud dros y ffôn gan ddefnyddio protocol strwythuredig. Mewn achosion ble nad oedd athrawon cyswllt ar gael, cynhaliwyd cyfweiliad gyda phenaethiaid yn lle (er dibenion yr adroddiad hwn, defnyddir y term *athro cyswllt* drwy gydol yr adroddiad i gyfeirio at ymatebwyr yr arolwg yma). Cynhaliwyd arolwg dros y ffôn gyda'r grŵp yma o randdeiliaid gan fod y sampl ddigon bach i gynnal arolwg ymysg y grŵp cyfan.

Arolwg ymysg Athrawon Cyswllt: Canfyddiadau Allweddol

- Gwnaeth dau draean o'r penaethiaid ysgol / athrawon cyswllt y cysylltwyd â hwy, gymryd rhan yn yr arolwg, sy'n sylweddol uwch na'r disgwyl
- Gwnaeth dros hanner yr ysgolion ddynodi eu bod wedi darparu gwasanaeth cwnsela mewn ysgol cyn ei weithredu fel rhan o'r strategaeth genedlaethol
- Dynodwyd gan y mwyafrif o'r ysgolion (78%) oedd â gwasanaeth cwnsela cyn y strategaeth genedlaethol, bod y gwasanaeth cwnsela wedi gwella ers cyflwyno'r strategaeth cwnsela mewn ysgolion
- Yn y mwyafrif o achosion (93%) adroddwyd bod cwnselwyr sy'n gweithio o fewn ysgolion yn rhedeg sesiynau yn gyson
- Ar gyfartaledd, yr amser aros ar gyfer apwyntiad oedd 1-2 wythnos
- Roedd cytundeb net sylweddol (91%) ymysg penaethiaid/athrawon cyswllt bod gwasanaeth cwnsela'r ysgol yn diwallu anghenion disgyblion
- Roedd cytundeb net o 60% bod y gwasanaeth cwnsela mewn ysgolion wedi arwain i welliannau mewn cyrhaeddiad a phresenoldeb
- Roedd cytundeb net o 80% bod ymddygiad wedi gwella
- Ar y cyfan, roedd cytundeb nad oedd baich gwaith y staff wedi cynyddu na lleihau ers gweithredu'r strategaeth.

4.6.1. *Gweithredu'r 10 argymhelliad.*

Wrth gyfeirio at leoliad gwasanaethau cwnsela, roedd cytundeb net o 99% ymysg athrawon cyswllt bod cwnsela'n cael ei ddarparu mewn lleoliad priodol sy'n breifat ond yn ddiogel o fewn cyffiniau'r ysgol (gweler Tabl 22). Yn yr un modd, roedd cytundeb net cryf (95%) bod gwasanaethau wedi'u lleoli ar safle oedd yn rhwydd i'r disgyblion eu cyrchu.

Roedd cytundeb net o 89% bod y gwasanaethau cwnsela yn rhan annatod o ddarpariaeth yr ysgol a chytundeb net o 87% bod gwasanaethau cwnsela'n cael eu hyrwyddo'n dda mewn ysgolion. Yn debyg, roedd cytundeb net o 95% bod gwasanaethau cwnsela'n cael eu cydnabod a'u gwerthfawrogi gan staff ysgolion.

Roedd cytundeb net o 78% bod gweithdrefnau ar gyfer monitro a gwerthuso'r gwasanaeth cwnsela'n foddhaol a 93% o gytundeb net bod agwedd y gwasanaethau cwnsela tuag at gyfrinachedd yn cydbwyso anghenion y rhieni, y plant a diogelu gweithdrefnau yn briodol (gweler Tabl 22).

Tabl 22. Cytundeb net ymysg penaethiaid/athrawon cyswllt ar y datganiadau agwedd am y gwasanaeth cwnsela mewn ysgolion

	% net yn cytuno
Bu'r broses o sefydlu'r gwasanaeth cwnsela yn effeithiol a heb broblem	80
Mae'r gwasanaeth cwnsela yn sensitif i anghenion siaradwyr Cymraeg	27
Mae'r safle ar gyfer gwasanaeth cwnsela yn ddigonol	86
Mae adnoddau digonol ar gyfer y gwasanaeth cwnsela yn f'ysgol	68
Mae gan y gwasanaeth cwnsela cefnogaeth weinyddol da	73
Mae'r gwasanaeth cwnsela yn gweithio'n agos gyda mentrau eraill i gefnogi iechyd a lles yn yr ysgolion	72
Fe roddir cwnsela mewn gosodiad priodol sy'n breifat ond yn ddiogel yn agos i'r ysgol	99
Mae cyhoeddusrwydd da i'r gwasanaeth cwnsela yn yr ysgol	87
Fe gydnabyddir ac fe werthfawrogir y gwasanaeth cwnsela gan staff yr ysgol	95
Lleolir y gwasanaeth mewn safle sy'n hawdd i ddisgyblion cael mynediad	95
Mae'r gwasanaeth cwnsela yn sensitif i anghenion gwahanol gymunedau a grwpiau ethnig	93
Mae'r gweithdrefnau ar gyfer monitro a gwerthuso'r gwasanaeth cwnsela yn foddhaol	78
Mae'r gwasanaeth cwnsela yn rhan annatod o ddarpariaeth yr ysgol	89
Mae agwedd y gwasanaeth tuag at gyfrinachedd yn cydbwyso anghenion y rhieni, y plant a diogelu gweithdrefnau yn briodol	93

Ffynhonnell: Arolwg ymysg Athrawon Cyswllt

Roedd cytundeb net o 93% bod gwasanaethau yn sensitif i anghenion gwahanol gymunedau a grwpiau ethnig ond, mewn cyferbyniad, dim ond 27% o gytundeb net bod gwasanaethau yn diwallu anghenion siaradwyr Cymraeg. Roedd lefel uchel iawn o gytundeb (72%) bod gwasanaethau cwnsela yn gweithio'n agos gyda mentrau eraill i gefnogi iechyd a lles (gweler Tabl 22).

4.6.2. *Agweddau penodol o weithredu.*

Rhoddwyd gwasanaethau cwnsela ar waith o fewn ysgolion ar amseroedd gwahanol,

gyda'r mwyafrif (71.5%) yn gweithredu o 2009 ymlaen (Tabl 23).


Tabl 23. Dyddiad y daeth yr ysgol yn rhan o'r ffrwd gyda'r strategaeth cwnsela mewn ysgolion

Dyddiad daeth yr ysgol yn rhan o'r ffrwd	Niferoedd yr ysgolion sy'n rhan o'r ffrwd	Canran (%)
Cyn-2007	14	8.9
2007	15	9.5
2008	16	10.1
2009	73	46.2
2010	23	14.6
Anhysbys	17	10.7
Cyfanswm	158	100

Ffynhonnell: Arolwg ymysg Athrawon Cyswllt

Nododd dros hanner yr athrawon cyswllt (55%) bod eu hysgolion wedi darparu gwasanaeth cwnsela cyn ei weithredu fel rhan o'r Strategaeth (Ffigur 9).


Ffigur 9. Ysgolion wnaeth ddynodi eu bod wedi darparu gwasanaeth cwnsela mewn ysgol cyn gweithredu fel rhan o'r strategaeth genedlaethol



Ffynhonnell: Arolwg ymysg Athrawon Cyswllt


O ran lleoliad y gwasanaethau roedd y mwyafrif o athrawon cyswllt o'r farn bod gwasanaethau cwnsela'n gweithredu'n gyfan gwbl o fewn eiddo'r ysgol (87%) (Ffigur 10), ac y cyflogwyd cwnselwyr mewn ysgolion gan yr Awdurdod Lleol (51%) (Ffigur 11).

Ffigur 10. Y lleoliad ble gweithredir y gwasanaeth cwnsela



Ffynhonnell: Arolwg ymysg Athrawon Cyswllt

Ffigur 11. Pwy yw cyflogwr y cwnselydd (neu gwnselwyr)



Ffynhonnell: Arolwg ymysg Athrawon Cyswllt


Ar y cyfan, roedd athrawon cyswllt o'r farn bod adnoddau digonol ar gyfer y gwasanaethau (68% o gytundeb net: gweler Tabl 22) ac roeddent yn teimlo bod cefnogaeth weinyddol dda (73% o gytundeb net). O ran ystafelloedd, roedd cytundeb net o 86% bod y rhain yn addas.

O ran sut mae gwasanaethau'n gweithredu, nododd y mwyafrif (93%) bod sesiynau cwnsela'n cael eu cynnal ar sail reolaidd yn hytrach na sail ad hoc (gweler Ffigur 12) ac

adroddodd 34% o athrawon cyswllt mai wythnos i bythefnos oedd y cyfnod aros ar gyfer yr apwyntiad cyntaf (gweler Ffigur 13). Roedd amser aros ar draws sampl yr arolwg yn amrywio o apwyntiad ar yr un diwrnod i arhosiad o fwy na phedair wythnos. Nododd y mwyafrif (75%) o athrawon cyswllt na chynigwyd nifer uchaf o sesiynau i ddisgyblion a phan fo terfyn uchaf yn bodoli, ar gyfartaledd, y nifer uchaf o sesiynau a gynigwyd oedd chwech.


Roedd lefel uchel o gytundeb net (80%) ymysg athrawon cyswllt bod y broses o sefydlu gwasanaethau cwnsela wedi bod yn effeithiol ac yn ddidrafferth (gweler Tabl 22).

Ffigur 12. Canran y cwnselwyr sy'n rhedeg sesiynau rheolaidd o fewn yr ysgol



Ffynhonnell: Arolwg ymysg Athrawon Cyswllt

Ffigur 13. Amser aros cyfartalog ar gyfer apwyntiad cyntaf unwaith i'r disgybl gael ei glustnodi fel rhywun sydd angen gweld cwnselydd mewn ysgol




Ffynhonnell: Arolwg ymysg Athrawon Cyswllt

4.6.3. *Effaith y Strategaeth.*

Gofynnwyd i athrawon cyswllt werthuso effaith cyflwyno'r Strategaeth ar wasanaethau cwnsela mewn ysgolion oedd eisoes yn bodoli, a hefyd yr effaith cafodd cwnsela ar agweddau gwahanol o fywyd ysgol. Roedd y mwyafrif o athrawon cyswllt oedd mewn ysgolion ble roedd gwasanaeth cwnsela wedi'i sefydlu cyn gweithredu'r Strategaeth yn nodi bod gwasanaethau wedyn wedi gwella (78%). Roedd y rhesymau am hyn yn amrywio, gyda'r pedwar ateb mwyaf cyffredin yn cyfeirio at ddarpariaeth fwy cyson, cwnselwyr o ansawdd uwch, gwasanaethau mwy hygyrch i blant, a gwell sylfaen i'r cwnsela mewn ysgolion gydag ymagwedd fwy eglur wedi'i gynllunio'n well (gweler Ffigur 14).


Wrth werthuso effaith cwnsela ar fywyd yr ysgol, roedd cytundeb net sylweddol (91%) ymysg athrawon cyswllt bod gwasanaethau cwnsela'r ysgol yn effeithiol wrth ddiwallu anghenion disgyblion. O ran yr effaith canfyddedig ar gyrhaeddiad, presenoldeb ac ymddygiad disgyblion sydd wedi derbyn cwnsela mewn ysgolion, roedd ymatebion cadarnhaol iawn. Roedd 65% o gytundeb net bod cyrrhaeddiad disgyblion wedi gwella, 69% o gytundeb net bod presenoldeb wedi gwella ac 80% o gytundeb net bod ymddygiad wedi gwella (gweler Ffigur 15). Yn ôl y mwyafrif o athrawon cyswllt cyflawnwyd hyn heb unrhyw gynnydd i faich gwaith staff ysgolion, gyda 46% yn adrodd nad oedd unrhyw gynnydd na gostyngiad yn y baich gwaith o ganlyniad i gyflwyno gwasanaethau cwnsela (Ffigur 16).

Figure 14. Y rhesymau pam mae'r gwasanaeth wedi gwella ers gweithredu'r strategaeth cwnsela mewn ysgolion




Ffynhonnell: Arolwg ymysg Athrawon Cyswllt

Ffigur 15. Canfyddiadau o effaith y gwasanaeth cwnsela mewn ysgol ar gyrhaeddiad, presenoldeb ac ymddygiad disgyblion



Ffynhonnell: Arolwg ymysg Athrawon Cyswllt

Ffigur 16. Canfyddiadau o effaith y gwasanaeth cwnsela mewn ysgolion ar faich gwaith y staff




Ffynhonnell: Arolwg ymysg Athrawon Cyswllt

4.6.4. *Argymhellion.*

Gosodwyd argymhellion athrawon cyswllt ar gyfer datblygu ysgolion yn Ffigur 17, gyda'r rhai mwyaf arwyddocaol yn awgrymu dylai fod mwy o sesiynau cwnsela ar gael i ddisgyblion, y dylid recriwtio mwy o staff cwnsela, y dylid datblygu gwell cyswllt rhwng cwnselwyr a staff ysgolion ac y dylid cynyddu'r arian sydd ar gael.

Ffigur 17. Argymhellion ar gyfer gwelliannau i'r gwasanaeth cwnsela



Ffynhonnell: Arolwg ymysg Athrawon Cyswllt

4.6.5. Crynodeb.

Roedd dros hanner yr ysgolion yn yr arolwg wedi darparu gwasanaeth cwnsela cyn ei weithredu fel rhan o'r strategaeth genedlaethol, gyda 78% o'r farn bod y gwasanaeth wedi gwella ers cyflwyno'r Strategaeth, gan amlaf gan fod darpariaeth fwy rheolaidd ar gael. Adroddwyd bod gwasanaethau'n cael eu rhedeg yn rheolaidd, yn hytrach nac ar sail ad hoc, gyda hyblygrwydd yn nhermau'r nifer o sesiynau oedd ar gael, a'r amser aros cyfartalog yn 1-2 wythnos. Roedd lefel uchel o gytundeb ymysg athrawon cyswllt bod gwasanaethau cwnsela yn diwallu anghenion y disgyblion ac roeddent yn cytuno bod cyrhaeddiad, presenoldeb ac ymddygiad canfyddedig y disgyblion oedd wedi derbyn cwnsela mewn ysgol wedi gwella, a hefyd, mai ychydig iawn o effaith fu ar faich gwaith y staff. Mewn cydsyniad gyda chwnselwyr mewn ysgolion, roedd athrawon cyswllt yn argymhell gellid gwella'r gwasanaeth gyda mwy o sesiynau cwnsela a chynnydd yn y lefelau staffio.

4.7. Arolwg ymysg Arweinwyr Awdurdodau Lleol

Dyfeisiwyd holiadur ar bapur i gasglu gwybodaeth ar farn a chanfyddiadau Arweinwyr Awdurdodau Lleol (a, ble nad oeddynt ar gael, rheolwyr gwasanaeth) am y Strategaeth. Mae'r holiadur yn deillio o'r rhai a ddefnyddir ymysg cwnselwyr mewn ysgolion ac athrawon cyswllt. Maent yn cynnwys y pum maes holi: manylion am y gwasanaethau cwnsela; barn ar gwnsela mewn ysgolion; perthynas gyda gwasanaethau eraill; cryfderau a gwendidau'r strategaeth; ac argymhellion ar gyfer y dyfodol.


Arweinwyr Awdurdodau Lleol: Canfyddiadau Allweddol

- Gwnaeth 96% o'r rheiny wnaeth gwblhau'r holiadur nodi bod ganddynt berthynas dda gyda gwasanaethau arbenigol megis CAMHS
- Roedd cytundeb net o 100% bod cwnselwyr yn cael cyfleoedd addas ar gyfer goruchwyliaeth glinigol. Fodd bynnag, roedd ymatebion llawer yn is ar gyfer hyfforddiant (52%) a lefelau staffio (56%).

4.7.1. Gweithredu'r 10 argymhelliad.

Roedd lefel uchel iawn o gytundeb net (100%) ymysg Arweinwyr Awdurdodau Lleol / Rheolwyr Gwasanaethau (*Arweinwyr ALlau*) bod cwnselwyr yn cael cyfleoedd addas ar gyfer goruchwyliaeth glinigol, ond roedd ffigurau is (52%) am y cyfleoedd hyfforddi sydd ar gael i gwnselwyr (gweler Ffigur 18).

Ffigur 18. Cwestiynau agwedd a holwyd i'r Arweinwyr Awdurdodau Lleol



O ran lleoliad y gwasanaethau, roedd cytundeb net o 96% bod cwnsela'n cael ei ddarparu mewn lleoliad priodol sy'n breifat ond yn ddiogel o fewn cyffiniau'r ysgol. Yn debyg, roedd cytundeb net o 92% bod gwasanaethau wedi'u lleoli mewn safle sy'n hygyrch i'r disgyblion (gweler Tabl 24).

Roedd cytundeb net o 88% bod gwasanaethau cwnsela yn rhan annatod o ddarpariaeth yr ysgol a 72% o gytundeb net bod y gwasanaeth cwnsela'n cael ei hyrwyddo'n dda o fewn yr ysgol. Roedd cytundeb net o 88% bod gwasanaethau cwnsela'n cael eu cydnabod a'u gwerthfawrogi gan staff ysgolion.

Nodwyd lefelau uchel o gytundeb net (80%) bod y gweithdrefnau ar gyfer monitro a gwerthuso gwasanaethau cwnsela'n foddhaol, ynghyd â lefel uwch (100%) bod ymagwedd y gwasanaethau tuag at gyfrinachedd yn cydbwyso anghenion y rhieni, y plant a diogelu gweithdrefnau'n briodol.

Doedd dim ond 56% o gytundeb net bod gwasanaethau cwnsela'n sensitif i anghenion siaradwyr Cymraeg ond roedd lefel uchel iawn (100%) o gytundeb bod gwasanaethau cwnsela'n sensitif i anghenion gwahanol gymunedau a grwpiau ethnig.

Nodwyd gan y mwyafrif helaeth (96%) o Arweinwyr ALLau bod gan wasanaethau berthynas dda gyda gwasanaethau arbenigol megis CAMHS a bod gwasanaethau cwnsela yn gweithio'n agos gyda mentrau eraill i gefnogi iechyd a lles yn yr ysgolion (70% o gytundeb net).

Tabl 24. Cytundeb net ymysg Arweinwyr Awdurdodau Lleol ar y datganiadau agwedd am y gwasanaeth cwnsela mewn ysgolion

	% net yn cytuno
Bu'r broses o sefydlu'r gwasanaeth cwnsela yn effeithiol a heb broblem	64
Mae'r gwasanaeth cwnsela yn sensitif i anghenion siaradwyr Cymraeg	56
Mae'r safle ar gyfer gwasanaeth cwnsela yn ddigonol	72
Mae adnoddau digonol ar gyfer y gwasanaeth cwnsela yn f'ysgol	75
Mae gan y gwasanaeth cwnsela cefnogaeth weinyddol da	84
Mae'r gwasanaeth cwnsela yn gweithio'n agos gyda mentrau eraill i gefnogi iechyd a lles yn yr ysgolion	70
Fe roddir cwnsela mewn gosodiad priodol sy'n breifat ond yn ddiogel yn agos i'r ysgol	96
Mae cyhoeddusrwydd da i'r gwasanaeth cwnsela yn yr ysgol	72
Fe gydnabyddir ac fe werthfawrogi'r y gwasanaeth cwnsela gan staff yr ysgol	88
Lleolir y gwasanaeth mewn safle sy'n hawdd i ddisgyblion cael mynediad	92
Mae'r gwasanaeth cwnsela yn sensitif i anghenion gwahanol gymunedau a grwpiau ethnig	100
Mae'r gweithdrefnau ar gyfer monitro a gwerthuso'r gwasanaeth cwnsela yn foddhaol	80
Mae'r gwasanaeth cwnsela yn rhan annatod o ddarpariaeth yr ysgol	88
Mae agwedd y gwasanaeth tuag at gyfrinachedd yn cydbwyso anghenion y rhieni, y plant a diogelu gweithdrefnau yn briodol	100

Ffynhonnell: Arolwg ymysg Arweinwyr Awdurdodau Lleol

4.7.2. Agweddau penodol o weithredu.

Ar y cyfan, roedd Arweinwyr ALLau yn fodlon (75% o gytundeb net; gweler Tabl 24) bod gwasanaethau cwnsela'n derbyn adnoddau digonol, gyda bodlondeb ychydig yn is am lefelau staffio (56% o gytundeb net; gweler Ffigur 18). Roedd lefel uchel o gytundeb net (84%) bod gwasanaethau cwnsela'n derbyn cefnogaeth weinyddol dda a bod ystafelloedd addas ar gyfer y gwasanaethau (72% o gytundeb net). Roedd cytundeb net sylweddol ymysg Arweinwyr ALLau (76%) nad oedd gan y gwasanaeth dan eu rheolaeth gyfyngiad ar y nifer o sesiynau sydd ar gael i ddisgyblion ac roedd 64% o gytundeb net bod y broses o sefydlu'r gwasanaeth cwnsela wedi bod yn effeithiol ac yn ddidrafferth.

4.7.3. Cryfderau.

Roedd y sylwadau ansoddol gan Arweinwyr ALLau am gryfderau'r Strategaeth yn cynnwys y thema *cefnogaeth* (gweler Tabl 25), gyda sylwadau megis, 'Cefnogaeth dda gan y LICC', 'Cefnogaeth drwy gonsortiw', 'Cefnogaeth ganolog i godi ymwybyddiaeth'.

Tabl 25. Canfyddiadau Arweinwyr Awdurdodau Lleol am gryfderau'r Strategaeth

Thema	Nifer o ddatganiadau cefnogol
Cefnogaeth	7
Hygyrchedd	9
Adnoddau	7
Ariannu	8
Ymagwedd Cymru gyfan	5

Ffynhonnell: Arolwg ymysg Arweinwyr Awdurdodau Lleol

Nodwyd hefyd bod *rhwyddineb cyrchu'r* gwasanaethau i blant a phobl ifanc yn gryfder. Er enghraifft, 'Gallwn gysylltu person ifanc gyda chwnselydd sydd wedi derbyn hyfforddiant proffesiynol yn gyflym pan mae'r angen yn codi', 'Pwyslais ar hunangyfeiriad', 'Hawl i bawb', 'Darpariaeth gyffredinol sy'n hygyrch i bob plentyn'.

Nodwyd hefyd gan Arweinwyr ALLau bod yr *adnoddau* oedd ar gael gan Lywodraeth Cymru yn gryfder, yn arbennig y 'Pecyn cymorth'. Er enghraifft, 'Pecyn cymorth – adnodd defnyddiol' a 'Gydag adnoddau da e.e. pecyn cymorth a DVD'.

Yn debyg, nodwyd bod y *ddarpariaeth ariannu* yn un o gryfderau'r Strategaeth, gyda sylwadau yn cynnwys, 'Wedi'i ariannu'n dda', 'Arian wedi'i neilltuo', 'Arian ychwanegol', 'Prif ffrydio'r arian'.

Yn olaf, nododd Arweinwyr ALLau bod yr 'ymagwedd Cymru gyfan' yn gryfder: er enghraifft, 'Cydllynu'r gweithredu ledled Cymru'.

4.7.4. Gwendidau.

Nodwyd pryderon gan Arweinwyr ALLau am ansicrwydd *ariannu yn y dyfodol* (gweler Tabl 26). Er enghraifft, 'Parhad yr arian', 'Ansicrwydd dros ariannu hir dymor'.

Tabl 26. Canfyddiadau Arweinwyr Awdurdodau Lleol am wendidau'r Strategaeth

Thema	Nifer o ddatganiadau cefnogol
Darpariaeth arian yn y dyfodol	8
Amrywioldeb yn y gwasanaethau ar draws ysgolion	2
Cynladwyedd	4

Ffynhonnell: Arolwg ymysg Arweinwyr Awdurdodau Lleol

Roedd gwendid arall yn berthnasol i *gynaliadwyedd gwasanaethau* a'r gallu i ddiwallu'r galw. Roedd sylwadau yn cynnwys, 'Llawer mwy na'r disgwyl' a 'Galw'n debygol o gynyddu'.

Yn olaf, nodwyd bod y *diffyg cysondeb ar draws ysgolion* yn wendid dichonol. Er enghraifft, 'Mae rhai o'r gwasanaethau'n cyfri'r data'n wahanol' a'r 'Gallu i gynnig gwasanaeth cyfartal i bob ysgol'.

4.7.5. Argymhellion.

Roedd argymhellion i wella'r strategaeth cwnsela mewn ysgolion yn clymu'n agos gyda'r gwendidau canfyddedig yn y Strategaeth fel y disgrifiwyd uchod. Rhoddwyd pwyslais ar sicrhau arian ar gyfer y dyfodol (gweler Tabl 27) er enghraifft, 'Cynnydd neu barhad i'r arian', 'Arian mwy diogel', 'Mwy o arian'.

Roedd argymhellion pellach yn canolbwyntio ar gydweithio gydag asiantaethau eraill a mwy o integreiddio i mewn i ddarpariaeth yr ysgol. Roedd sylwadau yn cynnwys, 'Sicrhau caiff ei fewnosod fel gwasanaeth wedi'i dargedu o fewn gwasanaethau addysg ac iechyd', 'Cydweithio'n agosach rhwng asiantaethau' a 'Gwella'r gallu i rannu arfer da'.

Nodwyd cynnydd yn y cyfleoedd i gwnselwyr a staff ysgolion ymgymryd â hyfforddiant, er enghraifft, 'Cyfleoedd hyfforddi ar y cyd'.

Yn olaf, amlygwyd yr angen i werthuso effeithiolrwydd y gwasanaethau, er enghraifft, 'Adolygiad annibynnol trylwyr' a 'Gwerthusiad parhaus'.

Tabl 27. Argymhellion gan Arweinwyr Awdurdodau Lleol ar ffyrdd o wella'r Strategaeth

Thema	Nifer o ddatganiadau cefnogol
Cynnydd / parhau i ariannu	11
Cydweithio gydag asiantaethau eraill a staff yr ysgol	3
Cyfleoedd hyfforddi ar y cyd	3
Parhau i werthuso'r gwasanaeth	3

Ffynhonnell: Arolwg ymysg Arweinwyr Awdurdodau Lleol

4.7.6. Crynodeb.

Roedd Arweinwyr ALLau yn cytuno gyda chwnselwyr mewn ysgolion ac athrawon cyswllt nad oedd gwasanaethau'n cyfyngu'r nifer o sesiynau cwnsela i ddisgyblion. Roedd y canlyniadau hefyd yn cefnogi'r canfyddiadau bod gwasanaethau'n gweithio'n agos gyda gwasanaethau arbenigol megis CAMHS. Roedd llai na 60% o gytundeb bod Awdurdodau Lleol yn cynnig hyfforddiant i gwnselwyr mewn ysgolion a bod lefelau staffio'n addas (mae hyn yn cefnogi canfyddiadau'r arolwg ymysg cwnselwyr). Mae'r cryfderau, y gwendidau a'r argymhellion yn cadarnhau'r rheiny a adroddwyd gan gwnselwyr mewn ysgolion ac athrawon cyswllt.


4.7.7. *Lefel cytundeb ar draws grwpiau rhanddeiliaid.*

Lefel Cytundeb ar draws Grwpiau Rhanddeiliaid: Canfyddiadau Allweddol

- Yn gyffredinol, roedd lefelau bodlondeb gyda chwnsela mewn ysgolion yn uchel ar draws y tri grŵp o rhanddeiliaid
- Adroddwyd gan athrawon cyswllt bod gweithredu'r Strategaeth wedi arwain at welliannau arwyddocaol i ddarpariaeth cwnsela mewn ysgolion oedd eisoes yn bodoli
- Adroddwyd gan athrawon cyswllt bod gwasanaethau cwnsela wedi cael effaith gadarnhaol ar gyrhaeddiad, presenoldeb ac ymddygiad cleientiaid
- Ni chanfu fod y Strategaeth wedi cynyddu baich gwaith staff ysgolion
- Cryfderau canfyddedig y Strategaeth oedd yr ymrwymiad a'r gefnogaeth gan Lywodraeth Cymru a'r 'ymagwedd Cymru gyfan'
- Roedd rhai cwnselwyr yn ystyried bod y broses o sefydlu gwasanaethau cwnsela yn anodd ac yn drafferthus, o gymharu ag athrawon cyswllt ac Arweinwyr ALLau
- Ystyriwyd bod y diffyg cwnsela mewn ysgolion cynradd yn un o wendidau'r Strategaeth
- Yn gyffredinol, nododd yr atebion gan rhanddeiliaid bod y 10 argymhelliad ar gyfer cwnsela mewn ysgolion wedi'u gweithredu. Fodd bynnag:
 - Roedd yr holl grwpiau rhanddeiliaid eisiau gweld ariannu diogel ar gyfer y Strategaeth yn y dyfodol
 - Nid oedd gwasanaethau bob amser yn diwallu anghenion siaradwyr Cymraeg
 - Roedd lefel o bryder am adnoddau, yn enwedig yr ystafelloedd ble cynigwyd gwasanaethau
- Yr argymhellion allweddol a gynigwyd gan y grwpiau rhanddeiliaid oedd:
 - Y dylid cynyddu'r arian
 - Dylai fod mwy o gyfleoedd i gwnselwyr a staff ysgolion ymgymryd â hyfforddiant pellach.

Ar y 10 eitem gyffredin yn yr arolwg ar draws y tri grŵp o randdeiliaid, roedd lefel cytundeb net o 70% neu'n uwch, gydag ychydig iawn o amrywiaeth rhwng y grwpiau (gweler Ffigur 19). Fodd bynnag, roedd pedwar eitem ble roedd lefel cytundeb net yn amrywio'n sylweddol ar draws y tri grŵp o randdeiliaid ac roedd rhai grwpiau wedi nodi lefelau gweddol isel o gytundeb. Yn gyntaf, dim ond 26% oedd y cytundeb net ymysg cwnselwyr mewn ysgolion bod y broses o sefydlu'r gwasanaeth cwnsela wedi bod yn effeithlon a didrafferth, o gymharu â 64% ymysg Arweinwyr ALLau a 79% yn yr arolwg ymysg penaeithiaid. Yn ail, 56% oedd y cytundeb net ymysg Arweinwyr ALLau bod gwasanaethau cwnsela yn sensitif i anghenion siaradwyr Cymraeg, dim ond 47% ymysg cwnselwyr mewn ysgolion a 28% yn yr arolwg ymysg athrawon cyswllt. Yn drydydd, dangosodd yr arolwg ymysg cwnselwyr mewn ysgolion bod 54% o gytundeb net bod yr ystafelloedd ar gyfer y gwasanaeth cwnsela yn addas o gymharu ag 89% ymysg athrawon cyswllt a 72% ymysg Arweinwyr ALLau. Yn olaf, roedd cytundeb net ymysg cwnselwyr mewn ysgolion bod gwasanaethau cwnsela'n derbyn adnoddau digonol yn is (55%) nac ymysg athrawon cyswllt a (69%) ymysg Arweinwyr ALLau (75%).

Ffigur 19. Cytundeb net ymysg cwnselwyr mewn ysgolion, penaethiaid/athrawon cyswllt ac Arweinwyr/Rheolwyr gwasanaeth mewn Awdurdodau Lleol ar y datganiadau agwedd am y gwasanaeth cwnsela mewn ysgolion



Ffynhonnell:Arolwg ymysg Cwnselwyr, arolwg ymysg Athrawon Cyswllt ac arolwg ymysg Arweinwyr Awdurdodau Lleol

4.8. Astudiaethau Achos

Cynhaliwyd cyfweiliadau gyda staff ysgolion, rhieni, defnyddwyr gwasanaeth (h.y. myfyrwyr sydd wedi mynychu cwnsela) a grwpiau ffocws o fyfyrwyr mewn pedair ysgol uwchradd. Roedd pob grŵp ffocws o fyfyrwyr un ai'n gyngor yr ysgol neu'n grŵp gallu cymysg,⁵⁸ ac ni chafodd defnyddwyr gwasanaeth presennol na chyn ddefnyddwyr eu heithrio o'r grwpiau ffocws o fyfyrwyr. Gofynnwyd cwestiynau ynghylch lefelau boddhad gyda'r Strategaeth, hygyrchedd y gwasanaethau ac effaith canfyddedig y gwasanaeth o fewn yr ysgol. Yn y bennod hon rhoddir trosolwg o bob ysgol astudiaeth achos, ac wedyn ceir disgrifiad o'r canfyddiadau.

Astudiaethau Achos: Canfyddiadau Allweddol

- Roedd lefelau boddhad gyda'r Strategaeth yn uchel ar y cyfan
- Ystyriwyd y gellid cyrchu cwnsela'n sydyn, oedd yn caniatáu i athrawon ganolbwyntio ar ddysgu; gan felly arddangos ethos gofalgar a chefnogol yn amgylchedd yr ysgol, nad oedd yn stigmatiddio'r cwnsela
- Ystyriwyd bod cwnsela'n cael effaith gadarnhaol ar gleientiaid: yn cynyddu lles, hapusrwydd a hyder; ac yn lleihau ymddygiad trafferthus, aflonyddgar a risg uchel
- Canfu bod angen i wasanaethau cwnsela fod ar gael yn ehangach ac y dylai fod gwybodaeth helaeth ar gael am y gwasanaethau
- Ymysg y pryderon am y gwasanaethau cwnsela oedd y cyfyngiad ar faint o gwnsela oedd ar gael, dewis cyfyngedig o gwnselwyr (yn enwedig o ran rhyw), cyfyngiad ar faint o gwnselwyr Cymraeg eu hiaith oedd ar gael, problemau gydag ystafelloedd ac anawsterau gyda hunangyfeiriad pan fo athro penodol yn cyfeirio unigolion i'r gwasanaeth.

4.8.1. Astudiaeth achos: Ysgol 1.

Roedd Ysgol 1 yn ysgol gyfun cyfrwng Cymraeg mewn ardal wledig yng Ngogledd Cymru, gyda niferoedd islaw'r cyfartaledd o fyfyrwyr sy'n gymwys am brydau ysgol am ddim. Mae ganddi gwnselydd sy'n ymweld â'r ysgol unwaith yr wythnos a Chydlynnydd Iechyd

58 Mae 'grŵp gallu cymysg' yn cyfeirio at grŵp o fyfyrwyr a ddewiswyd yn benodol gan staff yr ysgol i gynrychioli ystod o allu. Dewiswyd y grŵp hwn yn ogystal â'r cyngor myfyrwyr, gan na fyddai'r cyngor myfyrwyr o reidrwydd yn cynrychioli'r corff myfyrwyr.

Emosiynol sy'n gweithio yn yr ysgol yn llawn amser. Mae'r cwnselydd yn derbyn cyfeiriadau drwy'r cydlynnydd iechyd emosiynol a/neu'r tiwtor cyswllt. Gall fyfyrwyr gyfeirio'u hunain i'r cydlynnydd iechyd emosiynol ond nid yn uniongyrchol i'r cwnselydd: mae gan y cwnselydd broffil isel yn yr ysgol ac nid yw pob myfyriwr yn ymwybodol o'i rôl na'i henw. Ar y llaw arall, mae'r cydlynnydd iechyd emosiynol yn adnabyddus iawn o fewn yr ysgol, ac roedd yr holl fyfyrwyr a gyfwelwyd yn ymwybodol ohoni a'r hyn mae'n ei wneud. Mae llawer o'r myfyrwyr, rhai o'r staff a rhieni yn tybio mai hi yw'r cwnselydd. Mae rolau'r cydlynnydd iechyd emosiynol yn cynnwys darparu gwasanaeth galw heibio, a chefnogaeth uniongyrchol i fyfyrwyr sy'n profi trallod emosiynol neu anawsterau wrth reoli dicter. Pan holwyd am y cwnselydd, bu llawer o'r rhai a gyfwelwyd yn trafod rôl y cydlynnydd iechyd emosiynol yn hytrach na'r cwnselydd dynodedig, gan ei gwneud yn anodd dod i ganlyniadau penodol am y cwnsela. Fodd bynnag, mae'r model cyffredinol yma o ddarpariaeth yn cael ei groesawu yn yr ysgol.

Mae'r cwnselydd yn gweithredu o ystafell ddynodedig a ddisgrifir fel ystafell dawel, braf gyda digon o le. Mae'r staff yn nodi ei bod mewn lleoliad tawel, sy'n bell o'r cynteddau prysur, gan felly wella cyfrinachedd. Roedd gan fyfyrwyr rai pryderon y gallai lleoliad yr ystafell cwnsela ddychryn rhai (yn enwedig plant iau) gan ei fod mewn rhan o'r ysgol na fyddent fel arfer yn mynd iddo os nad oeddynt 'mewn trafferth', ac os cânt eu gweld yn mynd i'r ardal yma, byddai angen egluro hyn i'w cyfoedion.

4.8.2. Astudiaeth achos: Ysgol 2.

Roedd Ysgol 2 yn ysgol gyfun ffydd cyfrwng Saesneg mewn ardal drefol yng Ngogledd Cymru gyda niferoedd islaw'r cyfartaledd o fyfyrwyr sy'n gymwys am brydau ysgol am ddim. Cyflogir y cwnselydd gan asiantaeth allanol, ac o dro i dro mae wedi derbyn cefnogaeth ychwanegol gan gydweithiwr asiantaeth gan fod galw uchel yn yr ysgol. Mae'r ysgol hon wedi sicrhau bod cwnsela ar gael yn ehangach nac arfer yn y gorffennol agos o achos digwyddiad trawmatig gafodd effaith ar nifer o fyfyrwyr, ac roedd lefel uchel o ymwybyddiaeth am hyn. Roedd y gwasanaeth yn cael ei werthfawrogi'n fawr gan y rhieni, y staff a'r myfyrwyr hynny oedd wedi dod i gyswllt ag e, ac roedd y prif faterion ynglŷn â'i broffil, argaeledd a'r ystafelloedd.

Nid yw'r gwasanaeth cwnsela rheolaidd yn adnabyddus iawn ymysg myfyrwyr; roedd y rheiny oedd yn ymwybodol ohono'n dweud y byddant yn ei gyrchu drwy eu Pennaeth Adran, a doeddent ddim yn ymwybodol o unrhyw lwybrau cyfeirio amgen. Doedd myfyrwyr ddim yn siŵr os oeddent yn gallu dewis peidio mynychu cwnsela. Er y byddai'n well gan fyfyrwyr fod â mwy o wybodaeth am y gwasanaeth cwnsela, roeddent hefyd yn awgrymu

gallai gormod o hygyrchedd arwain i gamdriniaeth o'r gwasanaeth. Bu myfyrwyr yn trafod rhai o'r manteision o gael cwnselydd ar wahân i weddill bywyd yr ysgol, gan fod hyn yn cynyddu eu hyder yng nghyfrinachedd cwnsela.

Mae'r diffyg lle dynodedig a chyson i'r gwasanaeth cwnsela yn broblem arwyddocaol i rai myfyrwyr; defnyddiwyd amrywiaeth o swyddfeydd oedd yn golygu bod rhai myfyrwyr yn cwrdd â'r cwnselydd mewn ystafelloedd gwahanol ar achlysuron gwahanol. Nid oedd rhai o'r ystafelloedd a ddefnyddiwyd wedi'u hynysu rhag sain yn ddigonol ac o dro i dro torrwyd ar draws y sesiwn. Golygai hyn, er gwaethaf ymdrechion gorau'r cwnselydd, roedd myfyrwyr yn llai na hyderus bod eu cwnsela wir yn breifat. Rhagwelir caiff y broblem o ystafelloedd addas ei datrys cyn y flwyddyn ysgol nesaf.

4.8.3. Astudiaeth achos: Ysgol 3.

Roedd Ysgol 3 yn ysgol cyfrwng Saesneg canolig ei faint mewn ardal gymysg drefol/gwledig yn Ne Cymru. Roedd y nifer o ddisgyblion a dderbyniwyd yn debyg i'r cymedr cenedlaethol o ran darpariaeth prydau ysgol am ddim, gyda bron pawb o gartrefi Saesneg eu hiaith.

Mae'r mwyafrif llethol o'r farn bod y gwasanaeth cwnsela mewn ysgol yn ychwanegiad cadarnhaol i'r ysgol. Fe'i gweithredir gan asiantaeth allanol. Roedd y cwnselydd yn adnabyddus iawn o fewn yr ysgol o ran ei henw a'r gwasanaeth a gynigwyd. Caiff y gwasanaeth cwnsela ei hysbysebu'n eang gyda phosteri. Mae'r cwnselydd yn siarad yng ngwasanaeth yr ysgol yn rheolaidd ac yn dangos DVD cwnsela mewn ysgolion. Mae wedi ymweld â grwpiau o blant Blwyddyn 6 mewn ysgolion sy'n bwydo'r ysgol hon cyn iddynt drosglwyddo i'r ysgol uwchradd. Mae'r gwasanaeth yn cynnwys cwnsela un-i-un, gwasanaeth galw heibio, a 'lloches' yn ogystal ag ystafell ofal sydd eisoes yn bodoli (y tu allan i'r gwasanaeth cwnsela). Roedd nifer o lwybrau cyfeirio gan gynnwys hunangyfeiriad annibynnol, galw heibio, a chyfeiriad gan staff addysgu. Roedd myfyrwyr a staff yn ymwybodol o'r prosesau cyfeirio.

Mae'n ymddangos bod ychydig o bryder ymysg y grŵp staff am broblem cyfrinachedd y cwnsela ond mae hwn yn lleihau wrth i fwy o wybodaeth am weithredu'r gwasanaeth ddod i'r amlwg, megis lefelau defnydd a chanlyniadau. Mae'r staff o'r farn bod cwnsela'n cefnogi Penaethiaid Blynyddoedd mewn perthynas â rhai agweddau o ofal bugeiliol. Rhywbeth nad oes ganddynt amser na'r profiad arbenigol i'w gyflawni.

Mae'n ymddangos bod gan fyfyrwyr wybodaeth gywir ar y cyfan am y gwasanaeth. Pwysleisiwyd pwysigrwydd cyfrinachedd, doethineb a pherthynas sydd ddim yn barnu gyda'r cwnselydd. Thema allweddol oedd y teimlad o ddiogelwch o gael person ar gael i

drafod unrhyw fath o broblem.

Nodwyd mai'r prif faes gwelliant oedd yr angen i'r gwasanaeth fod ar gael yn ehangach.

4.8.4. Astudiaeth achos: Ysgol 4.

Roedd hon yn ysgol cyfrwng Saesneg mewn ardal gweddol wledig yn Ne Cymru. Roedd y gyfran o fyfyrwyr oedd yn gymwys am brydau ysgol am ddim rhywfaint yn uwch na'r cyfartaledd cenedlaethol. Darperir y gwasanaeth cwnsela gan asiantaeth allanol a chaiff disgyblion eu cyfeirio drwy staff penodol. Roedd rhai myfyrwyr yn ymwybodol o'r gwasanaeth drwy eraill; doedd rhai heb glywed amdano a/neu nid oeddynt yn glir am ei fwriad. Roedd rhai wedi clywed amdano yn y gwasanaeth neu gan athrawon penodol. Roedd yr holl ymatebwyr oedd yn ymwybodol ohono o'r farn bod y gwasanaeth yn beth positif, ond ychydig o ddealltwriaeth oedd ymysg y rheiny nad oedd wedi cael cyswllt uniongyrchol.

Doedd y mater caniatâd gan rieni ar gyfer cwnsela ddim yn eglur; nododd defnyddwyr gwasanaeth nad oedd angen caniatâd rhieni ond doedd myfyrwyr eraill ddim yn ymwybodol o hyn ac roedd rhai aelodau o staff yn meddwl bod angen caniatâd. Nid oedd y myfyrwyr i gyd yn gyfarwydd â'r broses gyfeirio, ond gan amlaf, roeddent yn awgrymu cysylltu â'r staff addysgu.

Roedd rhai o'r myfyrwyr oedd wedi dod i gyswllt â'r gwasanaeth yn adrodd yn gadarnhaol iawn arno, gan ei ddisgrifio fel gwasanaeth preifat, cyfrinachol ac o gymorth. Roedd yr holl ymatebwyr o'r farn bod y cwnsela'n ychwanegiad positif i'r ysgol. Materion allweddol a nodwyd oedd yr angen am well ystafell, a bod mwy o gwnsela ar gael.

Er bod proffil isel y gwasanaeth yn golygu nad oedd rhai myfyrwyr yn ymwybodol ohono, neu nid oeddynt yn ymwybodol o'r broses gyfeirio a'r polisiau cyfrinachedd, disgrifiwyd hwn hefyd fel rhywbeth manteisiol gan ei fod yn cadw cyfrinachedd y myfyrwyr oedd yn defnyddio'r gwasanaeth: roedd myfyrwyr eraill yn llai tebygol o ddyfalu ble roedd eu cyfoedion yn mynd os nad oeddynt yn ymwybodol o fodolaeth y gwasanaeth cwnsela.

4.8.5. Lefelau boddhad.

Roedd ymateb cryf a chadarnhaol i ddarpariaeth cwnsela yn y pedair ysgol yma gan bawb: staff, rhieni a myfyrwyr. Roedd lefelau boddhad gyda'r gwasanaeth yn uchel iawn ar y cyfan, yn enwedig ymysg staff, rhieni a defnyddwyr gwasanaeth. Roedd hi'n anoddach asesu lefelau boddhad gan ddefnyddwyr gwasanaeth potensial am y ffordd mae'r gwasanaethau cwnsela'n gweithredu'n ymarferol gan nad oedd rhai myfyrwyr yn gyfarwydd â'r

gwasanaeth.

Mewn cyfweiliadau unigol, mynegwyd boddhad clir gan y mwyafrif o ymatebwyr (staff, rhieni a defnyddwyr gwasanaeth). Mynegodd nifer fechan o unigolion eu boddhad gydag ychydig o amheuaeth, gan eu bod yn awyddus bod mwy o gwnsela ar gael, yn awyddus i dderbyn mwy o wybodaeth am y gwasanaeth, ac mewn un ysgol, bod ystafell gyson ar gael. O ran gweddill yr ymatebwyr, ni ofynnwyd y cwestiwn hwn yn uniongyrchol, ni wnaethant ymateb neu mynegwyd nad oeddent yn gwybod digon i fynegi barn.

Mae ymatebion staff i gwestiynau am foddhad gyda'r gwasanaeth yn cynnwys:

Faswn i'n casáu bod heb wasanaeth cwnsela mewn ysgol nawr ei fod yma, ... mae hi'n bendant wedi bod yn werth chweil ... gwych, ni allai siarad ddigon uchel amdani, dim ond gobeithio y cawn ei chadw hi.

Bodlon iawn; rwy'n meddwl ei bod hi'n wych.

Yn bendant, byddwn wrth fy modd petai hi'n llawn amser.

Dangosodd rieni foddhad gyda'r gwasanaeth gyda sylwadau'n cynnwys:

Mae'r [cwnselydd] yn anhygoel.

O'r plant rwy'n gwybod sydd wedi ymweld â hi, mae'n amlwg eu bod wedi elwa felly rwy'n credu ei bod yn gwneud ei gwaith yn dda ... y broblem yw mai dim ond un sydd yma a dyna fy mhryder mwyaf, beth sy'n digwydd i'r plant sy'n gorfod aros?

Yn bendant yn fodlon ... mae [y plant] yn mynd amdano gan eu bod eisiau.

Roedd defnyddwyr gwasanaeth yn bositif am y gwasanaeth cwnsela, gan bwysleisio nodweddion personol positif y cwnselydd. Roedd sylwadau yn cynnwys,

Mae'r cwnselydd yn neis iawn, yn amyneddgar iawn, mae hi'n dda, yn dangos empathi.

Rwyf wir wedi plesio, gallaf ddweud unrhyw beth, mae'n gyfrinachol, gallaf ddarllen ei nodiadau.

Pan oeddwn i'n absennol o'r ysgol y llynedd gyda [rheswm] fe fethais lawer o waith ac roedd rhaid i mi fynd i'w gweld hi. Fe wnaeth hi helpu lot, a dweud y gwir, doeddwn i ddim yn meddwl y gallai hi, i gychwyn roeddwn i'n meddwl, o dduw rwy'n od, ond fe wnaeth hi wir helpu.

Mae rhywun yn gwrando arnaf i. Dim cymaint rhywun i sgwrsio gyda fi a dweud beth i'w wneud achos nid ydw i'n hoffi hynna. Gwell yw cael rhywun sy'n fodlon gwrando, gwrando ar beth sydd o'i le.

Ffactorau eraill oedd yn cael eu gwerthfawrogi'n fawr gan ddefnyddwyr gwasanaeth oedd y gallu i drefnu apwyntiadau'n uniongyrchol gyda'r cwnselydd, cael dewis o ddyddiau ar gyfer eu hapwyntiad, preifatrwydd, sesiynau un i un, apwyntiadau rheolaidd a chyson a'r gallu i drafod unrhyw beth yn agored.

Roedd ymatebion y grwpiau ffocws o fyfyrwyr (h.y. y rheiny oedd yn cynrychioli'r corff myfyrwyr yn hytrach na'r rhai oedd wedi cael cyswllt gyda'r gwasanaeth) yn fwy ansicr ac nid oedd o hyd yn bosibl darganfod barn pob unigolyn o fewn y grwpiau hyn. Mynegwyd boddhad clir yn un o'r wyth grŵp ffocws; mynegwyd cryn foddhad mewn dau grŵp; roedd tri grŵp yn fodlon ond gyda rhai amheuan (er enghraifft nad oedd gwybodaeth ddigonol ar gael am y gwasanaeth) ac ni wnaeth un grŵp sylwadau uniongyrchol ar y mater hwn.

Ni ddywedodd yr un o'r cyfranogwyr yn yr astudiaeth eu bod yn anfodlon gyda'r gwasanaeth cwnsela.

4.8.6. Ymwybyddiaeth o'r gwasanaeth a dealltwriaeth o swyddogaeth cwnsela mewn ysgolion.

Roedd lefel dealltwriaeth am y gwasanaeth cwnsela a gwasanaethau cymorth emosiynol perthynol yn amrywio rhwng ysgolion; roedd yr amrywiaeth yma'n cydberthyn i raddau gyda'r model darparu cwnsela a chymorth emosiynol a fabwysiadwyd. Mewn rhai ysgolion roedd ymwybyddiaeth wych am yr ystod o wasanaethau lles emosiynol oedd ar gael, ond nid oedd y gwasanaeth cwnsela'n cael ei wahaniaethu bob tro o wasanaethau lles emosiynol. Mewn ysgolion eraill, roedd dealltwriaeth am y gwasanaeth cwnsela yn fwy cyfyngedig, roedd hyn yn nodedig ble roedd cyrchu'r gwasanaeth yn digwydd drwy athrawon penodol. Ar y cyfan, dangoswyd bod dealltwriaeth dda o swyddogaeth cwnsela.

Fodd bynnag, ble roedd ffurfiau eraill o gymorth emosiynol arbenigol ar gael gallai fod diffyg eglurder am hunaniaeth briodol a rolau'r gwasanaeth cwnsela a'r gwasanaeth cymorth emosiynol. Hwyrach na fydd hyn o reidrwydd yn lleihau budd neu foddhad gyda'r gwasanaethau a ddarparwyd, ac yn wir gallai ddigwydd pan fo'r gwasanaeth cwnsela wedi'i integreiddio'n drwyadl gyda gwasanaethau eraill, ond mae'n ei gwneud yn anoddach gwahaniaethu effaith benodol y gwasanaeth cwnsela.

Ymwybyddiaeth a gwybodaeth o'r gwasanaeth.

Roedd yr holl rieni wnaeth ymateb yn ymwybodol o'r gwasanaeth cwnsela (er y dylid nodi

bod rhai o'r rhieni hefyd yn cael eu cyflogi gan yr ysgolion, neu roedd eu plant wedi gweld y cwnselydd, felly hwyrach nad yw hyn yn gynrychiadol o'r holl rieni). Roedd tystiolaeth mewn un ysgol ei bod yn hysbysu'r rhieni gyda thaflenni a llythyron; mewn dwy ysgol arall, hysbyswyd y rhieni am wasanaeth os nodwyd y byddai'r plentyn yn elwa o bosib o dderbyn cwnsela. Doedd y sefyllfa yn y bedwaredd ysgol ddim yn glir yn yr ymchwil yma. Roedd lefel gwybodaeth a ddangosodd y rhieni yn amrywio, o fodolaeth y gwasanaeth i fanylder am y broses gyfeirio.

Roedd gwybodaeth myfyrwyr am y gwasanaeth hefyd yn amrywio fesul ysgol: mewn un ysgol, roedd y myfyrwyr yn gyfarwydd ar y cyfan gyda'r gwasanaeth cwnsela, mewn un ysgol roeddent yn gwybod ble a sut i gyrchu cymorth emosiynol ond nid oeddent yn gwahaniaethu'r cwnsela'n eglur o'r gwasanaethau eraill oedd ar gael. Mewn dwy ysgol roedd gwybodaeth am y gwasanaeth cwnsela'n anghyson. Roedd y defnyddwyr gwasanaeth i gyd yn ymwybodol o'r gwasanaeth cwnsela a'r dulliau cyfeirio.

Roedd yr holl aelodau staff a gyfwelwyd yn gyfarwydd â'r gwasanaeth cwnsela, ac roedd gan y mwyafrif ryw lefel o wybodaeth am y ffordd roedd yn gweithio a gallant ddyfynnu'r broses gyfeirio. Mewn un ysgol gallai'r staff ddarparu ychydig o fanylion am y gwasanaeth, a disgrifiwyd y cyswllt gyda'r gwasanaeth gan bedwar o'r chwe aelod staff a gyfwelwyd. Mewn ysgol arall, roeddent yn llai cyfarwydd, a gwnaeth un aelod staff gymysgu'r cwnselydd gyda'r Seicolegydd Addysg.

Deall pwrpas cwnsela.

Roedd dealltwriaeth eang mai nod cwnsela yw darparu lle cyfrinachol ble gall bobl ifanc drafod problemau emosiynol neu broblemau maent yn eu hwynebu gartref neu yn yr ysgol. Dangoswyd dealltwriaeth o'r cwnsela gan y rhieni a gyfwelwyd, er cafodd y datganiad 'rhoi cyngor' ei gynnwys fel agwedd o gwnsela gan rai ymatebwyr ymysg y rhieni a'i eithrio gan eraill. Roedd y disgrifiadau'n cynnwys:

Rhannu teimladau gyda rhywun sy'n deall, rhywun allai roi cyngor iddyn nhw.

Rhywun i sgwrsio gyda nhw y tu allan i'r teulu ... cyfaill ar yr ochr arall, dim ond i wrando.

Disgrifiwyd y cwnsela gan staff fel lle y gallai'r plant fynd i siarad yn agored ac yn gyfrinachol am broblemau sydd yn eu poeni. Yn Ysgol 1 ble, yn aml, nid oedd y gwasanaeth cwnsela a'r gwasanaeth lles emosiynol yn cael eu gwahaniaethu, roedd diffyg eglurder am nodweddion penodol y gwasanaeth cwnsela.

Roedd ymatebwyr (ar draws y grwpiau) mewn nifer o ysgolion yn ystyried bod rheoli dictter, yr ystafell ofal a gwasanaethau eraill yn rhan o'r gwasanaeth cwnsela. Mynegodd myfyrwyr mewn rhai ysgolion ffafriaeth am ennyn mwy o hyder yn eu gwybodaeth am gwnsela, er enghraifft,

Byddai angen gwybod pa fath o broblemau sy'n arwain at gwnsela achos dw'n i ddim pa mor ddifrif rhaid i bethau fod er mwyn gweld cwnselydd.

Deall a derbyn cyfrinachedd mewn cwnsela.

Ble roedd y syniad o gyfrinachedd mewn cwnsela'n cael ei ddeall, cydnabuwyd yn aml gan staff a rhieni ei fod yn nodwedd angenrheidiol o gwnsela, ond ymysg y grwpiau i gyd, staff ysgolion wnaeth fynegi'r amheuaeth fwyaf am gyfrinachedd i gleientiaid gwasanaethau cwnsela. Mynegodd nifer fechan o rieni bod ganddynt beth amheuaeth na fyddent yn cael eu hysbysu bod eu plentyn yn mynychu cwnsela. Roedd defnyddwyr gwasanaeth yn gwerthfawrogi bod cyfrinachedd yn nodwedd bwysig o'r gwasanaeth.

Staff: O'r staff hynny wnaeth sylw am gyfrinachedd, gwnaeth saith nodi bod y gwasanaeth yn gyfrinachol a/neu na fyddent yn disgwyl clywed unrhyw wybodaeth am gynnydd eu plentyn mewn cwnsela. Gwnaeth un o'r aelodau staff fanylu cai'r wybodaeth ei rannu gyda'r cwnselydd os oedd o'r farn bod y plentyn yn agored i risg:

Mae'n rhaid parchu preifatrwydd y plentyn ac mae'n hawdd iddynt siarad yn onest am bethau personol os ydynt yn gwybod na aiff yr wybodaeth ymhellach. Yr unig reswm gallai fynd ymhellach yw os oes amheuaeth o gamdriniaeth neu rywbeth cyffelyb.

Mynegodd nifer fechan o staff y byddent yn dymuno derbyn mwy o wybodaeth os oedd y plentyn yn parhau i fynychu cwnsela (ond ddim cynnwys y sesiynau hyn), ond byddai'n well gan un dderbyn gwybodaeth am y themâu neu'r problemau mae'r plentyn yn eu trafod mewn cwnsela. Cydnabu cwpl o athrawon fuddion cyfrinachedd ond hefyd bu trafodaeth am y tensiwn rhwng y rhain a'r cynnydd yng ngallu'r athro i helpu os oes ganddynt fwy o wybodaeth o'r problemau mae'r plentyn yn eu trafod mewn cwnsela. Er enghraifft,

Rwy'n credu ei bod yn gwneud gwaith da. Trueni na allaf gael fy nghynnwys fwy, yna byddai'n gyswllt gyda'r tîm bugeiliol.

Mae [cyfrinachedd] yn beth anodd ... byddai'n hoff gan rai penaethiaid blwyddyn ... gael cyfarfod dilynol ... ar ddiwedd y dydd rwy'n credu bod angen i'r plentyn deimlo'n hyderus mai dim ond y cwnselydd fydd yn clywed eu datgeliadau. Felly byddwn i'n parchu cyngor y cwnselydd pan mae hi'n

dweud na fydd yn rhoi adborth i mi os nad yw ynglŷn â hunan-niweidio neu gamdriniaeth arall.

Mewn un ysgol roedd cyfeiriad gan fwy nag un aelod o staff bod tensiynau'n bodoli gan fod cyfrinachedd yn lleihau wrth i'r gwasanaeth cwnsela ddod yn fwy sefydlog a bod mwy o wybodaeth ar gael am ei effeithiolrwydd. Roedd sylwadau yn cynnwys,

Mae rhai aelodau o staff sy'n tueddu'n gryf tuag at waith bugeiliol, wedi ei chael hi'n anodd peidio gwybod ... nawr ... rwy'n credu bod penaethiaid blwyddyn yn gweld llwyddiannau'r hyn mae hi'n cyflawni ac maent yn dweud, wel, mae hyn yn grêt, beth am adael iddi fwrw ymlaen.

Rhieni. Roedd ymateb cymysg gan rieni am gyfrinachedd y cyfeiriad, ac am gyfrinachedd cynnwys y cwnsela, gyda'r mwyafrif o'r rhai wnaeth sylwadau'n cefnogi cyfrinachedd. Ar y cyfan roedd y rhieni a gyfwelwyd yn gefnogol yn gyffredinol bod y gwasanaeth yn gyfrinachol, gyda rhai amodau, h.y. dylai fod cyfyngiad i'r cyfrinachedd os ystyrir bod plentyn yn agored i risg neu fod plentyn yn datgelu problemau mawr. Er enghraifft,

Ni fyddai'n broblem petai fy mhlentyn yn derbyn cwnsela cyfrinachol ... os ydynt yn rhoi eu hunain mewn perygl, byddai'n bwysig rhannu hyn gyda'r rhieni. Os nad ydynt mewn perygl, yna rwy'n credu dylai fod gan fy mhlentyn hawl i gyfrinachedd, i breifatrwydd.

Roedd dau riant yn meddwl dylid hysbysu'r rhieni os ydy plentyn yn mynychu cwnsela:

Rwy'n cytuno gyda'r cwnsela cyfrinachol ond dydw i ddim yn cytuno y dylent dderbyn cwnsela heb i chi glywed amdano, rwy'n meddwl, ym, os cânt eu gosod ar ymyriad yna dylai'r rhieni gael gwybod am yr ymyriad.

Ac roedd rhiant arall eisiau clywed mwy am gynnwys y cwnsela:

Os oes rhywbeth fel yna'n mynd ymlaen ym mywyd fy merch, hoffwn i glywed amdano ... hwyrach dylid bwydo'r pethau yma nôl, neu hwyrach gallwn ni fwydo pethau i'r cwnselydd – nid popeth, dim ond weithiau, gallai fod yn berthnasol.

Yn ogystal, roedd un rhiant eisiau'r cyfle i fedru dylanwadu ar y plentyn i fynychu'r cwnsela os oedd angen:

Os oes rhywun yn dweud bod y plentyn angen cwnsela a dydy'r plentyn ddim eisiau mynd yna dylai bod mwy o ddylanwad gan y rhieni, i awgrymu y

dylent drïo mynd; yn enwedig i Flynyddoedd 7 ac 8, ni ddylai o reidrwydd fod yn benderfyniad y plentyn.

Roedd rhai myfyrwyr yn y grwpiau ffocws yn ymwybodol o gyfrinachedd y gwasanaeth, yn enwedig os oedd cwnselydd wedi siarad mewn gwasanaeth yn yr ysgol neu fel arall wedi rhoi gwybodaeth yn uniongyrchol i'r grŵp myfyrwyr:

[Mae'r cwnselydd yn dweud] bod 'yr hyn sy'n cael ei drafod yma'n aros yma' ac mae hynna'n beth da achos, weithiau dydy pobl ddim am ... i'r ysgol wybod ond mae angen ychydig o help.

Roedd rhai yn ymwybodol o gyfyngiadau cyfrinachedd:

Ydy, mae hi'n dweud mai'r unig amser byddai'n dweud wrth eraill ydy os ydy hi'n meddwl dy fod mewn perygl.

Wel, mae'n llwyr gyfrinachol os nad ydy o'n rhywbeth sy'n dy roi mewn perygl.

Roedd sawl grŵp ffocws o fyfyrwyr o'r farn bod cyfrinachedd yn bwysig:

Hwyrach, gyda phlant iau, bod hynna'n rhan o'r broblem, hwyrach nad ydyn nhw'n siŵr am gyfrinachedd, felly hwyrach bod angen pwysleisio hynna. Bod popeth yn gyfrinachol. Byddai hynna'n eu helpu i ddechrau'r sgwrs.

Mewn un grŵp ffocws roedd o leiaf dau fyfyrwr yn pwysleisio bod cyfrinachedd yn caniatáu i fyfyrwyr siarad gyda'r cwnselydd am bethau na allant eu trafod gydag athrawon, ac mewn ysgol arall, dywedodd un myfyrwr:

Mae athrawon yn trafod disgyblion yn yr ystafell athrawon felly mae cael cwnselydd annibynnol sydd ddim wir yn adnabod yr athrawon ar y lefel yna'n cadw popeth yn breifat, ar lefel un i un.

Yn ogystal i gyfrinachedd cynnwys y sesiwn, ystyriwyd bod y gallu i hunan gyfeirio'n breifat yn ffactor arwyddocaol ymysg y grwpiau ffocws o ddefnyddwyr gwasanaeth potensial. Er enghraifft,

Mae hi'n gadael i ni wybod ei bod hi yma ac ar ba ddyddiau, ac mae ganddi flwch llythyron felly gallwch roi llythyr ynddo os nad ydych am i unrhyw un wybod.

Ti'n sgwennu ar ffurflen a'i roi yn y blwch a dim ond y hi sydd â'r allwedd i'r blwch.

Roedd amrywiaeth ymysg defnyddwyr gwasanaeth am bwysigrwydd y ffaith nad oedd unrhyw un yn gwybod eu bod yn mynychu cwnsela. Doedd rhai unigolion ddim yn poeni os oedd eraill yn gwybod eu bod yn mynd; ond dywedodd eraill byddai'n well petai eu cyfoedion yn meddwl eu bod mewn trafferth gyda staff yn hytrach na gwybod am y cwnsela, neu byddai'n well ganddynt gael 'ffrae' yn hytrach na dweud eu bod yn gadael y dosbarth i fynychu cwnsela. Pwysleisiodd rai myfyrwyr y pwysigrwydd nad oedd unrhyw un yn gwybod:

Faswn i ddim am i'r athrawon wybod gan eu bod i gyd yn sgwrsio. Faswn i ddim am i unrhyw un wybod.

Roeddwn i'n ei hoffi gan nad oedd unrhyw un yn gwybod amdano, dim ond ti a does neb arall yn gorfod gwybod, mae'n gyfle i ti siarad am unrhyw beth.

Mae'r pryder yma am gyfrinachedd (ac yn wir am gadw cyfrinachau) yn arwain at oblygiadau i'r broses o ryddhau plant o'u dosbarthiadau, ac hefyd i leoliad yr ystafell cwnsela. Mewn un ysgol roedd cryn drafodaeth am fanteision cael cwnselydd anadnabyddus yn yr ysgol. Barn un myfyriwr oedd,

Petai pawb yn gwybod pwy 'di'r cwnselydd a bod pobl yn dy weld gyda'r cwnselydd, bydden nhw'n cychwyn siarad amdanat ti.

Nododd rhai rhieni hefyd bod manteision i gael gwasanaeth sy'n weddol anadnabyddus, er enghraifft,

Oes angen i gwnsela fod â phroffil uchel? Os ydyw'n gyfrinachol, dwyt ti ddim am iddo gael proffil uchel.

Ar y llaw arall, roedd myfyrwyr mewn ysgolion eraill yn teimlo'n fwy hyderus yn gweithio gyda rhywun oedd yn wyneb cyfarwydd yn yr ysgol. Er enghraifft,

[Mae'r gweithiwr lles emosiynol] yn dda am hynna, o hyd yn y cyntedd. Yn bersonol byddai'n well gen i weld rhywun fel yna.

4.8.7. Cryfderau canfyddedig.

1. Disgrifiwyd bod darparu gwasanaethau cymorth emosiynol addas, gan gynnwys cwnsela, yn caniatáu i athrawon ganolbwyntio ar ddysgu. Mae hyn wedi arwain at leihad ar aflonyddu mewn gwersi gan nad oes rhaid i athrawon ymdrin â phroblemau emosiynol ac ymddygiadol. Roedd sylwadau gan staff, rhieni a myfyrwyr yn dweud bod cael cwnselydd ar gael gydag amser a sgiliau arbenigol yn caniatáu i athrawon ganolbwyntio ar eu prif rôl. Roedd barn staff yn cynnwys,

Mae'n cymryd y pwysau oddi ar bobl fel fi ... y broblem yn fy swydd i ydy amser, ac maen nhw wedi derbyn hyfforddiant.

Yn gynyddol, mae mwy o blant yn dod i'r ysgol gyda phroblemau ac mae'n amharu ar y dosbarth gan fod rhaid cymryd y plant allan, siarad gyda nhw, felly i'r mwyafrif o ddosbarthiadau sydd heb gynorthwywyr dosbarth, mae'n rhaid i'r athro stopio'r wers i ymdopi â nhw, felly rwy'n credu ei fod yn hynod o bwysig gan ei fod yn caniatáu i athrawon wneud eu swyddi.

Nododd un rhiant,

Rwy'n credu, os ydy'r gwasanaeth yn rhedeg ochr yn ochr â'r gwasanaeth gofal bugeiliol, bydd yn cael effaith positif ... mae'n ddefnyddiol iawn cael rhywun arall yno i rannu'r baich gyda [phenaethiaid blwyddyn] ac mae gwir angen cwnsela un i un ar rai plant.

Roedd sylwadau'r myfyrwyr yn adlewyrchu'r manteision i reolaeth yn y dosbarthiadau a gallu rhai unigolion i ddysgu. Er enghraifft,

Os ydynt [yr athrawon] yn meddwl bod gormod i ymdopi ag e ... gall rhywun ddod i mewn ac mae'n arbed i'r athro orfod ymdopi ag e. Mae'n well i.

Mae'n haws dysgu pobl hapus.

2. Disgrifir bod cwnselwyr yn cynnig ystod o wasanaethau yn ogystal â chwnsela un-i-un, gan gynnwys amseroedd galw heibio, lloches, hyfforddiant a grwpiau rheoli dicter. Mae hyn yn amrywio rhwng ysgolion.

3. Roedd rhai ymatebwyr o'r farn bod darparu cwnsela a chymorth emosiynol arbenigol arall o fewn yr ysgol yn dangos ethos o amgylchedd ysgol ofalgar a chefnogol ble caiff y person ifanc ei werthfawrogi fel person cyflawn. Mynegwyd hyn gan un rhiant fel,

Rwy'n credu ei fod yn creu amgylchedd gofalgarn gan fod rhywun yno sy'n dweud, mae ots gen i, tyrd i rannu dy broblemau.

4. Ble mae hunangyfeiriad yn bosibl, gall blant gyrchu gwasanaeth yn hawdd. Roedd myfyrwyr mewn ysgolion gyda hunangyfeiriad i gwnsela neu wasanaethau lles emosiynol yn gwerthfawrogi rhwyddineb hygyrchedd. Gwnaeth un myfyriwr o ysgol heb broses hunangyfeirio sylw ar hyn, er enghraifft,

Rwy'n credu dylai pobl fedru cyfeirio eu hunain, dim o reidrwydd cael eu cyfeirio gan athrawon.

5. Gellir cyrchu cefnogaeth hyblyg a chyflym pan fo angen (yn ddibynnol ar amseroedd aros mewn rhai ysgolion):

Rwy'n gweld y cwnselydd bob wythnos. Dim ond bob tair wythnos roeddwn yn gweld y seicolegydd. Doedd hyn yn gwneud dim lles i mi.

Gwnaeth un rhiant y sylw ei bod yn falch y gallai fynd gyda'i phlentyn petai eisiau.

6. Ystyriwyd bod y gwasanaeth yn cynnig mynediad i helpu gydag *anawsterau bach yn ogystal â rhai mawr*, ond bod gwasanaethau y tu allan i'r ysgol yn rhoi mynediad i helpu gyda'r problemau mwy difrif yn unig. Er enghraifft, nododd un myfyriwr,

Gallai mynd allan o'r ysgol wneud i ti feddwl bod gen ti broblem fawr. Yn yr ysgol, mae'n gefnogaeth ychwanegol.

7. Mae myfyrwyr yn *teimlo bod rhywun yn gwrando a'u bod yn cael eu gwerthfawrogi*, ac mewn cwnsela does dim teimlad bod rhywun yn barnu,

Mae'n braf cael rhywun i wrando, cynnig cyngor, mae'n dda bod rhywun yno, bod neb yn feirniadol pan wyt ti yno, gelli ddweud yr hyn ti'n teimlo yn dy ben.

8. Roedd myfyrwyr mewn rhai o'r ysgolion yn adrodd bod defnyddio'r gwasanaeth cwnsela mewn ysgol yn cynnig *dewisiadau go iawn* am fynychu cwnsela ac am y gwaith a gyflawnir yn y sesiwn. Mae awgrymiad bod myfyrwyr yn cael blas ar gymryd cyfrifoldeb o fewn cwnsela a bod hon yn broses bwerus,

Mae hi bob amser yn ceisio deall popeth ti'n ddweud a hyd yn oed os nad ydi'n deall, gelli ddweud wrthi ei bod wedi camddeall ac mae'n gwrando ar bopeth ti'n ddweud.

Rwy'n gwybod ei bod hi'n neis, ac yn y gorffennol, rwy' wedi dweud [nad oeddwn i eisiau'r sesiynau] pan oedd gen i wers addysg gorfforol ac fe ddywedodd bod hynna'n iawn ar yr amod nad oeddwn i'n cymryd mantais o'r system a dim ond yn methu'r gwersi rwy'n eu casáu. Fe ddywedais i na – mod i eisiau gwneud hyn. Ac fe ddywedodd hi fod hynna'n iawn.

9. Gan fod natur wahanol i'r gwasanaeth cwnsela sy'n eistedd y tu allan i'r system gofal bugeiliol arferol, mae'n golygu gall y cwnselydd gadw lefel uchel o *gyfrinachedd*. Mae'r myfyrwyr sy'n defnyddio'r gwasanaeth, ac, os oes gan wasanaeth broffil uchel, y grŵp myfyrwyr cyfan, yn deall ac yn gwerthfawrogi natur gyfrinachol y gwasanaeth cwnsela. Mae

hyn yn cynnwys dealltwriaeth o'r cyfyngiadau mae cyfrinachedd yn ei gynnig. O dro i dro, roedd y grŵp myfyrwyr hefyd yn gwneud sylwadau ar y gwahaniaeth rhwng goblygiadau ac ymddygiad yr athro o ran rhannu gwybodaeth o fewn grŵp staff ehangach o gymharu â'r cwnselydd,

Mae hi'n neis, ni wnaiff hi ddweud wrth unrhyw un arall, ond mae'r athrawon i gyd yn dweud wrth bobl eraill.

10. Roedd rhai ymatebwyr o'r farn bod *llai o stigmatiddio* gyda'r gwasanaeth cwnsela mewn ysgol o gymharu â gwasanaethau allanol. Dywedodd un myfyriwr,

Roeddwn i'n meddwl byddai stigma o fynd i weld cwnselydd proffesiynol. Wrth fynd at y doctor mae'n rhaid i rieni fod yno, ond dydy hynna ddim yn wir gyda'r cwnselydd ysgol, mae o rhyngot ti a'r cwnselydd.

Gwnaeth un aelod o staff sôn am hyn hefyd, gan awgrymu bod *llai o stigmatiddio* i wasanaeth cwnsela mewn ysgol o gymharu â chyrchu gwasanaethau drwy feddyg teulu neu CAMHS. Dywedodd un rhiant sydd â phlentyn sydd wedi defnyddio ystod o wasanaethau (y tu mewn a'r tu allan i'r ysgol),

Mae'n gwneud cwnsela'n fwy derbyniol, yn fwy buddiol pan gaiff ei ddefnyddio ar draws grŵp o gyfoedion.

Nododd riant arall,

Mae'n rhaid hysbysebu a hyrwyddo bod gan yr ysgol gwnselydd a gwneud iddo swnio fel nad yw'n beth drwg.

11. Mae darpariaeth yn yr ysgol yn golygu *bod llai o amser yn y dosbarth yn cael ei golli* wrth fynychu cwnsela.

4.8.8. Gwendidau/cyfyngiadau canfyddedig.

1. Y prif gyfyngiad canfyddedig oedd *hygyrchedd cyfyngedig*, yn arwain i rai achosion ble roedd rhestr aros (soniwyd am hyn mewn tair ysgol). Adroddodd rhieni mewn dwy ysgol wahanol,

Rwy'n credu ei bod yn gwneud ei swydd yn dda ... y broblem ydy mai dim ond un ohoni sydd yna a fy mhryder mwyaf yw, beth sy'n digwydd i'r plant sy'n gorfod aros.

Dylai fod mwy o oriau ... mae'n cymryd amser hir i gael i mewn.

Awgrymodd athro cyswllt nad oedd anghenion yn cael eu diwallu,

Byddai'n grêt petai'n llawn amser – gallwn lenwi ei wythnos.

2. Mewn un ysgol, cyfyngiad canfyddedig oedd bod *diffyg gwybodaeth* ar gael am y gwasanaeth cwnsela. Nododd un rhiant,

Dydyn nhw erioed wedi sôn amdano, dydy o ddim yn cael ei hysbysebu, does dim sôn amdano yn y dogfennau mae'r rhieni'n eu derbyn. Mae'n werth ei nodi'n rhywle gan fod rhai rhieni'n anobeithio.

3. Nodwyd bod *diffyg neu ddim dewis o gwnselydd* yn broblem pan holwyd ymatebwyr yn uniongyrchol am hyn. Tra nad oedd gan rai myfyrwyr unrhyw ffafriaeth o ran pa ryw oedd y cwnselydd, gwnaeth tua hanner yr ymatebwyr nodi byddai'n well ganddynt gael cwnselydd o'r un rhyw a hwy. Er mewn rhai achosion, roedd hyn yn dibynnu ar y math o broblem dan drafodaeth. Roedd hyn yn arbennig o gyffredin ymysg merched,

Mae'n dibynnu ar y broblem, os ydy'n broblem gyda'r corff, fe fyddai'n addas cael merch gyda thi, ni fyddai'r un fath gyda dyn.

Roedd nifer fechan o fechgyn hefyd wedi nodi byddai'n well ganddynt siarad gyda merch, 'Mwy mamol'.

Roedd oddeutu traean o'r rhieni wnaeth fynegi barn yn meddwl ei bod yn bwysig i'r plentyn gael dewis rhyw'r cwnselydd,

Cyn belled bod fy merch yn hapus i siarad gyda chwnselydd sy'n ddyn, ni fyddai gen i unrhyw broblem, ond rwy'n credu dylai fod dewis.

Trafodir hygyrchedd i ddewis iaith cwnsela isod. Ni ofynnwyd i ymatebwyr am unrhyw agweddau eraill o ran dewis cwnselydd, a dim ond mewn un achos cafodd ei godi. Awgrymodd un rhiant gallai fod o fudd petai cwnselwyr gwahanol ar gyfer gwahanol gyfnodau allweddol neu wahanol grwpiau blwyddyn.

4. Mewn rhai achlysuron, roedd *cyfyngiadau gofod* yn golygu nad oedd yr amgylchedd corfforol yn addas iawn i ddarparu cwnsela. Adroddwyd tri math o broblem gydag ystafelloedd: addasrwydd yr ystafell ddynodedig, lleoliad yr ystafell ddynodedig, a diffyg ystafell ddynodedig. Roedd lleoliad synhwyrol ac ystafell wedi'i hynysu'n ddigonol rhag sain

yn faterion allweddol i'r myfyrwyr.

Roedd gan Ysgol 3 ystafell gwnsela ddynodedig a ddisgrifiwyd fel 'gweddol gysurus' gan ddefnyddiwr gwasanaeth ac ni chofnodwyd unrhyw broblemau. Roedd Ysgol 4 yn defnyddio ystafell ddosbarth gyda dwy gadair a nodwyd 'nad oedd hi'n glawstroffobig' gan un defnyddiwr ac ni chofnodwyd gan y defnyddwyr gwasanaeth bod hyn yn broblem. Roedd gan Ysgol 1 ystafell ddynodedig 'tawel gyda digon o le' oedd wedi'i leoli i ffwrdd o brif gynteddau'r ysgol ond yn agos i swyddfeydd yr uwch dîm rheoli. Roedd rhai plant yn ystyried bod hyn yn frawychus, oherwydd fel arall yr unig reswm i fynd i'r ardal yna yw os ydynt mewn trafferth, ac roedd eraill yn dweud eu bod yn teimlo'n amlwg wrth fynd i'r ardal yna. Roedd un defnyddiwr gwasanaeth yn pryderu gan nad oedd yr ystafell wedi'i hynysu'n ddigonol rhag sain,

Mae'n bosib dweud pwy sydd yn y 'stafell gan y gelli glywed lleisiau drwy'r drws. Does dim modd clywed beth sy'n cael ei ddweud ond mae'n bosib clywed lleisiau.

Nid oedd Ysgol 2 wedi gallu cynnig ystafell cwnsela ddynodedig yn y flwyddyn astudio, ond roedd disgwyl i'r broblem hon gael ei datrys ar gyfer y flwyddyn ysgol nesaf. Roedd cwnsela'n cymryd lle mewn gwahanol swyddfeydd a disgrifiodd un defnyddiwr gwasanaeth bod hyn yn 'ddryslyd'. Yn ôl y defnyddwyr gwasanaeth, roedd yr ystafelloedd a ddarparwyd yn anaddas mewn sawl ffordd. Adroddodd ddau ddefnyddiwr gwasanaeth bod rhywun wedi torri ar draws droeon er bod nodyn ar y drws, a dywedodd un bod yr ystafell a ddefnyddiwyd yn rhy fach,

Yr unig beth negyddol ydy'r stafell fechan. Mae hi fel bocs, mae'n gliniau'n gwrthdaro drwy'r amser.

Nododd un arall bryderon gan nad oedd yr ystafell wedi'i hynysu rhag sain. Roedd cyrchu gwasanaeth drwy ardaloedd staff neu'r ystafelloedd dosbarth hefyd yn pryderu myfyrwyr yn yr ysgol hon.

5. Caiff ychydig o amser dosbarth ei golli wrth fynychu cwnsela. Gwnaeth dau ddefnyddiwr gwasanaeth fynegi pryder am fethu gwersi, neu dywedwyd eu bod wedi gwneud cais na fyddai cwnsela'n cael ei drefnu ar amser rhai gwersi penodol. Mynegwyd pryder gan un grŵp ffocws o fyfyrwyr y byddai cwnsela'n cael ei ddefnyddio fel ffordd o osgoi gwersi,

Gallai bobl ei ddefnyddio fel ffordd o osgoi gwersi, mae'n rhaid bod gen ti broblem go iawn i gael allan o wers.

6. Gallai mynychu cwnsela fod yn *amlwg i gyfoedion ac athrawon*. Mynegwyd pryder gan fyfyrwyr y dylai fod yn bosibl i gyrraedd yr ystafell cwnsela heb dynnu sylw at eich hun. Nid oedd yn hollol addas cael ystafell mewn lleoliad ble byddai llawer o fyfyrwyr nac un mewn rhan o'r ysgol ble byddai'n anghyffredin gweld myfyrwyr. Ble roedd myfyrwyr yn gyfarwydd iawn gyda'r gwasanaethau cwnsela a chymorth emosiynol, ymddengys bod llai o bryder am gael eu gweld yn mynychu cwnsela. Gwnaeth un rhiant y sylw byddai'r dewis o gael cwnsela y tu allan i'r diwrnod ysgol o gymorth,

Hwyrach cael cyfleuster ar ôl ysgol achos mae fy merch yn teimlo na all hi drafod popeth rhag ofn iddi lefain a bod ganddi wers i'w fynychu wedyn, felly byddai'r cyfle i wneud sesiwn am 3.30 yn braf.

Roedd rhai myfyrwyr yn meddwl bod cwnsela mewn ysgol yn well na mynychu apwyntiadau allanol gan fod llai o angen egluro.

Roedd rhai myfyrwyr yn ystyried eu bod yn tynnu sylw at eu hunain drwy adael gwersi i fynychu cwnsela. Mewn rhai ysgolion roedd athrawon yn gyrru myfyrwyr i'r apwyntiad, heb nodi beth oedd natur yr apwyntiad; mewn ysgolion eraill, roedd y myfyriwr yn derbyn llythyr i ddangos i'r athro, a/neu byddai'n cael ei atgoffa o'r apwyntiad drwy neges testun. Roedd rhai myfyrwyr yn glir iawn nad oeddent am i athrawon wybod ble roeddent yn mynd,

Byddai'n well gen i gael rhywun yn gweiddi arnaf na gwybod mod i'n mynd i gwnsela. Yna byddai'n cychwyn: 'o, ti'n gwybod ei fod yn derbyn cwnsela, ti'n gwybod be' sy'n bod?' fel yna mae sibrydion yn cychwyn.

7. Mewn nifer fechan o achlysuron, adroddwyd bod tensiynau'n bodoli rhwng y *terfynau cyfrinachedd* cwnsela a disgwyliadau gan staff yr ysgol y byddent yn derbyn gwybodaeth am y problemau mae'r plant yn eu hwynebu. Roedd hyn yn arbennig o wir wedi i aelod staff gyfeirio'r plentyn at y cwnselydd, neu ble mae ganddo ef/hi gyfrifoldeb bugeiliol dros y plentyn yna.

8. Awgrymwyd gan nifer o fyfyrwyr y dylai fod *dewisiadau amgen i amser a chynnwys yr ymyriadau*. Ymatebodd defnyddwyr gwasanaeth yn wahanol i hyd sesiynau: roedd un defnyddiwr gwasanaeth o'r farn bod sesiwn o awr yn rhy hir, roedd dau yn ystyried bod 20-30 munud yn rhy fyr, a nododd un arall ei fod wedi blino'n lan ar ôl sesiwn o'r hyd yma. Gwnaeth un defnyddiwr gwasanaeth awgrymu dewis amgen i siarad, 'Bag dyrnio, gweithgareddau corfforol – mae'n anodd eistedd yn llonydd'.

Roedd un grŵp o fyfyrwyr o'r farn byddai cefnogaeth mewn grŵp yn llai brawychus na sesiynau un-i-un, 'Weithiau mae bod ar eich pen eich hun gyda dim ond oedolyn yn gallu

bod yn frawychus'. Roedd yn amlwg bod myfyrwyr eraill yn gwerthfawrogi amser un-i-un. Ymddengys bydd gwasanaeth cwnsela mewn ysgolion yn diwallu amrywiol anghenion y myfyrwyr yn fwyaf effeithiol os yw'n gweithredu gyda chryn hyblygrwydd.

9. Mynegwyd pryderon gan rai ymatebwyr bod stigma i gwnsela,

Mae stigma i gwnsela, ddylai o ddim cael ei ystyried yn beth drwg ac os wyt ti angen cwnsela dydy o ddim yn golygu bod gen ti broblemau, dim ond bod angen i ti ymdopi â rhai pethau drwy siarad gyda rhywun arall.

Dywedodd myfyrwyr mewn ysgol arall,

[Mae'r gair cwnsela'n] cyfleu darlun, stereoteip a dweud y gwir.

Hwyrach y dylen nhw newid yr enw, wn i ddim.

Mae 'cwnsela' braidd yn frawychus, yn tydi?

Ia, newid y ddelwedd, a stereoteip cwnsela ... cwnsela – ti'n dueddol o feddwl bod angen mynd i'r afael â phroblem.

4.8.9. Effaith canfyddedig.

Adroddwyd gan ymatebwyr ym mhob grŵp eu bod wedi sylwi ar effaith gadarnhaol i wasanaeth cwnsela mewn ysgolion. Nododd aelod o staff, 'Mae rhai pobl yn meddwl bod cwnsela yn rhywbeth i bobl wan ond pan welwch chi'r effeithiau yna fe newidiwch eich meddwl amdano rywfaint'.

Adroddodd rhieni, athrawon a phobl ifanc bod tystiolaeth astudiaeth achos o effaith y gwasanaeth cwnsela ar y meysydd canlynol:

1. Adroddwyd bod cynnydd yn lles, hapusrwydd a hyder y myfyrwyr gan 8 allan o 17 o ddefnyddwyr gwasanaeth. Mae ymatebion myfyrwyr yn dangos yn eglur bod cynnydd mewn hapusrwydd a lles,

Ydw, rwy'n teimlo'n well, heb y cwnsela fe fyddwn i dal i ofidio nawr.

Roeddwn i'n drist pan es i mewn gan fy mod i wedi colli [perthynas] ... Fe ddywedodd hi fod bywyd yn mynd yn ei flaen, a'i bod yn deall pa mor galed ydy'r sefyllfa ... Po fwyaf rwy'n ei ddysgu ganddi, yr hapusaf ydw i.

2. Adroddwyd bod gostyngiad mewn ymddygiad trafferthus, megis dicter gan 9 allan o 17 o

ddefnyddwyr gwasanaeth. Er enghraifft,

Dydw i ddim mor flin yn yr ysgol. Roedd pobl yn fy nghythruddo ac erbyn hyn gallaf reoli fy nhymer.

Rwy'n dal i fod mewn trafferth ond mae'n gwella ... dydw i ddim yn brifo neb; dim ond eu gwthio, math yna o beth.

Gwnaeth un aelod o staff y sylw, 'Rwyf wedi'i ddefnyddio ar gyfer rheoli dicter ac mae wedi helpu'n anhygoel gyda hyn'.

3. Adroddwyd gan un rhiant ac un aelod staff mewn ysgol bod *gostyngiad mewn ymddygiad peryglus* megis hunan niweidio,

Gwnaeth cwnsela yn yr ysgol helpu. Dydw i ddim yn meddwl buasai fy mab yma oni bai am yr ysgol. Ymyriad pwysig iawn, iawn.

4. Adroddwyd gan 6 allan o 17 o ddefnyddwyr gwasanaeth bod *cynnydd yn y gallu i ganolbwyntio yn y dosbarth* neu welliannau mewn gwaith ysgol,

Roeddwn i'n arfer bod yn siaradus a doeddwn i ddim yn canolbwyntio ond wedyn fe fues i a'r [cwnselydd] yn sgwrsio am waith ysgol a'i bwysigrwydd ac fe sylweddolais, a nawr gan fy mod i'n canolbwyntio ychydig mwy, mae'n well.

Rwy'n credu bod marciau mewn profion wedi gwella ychydig gan fy mod i'n cysgu'n well. Roeddwn eisiau mynd i'r ysgol yn hytrach na pheidio bod eisiau mynd.

5. *Llai o aflonyddwch yn y dosbarth.* Awgrymwyd yr effaith yma'n bennaf gan staff ysgolion, yn hytrach na chael ei fynegi'n glir fel canlyniad,

Yn gynyddol, mae mwy o blant yn dod i'r ysgol gyda phroblemau ac mae'n amharu ar y dosbarth gan fod rhaid cymryd y plant allan, siarad gyda nhw, felly i'r mwyafrif o ddosbarthiadau sydd heb gynorthwywyr dosbarth, mae'n rhaid i'r athro stopio'r wers i ymdopi â nhw, felly rwy'n credu ei fod yn hynod o bwysig gan ei fod yn caniatáu i athrawon wneud eu swyddi.

6. Adroddwyd yn bennaf gan staff bod *gwell presenoldeb a gwell ymgysylltiad* yn yr ysgol, er enghraifft,

Rwy'n gwybod y gall rhai plant ... elwa dipyn go lew ohono achos ... mae'n debyg na fyddan nhw'n dod i'r ysgol o gwbl os na fyddent yn derbyn y gwasanaeth.

7. Adroddwyd gan 2 allan o 17 o ddefnyddwyr gwasanaeth bod gostyngiad yn y risg o waharddiad dros dro a gwaharddiad o'r ysgol,

Cyn i mi dderbyn cwnsela roeddwn yn cael fy ngwahardd o'r ysgol dro ar ôl tro ar ôl tro, cael fy nal yn ysmegu a chamfihafio. Rwy'n dal i wneud rhai o'r pethau yna. Mae cwnsela wedi tawelu ychydig arnaf, gwneud i mi feddwl am y pethau rwy' 'di gneud a meddwl am sut gallaf eu stopio rhag digwydd.

8. Adroddwyd gan 10 allan o 17 o ddefnyddwyr gwasanaeth bod gwell perthynas yn y cartref.

Pan oedd mam yn ceisio siarad gyda fi pan oeddwn i'n gofidio, fe fyddwn i'n dweud pethau cas a byddai hynna'n torri calon mam. Ond ers i mi dderbyn cwnsela mae lot wedi newid ac mae mam a fi'n hapus.

Rwyf wedi bod yn siarad gyda mam fwy am gwnsela a phethau eraill.

Mae wedi helpu fi ... i dynnu 'mlaen yn well gartref, dydw i ddim yn ffraeo gyda phawb.

9. Adroddwyd gan 4 allan o 17 o ddefnyddwyr gwasanaeth bod gwell perthynas gyda ffrindiau:

Mae gen i fwy o ffrindiau nawr, mae pobl wedi sylwi nad ydw i'n gas.

10. Adroddwyd gan 3 allan o 17 o ddefnyddwyr gwasanaeth eu bod yn gallu ymdopi'n well,

Mae wedi galluogi i mi ymdopi'n well. ... Doeddwn i ddim yn gwybod beth i'w wneud ond pan nes i ddod nôl roeddwn i'n gwybod beth i'w wneud.

11. Adroddwyd gan un defnyddiwr gwasanaeth ac un rhiant bod gostyngiad mewn symptomau o ofn a phryder llym,

Rwyf wedi gweld llawer o welliant a chynnydd yn fy mhlentyn. Dydi o heb ddatrys popeth ond gall ymdopi'n llawer gwell gyda sefyllfaoedd a dydy o ddim yn cael effaith mor negyddol arno nawr.

12. Nodwyd effaith gweladwy ar gyrhaeddiad o'r data ansoddol ar un defnyddiwr gwasanaeth, wnaeth ddatgan fod ei farciau wedi codi o achos gwell cwsig a gwell ysgogiad

i fynychu'r ysgol. Nodwyd y *debygolïaeth* o well cyrhaeddiad gan sawl ymatebydd arall, fel y rhiant ddywedodd,

Rwy'n credu gall y plant elwa o gwnsela. Rwy'n credu bydd yn gwella eu dysgu achos os oes problem, mae'r dysgu'n gwaethygu, chi'n deall, y gwaith.

Crynowyd hyn gan fyfyrwr:

Mae'n haws addysgu pobl hapus.

Gwnaeth rhai aelodau staff sylwadau am anawsterau wrth adnabod effaith llawn y gwasanaeth ar blant unigol gan nad oes ganddynt lawer o wybodaeth am bwy a gyfeiriwyd neu pwy sy'n parhau i fynychu, a gan na ellir neilltuo effaith y cwnsela o'r newidiadau ym mywyd y plentyn y tu allan i'r ysgol. Nodwyd cyfyngiadau gan nifer o rieni a staff am effaith y gwasanaeth, er enghraifft,

Fe fydd lleiafswm bach o blant na allwch eu helpu.

4.8.10. Cyfraniad i fentrau eraill.

Mae'r gwasanaethau cwnsela a ddarparwyd yn yr ysgolion astudiaeth achos wedi'u hintegreiddio i amrywiol raddau gydag agweddau eraill o'r ysgol. Ym mhob achos, mae gan y gwasanaeth cwnsela gyswilt gyda'r system tiwtor blwyddyn, ac roedd tiwtoriaid blwyddyn yn ffynhonnell, neu'n llwybr ar gyfer cyfeiriadau. Profwyd bod bodolaeth y gwasanaeth cwnsela yn lleihau'r pwysau ar diwtoriaid blwyddyn ac athrawon dosbarth, drwy gynnig ffynhonnell arbenigol o gefnogaeth i blant gyda phroblemau emosiynol neu broblemau eraill. Yn bwysig, ystyriwyd bod gan y cwnselwyr ddigon o amser i gyflawni gwaith manwl gyda phlant sydd â phroblemau, tra bo athrawon ar y cyfan ynghlwm wrth gyfyngiadau amser tyn.

Mae'r gwasanaethau cwnsela yn yr ysgolion hyn yn cydweithio gydag adnoddau ar gyfer lles plant (megis ystafelloedd gofal a gweithwyr cymorth emosiynol), er roedd amrywiaeth o ffyrdd y gallai'r systemau weithio ynghyd. Mewn rhai achosion, roedd tiwtoriaid blwyddyn, gofal bugeiliol, cefnogaeth gofal a chwnsela wedi'u hintegreiddio fel gwahanol agweddau o gefnogaeth, ac roeddent i gyd yr un mor hygyrch. Mewn ysgolion eraill, mae'r gwasanaeth cwnsela'n gweithredu fel adnodd llai gweledol, wedi'i dargedu at y plant hynny a glustnodwyd gan ofal bugeiliol neu uwch athrawon fel rhai sydd ag angen arbennig. Roedd manteision ac anfanteision i'r trefniant hwn. Ble roedd y gwasanaeth cwnsela yn rhan o ystod o wasanaethau oedd ar gael, roedd cyfle i'r plant adnabod lefel yr

help oedd ei angen arnynt ac i gyfeirio'u hunain fel bo'n addas. Ble roedd gwahanol haeni i'r gwasanaethau, byddai rhai o'r myfyrwyr fyddai'n elwa o gwnsela cyfrinachol yn llai tebygol o gael cyfle i'w gyrchu os nad oedd eu hanghenion yn amlwg i'r staff oedd yn cyfeirio, gan nad oedd y bobl ifanc o reidrwydd yn gwybod am y gwasanaeth.

Gallai fod potensial i weld rhaniad os yw'r gwasanaeth cwnsela'n cael ei leoli y tu allan i'r gwasanaeth gofal bugeiliol, ond doedd dim tystiolaeth o raniad o'r fath yn yr astudiaeth hon, ac roedd tiwtoriaid blwyddyn yn hanfodol i'r system gyfeirio. Roedd y myfyrwyr yn gwerthfawrogi bod gradd o wahaniad gan fod hyn yn rhoi mwy o ffydd mewn cyfrinachedd, a gan ei fod yn amlygu'r gwahanol fath o berthynas sy'n bodoli gyda chwnselydd o gymharu ag athrawon.

Mae rhai plant sydd â phroblemau mwy difrif wedi cael cyswllt gydag ystod o wasanaethau y tu mewn a'r tu allan i'r ysgol, yn ogystal â mynychu'r gwasanaeth cwnsela mewn ysgol. Ni adroddwyd unrhyw anawsterau wrth gyfuno mynediad i'r gwasanaethau hyn, ac roedd rhai myfyrwyr yn gwerthfawrogi'r gwahanol fathau o gefnogaeth a gynigwyd gan y gwasanaeth cwnsela mewn ysgolion.

4.8.11. *Mynediad i siaradwyr Cymraeg a grwpiau anodd eu cyrraedd.*

Yn yr ysgolion cyfrwng Saesneg dan ystyriaeth yma ni wnaeth un o'r ymatebwyr nodi ffafriaeth bersonol bod cwnsela ar gael drwy gyfrwng y Gymraeg, wrth gydnabod pwysigrwydd hyn mewn ysgolion dwyieithog / cyfrwng Cymraeg. Doedd cwnsela ddim ar gael drwy gyfrwng y Gymraeg mewn un o'r ysgolion cyfrwng Saesneg, yn ôl yr ymatebwyr. Yn yr ysgol cyfrwng Cymraeg, adroddwyd bod cwnsela ar gael yn y Gymraeg a'r Saesneg. Yn gyffredinol, roedd cytundeb ar draws yr ysgolion a'r grwpiau ymateb y dylai pobl ifanc fedru cyrchu cwnsela yn eu hiaith o ddewis, boed hynny'n Gymraeg neu'n Saesneg. Fe nodwyd gan nifer o ymatebwyr, er bod myfyrwyr yn gallu'r Gymraeg yn ddigonol er diben dod i'r ysgol, hwyrach nad yw hyn yn ddigon iddynt fod yn gyfforddus wrth drafod materion personol. Mewn cyferbyniad, awgrymodd un defnyddiwr gwasanaeth nad oes angen cynnig gwasanaeth cyfrwng Saesneg achos ei bod hi'n ysgol cyfrwng Cymraeg.

Awgrymodd un grŵp ffocws o fyfyrwyr byddai cael cwnsela ar gael mewn ieithoedd eraill o fudd i'r rheiny sydd â mamiaith wahanol i Saesneg neu Gymraeg.

4.8.12. *Dulliau cyfeirio.*

Roedd dulliau cyfeirio'n amrywio, gan adlewyrchu nodweddion gwahanol y gwasanaeth cwnsela mewn gwahanol ysgolion. Mewn un ysgol, dau aelod dynodedig o staff yn unig oedd yn cyfeirio, ac fel arfer, cychwynnwyd y broses gyfeirio gan aelod o staff gan nad oedd

y gwasanaeth yn adnabyddus yn yr ysgol. Dywedodd myfyriwr, 'Dydy o ddim yn cael ei gynnig yn agored, rhaid i rywbeth ddod i'r amlwg cyn iddynt ddod atoch chi'.

Mewn cyferbyniad, roedd gan un ysgol lwybrau hunangyfeiriad gan gynnwys dau flwch ar gyfer llythyron cyfeirio, amseroedd galw heibio, cyfeirio dros y we, yn ogystal â chyfeirio drwy athrawon. Yn y mwyafrif o achosion, mae tystiolaeth bod gan fyfyrwyr y dewis i benderfynu eu presenoldeb eu hunain, ac roedd gradd yr hunan benderfyniad oedd yn gysylltiedig â'r gwasanaeth cwnsela yn cael ei werthfawrogi gan y myfyrwyr. Mynegodd un ar ddeg o'r defnyddwyr gwasanaeth presennol nad oeddent dan bwysau i fynychu ond eu bod yn mynychu gan eu bod eisiau gwneud; gwnaeth tri ymateb 'nad oedd wir' unrhyw bwysau i fynychu a bod hyn o gymorth. Roedd ychydig o dystiolaeth o fyfyrwyr yn cael eu 'gyrru' i gwnsela mewn ysgolion,

Ddywedodd neb wrthyf fy mod i'n mynd i gwnsela. Rwy'n falch mai felly digwyddodd hi achos roedd o'n helpu na ddywedodd unrhyw un unrhyw beth, dim ond 'ewch i'r swyddfa'.

Pan es i'r tro cyntaf, fe weiddodd rhywun arnaf yn y dosbarth – fe ddwedais fy mod i angen mynd i gwnsela ac fe ddywedon nhw 'pam?' ... Rwy'n credu dylent hwy fod yn ymwybodol achos nid yw'n deg bod rhywun yn gweiddi arnoch am rywbeth na ddewisoch chi.

Yn ogystal, profodd un cyn ddefnyddiwr gwasanaeth bwysau i fynychu cwnsela'n gyson,

Byddai'n well gen i petawn i'n cael dewis, os ti eisiau mynd, ti'n mynd, ond os ti'n mwynhau gwers neu ddim awydd mynd un wythnos, ni ddylai fod rhaid mynd.

Gwnaeth un rhiant y sylw na ddylai fod gan fyfyrwyr ddewis i fynychu cwnsela ai peidio bob amser.

Mewn tair ysgol, adroddwyd nad oedd rhaid cael caniatâd rhieni. Yn yr ysgol arall, dywedodd myfyrwyr bod rhaid cael caniatâd rhieni. Gwnaeth un myfyriwr y sylw, '*Fe fyddai'n well gen i weld cwnselydd heb fod rhaid [i'm rhieni] roi caniatâd*'.

4.8.13. Ymateb i/canfyddiadau o'r Pecyn Cymorth.

Nododd dri athro cyswllt ymwybyddiaeth o'r Pecyn Cymorth, er nid oeddynt o reidrwydd yn gyfarwydd â'r manylion. Nodwyd bod y Pecyn Cymorth yn adnodd defnyddiol o ddeunyddiau, er nid yw'n cael ei ddefnyddio'n helaeth ganddynt. Mae un athro cyswllt yn disgrifio defnyddio deunyddiau o'r Pecyn Cymorth y tu allan i'r gwasanaeth cwnsela.

4.8.14. Crynodeb.

Roedd yr ysgolion a'r darpariaethau cwnsela a gwasanaethau cymorth emosiynol eraill yn amrywio'n sylweddol a gellir deall y canfyddiadau hyn orau ar sail astudiaeth achos, na ellir ei gyffredinoli i ysgolion eraill yng Nghymru. O ystyried yr amod hwn, gellir nodi'r themâu a'r materion allweddol canlynol:

- Roedd boddhad uchel gyda'r gwasanaeth ym mhob ysgol.
- Roedd y modelau darparu'n amrywio'n helaeth mewn perthynas â lefel hyrwyddo'r gwasanaeth, lefel ymreolaeth y myfyrwyr am ddefnydd y gwasanaeth, a'r berthynas gyda ffurfiau eraill o gymorth lles emosiynol.
- Mewn rhai ysgolion, awgrymir gallai fod yn anoddach i gynnal cyfrinachedd petai'r gwasanaeth yn adnabyddus. Ni chafodd hyn ei fynegi mewn ysgolion eraill.
- Pryderon allweddol i fyfyrwyr yw cyfrinachedd a phreifatrwydd. Mae pryder am gyfrinachedd yn cynnwys bod yn hyderus na chaiff yr wybodaeth a renni'r gyda'r cwnselydd ei rannu gyda staff arall, os nad oedd risg sylweddol. Mae preifatrwydd yn gofyn am ddarpariaeth sy'n ddigon cynnil fel nad yw athrawon na myfyrwyr eraill yn ymwybodol bod unigolyn yn mynychu cwnsela.
- O'r data cyfyngedig sydd ar gael roedd awgrym bod perthynas wrthdro rhwng lefel ymwybyddiaeth y cyhoedd o'r cwnsela a phryder myfyrwyr bod eraill yn ymwybodol eu bod yn mynychu cwnsela. Mewn ysgolion ble mae lefel hyrwyddo'r gwasanaeth cwnsela yn eithaf isel, ymddengys bod mwy o bryder ymysg myfyrwyr i gadw'r gwasanaeth yn gynnil. Hwyrach bod hyrwyddo'r gwasanaethau cwnsela/lles emosiynol yn eang wedi ei normaleiddio a chael gwared â'r stigma sy'n gysylltiedig â gofyn am help emosiynol.
- Mae anawsterau'n dod o hyd i leoliad da ar gyfer cwnsela mewn ysgolion. Ystyrir bod ystafell ddelfrydol ar gyfer cwnsela wedi'i leoli i ffwrdd o weddill y myfyrwyr, ond nid mewn llefydd ble na fyddai myfyrwyr fel arfer yn ymweld â hwy, a ddim yn rhy agos i ardaloedd y staff neu'r uwch dîm rheoli. Mae'r ymdeimlad diogel o gyfrinachedd yn lleihau pan nad yw'r ystafell wedi'i hynysu'n ddigonol rhag sain, ble gall bobl sy'n mynd heibio weld i mewn i'r ystafell, neu ble gall bobl dorri ar draws drwy gamgymeriad.

5. Prosiectau Peilot mewn ysgolion Cynradd

Yn ogystal â sicrhau bod gwasanaeth cwnsela ar gael mewn ysgolion uwchradd ar draws Cymru, nod allweddol y Strategaeth yw cynnig gwasanaeth cwnsela mewn ysgolion cynradd i ddisgyblion ym mlwyddyn 6 ac yn ystod y cyfnod o drawsnewid cyn cychwyn yn yr ysgol uwchradd. Felly mae'r Strategaeth yn cefnogi pedwar prosiect peilot mewn ysgolion Cynradd, yn ALLau 14, 15, 20 a 21. Mae pob un o'r prosiectau peilot wedi dewis dull gwahanol o gyflenwi gwasanaeth, yn seiliedig ar yr angen a glustnodwyd a'r adnoddau sydd ar gael, gan gynnwys staff.

Prosiectau Peilot Cynradd: Canfyddiadau Allweddol

- Roedd lefelau boddhad cyffredinol gyda'r prosiectau peilot ymysg penaethiaid ac Arweinwyr ALLau yn uchel, ac ystyriwyd bod y gwasanaethau'n cynnig gwerth am arian
- Er mai ychydig iawn o dystiolaeth canlyniadau oedd ar gael, roedd arwyddion cynnar yn awgrymu bod cyswllt rhwng y cwnsela â'r gostyngiadau mawr ac arwyddocaol mewn trallod seicolegol, gyda maint effaith cymedr o 0.71 o gychwyn y cwnsela hyd y diwedd. Adroddwyd hefyd gan arsylwyr bod cyswllt rhwng cwnsela â gwelliannau mewn ymddygiad disgyblion, cyrhaeddiad academiaidd a phresenoldeb yn yr ysgol
- Ystyriwyd mai cryfderau'r prosiectau peilot oedd: buddsoddiad mewn lles plant, mabwysiadu ymagwedd 'ysgol-gyfan', a defnyddio ymyriadau sy'n addas i oedran
- Roedd boddhad yn isel mewn meysydd penodol, sef adnoddau prin, diffyg integreiddio gyda mentrau eraill, ychydig iawn o fonitro a gwerthuso, problemau'n diwallu anghenion disgyblion Cymraeg eu hiaith, diffyg hyfforddiant i gwnselwyr, a lefel isel o hyrwyddo'r gwasanaethau o fewn ysgolion
- Nid oedd gan y cwnselwyr i gyd yn y prosiectau peilot cynradd gymhwyster proffesiynol
- Roedd argymhellion rhanddeiliaid yn cynnwys darparu adnoddau digonol i gwrdd â'r galw am gwnsela mewn ysgolion yn y sector cynradd; sicrhau cydraddoldeb i fynediad ar draws y sector; ac asesiad o gostau'r amrywiol fodelau gwasanaeth cyn i'r gwasanaethau gael eu rhoi ar waith yn ehangach ar draws y sector.

5.1. Dull

Derbyniwyd cynigion gan bedwar awdurdod lleol i gynnal prosiect peilot ac ymyriadau therapiwtig mewn ysgolion cynradd. Cynhaliwyd prosiectau peilot rhwng 2009 a 2011, ac ers hyn maent wedi'u hymestyn hyd Ebrill 2012. Er mwyn gwerthuso dwy flynedd gyntaf y prosiectau peilot cynradd hyn, defnyddiwyd ystod o ddulliau.

5.1.1. *Ymchwil ddesg.*

Roedd hyn yn cynnwys adolygiad o adroddiadau gwerthuso, adroddiadau blynyddol a chynigion gwariant (2009-10 a 2010-11), ac adroddiadau'r grwpiau llywio ar draws y pedwar awdurdod lleol. Arweiniodd hyn at bennu nifer o themâu.

5.1.2. *Cyfweliadau gydag Arweinwyr Awdurdodau Lleol.*

Gwahoddwyd yr Arweinydd yn yr Awdurdod Lleol neu'r rheolwr gwasanaeth (Arweinydd ALI) o fewn y pedwar awdurdod lleol fu ynghlwm â'r prosiectau peilot cynradd ar gyfer cwnsela mewn ysgolion, i gymryd rhan mewn cyfweliad dros y ffôn er mwyn archwilio eu canfyddiadau o'r prosiectau peilot. Cynhaliwyd cyfweliad gydag Arweinydd ALI o bob un o'r pedwar awdurdod lleol. Gofynnwyd i'r cyfranogwyr nodi ar raddfa pum pwynt i ba raddau roeddent yn cytuno gyda nifer o ddatganiadau ynglŷn â gweithrediad a gweithredu'r prosiectau peilot cynradd. Roedd y datganiadau'n gwahodd atebion gwerthusol ar nifer o themâu (gweler Tabl 28, t. 138):

- *Adnoddau:* Addasrwydd adeiladau neu ddigonolrwydd y gefnogaeth weinyddol
- *Hygyrchedd:* Rhwyddineb cyrchu'r gwasanaeth; os oedd y gwasanaeth yn sensitif i anghenion siaradwyr Cymraeg a chymunedau eraill
- *Problemau sefydliadol:* Digonolrwydd y systemau monitro a gwerthuso; i ba raddau bu gweithio ar y cyd; polisi ar gyfrinachedd; integreiddiad y gwasanaeth cwnsela ym mywyd yr ysgol
- *Staffio:* Digonolrwydd lefelau staffio; argaeledd hyfforddiant a goruchwyliaeth i staff
- *Agweddau rhanddeiliaid allweddol:* Y graddau y caiff gwasanaethau eu gwerthfawrogi gan staff ysgolion a rhieni.

Gofynnwyd hefyd i gyfranogwyr am gryfderau a gwendidau canfyddedig y prosiectau peilot cynradd a'u hargymhellion i wella gweithredu cwnsela mewn ysgolion cynradd.

5.1.3. Arolwg ymysg penaethiaid.

Darparwyd manylion cyswllt penaethiaid yr ysgolion fu'n cymryd rhan yn y prosiect peilot cynradd gan bedwar Arweinydd yr Awdurdodau Lleol. Cynhyrchwyd arolwg electronig a'i yrru ar e-bost, gyda chopi caled i'w ddychwelyd drwy'r post os mai dyna oedd y dull dewisol. Gofynnodd yr arolwg am yr ymyriadau oedd ar gael, y prosesau cyfeirio, cymwysterau a rolau'r cwnselwyr, os oedd angen caniatâd rhieni, a'r amser aros cyfartalog. Yn ogystal, gofynnwyd cyfres o ddatganiadau oedd mewn holiaduron blaenorol a ddefnyddiwyd fel rhan o'r gwerthusiad (Atodiad 13).

Dychwelwyd cyfanswm o 19 holiadur wedi'u cwblhau (cyfradd ymateb cyffredinol = 29.2%). Roedd cyfraddau ymateb yn amrywio ar draws y pedwar awdurdod lleol oedd yn cymryd rhan yn y prosiectau peilot cynradd: 52.6% o Brosiect Peilot A (42 ysgol yn y prosiect peilot, deg wedi'u dychwelyd, cyfradd ymateb = 23.8%); 21.1% o Brosiect Peilot B (chwe ysgol yn y prosiect peilot, pedwar wedi'u dychwelyd, cyfradd ymateb = 66.66%); 15.8% o Brosiect Peilot C (27 ysgol yn y prosiect peilot, tri wedi'u dychwelyd, cyfradd ymateb = 11.11%); 5.3% o Brosiect Peilot D (pedair ysgol yn y prosiect peilot, un wedi'i ddychwelyd cyfradd ymateb = 25%). Yn achos un holiadur, nid oedd yn bosibl adnabod pa un oedd y prosiect peilot gwreiddiol. O'r ymatebwyr roedd 73.7% yn benaethiaid, ac roedd y mwyafrif o'r gweddill yn benaethiaid cynorthwyol neu'n ddirprwy benaethiaid. O achos y cyfraddau ymateb isel yn yr arolwg yma dylid dehongli'r canlyniadau gyda gofal gan nad ydynt yn cynrychioli'r boblogaeth gyfan.

5.1.4. Data canlyniadau.

Darparwyd data canlyniadau o'r waelodlin a'r pwynt terfyn, gan ddefnyddio'r SDQ, gan ddau Awdurdod Lleol o'r flwyddyn academiaidd 2010-11: ALI 20 ac ALI 21. Daeth data o ALI 20 o ffurflenni SDQ a gwblhawyd gan athrawon, daeth data o ALI 21 o ffurflenni SDQ a gwblhawyd gan gymysgedd o rieni ac athrawon.

Roedd cyfraddau ymateb yn y ddau Awdurdod Lleol yn isel. Yn ALI 21, daeth data gan ddim ond 14 allan o'r 73 o blant (19.2%) oedd wedi derbyn cwnsela yn y flwyddyn honno. Yn ALI 21, roedd parau o ddata ar gael ar gyfer 32 o'r 69 o blant (46.4%) oedd wedi derbyn cwnsela yn 2010-11. Fodd bynnag, mewn 17 o'r achosion hyn, roedd y ffurflenni gwaelodlin a'r rhai pwynt terfyn wedi'u cwblhau gan wahanol unigolion ac, o ystyried nad yw data o'r fath yn ddibynadwy, cawsant eu heithrio o'r dadansoddiad. O ganlyniad, roedd 15 par o ffurflenni gwaelodlin a phwynt terfyn ar gael i'w dadansoddi gan ALI 21 (21.7%): saith wedi'u cwblhau gan athrawon a'r gweddill wedi'u cwblhau gan aelod o deulu'r plentyn.

5.1.5. Dadansoddiad Cost.

Darparwyd gwybodaeth ar y dyraniad arian a roddwyd i bob awdurdod i'r Tîm Gwerthuso drwy gydlynnydd y cwnselwyr mewn ysgolion ar ffurf adroddiadau blynyddol a chynigion gwariant.

5.2. Canfyddiadau

5.2.1. Ymchwil ddesg.

Ymddengys bod pob awdurdod wedi gweithio'n galed i ymgorffori'r prosiectau peilot cynradd o fewn eu strategaeth gyfredol ar gyfer cwnsela mewn ysgolion uwchradd. Mae grwpiau llywio aml-asiantaethol wedi'u sefydlu gan bob awdurdod i arwain y datblygiadau a sicrhau bod gan gwnsela mewn ysgolion gysylltiadau da gyda gwasanaethau eraill a mentrau lles. Mae pob awdurdod wedi cyflwyno data gwerthuso ansoddol ar ffurf sylwadau gan randdeiliaid allweddol ond mae data canlyniadau ystadegol sy'n mesur effeithiolrwydd gwasanaethau'n weddol brin. Er bod amrywiad eglur yn y math o fodelau gwasanaeth a fabwysiadwyd ar draws pob awdurdod lleol, mae cysondeb o fewn pob un o'r awdurdodau. Mae tri allan o'r pedwar prosiect peilot yn defnyddio cwnselwyr gyda chymhwyster proffesiynol, tra bod un yn defnyddio cymysgedd o therapyddion cymwys a gwirfoddolwyr hyfforddedig sy'n gweithio gyda phlant. Mae angen caniatâd gan rieni ym mhob ysgol ar draws pob awdurdod cyn gall plentyn gyrchu gwasanaethau cwnsela. Does dim nifer uchaf o sesiynau ar gyfer therapi un-i-un yn unrhyw un o'r ysgolion cynradd.

5.2.2. Prosiect Peilot A.

Ymyriadau.

Mae pob ysgol sy'n cymryd rhan yn y prosiect peilot cynradd yn yr awdurdod yma'n gweithredu'r un amrywiaeth o ymyriadau: cwnsela un-i-un, therapi chwarae, adrodd straeon a chefnogaeth i rieni. Hefyd, cynigir gwaith therapiwtig mewn grŵp, gyda nifer fechan o ysgolion hefyd yn cynnig therapi cerddoriaeth. Mae staff ysgolion hefyd wedi'u hyfforddi i ddefnyddio technegau therapiwtig gyda phlant yn ystod *amser mewn cylch*, ble mae dosbarth cyfan yn trafod perthnasau a lles emosiynol. Mae'r prosiect peilot yn ystyried anghenion plant rhwng 3 a 9 mlwydd oed a phlant rhwng 10 ac 11 mlwydd oed sy'n defnyddio therapïau siarad sy'n seiliedig ar chwarae. Darparwyd ymyriadau gan gwnselwyr pontio, arbenigwyr datblygu a chwarae therapiwtig (DATPS) a therapyddion cerddoriaeth.

Gwnaeth y cwnselwyr sy'n gweithio mewn ysgolion cynradd gwrdd â rhieni/gofalwyr a

staff ysgolion yn y lle cyntaf cyn cychwyn ar y broses therapiwtig gyda phlentyn. Roedd hyn i gysuro a hysbysu'r rhieni a'r athrawon am natur y broses therapiwtig, i drafod natur yr ymyriad, unrhyw faterion wrth gyflwyno a materion perthnasol yn y cartref neu yn yr ysgol. Roedd darpariaeth yn cael ei ganolbwyntio ar ymyriadau therapiwtig un-i-un ond darperir mathau eraill o ymyriadau.

Therapi Cerddoriaeth: Bwriad therapi cerddoriaeth yw cefnogi disgyblion i gyrraedd nodau personol o fewn eu perthynas therapiwtig. Darperir ymyriadau gan weithwyr proffesiynol wedi'u cofrestru sydd wedi cwblhau rhaglen therapi cerddoriaeth cymeradwy ar lefel-M. Mae'r Gwasanaeth Mynediad a Chynhwysiant wedi penodi therapydd cerddoriaeth i weithio mewn pedair ysgol ar draws yr awdurdod dros dridiau'r wythnos.

Datblygu a Chwarae Therapiwtig: Cyfeirir at anghenion emosiynol a datblygiadol y grŵp oedran 3-9 mlwydd oed drwy chwarae therapiwtig, gan gynnig cyfleoedd am fynegiant a dealltwriaeth newydd. Defnyddir sgiliau cwnsela llafar mewn cyswllt â gweithgareddau chwarae i gefnogi newid therapiwtig a chynyddu lefelau ystwythder a lles. Caiff yr ymyriad datblygu a chwarae therapiwtig ei ddarparu gan dîm o arbenigwyr.

Ymyriadau mewn Grŵp: Darperir amrywiaeth o ymyriadau mewn grŵp, gan gynnwys amser mewn cylch. Mae'r grwpiau hyn yn cynnig adnodd gwerthfawr sy'n caniatáu i blant rannu a mynegi pryderon ac i hybu iechyd a lles emosiynol. Fodd bynnag, mae cydnabyddiaeth gall defnydd dwys o therapi mewn grŵp fod yn or-feichus i lawer o blant gan fod tueddiad i geisio ymdopi ag anawsterau plant eraill yn ogystal â'u pryderon eu hunain.

Cwnsela Pontio: Cydnabyddir bod pontio rhwng ysgol gynradd ac ysgol uwchradd yn gyfnod o newid arwyddocaol ym mywyd plant ac, felly, y gallai achosi pryderon. O ganlyniad cyflogwyd cwnselydd pontio i gynnig cwnsela i ddisgyblion rhwng 10 ac 11 mlwydd oed yn yr ysgolion prosiect peilot cynradd.

Cyfeirio.

Mae'r gwasanaeth yn cymryd cyfeiriadau drwy sawl llwybr. Gall blant hunan gyfeirio, gallant gael eu cyfeirio drwy eu hathrawon neu aelodau eraill o staff, a gall rieni hefyd gyfeirio eu plentyn at y gwasanaeth. Drwy weithio'n agos gyda mentrau eraill i gefnogi iechyd a lles mewn ysgolion, mae'r gwasanaeth hefyd yn galluogi cyfeiriadau gan weithwyr cymdeithasol, meddygon teulu a gweithwyr iechyd meddwl cynradd. Mae cwnselwyr yn gweithio'n agos gyda gwasanaethau eraill i godi ymwybyddiaeth, i wirio bod cyfeiriadau'n addas ac i weithio ar y cyd. Mae'r broses gyfeirio bresennol yn gweithredu drwy bwynt canolog y Rheolwr Cwnsela Plant a Phobl Ifanc. Mae'r Rheolwr Cwnsela Plant a Phobl

Ifanc wedyn yn clustnodi cyfeiriadau i aelodau o'r tîm cwnsela'n seiliedig ar ba gwnselwyr unigol sydd ar gael.

Gwaith gyda rhieni/gofalwyr.

Fel yn achos y pedwar awdurdod lleol sy'n cymryd rhan yn y prosiectau peilot cynradd ar gyfer y cwnsela mewn ysgolion, roedd gofyn cael caniatâd rhieni cyn i blant gyrchu gwasanaethau. Roedd y rhieni'n cymryd rhan drwy gwrdd â'r cwnselydd cyn i'w plentyn dderbyn cefnogaeth therapiwtig. Roedd rhieni'n gallu mynychu cyfarfodydd adolygu a chwrdd â'r cwnselydd ar ddiwedd y broses cwnsela.

Strwythur staffio a rheoli.

Cafodd gwasanaethau cwnsela ym mhob un o'r ysgolion prosiect peilot cynradd eu rheoli gan yr Awdurdod Lleol a'i gydlyn gan y Rheolwr Cwnsela Plant a Phobl Ifanc dan arweiniad y Prif Swyddog Ieuentid a'r Pennaeth Strategaeth o fewn Cyfarwyddiaeth Plant y Cyngor Bwrdeistref Sirol. Cafodd gwahanol agweddau'r prosiect eu rheoli gan nifer o wasanaethau: Gwasanaeth Cwnsela Ieuentid, Gwasanaeth Cefnogi Ymddygiad, Gwasanaeth Seicoleg Addysgiadol, Gwasanaeth Mynediad a Chynhwysiant (AIS). Gan weithio ar sail beripatetig, cyflogwyd pump cwnselydd ar sail rhan amser ar draws yr ysgolion, gan gynnig 11.5 diwrnod o ddarpariaeth therapiwtig bob wythnos. Hefyd, penodwyd gweithiwr datblygu cwnsela o fis Ionawr 2010. Mae'r rheolwr cwnsela a'r gweithiwr datblygu cwnsela yn darparu deg diwrnod yr wythnos o ddarpariaeth therapiwtig ar draws yr ysgolion cynradd yn y prosiect peilot. Mae'r tîm cyfan yn derbyn goruchwyliaeth mewn grŵp bob mis gyda dau oruchwyliwr clinigol. Mae un o'r rhain wedi cymhwyso ac yn gweithio fel cwnselydd neu therapydd chwarae. Mae'r cwnselwyr hefyd yn cymryd rhan mewn goruchwyliaeth unigol gyda rheolwyr a chyfarfodydd tîm mewn grŵp yn rheolaidd i drafod materion gweinyddol, gweithredol a datblygiadol. Mae'r rheolwr prosiect a'r tîm o gwnselwyr yn gweithio'n agos gydag ystod o bartneriaid gan gynnwys rhieni, athrawon a seicolegwyr addysg.

Hygyrchedd.

Mae'r gwasanaeth ar gael mewn 42 o ysgolion ar draws yr Awdurdod Lleol. Rhoddwyd lefel uwch o hygyrchedd i'r gwasanaeth drwy ei weithredu nid yn unig yn ystod diwrnod ysgol ond hefyd dros wyliau'r haf.

Gwerthuso'r gwasanaeth.

Defnyddir yr SDQ fel y prif fesur canlyniadau. Yn ogystal, cynigir cyfle i'r plant gwblhau

coeden werthuso ble gallant dynnu llun neu nodi sylwadau sy'n cael eu glynu ar ddelwedd o goeden. Casglwyd y sylwadau hyn a'u cyfiosod i fesur canfyddiad y plentyn o'r therapi a'r buddion a dderbyniwyd. Gofynnwyd am lefel boddhad staff a rhieni gyda'r gwasanaeth drwy ffurflenni gwerthuso.

5.2.3. Prosiect Peilot B.

Ymyriadau.

Cynigir ystod o ymyriadau.

Gwasanaeth galw heibio: Mae gwasanaeth galw heibio hunangyfeiriedig, sy'n canolbwyntio ar ddatrysiadau yn gweithredu yn ystod yr awr ginio, ac roedd ar agor i unrhyw blentyn yn yr ysgol.

Cwnsela un-i-un: Roedd cefnogaeth therapiwtig wythnosol ar gael i blant a glustnodwyd bod angen mwy o gefnogaeth arnynt na'r rheiny fyddai fel arfer yn defnyddio'r gwasanaeth galw heibio. Mae'r cwnsela'n ymateb yn uniongyrchol i anghenion y plentyn a gellir ei ddarparu ar sail tymor byr neu dymor hir, a gallai hyn fod ar gyfer unrhyw amser hyd at flwyddyn ysgol gyfan.

Gwaith therapiwtig mewn grŵp: Roedd hwn ar gael ar ffurf grwpiau bach hyd at chwech o blant, yn rhedeg dros dymor ysgol, ac yn canolbwyntio ar broblemau cyffredin penodol megis hunan barch isel, anawsterau'n cysylltu gyda chyfoedion a phrofedigaeth. Hefyd, cynigwyd cefnogaeth drwy sesiynau amser mewn cylch oedd ar gyfer y dosbarthiadau i gyd.

Gwaith mewn partneriaeth gyda rhieni: Roedd cefnogaeth wedi'i ganolbwyntio ar gael i rieni a gofalmwyd ble darparwyd cyngor arbenigol, arweiniad, cefnogaeth therapiwtig a chyfeiriad at gefnogaeth arall.

Cefnogaeth Staff: Roedd gwasanaeth ymgynghori dynodedig i staff ysgolion i drafod plant unigol neu grwpiau o blant sy'n peri pryder.

Hyfforddiant: Roedd rhaglenni hyfforddiant, ymgynghori a chyngor wedi'u dylunio'n arbennig ar gael i helpu staff ysgolion i adeiladu sgiliau wrth gefnogi lles emosiynol plant.

Cyfeirio.

Roedd nifer o ddulliau cyfeirio ar gael, gan gynnwys hunangyfeiriad ar gyfer sesiynau galw heibio, ond dim ar gyfer sesiynau un-i-un. Gallai athrawon ac aelodau eraill o staff hefyd wneud cyfeiriadau, a gallai rhieni gyfeirio, un ai'n uniongyrchol i reolwr prosiect yr ysgol neu drwy aelod o dîm yr ysgol. Waeth beth fo'r pwynt mynediad, roedd y broses asesu'n sicrhau

bod y rhiant, y plentyn a'r ysgol yn cymryd rhan ym mhob cyfeiriad.

Gweithio gyda rhieni/gofalwyr.

Roedd cefnogaeth i rieni/gofalwyr drwy gyngor, therapi, ac ymgynghoriad er mwyn helpu i adolygu cynnydd y plentyn. Lle bo'n addas, darparwyd gwybodaeth am asiantaethau cefnogi eraill. Roedd gwasanaethau'n anelu gweithio mewn partneriaeth gyda'r rhieni i gefnogi'r plentyn.

Strwythur staffio a rheoli.

Darparwyd y gwasanaeth yma gan asiantaeth allanol yn gweithio ar sail clwstwr gyda rhwng chwech a 12 o ysgolion yn yr ardal leol i ffurfio canolbwynt. Ym mhob ysgol mae lleoliad dynodedig a thîm arbenigol ar y safle, sy'n cynnwys rheolwr prosiect yr ysgol (cwnselydd gwbl gymwys neu therapydd gyda phrofiad o weithio gyda phlant) a hyd at chwech o gwnselwyr hyfforddedig sy'n gwirfoddoli. Roedd pob tîm wedi'i leoli ar safle'r ysgol am rhwng dau a hanner i dri diwrnod yr wythnos i gynnig ystod o ymyriadau i'r plant (rhwng 4 a 13 mlwydd oed). Yn ogystal â'r gwaith yn yr ysgol, roedd gan weithwyr aml-asiantaeth (e.e. nyrsys ysgol, seicolegwyr addysg, gweithwyr iechyd meddwl cynradd, swyddogion lles addysg) gyswllt agos gyda'r gwasanaeth i sicrhau pecyn gofal cydgysylltiedig.

Mae staffio o fewn y prosiect peilot cynradd hwn yn cynnwys:

- un rheolwr rhanbarthol
- un rheolwr canolbwynt
- chwe rheolwr prosiect ysgol
- 34 o gwnselwyr gwirfoddol.

Goruchwylir y cwnselwyr gwirfoddol ar ddiwedd pob diwrnod gan y rheolwr prosiect ysgol. Yn eu tro, caiff y rheolwyr prosiect ysgol eu goruchwyllo gan y rheolwr canolbwynt yn wythnosol un ai drwy oruchwyliaeth un-i-un neu drwy *ddysgu ar y cyd*, sef proses ble daw'r chwe rheolwr prosiect ysgol ynghyd i rannu eu gwaith clinigol ac arfer da. Goruchwylir y rheolwr canolbwynt gan y rheolwr rhanbarthol bob pythefnos ac mae hefyd yn mynychu fforymau rheoli misol gyda rheolwyr canolbwynt eraill sy'n gweithio ledled y DU. Sefydlwyd cysylltiadau da gyda gwasanaethau eraill i blant, gan gynnwys CAMHS, y Tîm Cefnogi Ymddygiad, Revolving Door, Seicolegwyr Addysg, Cymorth i Deuluoedd, y Bwrdd Lleol Diogelu yn ogystal â'r Cwnselwyr Gweithredu dros Blant yn yr ysgolion uwchradd.

Hygyrchedd.

Roedd gwasanaethau cwnsela ar gael mewn chwe ysgol gynradd.

Gwerthuso'r gwasanaeth.

Caiff gwasanaethau eu gwerthuso gan ddefnyddio SDQ a TIPS (mesur canlyniadau lles ar gyfer plant a phobl ifanc a ddatblygwyd ym mhrifysgolion Wrecsam a Keele).⁵⁹

5.2.4. Prosiect Peilot C.

Ymyriadau.

Roedd ymyriadau'n cynnig cwnsela un-i-un, therapi hambwrdd tywod, adrodd straeon a therapi chwarae a gyflenwyd gan gwnselwyr cymwys sydd wedi cyflawni hyfforddiant mewn therapi chwarae.

Cwnsela un-i-un: Mae'r ymyriad yma'n cynnwys cymysgedd o therapi chwarae a siarad a ddarperir i blant gydag anghenion dwys. Fel arfer, mae sesiynau'n para 45 munud, ond mae rhywfaint o hyblygrwydd. Does dim cyfyngiad i'r nifer o sesiynau a gynigir. Cynigir sesiwn asesu cychwynnol, ynghyd â chyfle i siarad gyda'r rhieni i egluro'r broses cwnsela ac i leddfu unrhyw bryderon. Mae'r sesiynau'n defnyddio ystod eang o ddeunyddiau/offer chwarae, a rhoddir amser a lle i blant sefydlu perthynas gyda'r cwnselydd. Mae'r materion a gyflwynir yn aml yn ddifrifol ac yn gymhleth, gan gynnwys hanes o drais a thrawma yn y teulu, camddefnyddio sylweddau gan y rhieni, a phroblemau iechyd meddwl.

Gwaith grŵp: Hefyd, darperir cefnogaeth wedi'i dargedu ar gyfer grwpiau o blant.

Sesiynau gyda rhieni: Mae gan y gwasanaeth gysylltiadau agos gyda rhieni defnyddwyr gwasanaeth ac roedd sesiynau therapiwtig gyda rhieni ar gael.

Hyfforddiant i staff ysgolion: Cynigwyd cyngor, arweiniad a hyfforddiant i staff ysgolion gan gwnselwyr ynglŷn â materion iechyd emosiynol. Roedd ganddynt rôl benodol yn cefnogi athrawon a staff arall yn yr ysgol i ddarparu modiwl iechyd emosiynol.

Cyfeirio.

Gan fod cyfyngiad i'r gwasanaeth a bod nifer uchel yr ysgolion yng nghwmpas y prosiect peilot, roedd cyfeiriadau ar gyfer cwnsela un-i-un drwy'r swyddog Tîm o Amgylch y Plentyn (TAC) ac fe'i cyfyngwyd i ddisgyblion gyda chynlluniau gweithredu TAC. Y rhain oedd y plant mwyaf agored i niwed a risg ac oedd â'r problemau mwyaf cymhleth. Yn dilyn cyfeiriad, roedd cwnsela mewn ysgolion yn cael ei ymgorffori i gynllun gweithredu TAC y

59 I gael gwybodaeth am holiadur TIPS cysylltwch â kathryn.hunt@uq.edu.au

plentyn gan sicrhau ymagwedd cydgysylltiedig.

Gwaith gyda rhieni/gofalwyr.

Bu rhieni'n cymryd rhan yn y broses o'r cychwyn un fel rhan o'r broses cynllun gweithredu Tîm o Amgylch y Plentyn (TAC). Yn ogystal, roedd rhieni'n rhan o'r broses asesu wrth asesu lles emosiynol eu plentyn drwy gwblhau'r holiaduron SDQ ar gychwyn y cwnsela ac unwaith eto ar ddiwedd y broses cwnsela. Hysbyswyd rhieni am gynnydd eu plentyn gan y cwnselwyr ac fe gynigwyd cyngor gan y cwnselwyr i'r rhieni ar sut gallant gefnogi'r broses cwnsela yn y cartref, ynghyd â chynghor ar ba dechnegau chwarae i'w defnyddio.

Strwythur staffio a rheoli.

Rheolwyd gwasanaethau gan yr Awdurdod Lleol gyda thri cwnselydd rhan amser a gyflogwyd yn ystod y tymor yn unig, gyda phob un yn cwmpasu maes penodol yn yr Awdurdod Lleol:

- Cwnselydd 1: 15 awr yr wythnos
- Cwnselydd 2: 15 awr yr wythnos
- Cwnselydd 3: 18 awr yr wythnos

Mae'r cwnselwyr yn gweithio'n agos gyda'r tîm TAC a sefydlwyd yn ddiweddar, ynghyd ag asiantaethau cefnogi eraill. Mae goruchwyliaeth glinigol un-i-un ar gael ar gyfer pob cwnselydd ar sail isafswm o awr a hanner bob mis. Yn ogystal, darparwyd goruchwyliaeth gan gyfoedion yn fewnol gan oruchwyliwr profiadol ym maes cwnsela mewn ysgolion cynradd. Darparwyd goruchwyliaeth rheoli gan Swyddog Cefnogi Personol y Bartneriaeth Plant a Phobl Ifanc (CYPP) oedd hefyd yn rheolwr llinell gweithredol ar gyfer y gwasanaeth cwnsela mewn ysgolion uwchradd yn yr Awdurdod Lleol. Bu cwnselwyr yn cydweithio a gweithio'n agos gyda gweithwyr ieuenctid, nyrsys ysgol a gweithwyr ieuchyd meddwl cynradd.

Hygyrchedd.

Roedd y prosiect peilot cynradd yn cwmpasu 27 o ysgolion cynradd yn yr Awdurdod Lleol ond roedd wedi'i gyfyngu i'r plant hynny oedd â chynllun gweithredu TAC. Cafodd y cyflenwad ei ddosbarthu'n gyfartal ar draws yr awdurdod.

Gwerthuso'r gwasanaeth.

Roedd canlyniadau ar gyfer disgyblion yn cael eu gwerthuso gan ddefnyddio'r SDQ a'r C-GAS (Graddfa Asesu Plant Byd-eang).

5.2.5. Prosiect Peilot D.

Ymyriadau.

Bwriad y gwasanaeth oedd gweithio'n systematig gan geisio achosi newidiadau yn rhwydwaith perthnasau'r plentyn yn hytrach na stigmatiddio'r plentyn fel gwraidd 'y broblem'. Yr ymyriadau oedd ar gael oedd cwnsela un-i-un, therapi chwarae, gwaith therapiwtig mewn grŵp, adrodd straeon, amser mewn cylch. Cefnogwyd staff ysgolion a rhoddwyd hyfforddiant, cefnogaeth a goruchwyliaeth iddynt. Roedd ymyriadau'n seiliedig ar y cysyniad bod plant yn mynegi eu meddyliau ymwybodol ac anymwybodol yn naturiol drwy chwarae yn hytrach na geiriau'n unig. Defnyddiwyd ymagwedd grŵp cyfan gan ddefnyddio gwaith uniongyrchol gyda phlant a theuluoedd. Priodolwyd y model ar theori ymlyniad, datblygiad plentyn ac arfer diogelu cadarn. Roedd posib gosod yr ymyriadau mewn nifer o gategoriâu.

Adeiladu gallu staff drwy chwarae therapiwtig: Ystyriwyd mai'r athro oedd y prif asiant newid. Felly darparwyd hyfforddiant seico-addysgol i staff addysgu oedd yn cynnwys datblygiad personol a hunan ymwybyddiaeth ynghyd â chyfleoedd dysgu mewn therapi chwarae, theori ymlyniad, datblygiad plant, effaith amgylchiadau niweidiol, diogelu, sgiliau ymarferol ar fagu plant, a sgiliau gwrando. Dysgwyd staff sut i arsylwi plant yn chwarae er mwyn deall eu lles emosiynol. Hefyd, cynigwyd ymchwiliad ystyriol, proses ble gall staff adlewyrchu ar eu harfer proffesiynol a'u lles personol, er mwyn ehangu eu heffeithiolrwydd wrth gefnogi lles eu disgyblion. Dysgwyd theori ac arfer chwarae i staff oedd gyda'r plant drwy gydol y diwrnod ysgol, gan gynnwys amser cinio.

Gwaith grŵp gyda chwarae therapiwtig ar gyfer plant a glustnodwyd: Cynigir chwarae therapiwtig mewn grwpiau i blant sy'n byw mewn teuluoedd gydag anghenion cymhleth. Mae hyn yn helpu plant i adrodd eu straeon i'w cyfoedion er mwyn gwella eu gallu i fagu perthnasau a chynyddu eu hunan werth.

Hyfforddiant ffiliol mewn grŵp i rieni a gofalwyr: Perthnasau cadarnhaol rhwng rhieni a phlant yw sail ymddiriedaeth a datblygiad iachus mewn plentyn. Roedd yr ymagwedd yn canolbwyntio ar ehangu'r berthynas rhwng rhiant a phlentyn, yn hytrach na chanolbwyntio ar yr ymddygiad dan sylw.

Gwaith unigol gyda phlant a glustnodwyd yn hynod agored i niwed a chydag anghenion cymhleth: Darparwyd therapi chwarae gan therapydd chwarae cymwys i'r plant

mwyaf agored i niwed, megis y rheiny ble roedd risg y cânt eu gwahardd. Mewn achosion o'r fath, gellir cynnig ymyriadau i deulu'r plentyn, ble bo'n addas.

Cyfeirio.

Gellid cyfeirio plant i'r gwasanaeth drwy unrhyw ddull, gan gynnwys hunangyfeiriad, cyfeiriad gan athro, drwy staff eraill neu gan rieni.

Gweithio gyda rhieni/gofalwyr.

Darparwyd cefnogaeth i rieni. Darparwyd gwybodaeth i rieni'r plant a glustnodwyd a'u gwahodd i fynychu cyfarfodydd. Yn dilyn cyfnod sgrinio, cynigwyd gwaith grŵp i rieni/gofalwyr a glustnodwyd.

Strwythur staffio a rheoli.

Roedd y pedair ysgol gynradd oedd yn cymryd rhan yn y prosiect peilot yn cael eu rheoli gan ddarparwr allanol a chynigwyd yr un ymyriadau iddynt i gyd. Roedd swyddog hyfforddiant a chefnogaeth, cwnselydd cymwys a chwnselydd/therapydd chwarae cymwys. Roedd y prosiect peilot yn gweithio mewn partneriaeth gyda phrifysgol leol, Ymddiriedolaeth GIG ac, yn nyddiau cynnar y prosiect, gyda'r NSPCC. Plant yn y cyfnod sylfaen (rhwng tair a saith mlwydd oed) oedd canolbwynt yr ymyriadau. Roedd cyfarfodydd cyswllt rheolaidd gydag asiantaethau eraill megis CAMHS, gwaith cymdeithasol a nyrsio mewn ysgol. Roedd grŵp llywio aml-asiantaeth yn sicrhau integreiddio gyda gwasanaethau eraill.

Hygyrchedd.

Roedd pedair ysgol gynradd yn cymryd rhan yn y prosiect peilot.

Gwerthuso'r gwasanaeth.

Defnyddiwyd yr holiadur TIPS i werthuso'r gwasanaeth. Nid yw canlyniadau hwn ar gael ar hyn o bryd. Yn ogystal, comisiynwyd tîm ymchwil i werthuso'r prosiect peilot cynradd yn yr Awdurdod Lleol penodol hwn. Nid yw canlyniadau'r gwerthusiad ar gael yn llawn ar hyn o bryd, ond fe'u casglwyd drwy gyfweiliadau gyda rhanddeiliaid allweddol ar gyfnodau gwahanol ym mywyd y prosiect peilot cynradd. Mae canfyddiadau rhagarweiniol yn gadarnhaol iawn, gan gynnwys:

1. Meddwl uchel o'r therapydd sy'n gweithredu'r ymyriadau ymysg gweithwyr proffesiynol byd addysg, ac mae wedi llwyddo i newid arfer o du fewn i'r ysgolion.

2. Gellid gweithredu'r ymyriadau bron ar unwaith. Byddai plentyn sy'n wynebu anawsterau'n cael ei glustnodi yn y bore, ac erbyn y prynhawn gallai'r plentyn hwnnw fod yn cael chwarae un-i-un.
3. Roedd staff wedi derbyn hyfforddiant, ac felly roeddent yn fwy hyderus ac awdurdodol wrth adnabod gwahanol ystyron chwarae ac wedyn yn gallu ymyrryd yn addas.
4. Gan fod staff wedi'u hyfforddi ac yn teimlo'n hyderus, mae'r prosiect yn gynaliadwy a gellir ei ymestyn drwy'r ysgolion yn y prosiect ac i ysgolion eraill nad ydynt wedi cymryd rhan yn y prosiect.
5. Mae'r ymyriadau wedi'u teilwrio i anghenion unigol yr ysgol.

5.2.6. Crynodeb o'r ymchwil ddesg.

Er bod amrywiaeth eglur rhwng y math o fodelau gwasanaeth a fabwysiadwyd ar draws y prosiectau peilot, roedd cysondeb o fewn pob un o'r awdurdodau.

Ymyriadau.

Roedd cryn wahaniaeth yn yr ymyriadau a gynigwyd o fewn prosiectau peilot cynradd er mwyn mynd i'r afael ag anghenion datblygiadol ac emosiynol plant oed ysgolion cynradd. Roedd pob prosiect peilot yn cynnig cymysgedd o gwnsela unigol, gwaith grŵp a hyfforddiant i staff ysgolion. Roedd therapi chwarae'n dylanwadu'n drwm ar gwnsela un-i-un a gwaith grŵp fel ymyriad addas i ddatblygiad, yn enwedig i'r plant ieuengaf mewn ysgol gynradd. Ar ben arall y sbectrwm, cafodd anghenion plant 10 ac 11 mlwydd oed eu cydnabod drwy ddarparu cwnsela pontio (Prosiect Peilot A), oedd yn cynnig cymorth seicolegol wrth symud i ysgol uwchradd. Cafodd ymyriadau eu teilwrio hefyd yn ôl difrifoldeb yr angen, gyda sesiynau galw heibio ar gael dros amser cinio ar gyfer pryderon gweddol ysgafn (Prosiect Peilot B), a sesiynau unigol mwy dwys ac wedi'u targedu ar gyfer plant a glustnodwyd eu bod yn agored i risg neu gydag anghenion cymhleth (Prosiect Peilot C). Mae hefyd amrywiaeth yng nghanolbwynt yr ymyriadau: un ai gwaith therapiwtig gydag unigolion yn fwy amlwg (Prosiect Peilot A) neu waith systematig gydag ysgolion a theuluoedd (Prosiect Peilot D). Mae'r amrywiaeth hyn yn adlewyrchu safiad damcaniaethol gwahanol ar y dulliau mwyaf effeithiol o hybu lles seicolegol mewn plant. Roedd pob un o'r prosiectau peilot yn cydnabod rôl cwnselwyr mewn ysgolion yn hyfforddi staff ysgolion, yn enwedig athrawon, mewn therapi chwarae a thechnegau gwaith grŵp er mwyn gwella lles plant. Gallai hyn arwain at welliannau cynaliadwy yng ngallu'r ysgol i godi lefelau lles emosiynol.

Gwaith gyda rhieni.

Roedd pob prosiect peilot yn gweithio'n agos gyda rhieni, nid yn unig o ran gofyn caniatâd rhiant er mwyn cyfeirio'r plentyn at gwnsela, ond hefyd yn cynnig cyfleoedd i ymgynghori, a therapi ar gyfer rhieni.

Cyfeirio.

Roedd y mwyafrif o'r prosiectau peilot (A, B a D) yn derbyn cyfeiriadau gan ystod eang o ffynonellau, gan gynnwys: athrawon, staff arall mewn ysgolion, rhieni a'r disgyblion eu hunain. Mewn cyferbyniad, dim ond drwy'r swyddog TAC oedd Prosiect Peilot C yn derbyn cyfeiriadau, gan dargedu'r plant hynny oedd fwyaf agored i niwed a risg ac oedd eisoes â chynllun gweithredu TAC.

Hygyrchedd.

Roedd y graddau yn y nifer o ysgolion oedd yn cymryd rhan mewn prosiectau peilot yn amrywio'n sylweddol:

Prosiect Peilot A = 42, Prosiect Peilot B = 6, Prosiect Peilot C = 27, Prosiect Peilot D = 4.

Roedd hyn gan fod pob awdurdod lleol ag ymreolaeth dros sut roeddent yn dewis rhedeg y prosiectau peilot cynradd a sut roeddent yn dewis defnyddio'u hadnoddau.

Strwythur staffio a rheoli.

Roedd gan bob prosiect peilot strwythur rheoli eglur a darpariaeth addas o oruchwyliaeth glinigol ar gyfer cwnselwyr. Roedd amrywiaeth yn sut roedd gwasanaethau'n cael eu rheoli ar draws y pedwar awdurdod lleol. Roedd rhai'n cael eu rheoli gan awdurdodau lleol (Prosiectau Peilot A a C) ble roedd eraill yn cael eu rheoli gan asiantaethau allanol gwahanol (Prosiectau Peilot B a D). Yn yr un modd, roedd staffio'n amrywio, gydag ychydig iawn o gydberthyniad rhwng nifer y staff a gyflogwyd a'r nifer o ysgolion yn y prosiect peilot. Er enghraifft, roedd Prosiect Peilot C yn cyflogi tri cwnselydd rhan amser ar draws 27 ysgol, ond roedd Prosiect Peilot B yn cyflogi nifer tebyg i 40 o staff ar draws dim ond chwe ysgol. Yn achos yr enghraifft ddiwethaf, roedd ychydig dros 30 o'r cwnselwyr hyn yn wirfoddolwyr oedd wedi cyflawni'r hyfforddiant perthnasol. Yn y prosiectau peilot eraill roedd y staff i gyd yn derbyn tâl. Defnyddiwyd grwpiau llywio aml-asiantaeth ym mhob un o'r awdurdodau lleol i arwain datblygiadau, gan arwain at gwnsela mewn ysgolion yn gweithio ar y cyd gyda gwasanaethau eraill i blant.

Gwerthuso'r gwasanaeth

Roedd pob awdurdod wedi cyflwyno data gwerthuso ansoddol ar ffurf sylwadau gan

randdeiliaid allweddol oedd yn gyffredinol yn gadarnhaol iawn ac yn gefnogol o sicrhau bod cwnsela mewn ysgolion ar gael yn y sector cynradd. Roedd gan bob prosiect peilot systemau mewn lle i fonitro canlyniadau'n rheolaidd, yn enwedig gan ddefnyddio'r SDQ, TIPS a'r Goeden Gwerthuso. Ond nid oedd data canlyniadau cynhwysfawr o'r prosiectau peilot ar gael wrth dynnu'r adroddiad hwn at ei gilydd.

5.3. Canfyddiadau Arweinwyr Awdurdodau Lleol o'r Prosiectau Peilot Cynradd

5.3.1. *Atebion meintiol.*

Roedd dadansoddiad o'r cyfweiliadau yn dangos bod lefelau boddhad cyffredinol ar draws y prosiectau peilot, gyda rhai eithriadau (Tabl 28). Doedd Arweinydd ALI (Prosiect Peilot A) ddim yn cytuno bod lleoliad y gwasanaeth cwnsela'n addas. Mynegodd Arweinydd ALI (Prosiect Peilot B) lefel isel o foddhad ar nifer o themâu; faint o wasanaethau oedd ar gael yn gyffredinol gan gyfeirio'n arbennig at siaradwyr Cymraeg a chymunedau eraill; pa mor agos roedd gwasanaethau'n gweithio gyda mentrau eraill; y gweithdrefnau monitro a gwerthuso; yr adnoddau a'r hyfforddiant oedd ar gael i cwnselwyr. Yn ogystal, nododd Arweinydd ALI (Prosiect Peilot B) nad oeddent yn gwybod os oedd rhieni'n cydnabod a gwerthfawrogi'r gwasanaeth. Mynegodd Arweinydd ALI (Prosiect Peilot C) lefel isel o foddhad gyda lefelau staffio. Yn ogystal, nododd Arweinydd ALI (Prosiect Peilot C) nad oeddent yn gwybod os oedd gwasanaethau'n hygyrch i ddisgyblion. Doedd Arweinydd ALI (Prosiect Peilot D) ddim yn fodlon bod y gwasanaeth cwnsela'n cael ei hyrwyddo'n dda o fewn ysgolion. Mynegodd Arweinydd ALI (Prosiect Peilot B) lefel is o foddhad cyffredinol o gymharu ag Arweinwyr ar gyfer y prosiectau peilot eraill.

Tabl 28. Sgorio Arweinwyr Awdurdodau Lleol yn unigol ar gyfer prosiectau peilot cynradd

	Cyfraddau Arweinwyr Awdurdodau Lleol			
	A	B	C	D
Mae'r safle ar gyfer y gwasanaeth cwnsela yn ddigonol	2	3	3	3
Mae'r gwasanaethau yn hawdd i ddisgyblion cael atynt.	4	2	DG	3
Fe roddir cwnsela mewn gosodiad priodol sy'n breifat ond yn ddiogel yn agos i'r ysgol	4	3	4	3
Mae'r gweithdrefnau ar gyfer monitro a gwerthuso'r gwasanaeth cwnsela yn foddhaol	4	1	3	3
Mae lefel staffio'r gwasanaeth cwnsela yn ddigonol	3	3	2	3
Mae adnoddau digonol ar gyfer y gwasanaeth cwnsela	3	1	3	3
Rydym yn cynnig hyfforddiant i gwnsleriaid ysgol yn ein hawdurdod lleol ni	4	1	4	3
Mae'r gwasanaeth cwnsela yn gweithio'n agos gyda mentrau eraill i gefnogi iechyd a lles yn yr ysgolion	4	2	4	4
Fe baratwir trefniadau priodol ar gyfer goruchwyliaeth clinigol i gwnsleriaid	4	3	4	4
Mae'r gwasanaeth cwnsela yn rhan annatod o ddarpariaeth yr ysgol	4	3	4	4
Mae cyhoeddusrwydd da i'r gwasanaeth cwnsela yn ysgolion	3	4	3	2
Mae'r gwasanaeth cwnsela yn sensitif i anghenion gwahanol gymunedau a grwpiau ethnig	4	2	3	4
Mae agwedd y gwasanaeth tuag at gyfrinachedd yn cydbwyso anghenion y rhieni, y plant a diogelu gweithdrefnau yn briodol	4	3	4	4
Mae'r gwasanaeth cwnsela yn sensitif i anghenion siaradwyr Cymraeg	3	1	4	4
Mae gan y gwasanaeth cwnsela cefnogaeth weinyddol da	4	4	4	3
Fe gydnabyddir ac fe werthfawrogir y gwasanaeth cwnsela gan staff yr ysgol	4	4	4	4
Bu'r broses o sefydlu'r gwasanaeth cwnsela yn effeithiol a heb broblem	3	3	4	3
Fe gydnabyddir ac fe werthfawrogir y gwasanaeth cwnsela gan y rhieni	4	DG	4	3

Noder: 4 = Cytuno'n gryf; 3 = Cytuno; 2 = Dim yn cytuno nag yn anghytunoe; 1 = Anghytuno; 0 = Anghytuno'n gryf; DG = Ddim yn Gwybod

Ffynhonnell: Cyfweiliadau gyda'r pedwar Arweinydd Awdurdodau Lleol ar gyfer y Prosiectau Peilot Cynradd

5.3.2. Cryfderau.

Roedd Arweinwyr ALLau yn gweld cryfderau'r cwnsela mewn ysgolion o ran adnabod a chydabod pwysigrwydd lles plant a'r buddsoddiad hir dymor yn hwn. Ystyriwyd hefyd bod mabwysiadu ymagwedd systemig sy'n cynnwys athrawon, rhieni a systemau cefnogi eraill yn gryfder. Roedd defnyddio amrywiaeth o ymyriadau a addaswyd i wahanol grwpiau oedran a lefelau trallod hefyd yn cael ei ystyried yn gadarnhaol. Ystyriwyd bod gwasanaethau'n arloesol, yn hyblyg ac yn canolbwyntio ar y gwasanaeth gorau bosibl.

5.3.3. Gwendidau.

Roedd pryderon nad oedd yr arian ar gyfer dyfodol cwnsela mewn ysgolion cynradd wedi'i sicrhau. Roedd un Arweinydd ALI (Prosiect Peilot B) yn teimlo bod y prosiect peilot cynradd yn ddrud ac roedd yn pryderu am ddefnydd eang cwnselwyr gwirfoddol a lefel eu hyfforddiant. Mynegodd yr Arweinydd yma bryder pellach bod llwybrau cyfeirio'n aneglur.

5.3.4. *Argymhellion.*

Gwnaeth Arweinwyr ALLau sylwadau bod y galw canfyddedig am wasanaethau cwnsela'n anferth ac felly bod angen lefel sylweddol o adnoddau i ddiwallu'r galw yma. Roedd teimlad bod cydraddoldeb i fynediad i wasanaeth cwnsela mewn ysgolion yn bwysig ar draws y sector cynradd drwy Gymru gyfan. Dylid gostwng cost rhai modelau darparu i alluogi ei roi ar waith yn ehangach. Dylai fod ymyriadau'n addas i oedran a dylai bod cymwysterau addas gan gwnselwyr, gan gyfeirio'n benodol at weithio gyda grŵp plant oedran cynradd.

5.3.5. *Crynodeb o'r cyfweiliad gydag Arweinwyr ALLau.*

Roedd ymatebion yn nodi lefelau boddhad cyffredinol ar draws y prosiectau peilot, gyda'r Arweinydd ar gyfer Prosiect Peilot B yn nodi lefel is o foddhad cyffredinol o gymharu ag ymatebwyr eraill. Roedd y meysydd penodol gyda boddhad isel ar draws pob prosiect peilot yn cynnwys: adnoddau megis adeiladau a lefelau staffio; hygyrchedd gwasanaethau; pa mor agos roedd y gwasanaeth yn gweithio gyda mentrau eraill; y gweithdrefnau monitro a gwerthuso; yr hyfforddiant oedd ar gael i gwnselwyr a pha mor dda cafodd y gwasanaeth cwnsela ei hysbysu o fewn ysgolion. Ystyriwyd mai cryfderau'r prosiectau peilot oedd: buddsoddi mewn lles plant; mabwysiadu ymagwedd systemig neu 'ysgol-gyfan' a defnyddio amrywiaeth o ymyriadau oedd yn addas i oedran. Roedd y gwendidau canfyddedig yn cynnwys: pryderon am ariannu yn y dyfodol; effeithiolrwydd cost y prosiectau peilot; ac eglurder llwybrau cyfeirio. Argymhellwyd gan ymatebwyr: darparu adnoddau digonol i gwrdd â'r angen am gwnsela mewn ysgolion yn y sector cynradd; sicrhau bod cydraddoldeb mynediad i gwnsela ar draws y sector cynradd; asesiad o gostau modelau gwasanaeth amrywiol cyn rhoi gwasanaethau cwnsela ar waith yn ehangach ar draws y sector cynradd.

5.4. Arolwg ymysg Penaethiaid

5.4.1. *Cyflenwi gwasanaeth.*


Nododd y mwyafrif o ymatebwyr (47.7%) bod cwnselwyr mewn ysgolion yn y prosiectau peilot cynradd yn cael eu cyflogi gan yr Awdurdod Lleol, gyda 21.1% arall yn nodi y cafodd cwnselwyr eu cyflogi gan asiantaeth allanol (21.1%). Dim ond un ymatebydd (5.3%) a nododd y cyflogwyd y cwnselydd gan yr ysgol, a gwnaeth 26.3% adrodd bod trefniadau eraill mewn lle wrth gyflogi cwnselwyr.

O ran cymwysterau cwnselwyr, nododd 47.4% o ymatebwyr bod pob un o'r cwnselwyr yn eu hysgolion wedi cymhwyso, nododd 10.5% bod y mwyafrif o gwnselwyr wedi

cymhwyso, nododd 15.8% mai dim ond rhai o'u cwnselwyr oedd wedi cymhwyso a nododd 10.5% o ymatebwyr nad oedd dim wedi cymhwyso (data ar goll = 15.8%).

Nododd ymatebwyr bod ystod o ymyriadau'n cael eu cynnig o fewn y prosiectau peilot cynradd (gweler Ffigur 20). Yr un mwyaf cyffredin oedd cwnsela un-i-un (84.2%), gyda therapi chwarae (57.9%) a chefnogaeth i rieni (57.9%) hefyd yn amlwg iawn.


Ffigur 20. Ymyriadau a gynigwyd o fewn ysgolion cynradd



Ffynhonnell: Arolwg ymysg penaeithiaid prosiectau peilot cynradd

Nodwyd ystod o ddulliau cyfeirio hefyd gan ymatebwyr, gyda chyfeiriadau gan athrawon (84.2%) yn fwyaf amlwg, wedyn cyfeiriadau gan staff arall (63.2%), rhieni (63.2%), ac yn olaf hunangyfeiriad (31.6%).


Ffigur 21. Dulliau cyfeirio



Ffynhonnell: Arolwg ymysg penaethiaid prosiectau peilot cynradd

Yn gyffredinol, nododd ymatebwyr (94.7%) nad oedd gan gwnselwyr rolau ychwanegol o fewn yr ysgol. Hefyd, cadarnhawyd canfyddiadau'r ymchwil ddesg bod angen caniatâd rhieni'n gyffredinol (84.2%) er mwyn i blentyn gael mynediad i wasanaethau (5.3% yn dweud na, 10.5% ar goll). Nododd ychydig dros hanner yr ymatebwyr (52.6%) nad oedd cyfyngiad uchaf i'r nifer o sesiynau cwnsela oedd ar gael i blant.

Ffigur 22. Amser aros cyfartalog ar gyfer apwyntiad cyntaf



Ffynhonnell: Arolwg ymysg penaethiaid prosiectau peilot cynradd

O ran amser aros (gweler Ffigur 25) nododd y mwyafrif o ymatebion (52.7%) bod rhaid i blant aros am dros dair wythnos cyn gallant gychwyn cwnsela. Dim ond 15.8% wnaeth nodi byddai plant yn gweld cwnselydd mewn llai na phythefnos.

5.4.2. Effaith canfyddedig.

Nododd y mwyafrif o ymatebwyr (84.2%) eu bod yn credu bod ymddygiad plant wedi gwella o ganlyniad i gyflwyno gwasanaethau cwnsela mewn ysgolion. Roedd hyn yn torri lawr i dri chategori: wedi gwella'n sylweddol (26.3%), wedi gwella rhywfaint (36.8%), wedi gwella ychydig (21.1%). O ran yr effaith canfyddedig ar gyrhaeddiad addysgol plant, roedd y mwyafrif o ymatebwyr (73.7%) yn teimlo bod hwn wedi gwella o ganlyniad i gyflwyno cwnsela mewn ysgolion, gan dorri i lawr i dri chategori: wedi gwella'n sylweddol (15.8%), wedi gwella rhywfaint (36.8%), wedi gwella ychydig (21.1%). Roedd nifer o ymatebwyr (10.5%) yn teimlo bod cyrhaeddiad wedi aros yr un fath. O ran presenoldeb yn yr ysgol, roedd 63.2% o ymatebwyr o'r farn bod hwn wedi gwella, gan dorri lawr i dri chategori: wedi gwella'n sylweddol (10.5%), wedi gwella rhywfaint (31.6%), wedi gwella ychydig (21.1%). Roedd cyfran o ymatebwyr (15.8%) o'r farn bod presenoldeb wedi aros yr un fath.


5.4.3. Lefelau boddhad.

Sgoriodd nifer o eitemau dros 50% o gytundeb net gan awgrymu bod ymatebwyr yn fwy bodlon nac anfodlon gyda'r materion hyn (gweler Ffigur 23). O ran sut roedd y gwasanaethau cwnsela'n gweithredu, roedd boddhad gyda'r ffordd roedd cyfrinachedd defnyddwyr gwasanaeth yn cael ei reoli; gan ei fod yn cydbwyso anghenion plant, athrawon a rhieni. Roedd cytundeb bod gwasanaethau'n sensitif i anghenion gwahanol gymunedau a grwpiau ethnig, a bod gwasanaethau'n gweithio'n agos gyda mentrau iechyd a lles eraill. Yn gyffredinol, roedd teimlad bod gwasanaethau'n gweithredu mewn lleoliad preifat a diogel o fewn yr ysgol a bod gweithdrefnau ar gyfer monitro a gwerthuso gwasanaethau'n foddhaol. Roedd ymatebwyr yn dueddol o gytuno bod gwasanaethau'n cael eu cydnabod a'u gwerthfawrogi gan staff ysgolion a bod staff wedi derbyn hyfforddiant addas er mwyn deall sut i wneud cyfeiriadau addas i wasanaethau. Roedd ymatebwyr hefyd yn dueddol o gytuno bod gwasanaethau'n cynrychioli gwerth am arian.

Gwnaeth nifer o eitemau sgorio llai na 50% o gytundeb net gan awgrymu bod ymatebwyr yn fwy anfodlon na bodlon gyda'r materion hyn. Yn gyffredinol, roedd lefel boddhad is gyda'r adnoddau oedd ar gael i wasanaethau, yn enwedig o ran adeiladau a chefnogaeth weinyddol. Doedd ymatebwyr ddim yn dueddol o gytuno bod ysgolion wedi derbyn cefnogaeth ddigonol i ddatblygu gwasanaethau cwnsela ac roedd lefel isel o

gytundeb bod y broses o sefydlu gwasanaethau wedi bod yn effeithiol a didrafferth. Ar y cyfan, doedd ymatebwyr ddim yn cytuno bod gwasanaethau'n rhan annatod o ddarpariaeth yr ysgol a bod gwasanaethau'n cael eu hyrwyddo'n dda ymysg disgyblion a rhieni/gwarcheidwaid. Doedd dim lefelau uchel o gytundeb chwaith bod gwasanaethau'n hawdd i'w cyrchu ac yn sensitif i anghenion siaradwyr Cymraeg.

Ffigur 23. Cytundeb net ar y datganiadau



Ffynhonnell: Arolwg ymysg penaethiaid prosiectau peilot cynradd

O ran boddhad cyffredinol gyda'r gwasanaethau cwnsela mewn ysgolion, nododd 68.4% o ymatebwyr eu bod yn fodlon (42.1% yn fodlon iawn a 26.3% yn fodlon). Nododd un ymatebwr (5.3%) nad oeddent yn fodlon nac yn anfodlon, gydag un arall (5.3%) yn anfodlon ac un (5.3%) yn anfodlon iawn. Roedd 15.8% ychwanegol o ddata ar goll.

5.4.4. Crynodeb.


Awgrymodd y canlyniadau nad oedd yr holl gwnselwyr yn y prosiectau peilot cynradd wedi cymhwyso. Cwnsela un-i-un oedd yr ymyriad mwyaf cyffredin o fewn y prosiectau peilot, a chyfeiriadau gan athrawon oedd y llwybr mwyaf cyffredin i wasanaethau. Yn y mwyafrif o brosiectau peilot, roedd rhaid i blant aros dros dair wythnos cyn gweld cwnselydd ac yn gyffredinol, nid oedd cyfyngiad ar y nifer o sesiynau a gynigwyd. Roedd y mwyafrif o benaethiaid yn credu bod gwasanaethau cwnsela wedi arwain i welliannau yn ymddygiad disgyblion, cyrhaeddiad addysgol a phresenoldeb yn yr ysgol. Roedd lefel boddhad cyffredinol gyda'r modd roedd gwasanaethau'n gweithredu a'r ffordd roeddent yn cydweithio gyda mentrau iechyd a lles eraill. Roedd penaeithiaid yn teimlo bod gwasanaethau'n cael eu cydnabod a'u gwerthfawrogi gan staff ysgolion a'u bod yn cynnig gwerth am arian.

Roedd anfodlonrwydd am rai meysydd gan gynnwys yr adnoddau oedd ar gael i wasanaethau a faint o gefnogaeth roedd ysgolion wedi'i dderbyn i ddatblygu gwasanaethau. Yn debyg, roedd penaeithiaid yn pryderu am ba mor effeithiol roedd gwasanaethau'n integreiddio i fywyd ysgol a sut roeddent yn cael eu hysbysu. Roedd pryderon hefyd yn amlwg am ba mor sensitif oedd y gwasanaethau i anghenion siaradwyr Cymraeg. Fodd bynnag, er gwaetha'r pryderon penodol hyn, ar y cyfan roedd y mwyafrif o benaethiaid yn fodlon gyda'r prosiectau peilot mewn ysgolion cynradd.

5.5. Canlyniadau Therapiwtig

Er mai dim ond ychydig o ddata canlyniadau oedd ar gael, gyda dim ond 20% o ymatebion wedi'u dychwelyd gan ddau o'r pedwar prosiect, roedd y ddau set data'n awgrymu gwelliannau arwyddocaol o'r waelodlin i'r pwynt terfyn, gyda maint effaith o 0.64 ar gyfer ALI 20, a 0.79 ar gyfer ALI 21, yn rhoi maint effaith cymedrig cyfunol wedi'i bwysoli o 0.71. Dengys y gostyngiadau yn lefelau trallod seicolegol ar gyfer y ddau Awdurdod Lleol yn Ffigur 24.

Ffigur 24. Gostyngiadau cymedrig yn y lefelau trallod seicolegol ar gyfer y ddau Awdurdod Lleol



Ffynhonnell: Darparwyd data am ganlyniadau Prosiectau Peilot Cynradd gan Arweinwyr Awdurdodau Lleol

5.6. Dadansoddiad Cost

5.6.1. Lefel ariannu.

Ychydig o ddata oedd ar gael am gostau, yn bennaf o'r adroddiad cynnydd a'r cynigion gwariant, 2009/10 a 2010/11, wedi'u cyflwyno gan y prosiectau peilot cynradd i Lywodraeth Cymru. Roedd y lefel ariannu a ddarparwyd gan Lywodraeth Cymru (gweler Tabl 29) yn gyson ar draws y cyfnod dwy flynedd o'r prosiect peilot ac yn amrywio o £50,000 i £65,000. Roedd rhai Awdurdodau Lleol yn cyflenwi gwasanaethau o fewn grant Llywodraeth Cymru, ble gwnaeth eraill ychwanegu at hwn gydag arian o ffynonellau ychwanegol. Er enghraifft, mewn un prosiect peilot sicrhawyd arian cyfatebol gan ysgolion oedd yn cymryd rhan yn y prosiect peilot. Creodd hwn gyfanswm cyllideb dros ddwy flynedd (2009/10, 2010/11) o £264,828 gyda £100,000 o hwn gan Lywodraeth Cymru. Yn debyg, dros y cyfnod peilot dwy flynedd, mewn prosiect peilot arall gwnaeth darparwr y gwasanaeth cwnsela ychwanegu at grant Llywodraeth Cymru o £65,000 y flwyddyn gyda chyfanswm o £136,991 gan yr ysgolion oedd yn cymryd rhan yn y prosiect peilot, a £47,000 pellach gan yr Awdurdod Lleol. Yn y prosiect peilot hwn roedd cyfanswm bychan o arian wedi'i sicrhau er mwyn cynhyrchu gwasanaeth oedd yn cael ei ariannu'n dda ar y cyfan ac oedd ag adnoddau da (costau staffio

a gweithredu = £394,311 dros y cyfnod dwy flynedd). O ganlyniad, mae cost y prosiect peilot gwasanaethau cwnsela dros y cyfnod dwy flynedd yn amrywio o £100,000 i £394,311.

Tabl 29. Ariannu ar gyfer Prosiectau Peilot Cynradd a ddarperir gan Lywodraeth Cymru

Blwyddyn	Prosiect Peilot A	Prosiect Peilot B	Prosiect Peilot C	Prosiect Peilot D
2009/10	£50,000	£65,000	£50,000	£63,000
2010/11	£50,000	£65,000	£50,000	£63,000

Ffynhonnell: Data am gostau a ddeilliodd o adroddiadau blynyddol a chynigion gwariant ar gyfer y Prosiectau Peilot Cynradd a ddarparwyd gan Lywodraeth Cymru

Yn ôl y disgwyl, y gost fwyaf arwyddocaol wrth sefydlu'r gwasanaethau cwnsela oedd cyflogau staff. Er enghraifft, yn 2009/10 mewn un prosiect peilot, defnyddiwyd £39,644 o'r £50,000 oedd ar gael i ariannu'r gwasanaeth i dalu cyflogau cwnselwyr. Yn debyg, mewn prosiect peilot arall yn yr un flwyddyn, o'r £194,629 ar gyfer costau rhedeg, defnyddiwyd £156,834 i dalu cyflogau staff.

Tabl 30. Y berthynas rhwng costau a darpariaeth

Prosiect Peilot	Nifer o ysgolion yn y prosiect peilot	Cyfeirio	Ymyriadau
A	42	Hunangyfeiriad Cyfeiriad gan athro Staff eraill Rhieni Gweithwyr cymdeithasol Gweithwyr ieuchyd meddwl cynradd	Cwnsela unigol Gwaith grŵp Therapi chwarae Cwnsela Pontio Therapi cerddoriaeth Hyfforddiant staff Gwaith gyda rhieni/gofalwyr
B	6	Hunangyfeiriad Athro Staff eraill Rhieni	Lunchtime drop-in service Cwnsela unigol Gwaith grŵp Gwaith gyda rhieni/gofalwyr Hyfforddiant staff
C	27	Drwy'r swyddog TAC i ddisgyblion gyda chynlluniau gweithredu TAC. Mae hyn yn targedu'r plant mwyaf agored i niwed a risg	Cwnsela unigol Adrodd straeon Therapi chwarae Gwaith grŵp Gwaith gyda rhieni/gofalwyr Hyfforddiant staff
D	4	Hunangyfeiriad Cyfeiriad gan athro Staff eraill Rhieni	Cwnsela unigol Therapi chwarae Gwaith grŵp Adrodd straeon Hyfforddiant staff Gwaith gyda rhieni/gofalwyr

Ffynhonnell: Adroddiadau blynyddol o Brosiectau Peilot Cynradd

Yn absenoldeb data archwilio a gwerthuso cyson a chynhwysfawr, doedd hi ddim yn bosibl dod i ganlyniad cadarn am effeithiolrwydd cost yr amrywiol fodelau gwasanaeth. Roedd yr ystod o ymyriadau a gynigwyd gan y pedwar prosiect peilot yn debyg (gweler Tabl 30) ond

roedd costau'r gwasanaeth, y nifer o ysgolion o fewn y prosiect peilot a'r systemau cyfeirio'n amrywio.

5.6.2. *Crynodeb o'r data costau.*

Roedd cryn amrywiaeth yng nghostau'r prosiectau peilot cynradd, ac roedd hyn yn dibynnu ar ba wasanaethau a ddarparwyd o fewn cyfyngiadau grant Llywodraeth Cymru, neu os cafodd arian ychwanegol ei sicrhau. Cyflogau staff oedd y gost fwyaf arwyddocaol wrth sefydlu gwasanaethau. Roedd absenoldeb data archwilio a gwerthuso'n ei gwneud yn amhosibl asesu effeithiolrwydd cost yr amrywiol fodelau gwasanaeth, ac mae'n ymddangos nad oes unrhyw berthynas rhwng cost gwasanaeth a'i allbwn o ran y nifer o ysgolion yn y prosiect peilot a'r ystod o ymyriadau sydd ar gael.

6. Trafodaeth

Mae crynodeb o ganfyddiadau allweddol y gwerthusiad i'w gael yma. Yn gyntaf, mae'n cyflwyno'r boddhad cyffredinol gyda'r Strategaeth a gyda chwnsela mewn ysgolion, yna ceir crynodeb o'r ffordd mae 10 argymhelliad adroddiad Pattison et al. (2007) wedi'u cyflawni drwy weithredu'r strategaeth cwnsela mewn ysgolion.

6.1. Boddhad Cyffredinol

6.1.1. *Y Strategaeth.*

Ar draws yr arolygon ymysg rhanddeiliaid ac astudiaethau achos, disgyblion ysgol, athrawon, penaethiaid a chwnselwyr – yn debyg i astudiaethau blaenorol (Cooper, 2009) – maent oll wedi mynegi lefelau uchel o foddhad yn gyffredinol gyda chwnsela mewn ysgolion, fel y mae wedi'i sefydlu gan y Strategaeth, ac wrth sefydlu gwasanaethau cwnsela drwy ysgolion uwchradd yng Nghymru. Roedd yr un peth yn gyffredinol wir am wasanaethau sydd wedi'u cynnig fel peilot mewn ysgolion cynradd mewn pedwar Awdurdod Lleol. O ran pa mor hawdd oedd hi i'r Strategaeth gael ei gweithredu, fodd bynnag, daeth darlun mwy cymysg i'r golwg ymysg y grwpiau rhanddeiliaid hyn. Roedd tuedd i athrawon cyswllt ac Arweinwyr ALLau weld y broses o sefydlu gwasanaethau fel proses effeithiol a didrafferth, ond nid oedd y farn hon yn un yr oedd y cwnselwyr yn cytuno â hi'n llawn. Mae hyn yn awgrymu bod mwy o broblemau wedi'u profi efallai ar ochr ddarparu-gwasanaethau'r broses weithredu (h.y. ar y pwynt lle rhoddwyd y sesiynau therapi i'r defnyddwyr gwasanaeth – er nad yw'r data'n ei gwneud hi'n amlwg beth oedd y problemau penodol yma).

6.1.2. *Y cwnsela.*

Roedd ymatebion ansoddol gan ddefnyddwyr gwasanaeth yn dangos eu bod yn hynod bositif am y cwnsela a gawsent, gan bwysleisio nodweddion personol positif y cwnselydd, y ffaith fod y cwnsela'n gyfrinachol, a bod ganddynt rywun a fyddai'n gwrando arnynt. Yn ogystal, roedd y defnyddwyr gwasanaeth yn gwerthfawrogi'r rhyddid a'r hyblygedd i drefnu eu hapwyntiadau eu hunain. Roedd hyn yn gyson iawn gydag astudiaethau blaenorol o gwnsela mewn ysgolion, er bod y cyfraddau ymateb isel iawn ar yr holiaduron o brofiad cleientiaid yn golygu na allwn fod yn gwbl hyderus bod yr ymatebion hyn yn cynrychioli'r holl ddefnyddwyr gwasanaeth.

6.2. Gweithredu'r 10 Argymhelliad

Mae'r adran hon yn archwilio i ba raddau y cyflawnwyd y 10 argymhelliad ar gyfer cwnsela mewn ysgolion sydd wedi'u nodi yn adroddiad Pattison et al. (2007) drwy weithrediad y Strategaeth.

1. Bod â chyllid cynaliadwy.

Er bod pob un o'r tri grŵp o randdeiliaid wedi mynegi pryderon am gyllido parhaus, gwnaethpwyd yr arolygon hyn cyn cyhoeddiad Llywodraeth Cymru am ariannu gwerth £14.25 miliwn i weithredu'r Strategaeth ar gyfer 2011-14. Felly, roedd hi'n debygol bod rhai o'r pryderon am gynaliadwyedd yr ariannu i'r Strategaeth wedi'u lleddfu gan y cyhoeddiad yma. Er bod y lefel gyfredol o gyllido gan Lywodraeth Cymru wedi'i hystyried yn un o gryfderau'r Strategaeth, roedd pob un o'r tri grŵp o randdeiliaid, yn arbennig y cwnselwyr ac Arweinwyr Awdurdodau Lleol, yn mynegi pryderon am ariannu yn y dyfodol. Roedd y penaethiaid, yn arbennig, yn galw am gynyddu lefel yr ariannu.

O ran adnoddau, yn fwy cyffredinol, roedd cytundeb cryf ymysg cwnselwyr, athrawon cyswllt ac Arweinwyr ALLau bod gan wasanaethau gefnogaeth weinyddol dda. Fodd bynnag, daeth darlun mwy cymysg i'r golwg gan y cwnselwyr ynghylch y lefelau staffio ac ystafelloedd, gan sôn am lefelau boddhad gweddol isel gyda'r olaf yn arbennig.

2. Cyflogi cwnselwyr cymwys proffesiynol sydd â phrofiad o weithio gyda phobl ifanc; sy'n medru cael goruchwyliaeth glinigol briodol gyda goruchwylwyr profiadol; ac sy'n ymgymryd â datblygiad proffesiynol parhaus (CPD), perthnasol a rheolaidd.

Mae arolygon ymysg rhanddeiliaid allweddol yn dangos bod yr holl gwnselwyr sy'n gweithio yn rhan o'r Strategaeth wedi ennill y cymwysterau priodol, a'r mwyafrif i lefel ôl-raddedig. Roedd gan y mwyafrif brofiad blaenorol o weithio gyda phlant ac roedd mwyafrif mawr wedi derbyn hyfforddiant perthnasol i weithio gyda'r grŵp oedran yma. Roedd y cwnselwyr ac Arweinwyr ALLau yn arbennig yn dweud bod cyfleoedd priodol ar gael i dderbyn hyfforddiant pellach a threfniadau addas ar gyfer goruchwyliaeth glinigol. Yn arwyddocaol, dywedodd mwyafrif o'r athrawon cyswllt bod gweithredu'r Strategaeth wedi arwain at gyflogi cwnselwyr o safon uwch. Fodd bynnag, nid oedd rhai o'r cwnselwyr mewn ysgolion cynradd wedi'u cymhwyso'n broffesiynol.

3. Darparu gwasanaethau cwnsela hygyrch mewn lleoliad priodol preifat ond diogel yn amgylchedd yr ysgol.

Roedd pob un o'r tri grŵp o randdeiliaid yn cytuno'n gyffredinol bod y gwasanaethau

cwnsela'n gweithredu o leoliad priodol; yn hygyrch i ddisgyblion ond hefyd yn breifat a diogel. Fodd bynnag, roedd y cwnselwyr, a oedd yn gwneud y gwaith 'rheng flaen', yn llai tebygol o ardystio'r safbwynt yma na'r rhanddeiliaid eraill. O ran pryderon am ystafelloedd sy'n ymwneud yn benodol ag anghenion y cwnselwyr, mae'n rhaid sicrhau amgylchedd cyfrinachol, croesawgar, diogel a hygyrch lle gallent weithio gyda'u cleientiaid. Nid yw hyn o anghenraid yn rhywbeth sy'n hawdd ei ddarparu mewn ysgol nodweddiadol ac efallai ei bod hi'n wir y bydd disgwyl i gwnselwyr efallai weithio mewn amrywiaeth o ystafelloedd amlbwrpas, y gallai rhai ohonynt efallai fod yn llai preifat nag sy'n ddelfrydol a bod â mynedfa anhylaw.

Cyfeiriwyd at yr ystafelloedd ar gyfer cwnsela fel problem bosibl gan ddefnyddwyr gwasanaeth hefyd. Roedd y prif broblemau'n ymwneud â lleoliad yr ystafell sef ei bod yn yr un lleoliad â'r uwch dîm rheoli a fydd efallai'n eu gwneud yn amheus o bobl y maent yn eu gweld yn mynd yno. Mynegodd eraill bryderon am y ffaith bod angen mesurau gwrthsain priodol. Mewn ysgol arall, un broblem oedd nad oedd ystafell gwnsela benodol wedi'i dynodi, gan olygu bod disgyblion weithiau mewn lleoliad gwahanol bob wythnos a bod rhywbeth yn torri ar draws y sesiynau cwnsela'n rheolaidd.

Mewn perthynas â hygyrchedd, roedd amseroedd aros ar draws y gwasanaethau (fel y maent wedi'u disgrifio gan athrawon cyswllt) o fewn cyfyngiadau rhesymol fel arfer, gan amrywio o'r un diwrnod i arhosiad o fwy na phedair wythnos.

4. Cael eu hystyried gan gymuned yr ysgol yn rhai nad ydynt yn stigmatiddio ac sy'n rhan arferol o ddarpariaeth yr ysgol, sydd wedi'i integreiddio yng nghymuned yr ysgol.

Roedd tystiolaeth gan yr arolygon ymysg rhanddeiliaid a'r astudiaethau achos bod y gwasanaethau cwnsela mewn ysgolion yn cael eu hystyried yn rhan integral o ddarpariaeth yr ysgol. Gwelwyd bod staff ysgol, rhieni a disgyblion yn cydnabod ac yn gwerthfawrogi gwasanaethau.

Fodd bynnag, roedd lefelau gwybodaeth y gwasanaeth cwnsela a gwasanaethau cymorth emosiynol perthnasol yn amrywio rhwng ysgolion; ac roedd yr amrywiad yma'n cydberthnasu, i ryw raddau, â'r model o ddarpariaeth cwnsela a chymorth emosiynol a fabwysiadwyd. Mewn rhai ysgolion roedd ymwybyddiaeth wych am yr ystod o wasanaethau lles emosiynol oedd ar gael, ond nid oedd y gwasanaeth cwnsela'n cael ei wahaniaethu bob tro o wasanaethau lles emosiynol. Mewn ysgolion eraill, roedd dealltwriaeth am y gwasanaeth cwnsela'n fwy cyfyngedig, a dim ond rhai athrawon penodol a enwyd oedd yn gallu rhoi mynediad i ddisgyblion i'r gwasanaeth.

5. Cael eu monitro a'u gwerthuso gan unigolion neu asiantaeth (yn yr ysgol neu y tu allan iddi) sydd â phrofiad yn y maes arbenigol hwn o weithio.

Roedd yr holl grwpiau rhanddeiliaid yn fodlon gyda'r gweithdrefnau ar gyfer monitro a gwerthuso'r gwasanaethau cwnsela. Fodd bynnag, roedd data canlyniadau ar goll neu'n gwbl absennol, o nifer o'r awdurdodau lleol, gyda chyfraddau ymateb arbennig o isel ym mlwyddyn gyntaf eu gweithrediad ac yn y prosiectau peilot cynradd.

6. Talu sylw dyledus i'r ddeddfwriaeth a'r canllawiau cyfredol, a chynnig cyfrinachedd o fewn y terfynau moesegol a diogelwch arferol.

Roedd lefel uchel o dystiolaeth gan y tri grŵp o randdeiliaid bod gwasanaethau cwnsela'n ymdrin yn gyfrinachol gyda sylw dyledus i fuddiannau disgyblion, rhieni a materion diogelu. Fodd bynnag, o'r astudiaethau achos, daeth nifer o bryderon ac amheuan am gyfrinachedd i'r amlwg. Roedd staff ysgolion yn teimlo y byddai'n ddefnyddiol cael mwy o ymwybyddiaeth am bwy sy'n mynychu cwnsela a rhywfaint o wybodaeth am y rhesymau am fynediad. Awgrymwyd y gallai athrawon fod o fwy o gymorth i helpu disgyblion os ydynt yn ymwybodol o faterion sy'n achosi pryder iddynt. Fodd bynnag, cydnabuwyd hefyd, unwaith yr oedd y gwasanaeth cwnsela wedi'i sefydlu, bod nifer o bryderon am gyfrinachedd wedi'u lliniaru.

Yn ogystal, roedd rhai rhieni'n teimlo y dylent gael eu hysbysu os yw eu plant yn gweld y cwnselydd ysgol, ac roedd eraill yn dweud ei bod hi'n bwysig i'r plentyn allu siarad yn agored. I'r gwrthwyneb, roedd yr holl fyfyrwyr a gyfwelwyd o blaid cadw cwnsela mewn ysgolion yn gyfrinachol.

7. Ymateb yn hyblyg i'r anghenion lleol o ran amrywiaeth (e.e. iaith) ac ymarferoldeb (e.e. bod ar gael yn ystod gwyliau ysgol).

O'r arolygon ymysg rhanddeiliaid, roedd tystiolaeth yn dangos bod gwasanaethau'n sicrhau'r hygyrchedd mwyaf drwy ddarparu cwnsela y tu allan i oriau'r ysgol ac yn ystod gwyliau'r ysgol. Dywedodd bron i hanner y cwnselwyr a ymatebodd i'r arolwg bod gwasanaethau'n gweithredu o leoliadau oddi mewn ac oddi allan i safleoedd ysgolion, gan sicrhau mynediad hawdd nid yn unig i ddisgyblion ysgol ond hefyd i'r bobl ifanc anoddach eu cyrraedd nad ydynt efallai'n mynd i'r ysgol.

Roedd lefel uchel hefyd o gytundeb ar draws y tri grŵp o randdeiliaid bod gwasanaethau cwnsela'n sensitif i anghenion grwpiau ethnig a chymunedau amrywiol. Fodd bynnag, efallai bod yr ymatebwyr hyn yn elwa rhywfaint o gyflwyno'r gwasanaethau, yma, mewn gwedd bositif. Yn wir, roedd data demograffig cleientiaid o'r cwnsela wyneb-yn-wyneb

yn awgrymu bod cleientiaid o gefndiroedd BME a chleientiaid gydag AAA ac anabledau heb eu cynrychioli'n ddigonol gyda'r rheiny sy'n mynychu'r gwasanaeth cwnsela – fel yr awgrymwyd mewn gwaith ymchwil blaenorol (Cooper, 2009). Yn ddiddorol, fodd bynnag, roedd llawer mwy o bobl ifanc o gefndiroedd BME ymysg y bobl ifanc sy'n defnyddio'r gwasanaeth cwnsela ar-lein. Dydy hi ddim yn glir pam fod hyn yn wir. Er enghraifft, efallai mai dyma'r ffordd y cofnodwyd y data. Fodd bynnag, mae'n codi'r posibilrwydd y byddai'n well gan bobl ifanc o gefndir BME fynediad ar-lein efallai, yn hytrach na chwmsela wyneb yn wyneb.

Hefyd, mynegodd y tri grŵp o randdeiliaid rai pryderon nad yw gwasanaethau bob amser yn diwallu anghenion siaradwyr Cymraeg; a phwysleisiodd y cyfranogwyr yn yr astudiaethau achos y dylai cwnsela fod ar gael yn y Gymraeg lle mae defnyddiwr y gwasanaeth wedi mynegi mai'r Gymraeg fyddai'r dewis iaith.

O ran hyblygrwydd, roedd tystiolaeth i ddangos bod amrywiaeth eang o wahanol fodelau gwasanaeth yn cael eu gweithredu, rhai gan awdurdodau lleol ac eraill gan asiantaethau allanol, ac roedd hyn yn caniatáu i'r Strategaeth cael ei chyfateb ag anghenion lleol. Yn ogystal, roedd y duedd ar draws y gwasanaethau i beidio cyfyngu ar y nifer o sesiynau sydd ar gael i ddisgyblion yn caniatáu i'r ymyriad therapiwtig gael ei deilwra i anghenion y defnyddwyr gwasanaeth. Roedd y systemau cyfeirio'n amrywio hefyd, ac i'w cael drwy'r athrawon penodol yn unig neu drwy amrywiaeth o lwybrau hunangyfeirio. Fodd bynnag, pan oedd yr atgyfeiriad drwy athrawon yn unig, ni fyddai'r rhain o anghenraid yn cael eu gweld gan y myfyrwyr fel rhai cydsyniol.

8. Gweithio gyda gwasanaethau ac asiantaethau eraill ac ar y cyd â hwy mewn dull ymgynghorol, gan gynnal y lefelau priodol o gyfrinachedd.

Roedd lefel uchel o gytundeb ar draws y tri grŵp o randdeiliaid bod gwasanaethau'n gweithio'n agos â mentrau eraill i gefnogi iechyd a lles yn yr ysgolion, gan gynnwys perthnasau gwaith agos gyda CAMHS. Dylid nodi hefyd mai dim ond canran bychan o ddefnyddwyr gwasanaeth a gyfeiriwyd at CAMHS, gan awgrymu bod y mwyafrif helaeth o ddisgyblion wedi derbyn triniaeth o fewn y gwasanaethau cwnsela mewn ysgolion ac nad yw cyflwyno'r Strategaeth wedi arwain at gynydd mewn cyfeiriadau newydd i CAMHS.

Roedd data o'r astudiaethau achos yn cefnogi canfyddiad yr arolwg fod pobl yn gweld y gwasanaethau cwnsela yn rhan integredig, i raddau amrywiol, o agweddau eraill yr ysgol. Ymhob achos, ystyriwyd bod y gwasanaethau cwnsela'n ymgysylltu â'r system tiwtor blwyddyn, ac roedd tiwtoriaid blwyddyn yn cymryd rhan yn yr atgyfeiriadau, neu gallent ddewis gwneud hynny. Ystyriwyd fod presenoldeb y gwasanaeth cwnsela'n rhyddhau'r

pwysau ar diwtoriaid blwyddyn ac athrawon eraill.

9. Cyflogi cwnselwyr sy'n aelodau o gorff proffesiynol ac sydd felly'n cydymffurfio â fframwaith moesegol a gweithdrefn gwynion sefydledig.

Mae arolwg ymysg cwnselwyr yn dangos bod cyfran fawr o gwnselwyr yn aelodau o gorff proffesiynol, yn enwedig BACP. Fodd bynnag, roedd hyn yn llai amlwg yn yr ysgolion cynradd.


10. Cyflogi cwnselwyr y mae eu nodweddion personol yn golygu eu bod yn hawdd siarad â hwy, bod ganddynt sgiliau gwrando da a ffordd o ymddwyn sy'n meithrin perthnasau diogel ac sy'n ennyn ymddiriedaeth.

Er bod y cyfraddau ymateb yn isel, roedd tystiolaeth o'r holiaduron ôl gwnsela'n awgrymu nad yw hyn yn faes sy'n achosi pryder.

6.3. Effeithiolrwydd ac Effaith

Mae tystiolaeth amlwg o'r data canlyniadau bod cwnsela wyneb-yn-wyneb mewn ysgolion, fel y mae wedi'i weithredu yn y Strategaeth Gymreig, yn gysylltiedig â gostyngiadau sylweddol mewn trallod seicolegol. Mae'r maint effaith cymedrig, 0.93, yn dangos bod y gostyngiad yma mewn trallod yn un *mawr*; ac, o'i drosi i dermau pob dydd, yn golygu y bydd oddeutu 80% o bobl ifanc yn dioddef llai o drallod seicolegol ar y pwynt terfyn na'r person ifanc arferol ar y gwaelodlin (Roth & Fonagy, 2005). Mae nifer cyfartalog y newid a brofwyd gan bobl ifanc yn y gwasanaethau presennol hefyd rywfaint yn fwy na'r newid cyfartalog a brofwyd gan bobl ifanc mewn gwasanaethau eraill ar draws y DU (0.81, Cooper, 2009); ac mae'n llawer mwy (1.08-1.15) os yw dulliau ystadegol amgen wedi'u defnyddio i gyfrifo'r maint effaith cymedrig i wasanaethau Cymru. Mae Ffigur 25 yn cyflwyno cynllun bocs sy'n cymharu meintiau effaith o'r astudiaeth bresennol i'r rheiny o'r dadansoddiad-meta blaenorol. Fel y gwelwch yma, mae mwyafrif y meintiau effaith ar gyfer y gwasanaeth presennol yn uwch na'r canolrif blaenorol, gydag ystod sy'n cyrraedd lefelau uchel o effaith (unwaith yr ystyrir y sgorau eithaf a'r allanolynnau).

Ffigur 25. Plot bocs o feintiau effaith cymharol



Noder: Mae'r bocs canol yn dangos y 50% canol o'r sgorau, gyda llinell ddu drwchus yn dangos y sgôr canolrif. Mae'r blew yn dangos yr amrediad, ac eithrio allanolynnau (dotiau) a sgorau eithriadol (sêr)


Mewn perthynas â safonwyr newid, yn debyg i astudiaethau blaenorol (Cooper, 2009), byddai'n ymddangos bod y mesur YP-CORE yn fesuriad mwy sensitif o newid mewn pobl ifanc na'r SDQ. Yn ogystal, gan atsain canfyddiadau blaenorol unwaith eto (Cooper, 2009), roedd meintiau effaith yn llawer is mewn astudiaethau gyda chyfresi data mwy cyflawn. Mae hyn yn ganfyddiad hynod o bwysig mewn perthynas â'r gwerthusiad presennol, gan awgrymu bod rhywfaint o or-amcangyfrif yr effaith cyffredinol efallai, am fod gan y mwyafrif o gyfresi data rywfaent o ddata coll (ac felly nid ydynt efallai'n cynnwys canlyniadau i'r bobl ifanc a roddodd y gorau i gwnsela ac a gafodd lai o fudd). Ac, yn wir, os defnyddir y data gan ddim ond yr wyth awdurdod lleol hwnnw gyda chyfraddau ymateb o 100%, gostyngir y maint effaith cyfartalog i 0.67 (YP-CORE: 0.89, SDQ: 0.54).⁶⁰

Hefyd ni all data o'r astudiaeth presennol gadarnhau a yw cwnsela mewn ysgolion wedi achosi'r gostyngiadau mewn trallod seicolegol. Y rheswm am hyn, fel y trafodwyd yn yr

60 Model effeithiau ar hap: cyffredinol = 1.01; YP-CORE = 1.23; SDQ = 0.75.

adolygiad o ddeunyddiau, ni all cynlluniau'r garfan cyn y cwnsela ac ar ôl y cwnsela wahanu effeithiau ymyrraeth oddi wrth newidiadau eraill a allai ddigwydd dros amser. Fodd bynnag, fel y dangoswyd yn gynharach, mae rhywfaint o ddata ar gael yn awr am y mathau o newidiadau a brofir gan bobl ifanc a *fyddai'n* dod i mewn i'r cwnsela mewn ysgolion ond nad ydynt yn derbyn yr ymyrraeth yma ar unwaith (Cooper et al., 2010; McArthur et al., 2011), a gellir defnyddio hwn fel meincnod i archwilio effaith benodol y cwnsela. Mae hyn wedi'i gyflwyno yn Ffigur 26, sy'n dangos, mewn perthynas â YP-CORE, bod y gostyngiad mewn trallod seicolegol yn llawer mwy yn y bobl ifanc yn y gwerthusiad cyfredol nag a welwyd yn digwydd hebddo. Er bod hon yn gymhariaeth anfanwl iawn, heb unrhyw sicrwydd bod y ddau grŵp o bobl ifanc yn gyfartal, mae'n cefnogi'r honiad bod cwnsela mewn ysgolion yn dod â newid y tu hwnt i'r hyn y byddai'r bobl ifanc efallai'n ei brofi fel arall.

Ffigur 26. Y sgorau YP-CORE cymedrig ar y waelodlin ac ar y pwynt terfyn i gleientiaid Strategaeth Gymreig yn erbyn rheolyddion y rhestr aros



Ffynhonnell: Cooper et al., 2010; McArthur et al., 2011; Darparwyd data o Gymru i'r Tîm Gwerthuso gan Arweinwyr Awdurdodau Lleol

Un canfyddiad o'r dadansoddiad-meta sy'n peri syndod oedd yr amrywiadau mawr mewn meintiau effaith ar draws yr Awdurdodau Lleol. Nid yw'r rheswm am hyn yn glir, ond gellid esbonio rhan ohono drwy edrych ar yr amrywiad mewn mesurau a ddefnyddiwyd. Yn ogystal, roedd canfod cydberthynas negyddol sylweddol rhwng costau a chanlyniadau'n hynod o annisgwyl, heb unrhyw esboniad amlwg. Yn sicr, efallai bod rhyw drydydd newidyn sy'n

esboniad amdano: er enghraifft, efallai bod gwasanaethau'n costio mwy os ydynt yn gweithio mewn ardaloedd difreintiedig, a gallai gwasanaethau mewn ardaloedd difreintiedig gael canlyniadau gwaeth. Fodd bynnag, byddai'n ymddangos yn fanteisiol ymchwilio'r ddau faes yma ymhellach.

O ran meysydd effaith y cwnsela mewn ysgolion uwchradd, rhieni, athrawon a defnyddwyr gwasanaeth – yn yr arolygon ac astudiaethau achos – roedd y rhain yn cefnogi'r canfyddiad meintiol bod y cwnsela mewn ysgolion wedi arwain at ystod eang o welliannau. Roedd pedwar man penodol o welliant wedi'u pennu gan y rhanddeiliaid yma. Yn gyntaf, roedd gwelliannau mewn *lles emosiynol*, megis mwy o hapusrwydd a hyder, a llai o bryder. Yn ail roedd gwelliannau mewn *perthnasau*, gyda newidiadau megis gwell perthnasoedd gartref a gyda chyfeillion. Yn drydydd roedd gwelliannau *ymddygiadol*, megis gostyngiad mewn ymddygiad ymosodol a chymryd risgiau. Yn olaf, roedd gwelliannau yn y maes *addysgiadol*, megis gallu cynyddol i ganolbwyntio yn y dosbarth a llai o waharddiadau.

Er bod y data o'r prosiectau peilot cynradd yn gyfyngedig iawn, roedd rhai arwyddion cychwynnol bod cwnsela mewn ysgolion wedi'i gysylltu hefyd â newid positif. Er syndod, fodd bynnag, nid oedd ymgysylltiad gyda chwnsela ar-lein yn dangos unrhyw berthynas sylweddol â gwelliant. Fodd bynnag, efallai bod y canfyddiad olaf yma'n ganlyniad i natur anghyflawn y gwaith a wnaethpwyd yn aml iawn: yr oedd llawer ohono'n achlysurol ei natur neu'n waith galw heibio. Efallai hefyd bod y sgorau gwaelodlin arbennig o uchel gan y grŵp cwnsela ar-lein yn adlewyrchu'r gwaith cymhleth y gall gwasanaeth allan o oriau ei ddenu; yn ogystal â'r posibilrwydd bod cyfranogwyr, yn y fan yma, yn cwblhau'r mesurau canlyniad mewn ffordd wahanol: er enghraifft, yn fwy agored am nad oes cysylltiad wyneb-yn-wyneb. Mae ymatebion ansoddol gan y cyfranogwyr yn awgrymu hefyd bod y gwasanaeth cwnsela ar-lein, o leiaf i rai, yn brofiad positif iawn.

7. Argymhellion

Ar sail y data a gafwyd o bob ffynhonnell, a'r graddau y cyrhaeddodd y Strategaeth ei nodau ac y cyflawnodd y 10 argymhelliad ar gyfer cwnsela mewn ysgolion, cyflwynir yr argymhellion a ganlyn ar gyfer datblygiad parhaus y cwnsela mewn ysgolion yng Nghymru.

7.1. Ystyried sefydlu ffrydiau diogel o ariannu i wasanaethau cwnsela mewn ysgolion uwchradd yng Nghymru

Mae'r mwyafrif llethol o dystiolaeth o'r gwerthusiad yma'n dangos bod gweithredu cwnsela mewn ysgolion wedi bod yn llwyddiant, ac yn gysylltiedig â gwelliannau sylweddol yn lles meddwl miloedd o bobl ifanc. Mae grwpiau rhanddeiliaid allweddol oll wedi dangos y byddent yn hoffi gweld ariannu mwy diogel ar gyfer y Strategaeth, a byddem yn argymhell bod Llywodraeth Cymru yn rhoi ystyriaeth i hyn. (Cyfrifoldeb: Llywodraeth Cymru)

7.2. Ystyried cyflwyno'r Strategaeth yn y sector ysgolion cynradd gan ddefnyddio fformat sy'n briodol i oedran

Mae'r canfyddiadau cyntaf o'r prosiectau peilot cynradd yn dangos y gallai cwnsela mewn ysgolion gefnogi lles plant mewn ysgolion cynradd, ac mae'n faes i'w ystyried ar gyfer datblygiad pellach. (Cyfrifoldeb: Llywodraeth Cymru).

7.3. Sicrhau ystafelloedd priodol

Dylai ysgolion weithio i sicrhau bod lleoliad cyson, priodol ar gael ar gyfer gwasanaethau cwnsela mewn ysgolion. (Cyfrifoldeb: Awdurdodau Lleol ac Ysgolion)

7.4. Sicrhau bod myfyrwyr ysgol yn derbyn gwybodaeth ddigonol am y gwasanaeth cwnsela

Mewn rhai ysgolion, roedd yr wybodaeth am y gwasanaeth cwnsela'n ddarniog, ac roedd hyn yn rhywbeth oedd yn creu anfodlonrwydd ymysg rhai myfyrwyr. Dylai gwasanaethau cwnsela weithio i sicrhau bod y myfyrwyr i gyd yn ymwybodol o fodolaeth y gwasanaeth, drwy ddeunydd gwybodaeth priodol o sensitif nad yw'n creu stigma, a chysylltiad uniongyrchol â'r corff myfyrwyr. (Cyfrifoldeb: rheolwyr gwasanaeth, ysgolion, cwnselwyr)

7.5. Cynnal gwerthusiad systematig o ganlyniadau

Dylid gweithredu system o fonitro canlyniadau rheolaidd ar draws y gwasanaethau cwnsela mewn ysgolion yng Nghymru. Mae datblygu monitro canlyniadau yn arbennig o

angenrheidiol yn y sector cynradd ac mewn perthynas â chwmsela ar-lein. Yn ddelfrydol, byddai'r mesur a ddefnyddir yn un cyson ar draws yr holl Awdurdodau Lleol, i ganiatáu astudiaeth o ganlyniadau cymaradwy. I sicrhau bod data ar gael am *bob* cleient, argymhellir y dylid cofnodi lefelau o drallod seicolegol bob yn sesiwn. Mae systemau gwerthuso electronig ar gael yn awr (e.e. www.coreims.co.uk) sy'n gallu sicrhau bod data o'r fath yn cael ei gofnodi a'i ddadansoddi'n systematig. Er bod gan gwnselwyr bryderon efallai am ymhllygiadau monitro o'r fath ar brofiadau cleientiaid o gwnsela, mae gwaith ymchwil (e.e. Cooper, 2004), hyd yn hyn, yn dangos bod cleientiaid yn tueddu profi monitro canlyniadau fel elfen niwtral – a phositif yn aml iawn – o'u gwaith cwnsela. (Cyfrifoldeb: Darparwyr gwasanaeth)

7.6. Datblygu strategaethau ar gyfer sicrhau mynediad cyfartal at y gwasanaeth cwnsela a'r monitro a wneir ohono

Mae'r gwerthusiad yn awgrymu nad yw pobl ifanc o gefndiroedd BME, a'r rhai gydag AAA ac anabledau, wedi'u cynrychioli'n ddigonol ymysg y rheiny sy'n defnyddio'r gwasanaethau cwnsela mewn ysgolion. Er bod ymchwil ddesg yn dangos bod darparwyr gwasanaethau ac awdurdodau lleol yn ymdrechu'n rhagweithiol i sicrhau mynediad cyfartal, mae hwn yn faes sydd angen mwy o waith. Mae'r data cychwynnol o'r gwerthusiad yma'n awgrymu bod mynediad i wasanaethau cwnsela ar-lein yn cefnogi mwy o gynrychiolaeth efallai gan bobl ifanc BME (tudalen 54). Mae'n argymhelliad bod gwasanaethau'n ymdrechu i sicrhau fod pob plentyn, beth bynnag fo'u hanghenion unigol (e.e. nam ar y clyw, rhwystrau iaith), yn gallu cael gafael ar gwnsela mewn ysgolion. (Cyfrifoldeb: Awdurdodau lleol, Darparwyr gwasanaeth)

7.7. Ymestyn argaeledd cwnselwyr Cymraeg eu hiaith

Nodwyd mewn amrywiaeth o ffynonellau bod rhai anawsterau yn ymwneud ag argaeledd cwnselwyr Cymraeg eu hiaith, a diffyg sensitifrwydd i gleientiaid Cymraeg eu hiaith. Dylai darparwyr gwasanaethau sicrhau bod digon o gwnselwyr Cymraeg eu hiaith i'r holl bobl ifanc fyddai'n dewis hynny. (Cyfrifoldeb: Darparwyr gwasanaeth)

7.8. Datblygu systemau hunangyfeirio a sicrhau bod modd i bob person ifanc hunangyfeirio

Er bod y mwyafrif o Awdurdodau Lleol yn annog hunangyfeirio, roedd rhywfaint o dystiolaeth i ddangos bod pobl ifanc, mewn rhai sefyllfaoedd, yn teimlo bod staff ysgolion yn gweithredu fel porthorion i'r gwasanaethau cwnsela. Dylai pobl ifanc gael mynediad annibynnol i'r

gwasanaethau cwnsela, lle bo'n ofynnol. (Cyfrifoldeb: Darparwyr gwasanaeth, Ysgolion)

7.9. Datblygu cyfleoedd hyfforddi i staff ysgol a chwnselwyr

Roedd ystod o grwpiau rhanddeiliaid yn teimlo bod hyfforddiant a chyfleoedd DPP mewn perthynas â materion yn ymwneud â chwnsela, yn arbennig i staff ysgol ond hefyd mewn cysylltiad â chwnselwyr mewn ysgolion, yn helpu i ddatblygu'r rhyngwyneb rhwng yr ysgolion a'r gwasanaethau cwnsela. (Cyfrifoldeb: Darparwyr gwasanaeth, Ysgolion)

7.10. Datblygu mwy o ymchwil i'r agweddau o gwnsela mewn ysgolion sy'n rhagweld gwelliannau

Mae rhai amrywiadau pwysig yn bodoli yng nghanlyniadau'r cwnsela mewn ysgolion ar draws y gwahanol Awdurdodau Lleol. Dylid cyllido gwaith ymchwil i ymchwilio ymhellach y ffactorau sy'n gysylltiedig ag effeithiolrwydd, ac i ddeall y berthynas rhwng costau a chanlyniadau. (Cyfrifoldeb: Llywodraeth Cymru)

Cyfeiriadau

- Baginsky, W. (2003) *Counselling in schools: A survey of the views of school staff and pupils in Northern Ireland*. Llundain: NSPCC.
- Barkham, M., Margison, F., Leach, C. et al. (2001) Service profiling and outcomes benchmarking using the CORE-OM: Toward practice-based evidence in the psychological therapies. *Journal of Consulting and Clinical Psychology*, 69(2): 184–196.
- Baskin, T. W., Slaten, C. D., Crosby, N. R., Pufahl, T., Schneller, C. L. a Ladell, M. (2010) Efficacy of counseling and psychotherapy in schools: A meta-analytic review of treatment outcome studies. *The Counseling Psychologist*, 38(7): 878–903.
- Champion, L. A., Goodall, G. a Rutter, M. (1995) Behaviour problems in childhood and stressors in early adult life: A twenty-year follow-up of London school children. *Psychological Medicine*, 25: 231– 246.
- Cohen, J. (1988) *Statistical power analysis for the behavioral sciences* (2il argraffiad). Hillsdale, NJ: Lawrence Erlbaum.
- Cooper, M. (2004) *Counselling in schools projects: Evaluation report*. Glasgow: Yr Uned Cwnsela, Prifysgol Strathclyde.
- Cooper, M. (2009) Counselling in UK secondary schools: A comprehensive review of audit and evaluation studies. *Counselling and Psychotherapy Research*, 9(3): 137–150.
- Cooper, M., Hough, M. a Loynd, C. (2005) Scottish secondary school teachers' attitudes towards, and conceptualisations of, counselling. *British Journal of Guidance and Counselling*, 33(2): 199–211.
- Cooper, M., Rowland, N., McArthur, K., Pattison, S., Cromarty, K. a Richards, K. (2010) Randomised controlled trial of school-based humanistic counselling for emotional distress in young people: Feasibility study and preliminary indications of efficacy. *Child and Adolescent Psychiatry and Mental Health*, 4(1): 1–12.
- Elliott, R., Greenberg, L. S. a Lietaer, G. (2004) Research on experiential therapies. Yn M. J. Lambert (Gol.), *Bergin and Garfield's handbook of psychotherapy and behavior change* (5ed argraffiad, tt. 493–539). Chicago: John Wiley and Sons.
- Fox, C. a Butler, I. (2003) *Evaluation of the NSPCC schools teams*. Keele: Prifysgol Keele.
- Fox, C. L. a I. Butler (2007) 'If you don't want to tell anyone else you can tell her': Young people's views on school counselling. *British Journal of Guidance & Counselling*, 35(1): 97–114.

- Goodman, R. (2001) Psychometric properties of the Strengths and Difficulties Questionnaire (SDQ). *Journal of the American Academy of Child and Adolescent Psychiatry*, 40: 1337–1345.
- Goodman, R., Meltzer, H. a Bailey, V. (1998) The Strengths and Difficulties Questionnaire: A pilot study on the validity of the self-report version. *European Child and Adolescent Psychiatry*, 7: 125–130.
- Green, H., McGinnity, A., Meltzer, H., Ford, T. a Goodman, R. (2005) *Mental health of children and young people in Great Britain, 2004*. Llundain: TSO.
- Jenkins, P. a Polat, F. (2005) *The current provision of counselling services in secondary schools in England and Wales*. Manceinion: Prifysgol Manceinion.
- Kazdin, A. E. (2004) Psychotherapy for children and adolescents. Yn M. J. Lambert (Gol.), *Bergin and Garfield's handbook of psychotherapy and behavior change* (5ed argraffiad). Chicago: John Wiley and Sons.
- Lang, P. (1999) Counselling, counselling skills and encouraging pupils to talk: Clarifying and addressing confusion. *British Journal of Guidance & Counselling*, 27(1): 23–33.
- Lee, R. C., Tiley, C. E. a White, J. E. (2009) The Place2Be: Measuring the effectiveness of a primary school-based therapeutic intervention in England and Scotland. *Counselling and Psychotherapy Research*, 9(3): 151–159.
- Lipsey, M. W. a Wilson, D. B. (2001) *Practical meta-analysis*. Thousand Oaks, CA: Sage Publications.
- McArthur, K., Cooper, M. a Berdondini, L. (2011) *A pilot randomised controlled trial to assess the impact of school-based counselling on young people's wellbeing, using pastoral care referral*. Papur a gyflwynwyd ar 17eg Cynhadledd Ymchwil BACP.
- McLeod, J. (2003) *Doing counselling research* (2il argraffiad). Llundain: Sage.
- Montgomery, S. (2003) *Person-centred working and young people*. Birmingham: Prifysgol Hull.
- Pattison, S., Rowland, N., Cromarty, K., Richards, K., Jenkins, P., Cooper, M. et al. (2007) *A research study into services for children and young people in Wales. [Astudiaeth ymchwil i'r gwasanaethau ar gyfer plant a phobl ifanc yng Nghymru.]* Cymerwyd ar 13 Mai 2009, o [http:// www.bacp.co.uk/research/School_Counselling.php](http://www.bacp.co.uk/research/School_Counselling.php)
- Roth, A. a Fonagy, P. (2005) *What works for whom? A critical review of psychotherapy research*. Efrog Newydd: Guilford.
- SDQ. (2009) Scoring the Self-Report Strengths and Difficulties Questionnaire. Cymerwyd ar 13 Mai 2009, o <http://www.sdqinfo.com/py/doc/c0.py>

- Stiles, W. B., Barkham, M., Twigg, E., Mellor-Clark, J. a Cooper, M. (2006) Effectiveness of cognitive-behavioural, person-centred and psychodynamic therapies as practised in UK National Health Service settings. *Psychological Medicine*, 36(4): 555–566.
- Twigg, E., Barkham, M., Bewick, B. M., Mulhern, B., Connell, J. a Cooper, M. (2009) The Young Person's CORE: Development of a brief outcome measure for young people. *Counselling and Psychotherapy Research*, 9(3): 160–168.
- Weisz, J. R., Weiss, B., Han, S. S., Granger, D. A. a Morton, T. (1995) Effects of psychotherapy with children and adolescents revisited – A meta-analysis of treatment outcome studies. *Psychological Bulletin*, 117(3): 450–468.

Geirfa, Talfyriadau ac Acronymau

Addaswyd cofnodion yr Eirfa o Cooper, M. (2008) *Essential Research Findings in Counselling and Psychotherapy: The facts are friendly*. Llundain: Sage.

AAA: Anghenion Addysgol Arbennig

ALLau: Awdurdodau Lleol.

Athrawon Cyswllt: Aelodau o staff dysgu mewn ysgol sy'n gyfrifol dros weithredu a darparu'r cwnsela mewn ysgol.

BACP: Cymdeithas Brydeinig ar Gwnsela a Seicotherapi.

BME: Cefndir Du a Lleiafrifoedd Ethnig.

CAMHS: Gwasanaethau Iechyd Meddwl Plant a'r Glasoed

Canolrif: Y sgôr canol os caiff ystod o sgorau eu trefnu o'r uchaf i'r isaf.

Cwnsela mewn ysgolion: Ffurf o gwnsela a ddarperir mewn amgylchedd ysgol.

Cwnsela: Term ambarél, fel seicotherapi, sy'n cwmpasu ystod o therapïau llafar. Caiff ei ddarparu gan ymarferydd hyfforddedig sy'n gweithio gyda phobl dros gyfnod byr neu gyfnod hir i'w helpu i achosi newid er gwell neu i wella lles.

Cydberthyniad: Gradd cysylltiad rhwng dau newidyn, yn amrywio o 1 (cysylltiad llwyr gadarnhaol) i -1 (cysylltiad llwyr negyddol), gyda 0 yn awgrymu dim perthynas rhwng y ddau newidyn.

Cymedr: Y cyfartaledd mathemateg o set o sgorau, wedi'u cyfrifo drwy gyfansymio'r sgorau a'u rhannu â nifer y sgorau.

Cytundeb net: Y canran o ymatebwyr sydd un ai'n cytuno neu'n cytuno'n gryf gydag eitem, minws y canran sy'n anghytuno neu'n anghytuno'n gryf.

Dadansoddiad thematig: Modd o ddadansoddi data ansoddol (yn seiliedig ar iaith, nad yw'n rhifiadol), ble caiff cyffelybiaeth eu dynodi ar draws ffynonellau a'u grwpio ynghyd i gynhyrchu cyfrif ystyrlon o'r data.

Dadansoddi-meta: Gweithdrefn ystadegol sy'n cyfuno canfyddiadau o wahanol astudiaethau i amcangyfrif yr effeithiau'n gyffredinol.

Data pwynt terfyn: Data o'r sesiwn cwnsela olaf a gofnodwyd.

Data gwaelodlin: Data o gyfarfod cyntaf rhwng cwnselydd a chleient: un ai sesiwn asesu neu sesiwn cwnsela cyntaf.

Di-gyfeirioldeb: Safiad therapiwtig ble mae'r ymarferydd yn ceisio ymatal rhag cyfarwyddo ei gleient neu ei chleient mewn unrhyw ffordd benodol.

DPP: Datblygiad proffesiynol parhaus.

Dyneiddiol: Teulu o therapïau seicolegol sy'n gosod pwyslais penodol ar sefydlu perthynas gynnes ac amyneddgar gyda chleientiaid fel y gall cleientiaid gychwyn dadorchuddio a mynegi eu gwir feddyliau a'u teimladau.

Effeithiolrwydd: Y graddau y mae ymyriadau a ddefnyddir dan amgylchiadau arferol, yn arwain at yr effaith y dymunir.

Grŵp safonol: Grŵp o unigolion gyda phriodoleddau sy'n debyg i'r rheiny yn y 'grŵp arbrol', ond nad ydynt yn cymryd rhan yn y weithdrefn sydd dan brawf.

Gwahaniaethau arwyddocaol: Gwahaniaeth ystyrlon a phwysig rhwng dau neu fwy o grwpiau sy'n annhebygol o fod oherwydd amrywiadau ar hap.

Gweithredu ar hap: Y broses o aseinio cyfranogwyr ymchwil i driniaeth neu gyflyrau rheoli ar hap, i leihau'r tebygolrwydd o weld gwahaniaethau systematig rhwng grwpiau.

Gwerth-p: Y tebygolrwydd bod gwahaniaeth penodol rhwng grwpiau wedi digwydd ar hap.

Gwriad safonol: Mesur o ymlediad set o ddata. Mae gwriadau safonol mwy yn golygu bod y sgorau wedi'u gwasgaru fwy.

Hap-Dreial wedi'i Reoli (RCT): (Caiff ei adnabod hefyd fel hap-dreial clinigol) Astudiaeth arbrol ble mae cyfranogwyr yn cael eu haseinio ar hap i ddau neu fwy o grwpiau, fel y gellir nodi effeithiolrwydd yr ymyriadau gwahanol.

Integreiddiol: Ffuriau o ymarfer therapiwtig sy'n tynnu ar ystod o gyfeiriadedd gwahanol.

Maint effaith: Mesur o gryfder perthynas rhwng dau newidyn (er diben y llyfr hwn, fe'i defnyddir yn gyfystyr â Gwahaniaeth Cymedr Safonedig).

PCEQ: Holiadur Gwerthuso Ôl Gwnsela.

Pennod (o gwnsela): Cyfres gyfan o sesiynau cwnsela a gwblhawyd gan gleient.

Person ganolrwydd: Ffurf o therapïau dyneiddiol sy'n gosod pwyslais penodol ar ganiatáu i'r cleient gymryd yr awenau ('di-gyfeirioldeb'), mewn perthynas sy'n dderbyniol, sy'n dangos empathi ac sy'n ddiffuant.

SDQ: Yr Holiadur Cryfderau ac Anawsterau: mesur o drallod seicolegol mewn pobl ifanc gyda fersiynau wedi'u cwblhau ganddynt hwy eu hunain, gan rieni a gan athrawon.

Seicodynamig: Teulu o therapïau seicolegol sy'n anelu helpu cleientiaid i ddatblygu gwell ymwybyddiaeth a dealltwriaeth o'r grymoedd anymwybodol sy'n rheoli eu meddyliau, eu teimladau a'u hymddygiadau.

Seicotherapi: Gweler Cwnsela.

Sesiwn (o gwnsela): Cyfarfod penodol gyda chwnselydd, fel arfer tuag awr o hyd. Fe'i cynhelir ar sail wythnosol neu bob pythefnos fel arfer.

Strategaeth, Y: Strategaeth Cwnsela mewn Ysgolion y Llywodraeth Cymru (y Strategaeth), a roddwyd ar waith o Ebrill 2008 mewn ysgolion uwchradd ar draws Cymru a detholiad o brosiectau peilot mewn pedwar awdurdod lleol.

TAC: Tîm o Amgylch y Plentyn

Therapi gwybyddol ymddygiadol (CBT). Ystod o dechnegau a therapïau sy'n ceisio achosi newid drwy ddylanwadu'n uniongyrchol ar feddyliau, ymddygiad neu'r ddau.

Tynnu'n ôl: Fe'i diffinnir yn gyffredinol fel methiant i fynychu'r ymweliad olaf a drefnwyd, neu fel tynnu'n ôl o therapi cyn bo'r therapydd yn meddwl ei bod yn addas.

YP-CORE: Mesur o drallod seicolegol a ddefnyddir yn eang ar gyfer plant rhwng 11 a 16 mlwydd oed.

Atodiad

HOLIADURON		
Atodiad 1	Taflen Cofnod Cleient	Tudalen 168
Atodiad 2	Holiadur YP-CORE	Tudalen 170
Atodiad 3a	Holiadur SDQ	Tudalen 171
Atodiad 3b	Holiadur Dilyn Ymlaen SDQ	Tudalen 173
Atodiad 4	Holiadur Gwerthuso ôl Gwnsela	Tudalen 175
Atodiad 5	Holiadur Cwnselwyr mewn Ysgolion	Tudalen 177
Atodiad 6	Holiadur Ffôn i Benaethiaid/Athrawon Cyswllt	Tudalen 184
Atodiad 7	Holiadur i Arweinwyr Awdurdodau Lleol	Tudalen 194
Atodiad 8	Cyfweliadau Gwaith Maes – Staff yr Ysgol	Tudalen 198
Atodiad 9	Cyfweliadau Gwaith Maes – Rhieni	Tudalen 199
Atodiad 10	Cyfweliadau Gwaith Maes – Defnyddwyr y Gwasanaeth	Tudalen 200
Atodiad 11	Cyfweliadau Gwaith Maes – Defnyddwyr Posibl y Gwasanaeth	Tudalen 202
Atodiad 12	Cynlluniau Peilot Cynradd: Cyfweliad Ffôn Strwythuredig Arweinydd Awdurdod Lleol	Tudalen 203
Atodiad 13	Cynlluniau Peilot Cynradd: Arolwg ymysg Penaethiaid	Tudalen 208
DATA CRAI		
Atodiad 14	Plot Fforest o Feintiau Effaith bob yn ALI	Tudalen 214
Atodiad 15	Y Grant a Ddyfarnwyd i bob Awdurdod Lleol	Tudalen 215
Atodiad 16	Data o Holiadur Gwerthuso ôl Gwnsela	Tudalen 216
Atodiad 17	Data o'r Arolwg Cwnselwyr	Tudalen 217
Atodiad 18	Data'r Penaethiaid	Tudalen 218
Atodiad 19	Data Arweinwyr Awdurdodau Lleol	Tudalen 219
Atodiad 20	Data o'r Arolwg Penaethiaid Cynradd	Tudalen 220

ATODIAD 1 – Taflen Cofnod Cleient

Cwmsela mewn Ysgolion: Blwyddyn1

Taflen Cofnod Cleient

Ysgol:

ID y Disgybl:

Blwyddyn ysgol: 7 8 9 10 11 12 13 *Rhowch gylch*

Rhyw: Gwryw Fenyw *Rhowch gylch*

Ethnigrwydd: Prydeinig Gwyn Asiaidd/Asiaidd Brydeinig Du/Du Brydeinig
Tsieneaid/arall Hil gymysg *Rhowch gylch*

Cyfeiriadedd rhywiol: Deurywiol Hoyw/Lesbiaidd Heterorywiol/strêt
Byddai'n well gennyf beidio ateb *Rhowch gylch*

Anabledd/AAA: Oes Na Byddai'n well gennyf beidio ateb *Rhowch gylch*

Crefydd neu cred: Bahá'i Bwdhaidd Cristnogol Hindwaidd Jain Iddewig
Mwslimaidd Sikh Arall Byddai'n well gennyf beidio ateb
Rhowch gylch

Dewis iaith *Nodwch*

Plant sy'n derbyn gofal Oes Na Byddai'n well gennyf beidio ateb *Rhowch gylch*

Wedi esbonio cyfrinachedd *Ticiwch*

Yn ddigon cymwys i gydsynio i gael y cwmsela Ydw Nac ydw *Rhowch gylch*

Os nad, ceisiwyd caniatâd rhiant *Ticiwch*

Ydy'r rhiant yn gwybod? Ydy Nac ydy Ddim yn gwybod *Rhowch gylch*

Cyfeiriad ymlaen:

Nodwch

Problemau wrth gyflwyno:

Problemau sy'n datblygu:

Problemau: Nodwch un o'r categorïau dilynol yn yr adrannau uchod (tri ar y mwyaf)

Teulu	Perthynas gydag athrawon	Perthnasau heblaw am deulu neu athrawon
Straen	Iselder	Profedigaeth
Hunan werth	Yn ymwneud ag ymddygiad	Dictor
Anhwylder bwyta	Hunan-niwed	Bwlio
Academaidd	Arall (manylwch os gwelwch yn dda)	

Sesiynau:

A = Yn bresennol ABS = Yn absennol o'r ysgol DNA = Heb ddod

C/S = Y myfyriwr wedi canslo C/C = Y cwnsler wedi canslo Core = Cwblhawyd ffurflen CORE

L = Sesiwn olaf

1	2	3	4	5	6	7	8	9	10	11	12
13	14	15	16	17	18	19	20	21	22	23	24

ATODIAD 2 – HOLIADUR YP CORE

CLINICAL OUTCOMES in ROUTINE EVALUATION

YP-CORE Beta version

Assistance given? ☐
(If yes, please tick)

Site ID		Male	☐
Client ID		Female	☐
		Age	
Therapist ID		Stage Completed	Stage
Subcodes		S Screening	☐
		R Referral	☐
		A Assessment	☐
		F First Therapy Session	☐
		P Pre-therapy (unspecified)	☐
		D During Therapy	☐
		L Last Therapy Session	☐
		X Follow up 1	☐
		Y Follow up 2	☐
Date form given		Episode	☐

These questions are about how you have been feeling OVER THE LAST WEEK.
Please read each question carefully. Think about how often you have felt like that in
the last week and then put a cross in the box you think fits best.
Please use a dark pen (not pencil) and mark clearly within the boxes.

OVER THE LAST WEEK.....

- I've felt edgy or nervous
- I haven't felt like talking to anyone
- I've felt able to cope when things go wrong
- I've thought of hurting myself
- There's been someone I felt able to ask for help
- My thoughts and feelings distressed me
- My problems have felt too much for me
- It's been hard to go to sleep or stay asleep
- I've felt unhappy
- I've done all the things I wanted to

☐	☐	☐	☐	☐
☐	☐	☐	☐	☐
☐	☐	☐	☐	☐
☐	☐	☐	☐	☐
☐	☐	☐	☐	☐
☐	☐	☐	☐	☐
☐	☐	☐	☐	☐
☐	☐	☐	☐	☐
☐	☐	☐	☐	☐
☐	☐	☐	☐	☐

Thank you for answering these questions



ATODIAD 3a - Holiadur SDQ

Strengths and Difficulties Questionnaire

S 11-16

For each item, please mark the box for Not True, Somewhat True or Certainly True. It would help us if you answered all items as best you can even if you are not absolutely certain or the item seems daft! Please give your answers on the basis of how things have been for you over the last six months.

Your Name

Male/Female

Date of Birth.....

	Not True	Somewhat True	Certainly True
I try to be nice to other people. I care about their feelings	☐	☐	☐
I am restless, I cannot stay still for long	☐	☐	☐
I get a lot of headaches, stomach-aches or sickness	☐	☐	☐
I usually share with others (food, games, pens etc.)	☐	☐	☐
I get very angry and often lose my temper	☐	☐	☐
I am usually on my own. I generally play alone or keep to myself	☐	☐	☐
I usually do as I am told	☐	☐	☐
I worry a lot	☐	☐	☐
I am helpful if someone is hurt, upset or feeling ill	☐	☐	☐
I am constantly fidgeting or squirming	☐	☐	☐
I have one good friend or more	☐	☐	☐
I fight a lot. I can make other people do what I want	☐	☐	☐
I am often unhappy, down-hearted or tearful	☐	☐	☐
Other people my age generally like me	☐	☐	☐
I am easily distracted, I find it difficult to concentrate	☐	☐	☐
I am nervous in new situations. I easily lose confidence	☐	☐	☐
I am kind to younger children	☐	☐	☐
I am often accused of lying or cheating	☐	☐	☐
Other children or young people pick on me or bully me	☐	☐	☐
I often volunteer to help others (parents, teachers, children)	☐	☐	☐
I think before I do things	☐	☐	☐
I take things that are not mine from home, school or elsewhere	☐	☐	☐
I get on better with adults than with people my own age	☐	☐	☐
I have many fears, I am easily scared	☐	☐	☐
I finish the work I'm doing. My attention is good	☐	☐	☐

Do you have any other comments or concerns?

Please turn over - there are a few more questions on the other side

Overall, do you think that you have difficulties in one or more of the following areas:
emotions, concentration, behaviour or being able to get on with other people?

No	Yes- minor difficulties	Yes- definite difficulties	Yes- severe difficulties
☐	☐	☐	☐

If you have answered "Yes", please answer the following questions about these difficulties:

- How long have these difficulties been present?

Less than a month	1-5 months	6-12 months	Over a year
☐	☐	☐	☐

- Do the difficulties upset or distress you?

Not at all	Only a little	Quite a lot	A great deal
☐	☐	☐	☐

- Do the difficulties interfere with your everyday life in the following areas?

	Not at all	Only a little	Quite a lot	A great deal
HOME LIFE	☐	☐	☐	☐
FRIENDSHIPS	☐	☐	☐	☐
CLASSROOM LEARNING	☐	☐	☐	☐
LEISURE ACTIVITIES	☐	☐	☐	☐

- Do the difficulties make it harder for those around you (family, friends, teachers, etc.)?

Not at all	Only a little	Quite a lot	A great deal
☐	☐	☐	☐

Your Signature

Today's Date

Thank you very much for your help

© Robert Goodman, 2005

ATODIAD 3b – Holiadur Dilyn Ymlaen SDQ

Strengths and Difficulties Questionnaire

S11-17
FOLLOW-UP

For each item, please mark the box for Not True, Somewhat True or Certainly True. It would help us if you answered all items as best you can even if you are not absolutely certain or the item seems daft! Please give your answers on the basis of how things have been for you **over the last month**.

Your Name

Male/Female

Date of Birth.....

	Not True	Somewhat True	Certainly True
I try to be nice to other people. I care about their feelings	☐	☐	☐
I am restless, I cannot stay still for long	☐	☐	☐
I get a lot of headaches, stomach-aches or sickness	☐	☐	☐
I usually share with others (food, games, pens etc.)	☐	☐	☐
I get very angry and often lose my temper	☐	☐	☐
I am usually on my own. I generally play alone or keep to myself	☐	☐	☐
I usually do as I am told	☐	☐	☐
I worry a lot	☐	☐	☐
I am helpful if someone is hurt, upset or feeling ill	☐	☐	☐
I am constantly fidgeting or squirming	☐	☐	☐
I have one good friend or more	☐	☐	☐
I fight a lot. I can make other people do what I want	☐	☐	☐
I am often unhappy, down-hearted or tearful	☐	☐	☐
Other people my age generally like me	☐	☐	☐
I am easily distracted, I find it difficult to concentrate	☐	☐	☐
I am nervous in new situations. I easily lose confidence	☐	☐	☐
I am kind to younger children	☐	☐	☐
I am often accused of lying or cheating	☐	☐	☐
Other children or young people pick on me or bully me	☐	☐	☐
I often volunteer to help others (parents, teachers, children)	☐	☐	☐
I think before I do things	☐	☐	☐
I take things that are not mine from home, school or elsewhere	☐	☐	☐
I get on better with adults than with people my own age	☐	☐	☐
I have many fears, I am easily scared	☐	☐	☐
I finish the work I'm doing. My attention is good	☐	☐	☐

Do you have any other comments or concerns?

Please turn over - there are a few more questions on the other side

Since coming to the clinic, are your problems:

Much worse	A bit worse	About the same	A bit better	Much better
☐	☐	☐	☐	☐

Has coming to the clinic been helpful in other ways, e.g. providing information or making the problems more bearable?

Not at all	Only a little	Quite a lot	A great deal
☐	☐	☐	☐

Over the last month, have you had difficulties in one or more of the following areas: emotions, concentration, behaviour or being able to get on with other people?

No	Yes-minor difficulties	Yes-definite difficulties	Yes-severe difficulties
☐	☐	☐	☐

If you have answered "Yes", please answer the following questions about these difficulties:

- Do the difficulties upset or distress you?

Not at all	Only a little	Quite a lot	A great deal
☐	☐	☐	☐

- Do the difficulties interfere with your everyday life in the following areas?

	Not at all	Only a little	Quite a lot	A great deal
HOME LIFE	☐	☐	☐	☐
FRIENDSHIPS	☐	☐	☐	☐
CLASSROOM LEARNING	☐	☐	☐	☐
LEISURE ACTIVITIES	☐	☐	☐	☐

- Do your difficulties make it harder for those around you (family, friends, teachers etc.)?

Not at all	Only a little	Quite a lot	A great deal
☐	☐	☐	☐

Your signature

Today's date

Thank you very much for your help

© Robert Goodman, 2005

ATODIAD 4 – Holiadur Gwerthuso ôl Gwnsela

Holiadur Gwerthuso ôl Gwnsela

Ysgol _____ Gwryw/Fenyw Grŵp blwyddyn _____

Dyddiad _____

	Cytuno'n gryf	Cytuno	Ddim yn gwybod	Anghytuno	Anghytuno'n gryf
Gallwn siarad am fy nheimpladau a fy meddyliau gyda fy nghwnselydd	☐	☐	☐	☐	☐
Mae'r cwnselydd wedi fy helpu i ddeall fy sefyllfa a'm teimpladau'n well	☐	☐	☐	☐	☐
Roeddwn yn deall y byddai'r hyn a ddywedwn wrth y cwnselydd yn gyfrinachol heblaw fy mod mewn perygl	☐	☐	☐	☐	☐
Byddwn yn gofyn i weld y cwnselydd eto os byddwn angen hynny	☐	☐	☐	☐	☐
Byddwn yn argymhell cwnsela i fy ffrindiau	☐	☐	☐	☐	☐
Roedd hi'n hawdd cysylltu â'r cwnselydd	☐	☐	☐	☐	☐
Rwy'n teimlo fy mod yn gallu ymdopi'n well yn yr ysgol ers i mi fynd i gael cwnsela	☐	☐	☐	☐	☐
Mae fy mherthynas gyda ffrindiau wedi gwella ers i mi fynd i gael cwnsela	☐	☐	☐	☐	☐
Mae fy mherthynas gydag athrawon wedi gwella ers i mi fynd i gael cwnsela	☐	☐	☐	☐	☐
Mae fy mherthynas gyda'm teulu wedi gwella ers i mi fynd i gael cwnsela	☐	☐	☐	☐	☐
Mae fy ymddygiad wedi gwella ers i mi fynd i gael cwnsela	☐	☐	☐	☐	☐
Derbyniais ddigon o sesiynau cwnsela	☐	☐	☐	☐	☐
Ers i mi gael y cwnsela, rwy'n gallu canolbwyntio'n well ar dasgau yn yr ysgol a'r tu allan i'r ysgol	☐	☐	☐	☐	☐
Rwy'n teimlo'n fwy positif ers i mi fynd i gael cwnsela	☐	☐	☐	☐	☐
Credaf bod cwnsela'n ffordd dda o ymdrin â phroblemau	☐	☐	☐	☐	☐
Byddwn i'n ystyried cwnsela yn y dyfodol, hyd yn oed ar ôl gadael yr ysgol	☐	☐	☐	☐	☐

Trowch y dudalen os gwelwch yn dda

Beth oedd y pethau gorau am gwnsela?

Beth oedd y pethau gwaethaf am gwnsela?

A oedd absenoldeb yn broblem cyn i chi ddod i gwnsela?

Oedd/Nac oedd

Os ydoedd, ydy dod i gael cwnsela wedi ei gwneud hi'n haws dod i'r ysgol?

Ydy/Nac ydy

A oes pethau allai fod yn wahanol yn eich cwnsela?

Byddai wedi bod yn well os

Doeddwn i ddim yn hoffi

Unrhyw beth arall?

Beth oeddech chi'n ei feddwl am gael cwnselydd yn eich ysgol?

Sut oeddech chi'n teimlo ynghylch y ffaith fod pobl yn yr ysgol yn gwybod eich bod wedi bod i weld eich cwnselydd?

Unrhyw sylwadau eraill?

Diolch am lenwi'r ffurflen hon

ATODIAD 5 – Holiadur cwnselwyr mewn ysgolion

Gwerthusiad o Weithredu'r Strategaeth Genedlaethol Cwnsela mewn Ysgolion y Llywodraeth Cynulliad Cymru

Nod yr holiadur hwn yw casglu gwybodaeth a chael eich barn ar effeithiolrwydd gweithredu'r strategaeth cwnsela mewn ysgolion yng Nghymru. Mae'n rhan o astudiaeth ehangach ar ran Llywodraeth Cynulliad Cymru (LICC) gyda'r nod o ddynodi gwelliannau ar weithredu'r strategaeth cwnsela mewn ysgolion.

Cedwir y wybodaeth yn hollol gyfrinachol a chaiff ei drin gyda'r parch mwyaf. Ni chaiff, dan unrhyw amgylchiadau, cyfranwyr unigol cael ei adnabod yn yr adroddiadau.

Y GWASANAETH LLE RYDYCH YN GWEITHIO

1. Am ba mor hir bu'r gwasanaeth cwnsela ysgolion lle rydych yn gweithio wedi cael ei weithredu fel rhan o strategaeth cwnsela mewn ysgolion y Llywodraeth Cynulliad Cymru?

Blynnyddoedd

☐

Misoedd

☐

Dydw i ddim yn gwybod

☐

2. A oes yna nifer uchaf o sesiynau yn cael ei gynnig i bob cleient yn eich gwasanaeth?

Oes

☐

Nac oes

☐

Os oes, manylwch os gwelwch yn dda _____

3. A yw'r gwasanaeth lle rydych yn gweithio yn rhoi cwnsela? (ticiwch y ddau os yn briodol):

a) O fewn tir yr ysgol

☐

b) Mewn lleoliad y tu allan i safle'r ysgol

☐

4. A ydych yn cael eich cyflogi gan?

a) Ysgol

☐

b) Awdurdod addysg lleol

☐

c) Asiantaeth allanol

☐

Manylwch os gwelwch yn dda _____

d) Arall, rhowch fanylion os gwelwch yn dda _____

5. Rhowch fanylion am yr ysgol(ion) lle rydych yn gweithio fel cwnselydd ysgol:

Enw'r ysgol

Tref

Awdurdod lleol

6. A ydych wedi cyfeirio disgyblion at wasanaethau arbenigol megis GIG CAMHS?

Do ☐ Naddo ☐

7. A chyfeiriwyd pobl ifainc atoch chi am gwnsela gan wasanaethau arbenigol megis GIG CAMHS?

Do ☐ Naddo ☐

EICH BARN AR GWNSELA MEWN YSGOLION

Rhowch gylch ar yr ymateb priodol gan fynegi i ba raddau yr ydych yn cytuno neu yn anghytuno gyda phob datganiad mewn perthynas â'r gwaith rydych yn ei wneud fel rhan o Strategaeth Cwnsela mewn Ysgolion y Llywodraeth Cynulliad Cymru. Os ydych yn gweithio mewn mwy nag un ysgol, dewiswch yr ysgol lle rydych yn gwario'r rhan fwyaf o'ch amser a rhowch ateb mewn perthynas â'r ysgol hon. Rhowch farc seren ar gyfer yr ysgol hon yng Nghwestiwn 5 uchod.

		Cytuno'n gryf	Cytuno	Dim yn cytuno nag yn anghytuno	Anghytuno	Anghytuno'n gryf
1	Mae'r safle ar gyfer y gwasanaeth cwnsela lle rwy'n gweithio yn ddigonol	4	3	2	1	0
2	Rwy'n siŵr ar bryd i gyfeirio disgybl at asiantaethau eraill megis GIG CAMHS	4	3	2	1	0
3	Fe leolir y gwasanaeth mewn safle sy'n hawdd i ddisgyblion cael ato	4	3	2	1	0
4	Fe roddir cwnsela mewn gosodiad priodol sy'n breifat ond yn ddiogel yn agos i'r ysgol	4	3	2	1	0
5	Mae'r gweithdrefnau ar gyfer monitro a gwerthuso'r gwasanaeth cwnsela yn foddhaol	4	3	2	1	0
6	Mae lefel staffio'r gwasanaeth cwnsela yn ddigonol	4	3	2	1	0
7	Mae adnoddau digonol ar gyfer y gwasanaeth cwnsela lle rwy'n gweithio	4	3	2	1	0

8	Fe roddir cyfleoedd priodol i mi ar gyfer hyfforddiant pellach mewn perthynas â chwnsela mewn ysgolion	4	3	2	1	0
9	Mae'r gwasanaeth cwnsela yn gweithio'n agos gyda mentrau eraill i gefnogi iechyd a lles yn yr ysgolion	4	3	2	1	0
10	Rwy'n fodlon gyda'r trefniadau a roddir ar gyfer goruchwyllo clinigol	4	3	2	1	0
11	Mae'r gwasanaeth cwnsela yn rhan annatod o ddarpariaeth yr ysgol	4	3	2	1	0
12	Fe gydnabyddir a gwerthfawrogir y gwasanaeth cwnsela gan y disgyblion	4	3	2	1	0
13	Mae cyhoeddusrwydd da i'r gwasanaeth cwnsela yn yr ysgol	4	3	2	1	0
14	Mae'r gwasanaeth cwnsela yn sensitif i anghenion gwahanol gymunedau a grwpiau ethnig	4	3	2	1	0
15	Mae agwedd y gwasanaeth tuag at gyfrinachedd yn cydbwysu anghenion y rhieni, y plant a diogelu gweithdrefnau yn briodol.	4	3	2	1	0
17	Mae'r gwasanaeth cwnsela yn sensitif i anghenion siaradwyr Cymraeg	4	3	2	1	0
18	Mae gan y gwasanaeth cwnsela cefnogaeth weinyddol da	4	3	2	1	0
19	Fe gydnabyddir ac fe werthfawrogir y gwasanaeth cwnsela gan staff yr ysgol	4	3	2	1	0
20	Bu'r broses o sefydlu'r gwasanaeth cwnsela yn effeithiol a heb broblem	4	3	2	1	0
21	Fe gydnabyddir ac fe werthfawrogir y gwasanaeth cwnsela gan y rhieni	4	3	2	1	0
22	Rwy'n teimlo fy mod yn cael cefnogaeth dda yn fy rôl fel cwnselydd ysgol	4	3	2	1	0

Gwybodaeth ychwanegol

Beth yw eich barn am gryfderau Strategaeth Cwnsela mewn Ysgolion y Llywodraeth Cynulliad Cymru?

Beth yw eich barn am wendidau Strategaeth Cwnsela mewn Ysgolion y Llywodraeth Cynulliad Cymru?

Pa awgrymiadau a fydddech yn gwneud i wella'r Strategaeth Cwnsela?

AMDANOCH CHI

Cwestiynau demograffig i'w defnyddio ar gyfer dibenion dadansoddi yn unig. Cedwir yr holl wybodaeth yn ddienw.

1. Rhyw Gwryw ☐ Fenyw ☐

2. Oedran 18 – 29 ☐ 50 – 59 ☐

 30 – 39 ☐ 60 – 69 ☐

 40 – 49 ☐ 70+ ☐

3. Beth yw eich barn am eich ethnigrwydd?

Brydeinig Gwyn ☐ Du neu Ddu Brydeinig Garibiaidd ☐

Gwyddelig Gwyn ☐ Du neu Ddu Brydeinig Affricanaidd ☐

Cymysg Gwyn a Charibiaidd Du ☐ Asiaidd neu Asiaidd Brydeinig Indiaidd ☐

Cymysg Gwyn ac Affricanaidd Du ☐ Asiaidd neu Asiaidd Brydeinig
Pacistanaidd ☐

Cymysg Gwyn ac Asiaidd ☐ Asiaidd neu Asiaidd Brydeinig ☐

Cefndir cymysg arall
(manylwch isod os gwelwch yn dda) ☐ Bangladeshaidd ☐

 Cefndir Asiaidd arall ☐

 Tsieiniaidd ☐

Grŵp ethnig arall, rhowch fanylion os gwelwch yn dda _____

Gofynnir am y wybodaeth hon i ganfod y nifer o Gwnselwyr Cymraeg sydd ynghlwm â strategaeth LICC.

Beth ydych yn ystyried yw eich cenedligrwydd? _____

4. Mae'r Ddeddf Gwahaniaethu ar sail Anabledd 1995 yn diffinio anabledd fel nam corfforol neu feddyliol sy'n cael effaith groes sylweddol a hirdymor ar y gallu i ymgymryd â gweithgareddau arferol bob dydd.

A ydych yn ystyried bod gennych anabledd? Ydwyf ☐ Nac ydwyf ☐

5. A ydych yn aelod o fudiad proffesiynol? Ydwyf ☐ Nac ydwyf ☐

Os ydych, rhowch fanylion os gwelwch yn dda: _____

BACP ☐ BPS ☐ UKCP ☐ BABCP ☐

Arall, rhowch fanylion os gwelwch yn dda _____

6. Beth yw'r lefel uchaf o gymhwyster cwnsela sydd gennych?

Doethuriaeth ☐ Prifathrawiaeth ☐ Diploma i Raddedigion ☐

Diploma FE ☐ Diploma i Israddedigion ☐

Arall, rhowch fanylion os gwelwch yn dda _____

7. A fu gennych brofiad o weithio gyda phlant a phobl ifainc cyn i chi gymryd eich rôl bresennol fel cwnselydd ysgol?

Oedd ☐ Nac oedd ☐

8. A ydych wedi cael hyfforddiant penodol neu gymwysterau sy'n berthnasol â gweithio gyda phlant a phobl ifainc?

Do ☐ Naddo ☐

Os ydych, rhowch fanylion os gwelwch yn dda am bryd cawsoch yr hyfforddiant yma ac/neu'r cymhwyster ac a oedd yn berthnasol i strategaeth cwnsela mewn ysgolion.

9. Am ba mor hir ydych wedi gweithio fel cwnselydd ysgol?

Blynyddoedd

Misoedd

10. Sut fuasech yn disgrifio eich prif gyfeiriadaeth therapiwtig?

Seicodynamig

Integreiddiol

Dyneiddiol / Person Ganolrwydd

Therapi gwybyddol ymddygiadol (CBT)

Arall, rhowch fanylion os gwelwch yn dda _____

**Diolch yn fawr i chi am gwblhau'r holiadur hwn.
Dychwelwch yn yr amlen os gwelwch yn dda**

ATODIAD 6 – Holiadur ffôn i benaethiaid/athrawon cyswllt

Gwerthusiad o Weithredu'r Strategaeth Genedlaethol Cwmsela mewn Ysgolion y Llywodraeth Cynulliad Cymru

OS NAD OES CYSWLLT PENODOL, GOFYNNWCH I SIARAD Â'R "DDOLEN GYSWLLT" NEU ATHRO ARALL SY'N UWCH REOLWR SYDD Â CHYFRIFOLDEB DROS Y GWASANAETH CWNSELA MEWN YSGOL. OS NAD OES RHYWUN, GOFYNNWCH I SIARAD Â'R PENNAETH. UNWAITH I CHI GAEL GAFAEL AR RYWUN, DYWEDWCH:

Bore da / Prawn da. Enw fi yw »enw« ac rwy'n galw o Ipsos MORI, y cwmni ymchwil cymdeithasol.

Rydym yn cynnal arolwg o bob ysgol uwchradd a phob ysgol arbennig yng Nghymru gyda disgyblion rhwng un ar ddeg a phymtheg mlwydd oed i geisio cael eu barn a'u profiadau am y strategaeth cwmsela mewn ysgolion.

Mae hwn yn rhan o werthusiad ehangach ar ran Llywodraeth Cynulliad Cymru, sy'n cael ei gyd-drefnu gan gonsortïwm o Gymdeithas Brydeinig ar Gwmsela a Seicotherapi, Ipsos MORI, Prifysgol Strathclyde, Prifysgol Newcastle, Gwasanaeth Seicoleg Addysgiadol Caerdydd a Phrifysgol Cymru Casnewydd. Nod y gwerthusiad yw canfod gwelliannau i weithrediad y strategaeth.

Anfonwyd llythyr atoch yn ddiweddar am yr ymchwil hwn. <CYFWELYDD - DYLECH GYNNIG GYRRU'R LLYTHYR ETO OS NAD YW'R ATEBYDD WEDI EI DDERBYN>.

Bydd y cyfweiliad yn cymryd tua deg munud o'ch amser.

Cyn cychwyn, hoffwn eich sicrhau bydd eich atebion yn cael eu trin yn hollol gyfrinachol gan y consortïwm ac yn unol â Chod Ymddygiad Cymdeithas Ymchwil Marchnata. Defnyddir eich atebion ar gyfer amcanion ymchwil yn unig. Caiff y data a dderbynnir ei gyfuno fel na fydd yn bosibl i uniaethu unrhyw unigolyn neu ysgol / coleg penodol yn y data a gyflwynir i Lywodraeth Cynulliad Cymru.

S1. Hoffwn sicrhau - ai chi yw'r "Ddolen Gyswllt" ar gyfer y gwasanaeth cwnsela mewn ysgolion yn eich ysgol? DARLLENWCH. COD SENGL

Ie	PARHAU
Nage	GOFYNNWCH I SIARAD Â DOLEN GYSWLLT YR YSGOL AR GYFER Y GWASANAETH CWNSELA MEWN YSGOLION NEU, OS NAD OES DOLEN GYSWLLT, GOFYNNWCH I SIARAD Â'R PENNAETH.
Ddim yn gwybod	

S2. Beth yw eich lefel uchaf o gyfrifoldeb ar hyn o bryd? DARLLENWCH Y CATEGORIÂU. COD SENGL YN UNIG.

Pennaeth / Prifathro	PARHAU
Dirprwy bennaeth neu bennaeth cynorthwyol	
Tîm uwch reolaeth neu arweinyddiaeth arall	
Athro / darlithydd dosbarth neu bwnc	OS IE YN Q1 PARHAU
Arall (nodwch os gwelwch yn dda)	OS NAGE YN Q2, GWIRIWCH GYDA GORUCHWYLIWR

S3. A ydych yn fodlon i fynd ymlaen gyda'r cyfweiliad, ac i ni gael rhannu eich atebion gyda'r consortiwm a enwir uchod?

Ydwyf	PARHAU
Nac ydwyf	DIOLCH A DIWEDDU

OS OES GENNYM GOFNOD O DDYDDIAD CYCHWYN AR Y SAMPL, GOFYNNWCH:

S4. Yn ôl ein cofnodion, bu eich ysgol yn gweithredu fel rhan o Strategaeth Genedlaethol Cwnsela mewn Ysgolion y Llywodraeth Cynulliad Cymru ers »dyddiad«. A yw hyn yn gywir? COD SENGL YN UNIG.

Cywir

Anghywir

Ddim yn gwybod

OS NA NEU DDIM YN GWYBOD YN S4, NEU OS NAD OES COFNOD O DDYDDIAD CYCHWYN Y SAMPL, GOFYNNWCH: Tua phryd dechreuodd eich ysgol weithredu fel rhan o Strategaeth Genedlaethol Cwnsela mewn Ysgolion y Llywodraeth Cynulliad Cymru? NODWCH Y FLWYDDYN A'R MIS (neu'r bras amcan agosaf)

Blwyddyn:	PARHAU
Mis:	
Ddim yn gwybod	

S5. A roddwyd cwnsela mewn ysgolion i ddisgyblion cyn gweithredu fel rhan o Strategaeth Genedlaethol Cwnsela mewn Ysgolion y Llywodraeth Cynulliad Cymru? COD SENGL YN UNIG.

Do

Naddo

Ddim yn gwybod

CYFWELYDD I DDARLLEN:

Yng ngweddill y cyfweiliad hwn, byddaf yn holi am wasanaeth cwnsela eich ysgol, hynny yw'r gwasanaeth cwnsela a roddir gan yr ysgol yn unol â Strategaeth Genedlaethol Cwnsela mewn Ysgolion Llywodraeth Cynulliad Cymru.

Hoffwn ddechrau trwy ofyn i chi am y ddarpariaeth a'r defnydd o'r gwasanaeth cwnsela yn eich ysgol.

Q1 A yw gwasanaeth cwnsela eich ysgol yn cael ei gynnal yn yr ysgol neu mewn man y tu allan i'r ysgol? COD SENGL YN UNIG.

Yn yr ysgol

Mewn man y tu allan i'r ysgol

Y ddau

Ddim yn gwybod

Q2A A yw'r cwnsler (neu'r cwnsleriaid) sy'n gweithio yng ngwasanaeth cwnsela eich ysgol yn cael ei gyflogi (eu cyflogi) gan? DARLLENWCH Y CODAU 1-3. COD SENGL YN UNIG

Eich ysgol (EWCH I Q2B)

Awdurdod addysg lleol (EWCH I Q3)

Asiantaeth allanol (Nodwch pa un os gwelwch yn dda) (EWCH I Q3)

Ddim yn gwybod

GOFYNNWCH A GAIFF Y CWNSLER EI GYFLOGI GAN YSGOL YN Q2A

Q2B. Oes gan y cwnsler sy'n gweithio yn eich ysgol, rôl arall yn eich ysgol, er enghraifft yn athro neu yn nyrs ysgol? COD SENGL YN UNIG.

Oes

Nac oes

Ddim yn gwybod

GOFYN I BAWB

Q3. A yw'r cwnsler sy'n gweithio yn eich ysgol yn cynnal sesiynau rheolaidd, neu yn ymweld yn ad-hoc fel bo'r angen? COD SENGL YN UNIG.

Sesiynau rheolaidd

Ad-hoc fel bo'r angen

Arall (nodwch beth os gwelwch yn dda)

Ddim yn gwybod

Q4. Unwaith i ddisgybl cael ei ddynodi bod arno(i) angen gweld cwnsler, pa mor hir fel arfer, rhaid i'r disgybl aros am ei (h)apwyntiad cyntaf? COD SENGL YN UNIG.

Yr un diwrnod

Dau i dri diwrnod

Pedwar i bum diwrnod

Un i ddwy wythnos

Tair i bedair wythnos

Yn hwy na phedair wythnos

Ddim yn gwybod

Q5A. A oes yna nifer uchaf o sesiynau a gynigir i bob disgybl yn eich ysgol sydd angen cwnsela? COD SENGL.

Oes (EWCH I Q5B)

Nac oes (EWCH I Q7)

Ddim yn gwybod (EWCH I Q7)

OS 'OES' YN Q5A, ERAILL I Q7

Q5B. Fel arfer, beth yw'r nifer mwyaf o sesiynau a gynigir i bob disgybl?

YSGRIFENNWCH Y RHIF

Ddim yn gwybod

GOFYN I BAWB

Q7-23 Rwyf am ddarllen cyfres o ddatganiadau a fydd efallai yn disgrifio gwasanaeth cwnsela eich ysgol. Am bob datganiad, rwyf am i chi ddweud os ydych yn cytuno'n gryf, yn cytuno, dim yn cytuno nag yn anghytuno, yn anghytuno neu yn anghytuno'n gryf. DARLLENWCH. TROWCH Y DATGANIADAU ROWND. GWRTH-DROWCH Y FFRÂM COD I 50% O'R YMATEBWYR. COD SENGL I BOB UN. CANIATÂU DDIM YN GWYBOD.

		Cytuno'n gryf	Cytuno	Dim yn cytuno nag yn anghytuno	Anghytuno	Anghytuno'n gryf
7	Mae'r safle ar gyfer gwasanaeth cwnsela'r ysgol yn ddigonol	4	3	2	1	0
8	Mae'r staff yn f'ysgol wedi cael digon o hyfforddiant i wybod pan mae angen cyfeirio disgybl at gwnsler yr ysgol.	4	3	2	1	0
9	Lleolir y gwasanaeth mewn safle sy'n hawdd i ddisgyblion cael mynediad	4	3	2	1	0
10	Fe roddir cwnsela mewn gosodiad priodol sy'n breifat ond yn ddiogel yn agos i'r ysgol	4	3	2	1	0
11	Mae'r gweithdrefnau ar gyfer monitro a gwerthuso'r gwasanaeth cwnsela yn foddhaol	4	3	2	1	0
